Adroddiad Ymchwil Tai AYT 4/05 - Rhagfyr 2005

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Proffil o amgylchiadau tai a materion economaidd-gymdeithasol Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn 2001

Rhagfyr 2005

cymunedau

cynhwysiant cymdeithasol

tai

Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Mae Copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

**Helen Wyatt**
Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Tel: (02920) 821718

E-bost: helen.wyatt@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.tai.cymru.gov.uk

G/365/05-06
ISBN 0 7504 3974 2

Rhagfyr
CMK-22-10-022(print 2)

Cysodwyd mewn 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1 Cyflwyniad | 5 |
| 2 Poblogaeth Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru yn 2001 | 11 |
| 3 Nodweddion cymdeithasol ac economaidd pobl DLlE yng Nghymru | 33 |
| 4 Amgylchiadau tai pobl DLlE yng Nghymru | 49 |
| 5 Poblogaeth Cymru o ffoaduriaid a cheiswyr lloches | 81 |
| 6 Hynafgwyr DLIE | 99 |
| 7 Sut y mae'r boblogaeth DLlE yng Nghymru yn newid | 111 |
| 8 Casgliad | 127 |
| Llyfryddiaeth | 131 |
| Atodiad 1: Diffiniadau | 137 |
| Atodiad 2: Tablau a mapiau manwl o ddosbarthiad y grwpiau DLlE yng Nghymru | 143 |
| Atodiad 3: Amrywiadau deiliadaeth tai ac amddifadedd tai | 162 |
| Atodiad 4: Canlyniadau Atchweliad | 172 |

# Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd y prosiect ymchwil hwn er mwyn goleuo Strategaeth Tai Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gweithgareddau ehangach y Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Y nod yw darparu gwybodaeth gyfoes am nodweddion y boblogaeth DLlE, y tueddiadau yn y boblogaeth DLlE a phatrymau'r newid tebygol yn y dyfodol.

Mae'r boblogaeth DLlE yng Nghymru yn fach o gymharu â rhannau eraill o'r DU (Pennod 2). Mae hefyd fwy hirsefydlog na'r boblogaeth mewn llawer rhan arall o'r DU, a gellir ei holrhain yn ôl i'r cyfnod pan oedd morwyr yn ymsefydlu ym mhrif borthladdoedd de Cymru. Cynyddodd y boblogaeth DLlE yn sylweddol yn sgîl y mewnfudo o'r Gymanwlad newydd ar ôl y rhyfel a'r mewnfudiad diweddarach a oedd yn gysylltiedig ag addysg a gwaith. Mae'r boblogaeth DLlE yn amrywio'n fawr, ac oherwydd uniadau rhyngethnig dros gyfnod hir, ceir cyfran anarferol o uchel o bobl sydd o dras cymysg, neu a ddosberthir yn y Cyfrifiad fel rhai o ethnigrwydd "arall". Y lleiafrif crefyddol mwyaf yw'r bobl Foslemaidd, ond y mae'r grŵp hwnnw'n amrywio fawr o ran ei ethnigrwydd a'i darddiad cenedlaethol.

Mae'r boblogaeth DLlE wedi ymgrynhoi yn ne-ddwyrain Cymru yn bennaf, a Chaerdydd sydd â'r boblogaeth DLlE fwyaf a hefyd yr amrywiaeth ethnig mwyaf. Fodd bynnag, mae niferoedd bach o bobl DLlE yn byw yn y rhan fwyaf o drefi Cymru. Y gymuned Tsieineaidd yw'r ehangaf ei dosbarthiad daearyddol, a'r grwpiau ethnig Pacistanaidd a phobl Ddu sydd wedi ymgrynhoi fwyaf yn ddaearyddol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae tuedd i'r grwpiau DLlE wahanu'n ddaearyddol oddi wrth y bobl wyn ac y maent yn llai tebygol o fyw mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd diwydiannol traddodiadol.

Dylai'r ddarpariaeth o wasanaethau tai ar gyfer pobl DLlE gydnabod nid yn unig anghenion y cymunedau sefydledig mwyaf, sydd â'u grwpiau cymunedol a'u dulliau cynrychioli eu hunain, ond hefyd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu poblogaethau gwasgaredig ac arunig, mewn ardaloedd gwledig a diarffordd, lle mae'r stoc o dai cymdeithasol yn brin iawn a'r cyfleodd i bobl ddatgan eu hanghenion yn llawer mwy cyfyngedig.

Myfyrwyr yw cydran fawr o'r boblogaeth DLlE, yn enwedig yn achos y Tsieineaid a'r grwpiau ethnig Eraill, ac mewn ardaloedd llai poblog lle mae sefydliadau addysg uwch, ond y mae bron eu hanner yn byw yng Nghaerdydd. Nid oes modd adnabod yr aelwydydd myfyrwyr yn y data o'r Cyfrifiad am anghenion tai yn ôl grŵp ethnig, a rhaid dehongli'r data hynny gyda gofal, felly, mewn ardaloedd lle mae'r poblogaethau myfyrwyr yn fawr.

Os edrychir ar yr anfantais gymdeithasol ac economaidd a brofir gan bobl o'r grwpiau ethnig a chrefyddol trwy Gymru gyfan (Pennod 3), nid darlun syml o fantais i'r bobl wyn ac anfantais i'r DLlE a welir. Mae cryn amrywiaeth rhwng gwahanol grwpiau DLlE, ac y mae rhai ohonynt bellach yn profi cyfraddau diweithdra cyffelyb neu'n is na chyfraddau'r bobl wyn. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau ethnig, yn enwedig pobl o'r grwpiau ethnig Du neu Ddu Prydeinig, yn ymddangos o dan anfantais ar sawl dimensiwn.

Tra bo cyfran o'r boblogaeth DLlE yn bendant mewn sefyllfa fanteisiol, naill ai

mewn galwedigaethau proffesiynol neu'n rhedeg busnesau eu hunain, mae eraill yn dioddef eu hallgau yn gymdeithasol i raddau helaeth. Daw hyn i'r amlwg yn y modd y mae cyflogaeth yn crynhoi o fewn amrediad cyfyng o sectorau diwydiannol, mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd isel, cyfraddau diweithdra uchel, canrannau uchel o blant ar aelwydydd lle nad oes neb yn ennill cyflog neu lle mae'r penteulu mewn galwedigaeth o statws isel, a chyfraddau perchnogaeth car isel.

Mae'r patrwm anghenion tai yn ôl grŵp DLlE, a gyflwynir ym Mhennod 4, yn un pur gymhleth. Ar gyfer aelwydydd DLlE, mae'r gyfradd amddifadedd tai yn uwch nag ar gyfer aelwydydd gwyn, waeth beth fo dosbarth cymdeithasol yr aelwyd. Yn gyffredinol, mae aelwydydd o'r grwpiau DLlE yn llai tebygol nag aelwydydd gwyn o fod yn byw mewn llety perchen-ddeiliadaeth, ac yn fwy tebygol o fyw mewn llety cymdeithasol a llety rhent preifat. Ymhlith y lleiafrifoedd crefyddol, Hindŵiaid sydd â'r amodau tai gorau, a Moslemiaid a Siciaid sydd â'r amodau tai gwaethaf. Mae aelwydydd DLlE yn fwy tebygol nag aelwydydd gwyn o fod yn orlawn, ond yn fwy tebygol hefyd o fwy mewn tai sydd ag amrediad llawn o amwynderau. Gellir cyffredinoli trwy ddweud mai'r grwpiau DLlE sydd yn y sefyllfa fwyaf manteisiol yn economaidd sydd â'r amodau tai gorau, a'r rhai sydd â'r lleiaf o fanteision economaidd sydd â'r amodau tai gwaethaf.

Ym Mhennod 5 disgrifir nodweddion demograffig allweddol ceiswyr lloches (rhai a wasgarwyd i Gymru yn dilyn Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 neu a symudodd i Gymru'n wirfoddol ar sail cynhaliaeth yn unig) a ffoaduriaid. Diddwythir nodweddion y bobl hyn ar sail data, nas cyhoeddwyd, gan y Swyddfa Gartref ac ar sail gwybodaeth eilaidd gyfyngedig. Mae'r boblogaeth ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yn dra gwahanol i'r boblogaeth gyfatebol yng ngweddill y DU. Somalïaid yw'r unig ffoaduriaid a ddenwyd o ddifrif i Gymru, yn bennaf oherwydd mewnfudiad blaenorol llafur o'r wlad honno. Mae ceiswyr lloches wedi ymgrynhoi i raddau mwy mewn nifer cyfyngedig o ddinasoedd a threfi; gwasgarwyd y mwyafrif ohonynt i Gymru gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches, maent yn fwy tebygol o fod yn geiswyr unigol na'u cyfatebwyr yn Lloegr, ac y maent yn tarddu o amrediad mwy cyfyng o genhedloedd a grwpiau ieithyddol. Anodd yw barnu pa mor barhaol fydd yr ychwanegiadau poblogaeth o'r grwpiau hyn yng Nghymru, ac felly mae angen rhaglen ymchwil i gynhyrchu llawer gwell data ar y poblogaethau hyn a'u dynameg.

Mae poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn heneiddio, ac y mae'r un ffenomenon yn effeithio ar y grwpiau DLlE a ymsefydlodd yng Nghymru gyntaf. Yn 2001 ychydig dros 9 mil o'r bobl DLlE oedd yn 50 oed a throsodd, a 3.3 mil yn 65 a throsodd (Pennod 6). Pobl Asiaidd yw'r gydran fwyaf, ond mae cryn amrywiaeth ym mhlith y boblogaeth DLlE hŷn. Er bod mwyafrif y bobl DLlE hŷn yn byw yn y dinasoedd, maent i'w cael hefyd ym mhob rhan o Gymru; mae'r poblogaethau yn y dinasoedd yn tueddu i fod yn iau, tra bo'r boblogaeth DLlE yn hŷn ar gyfartaledd yn yr ardaloedd arfordirol, gwledig a thwristaidd.

Mae iechyd y bobl hŷn Indiaidd a Tsieineaidd yn tueddu i fod yn well na'r cyfartaledd. Mae'r bobl Bacistanaidd a Bangladeshi (a Moslemiaid yn gyffredinol) yn dioddef gwaeth iechyd na'r cyfartaledd.

Mae iechyd benywod o dde Asia yn tueddu i fod yn waeth nag iechyd y gwrywod. Tuedda'r bobl hŷn ymhlith y grwpiau ethnig DLlE i aros yn y farchnad lafur yn hwy na phobl wyn. Pobl hŷn Indiaidd, Asiaidd Eraill, "Eraill" a Tsieineaidd sy'n tueddu i fod yn fwyaf llwyddiannus yn y farchnad lafur.

Ym Mhennod 7, adolygir esblygiad y boblogaeth DLlE a'i thaflwybr tebygol yn y dyfodol. Yng Nghymru yr ymsefydlodd un o'r poblogaethau DLlE cynharaf yn y DU, a pharhaodd i raddau helaeth yn ganoledig yn y de-ddwyrain heb gynyddu fel canran o'r boblogaeth i'r un graddau â'r poblogaethau yn ninasoedd mwyaf Lloegr. Tyfodd poblogaeth DLlE Cymru yn gyflym iawn yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, er mai cymharol fach oedd y niferoedd o bobl a gynrychiolid. Erbyn 2011, mae'r boblogaeth DLlE yn debygol o fod oddeutu 50% yn fwy nag ydoedd yn 2001. Dros y cyfnod 2001 i 2011, bydd y boblogaeth DLlE oedrannus wedi cynyddu oddeutu traean, gyda'r boblogaeth Asiaidd yn heneiddio'n gyflymach na'r grwpiau ethnig Du.

I derfynu, mae'r darlun o'r anghenion tai DLlE a ddatgelir trwy ddadansoddi data Cyfrifiad 2001 yn un pur amrywiol. Tra bo'r cyfartaleddau ar gyfer pobl DLlE o hyd yn datgelu anfantais, mae rhai grwpiau ethnig wedi llwyddo'n economaidd i raddau mwy o lawer nag eraill, ac wedi cyrraedd safleoedd cymharol fanteisiol yn y marchnadoedd llafur a thai. Fodd bynnag, datgelir bod y grwpiau ethnig Du (yn enwedig y Caribïaidd), tras cymysg, Pacistanaidd a Bangladeshi, a'r grwpiau crefyddol Sicaidd a Moslemaidd o dan anfantais, yn economaidd ac o ran amgylchiadau tai. Mae'r grwpiau ethnig hyn yn tueddu i grynhoi mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig, a chan fod cyfradd twf y boblogaeth yn uchel, y grwpiau ethnig hyn sydd â'r angen mwyaf am gymorth o'r sector rhentu cymdeithasol.

# 1. Cyflwyniad

Ym Medi 2002, lansiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y 'Cynllun Gweithredu i Gymru ar Dai i Bobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (DLlE)'. Nod y cynllun yw:

*"Sicrhau y pennir cyfarwyddiadau a thargedau clir ar gyfer landlordiaid cymdeithasol a darparwyr tai eraill, i sicrhau bod camwahaniaethu ac anfantais yn cael eu dileu ym mhob cymuned sydd â Lleiafrifoedd Ethnig a Chroenddu yng Nghymru".*

Mynnwyd y byddai pob awdurdod lleol a Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) naill ai wedi dyfeisio Strategaeth Tai DLlE ei hunan neu'n bartner mewn Strategaeth Tai DLlE ranbarthol a/neu aml-asiantaethol erbyn Ebrill 2004. Disgwylid i'r LCC fod hefyd wedi sefydlu Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol erbyn y dyddiad hwnnw.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu proffil ystadegol cyfoes o amgylchiadau pobl DLlE yng Nghymru, o ran tai a materion economaidd-gymdeithasol. Seilir yr adroddiad i raddau helaeth ar y data yng Nghyfrifiad Poblogaeth 2001, ond y mae hefyd yn edrych ar y tueddiadau ym mhoblogaeth leiafrifol Cymru er 1981, yn ystyried y tueddiadau tebygol yn y boblogaeth leiafrifol yn y dyfodol ac yn tynnu o ffynonellau eraill er mwyn canfod grwpiau ethnig newydd sy'n ymddangos. Cyhoeddwyd adroddiadau eraill yn ddiweddar, sy'n cynnwys data o Gyfrifiad 2001, megis 'A Statistical Focus on Ethnicity' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004) a 'Ffocws ar Gymru: Ei Phobl' (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2004). Er bod y ddau hyn yn cynnwys tablau ystadegol sy'n tarddu o'r Cyfrifiad, esboniadau byr yn unig a roddir ar y data. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn fwy manwl ar y wybodaeth sydd ar gael a hefyd yn ystyried tueddiadau o fewn y boblogaeth DLlE, yn y gorffennol a'r dyfodol, ac ymddangosiad grwpiau DLlE newydd yn sgil ymfudiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Gymru.

## 1.1 Y gofyniad i nodi'r anghenion tai DLlE

Crëwyd y Cynllun Gweithredu Tai DLlE i Gymru yn rhan o genhadaeth y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a sicrhau cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer pawb yng Nghymru. Mae'n datgan y dylai *"[awdurdodau lleol] a [Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig] gydweithio, ac ar y cyd â chyfranogwyr eraill fel cymdeithasau cymunedol, sefydlu proffil a diwallu anghenion cymunedau PDLlE ar y lefel leol"*. Dylid cydnabod a rhoi sylw i anghenion unigolion a theuluoedd DLlE wrth ddatblygu ac addasu llety. Mynnir bod landlordiaid cymdeithasol yn cymryd anghenion DLlE i ystyriaeth wrth gynllunio tai newydd. Saif y gofynion hyn beth bynnag fo maint y boblogaeth DLlE leol, er y dylai'r ddarpariaeth adlewyrchu'r sefyllfa leol a bod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion tai cyfnewidiol y cymunedau DLlE.

Er bod Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998 yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion y stoc tai yng Nghymru, yr unig ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am amgylchiadau tai y bobl o'r grwpiau ethnig lleiafrifol yw'r Cyfrifiad Poblogaeth. Ni all setiau data'r arolygon eraill ddarparu data lleol manwl ar nodweddion y stoc tai na'r boblogaeth, oherwydd cyfyngiadau ar y meintiau sampl. Mae'r wybodaeth a ddatgelir gan arolygon sampl o is-grwpiau poblogaeth bach yn gyfyngedig oherwydd: yn gyntaf, siawns fach sydd y cynhwysir yn yr arolwg unigolyn neu aelwyd o is-grŵp

o'r boblogaeth sy'n fach o ran nifer; ac yn ail, mae'r ansicrwydd ystadegol yn uchel iawn wrth amcangyfrif poblogaeth ar sail sampl bach.

### 1.2 Canfod Anghenion Tai DLlE

Gwnaed lliaws o astudiaethau lleol yn Lloegr, a nifer llai yn yr Alban, a fu'n ceisio nodi'r anghenion penodol o ran darpariaeth tai ar gyfer grwpiau DLlE yn gyffredinol ac ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol unigol. Prin yw nifer yr astudiaethau lleol o anghenion tai DLlE a wnaed yng Nghymru, ond cwblhaodd Prifysgol De Montfort astudiaeth yn ddiweddar, a oedd yn nodi anghenion tai grwpiau DLlE a'u hagwedd tuag at dai cymdeithasol trwy'r wlad yn gyffredinol, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos lleol a ddefnyddiodd grwpiau ffocws (Tomlins, 2003).

Yn Lloegr y mae mwyafrif mawr y bobl o'r grwpiau DLlE yn byw, ac felly mae'r rhan helaethaf o'r wybodaeth am eu hamgylchiadau tai yn seiliedig ar astudiaethau a wnaed yn Lloegr. Er mwyn gosod yn eu cyd-destun y canfyddiadau a nodir yn diweddarach yn yr adroddiad hwn, adolygir yn gryno rhai o gasgliadau'r ymchwil diweddar a wnaed yn Lloegr. Dangosant fod aelwydydd DLlE, yn gyffredinol ond yn enwedig rhai o'r cymunedau Du Affricanaidd, Bangladeshi a Phacistanaidd, yn profi lefelau uwch o anfantais economaidd ac amddifadedd na'r boblogaeth fwyafrifol o bobl wyn, a'u bod yn tueddu i ymgrynhoi mewn ardaloedd canol-dinas dirywiedig. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth angen rhwng (ac o fewn) grwpiau DLlE unigol, ac felly nid yw'n briodol ymdrin yn gyfanredol â'u hanghenion.

Gan droi yn gyntaf at nodweddion demograffig a theuluol y cymunedau DLlE, canfu nifer o'r astudiaethau anghenion tai lleol a wnaed ar gyfer y Gorfforaeth Tai (ac a adolygwyd gan Mathias, 2001) fod y boblogaeth DLlE yn cynyddu ym mhob ardal ac y bydd hyn yn arwain at ffurfio nifer arwyddocaol o aelwydydd newydd yn y tymor canolig. Er mai'r math mwyaf cyffredin o aelwyd yw'r teulu cnewyllol traddodiadol, mae niferoedd y plant, ac felly maint y teuluoedd, yn fwy na'r cyfartaledd, yn achos y grwpiau DLlE (yn enwedig y grwpiau ethnig De Asiaidd). Mae ffurfiau teuluol estynedig a than-yr-unto yn fwy cyffredin nag ym mhlith y mwyafrif gwyn, yn enwedig o fewn y cymunedau Pacistanaidd a Bangladeshi. Yr oedd y rhain yn aml yn fawr iawn, ac weithiau hyd yn oed yn gorlenwi tai cymharol fawr. Fodd bynnag, mae'r strwythurau teuluol yn newid, a nifer y teuluoedd estynedig yn gostwng; yn y cymunedau Indiaidd y mae'r teuluoedd estynedig yn edwino gyflymaf. Mae canran uchel o bobl hŷn o'r grŵp ethnig Tsieineaidd yn byw gyda'u teuluoedd, ond mae'r ganran hon yn gostwng dros amser. Ar gyfartaledd mae'r cymunedau DLlE yn iau na'r mwyafrif gwyn, ond mae'r genhedlaeth o fewnfudwyr bellach yn nesáu at, neu'n cyrraedd, oedran ymddeol, ac y mae nifer yr aelwydydd pensiynwyr felly yn cynyddu'n gyflym.

Mae deiliadaethau tai'r grwpiau DLlE yn gwahaniaethu'n fawr oddi wrth y mwyafrif gwyn, ac yn drwm dan ddylanwad eu patrymau mudo ac ymsefydlu (Bacon, et al., 1998). Y mwyaf tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol yw'r aelwydydd Du Caribïaidd, Du Affricanaidd a Bangladeshi, tra bo'r aelwydydd Indiaidd a Phacistanaidd yn fwy tebygol nag aelwydydd unrhyw grŵp ethnig arall o fod yn berchnogion eu tai. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli nad yw perchentyaeth o anghenraid yn arwydd o ffyniant economaidd y grwpiau hyn, gan eu bod yn aml yn prynu eiddo rhad mewn cyflwr gwael yng nghanol

dinasoedd (un ffactor yn hynny oedd yr anhawster a gaent i ymgeisio am dai cymdeithasol), ac y mae llawer yn methu â chynnal eu heiddo'n briodol oherwydd eu hincymau isel. Mae aelwydydd Tsieineaidd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn tŷ rhent cymdeithasol. Achosir hyn yn aml gan lefelau hyfedredd isel mewn Saesneg (a lefelau llythrennedd isel, yn enwedig ym mhlith pobl hŷn) a diffyg ymwybyddiaeth o ganlyniad i hynny, ynghyd ag amharodrwydd i gwyno neu ofyn am gymorth. Mae'r ffactorau hyn hefyd yn arwain at gyfraddau isel o ddefnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol a budd-daliadau lles. Mae digartrefedd yn broblem gynyddol ymhlith pobl o'r grwpiau DLlE.

Mae amddifadedd tai difrifol yn parhau i effeithio ar nifer sylweddol a aelwydydd DLlE. Ceir y gorlenwi enbytaf ym mhlith y grwpiau ethnig Bangladeshi, Pacistanaidd, Indiaidd, Du Affricanaidd a Tsieineaidd. Mae effaith gorlenwi ar bobl ifanc yn arbennig o ddifrifol, ac yn anogaeth iddynt ddymuno byw yn annibynnol mewn llety eu hunain. Ychwanegir at y gorlenwi gan gyflwr gwael llawer o'r eiddo, lle mae rhai ystafelloedd yn amhreswyliadwy. Mae nifer anghymesur o bobl Tsieineaidd yn byw mewn llety rhent preifat o ansawdd gwael, sydd hefyd yn aml yn llety clwm (Jones, 1998).

Ar gyfer diwallu anghenion aelwydydd o'r grwpiau DLlE, daeth yr astudiaethau ymchwil a gomisiynwyd gan y Gorfforaeth Tai yn Lloegr i'r casgliad y dylai darparwyr tai cymdeithasol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol) geisio sicrhau bod amrediad o wahanol fathau o dai ar gael i aelwydydd DLlE, gan gynnwys anheddau mawr a allai letya teuluoedd estynedig a theuluoedd gyda nifer uwch na'r cyfartaledd o blant dibynnol, yn ogystal ag unedau llai ar gyfer pobl ifanc sy'n dymuno sefydlu aelwydydd annibynnol. Awgrymant y byddai dulliau mwy hyblyg hwyrach yn well ar gyfer rhai teuluoedd estynedig, megis ailgartrefu teuluoedd ifanc mewn anheddau llai, yn agos at ei gilydd ac at berthnasau hŷn, yn hytrach na darparu anheddau mawr ar gyfer eu rhannu. Mae awduron eraill yn dadlau bod angen cydbwysedd rhwng, ar y naill law dymuniad y cymunedau DLlE i ymgasglu'n ddaearyddol er mwyn cynnal ei gilydd fel cymuned ac osgoi'r hiliaeth sydd weithiau'n wynebu aelwydydd arunig yng nghanol pobl wyn yn bennaf, ac ar y llaw arall, darparu tai addas mewn amrediad ehangach o ardaloedd, rhag cyfyngu'r dewis i'r ardaloedd lle mae'r DLlE wedi ymgasglu (e.e. Ratcliffe, 2001). Dylai dyluniad y tai gymryd i ystyriaeth anghenion diwylliannol ac arferion crefyddol y grwpiau DLlE, er enghraifft, trwy ddarparu lle ar gyfer cysegr, neu ddarpariaeth ag gyfer ymolchi defodol, a dylai geisio hyrwyddo diogelwch yn ogystal (Penoyre & Prasad, Penseiri et al, 1998).

## 1.3 Anghenion Tai DLlE yng Nghymru

Cymharol brin yw'r astudiaethau o'r anghenion tai DLlE yng Nghymru. Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad yn ddiweddar a oedd yn dadansoddi anghenion cymdeithasol ac economaidd y cymunedau DLlE yng Nghymru ac yn cyflwyno tystiolaeth feintiol o'u hamgylchiadau tai, a seiliwyd (i raddau helaeth) ar y data yng Nghyfrifiad Poblogaeth 1991 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003). Yn yr astudiaeth honno, tynnwyd sylw at y crynoadau o breswylwyr o'r grwpiau DLlE yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle mae'r incymau yn isel ac ansawdd y tai yn wael. Cadarnhaodd ganfyddiadau astudiaethau eraill ynglŷn â chyfraddau uchel o berchentyaeth ymhlith grwpiau ethnig De Asiaidd a chynrychiolaeth uwch o'r grwpiau ethnig

Du mewn tai cymdeithasol. Cadarnhaodd fod gorlenwi yn broblem o bwys i'r Bangladeshiaid, a bod ansawdd cyfran o'r llety perchen-ddeiliadaeth yn wael. Canolbwyntiodd llawer o'r gwaith diweddar ar y modd y mae darparwyr tai cymdeithasol yn ymateb i anghenion pobl DLlE, a'r rhwystrau diwylliannol sy'n atal rhai o'r bobl hyn rhag cael mynediad at wasanaethau. Er enghraifft, dangosodd Nyoni (2000) mor werthfawr fyddai sefydliad tai a arweinid gan y DLlE yng Nghymru, oherwydd canfyddiad fod y darparwyr tai cymdeithasol presennol yn methu â diwallu anghenion tai penodol rhai o'r cymunedau DLlE. Tynnwyd sylw yn yr adolygiad hwnnw at y lefel uchel o ddatgysylltiad rhwng y cymunedau DLlE a'r gwasanaethau tai prif-ffrwd, a'u hanwybodaeth ynglŷn â'r y gwasanaethau a oedd ar gael.

Mae Tomlins (2003) yn adrodd canfyddiadau prosiect ymchwil ansoddol a fu'n edrych ar anghenion tai cymunedau DLlE trwy Gymru gyfan. Cynhwyswyd amrediad eang o gymunedau yn yr astudiaeth, gan gynnwys grwpiau o ffoaduriaid a theithwyr, a chasglwyd safbwyntiau 35 o grwpiau ffocws a gynullwyd yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Tynnwyd sylw at amrywiaeth yr anghenion tai a'r safbwyntiau ynghylch tai, a chafwyd bod hunaniaeth gymunedol (a adwaenir yn ôl ethnigrwydd) yn bwysig iawn i'r grwpiau DLlE. Er bod teuluoedd estynedig yn bwysig, yr oedd canfyddiad hefyd fod y rhain yn datod, a'r bobl ifanc yn llai awyddus na'r bobl hŷn i barhau i fyw yn yr un annedd gydag aelodau'r teulu estynedig. Y farn gyffredinol oedd ei bod yn anodd cael tai addas, bod y dewis yn gyfyngedig, bod maint a dyluniad y tai yn amhriodol, a thai hefyd yn cael eu cynnig mewn ardaloedd anaddas. Eu prif hoffter yn aml oedd tai mewn ardaloedd canol-dinas, yn agos at gyfeillion a pherthnasau, gyda chymorth ieithyddol wrth law a mynediad i addoldai, siopau ac amwynderau eraill.

O ran maint a dyluniad y tai, galwyd am geginau mwy, toiledau ychwanegol (gydag unedau 'hunanhylendid'), ystafelloedd ymolchi mwy (gyda baddon a chawod), pibell ddŵr ar gyfer ymolchiadau mewn perthynas ag addoli, dwy ystafell ar wahân ar y llawr isaf, lleoedd parcio digonol a gardd gefn fawr a phreifat. Y bobl a anwyd yng Nghymru a'r bobl ifanc a oedd yn fwyaf ymwybodol o'r opsiynau ar gyfer tai. Yr oedd gwell ymwybyddiaeth ynghylch llety awdurdodau lleol na llety cymdeithasau tai, a phobl Affricanaidd Caribïaidd oedd fwyaf cyfarwydd a'r gweithdrefnau ymgeisio. Yr oedd cytundeb cyffredinol nad oedd digon o gyngor ar gael i gymunedau DLlE, a bod diffyg hyfedredd ieithyddol yn gwneud mynediad at wasanaethau yn anos.

Ynglŷn ag amodau tai, y consensws oedd fod safon eiddo'r cymdeithasau tai yn well na safon llety'r awdurdodau lleol, gan fod yr olaf yn cael ei gynnal a'i gadw yn wael. Cwyn arall oedd prinder dewis o dai cymdeithasol, yn enwedig o ran lleoliad. Credai'r bobl Affricanaidd Caribïaidd a'r gwrywod Bangladeshi a Phacistanaidd fod ansawdd tai yn dda yn gyffredinol. Yr oedd canfyddiad fod llety rhent preifat yn ddrud ac yn anodd i'w gael, ac eithrio ar gyfer pobl sengl sydd mewn gwaith.

Mae rhai awdurdodau lleol a grwpiau o awdurdodau lleol yng Nghymru yn awr yn cynnal astudiaethau o'r anghenion tai DLlE ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny (e.e. Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, 2004; Rhondda Cynon Taf, 2004). Mewn astudiaethau lleol o'r fath, tanlinellir mor amrywiol yw'r profiad

DLlE o fewn Cymru; er enghraifft, y canfyddiad fod y bobl DLlE ym Mangor wedi ymgrynhoi'n ddaearyddol, ond yn y rhannau cymharol lewyrchus o'r dref.

### 1.4 Strwythur yr adroddiad hwn

Yn y penodau sy'n dilyn, trafodir yn gyntaf cyfansoddiad ethnig poblogaeth Cymru a'i dosbarthiad daearyddol, er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer y penodau dilynol a fydd yn adolygu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y bobl DLlE sy'n byw yng Nghymru. Wedyn, dadansoddir amgylchiadau tai'r bobl DLlE, a dilynir hynny gydag adolygiad o sefyllfa'r ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid. Mae'r bennod olaf yn dadansoddi'r tueddiadau ym mhoblogaeth DLlE Cymru, ac yn cyflwyno rhagamcanion o'r boblogaeth DLlE yn y dyfodol.

Trwy gydol yr adroddiad hwn defnyddir y term *Du a Lleiafrifol Ethnig* (a dalfyrrir fel DLlE) gan mai dyna'r enw a ffefrir gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, i ddisgrifio'r grwpiau lleiafrifol a gydnabyddir sydd o fewn cwmpas Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

# 2. Poblogaeth Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru yn 2001

Cymharol fach yw'r boblogaeth DLlE yng Nghymru; ond fel sy'n wir yng ngweddill y DU, mae'n tyfu'n gyflym. O gymharu â rhai mannau eraill yn y DU, mae'r boblogaeth DLlE yng Nghymru yn un hirsefydledig ac amrywiol iawn, sy'n cynnwys grwpiau ethnig hirsefydledig yn ogystal â mewnfudwyr diweddar. Y bennod hon sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer gweddill yr adroddiad, gan ddisgrifio cyfansoddiad ethnig poblogaeth Cymru a dosbarthiad daearyddol y boblogaeth DLlE yn bur fanwl. Ffynhonnell y wybodaeth yw Cyfrifiad Poblogaeth 2001. Adolygir esblygiad y boblogaeth DLlE ym Mhennod 7.

## 2.1 Y cwestiwn grŵp ethnig yn y Cyfrifiad

Cyfrifiad Poblogaeth 1991 oedd y cyntaf i holi poblogaeth Prydain ynghylch eu tarddiad ethnig. Ar gyfer y cwestiwn ethnigrwydd, defnyddiwyd dosbarthiad pragmatig yn hytrach nag un a oedd yn seiliedig ar unrhyw ddosbarthiad diffiniol o grwpiau ethnig (Sillitoe, 1992), ac yr oedd yn tueddu i gymysgu grwpiau ar sail lliw croen, iaith a tharddiad daearyddol eithaf. Yn ystod y rhagbrofion cyn y Cyfrifiad, cafwyd bod y cwestiwn yn gweithio'n dda, ond yn ymarferol, siomedig oedd ei allu i gasglu gwybodaeth am rai grwpiau ethnig, sef yn benodol, y bobl Wyddelig, y bobl a ystyrient eu hunain yn "Ddu Prydeinig" a phobl o dras cymysg (sef rhieni o grwpiau ethnig gwahanol).

Ateb y dosbarthiad grwpiau ethnig a fabwysiadwyd yng Nghyfrifiad 2001 i'r beirniadaethau hyn oedd gofyn cwestiwn mewn dau gam, gan wahodd yr atebydd yn gyntaf i ddosbarthu ei hunan fel "gwyn", "Asiaidd, "Du", "Tsieineaidd neu arall" neu "o dras cymysg". O fewn y cwestiwn gwyn, ychwanegwyd opsiwn ar gyfer "Gwyddelig". Yr oedd geiriad y cwestiynau "Asiaidd" a "Du" yn cynnwys Du Prydeinig ac Asiaidd Prydeinig. Ar gyfer pob cwestiwn, caniateid i'r atebydd ysgrifennu manylion llawn am ei ethnigrwydd. Datblygwyd system godio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'w galluogi i godio'r atebion hyn a "ysgrifennwyd i mewn" er mwyn eu priodoli yn ôl i'r prif gategorïau a ddefnyddid yn y Cyfrifiad. Fodd bynnag, ni waredwyd y manylion hyn, ac y maent ar gael ar ffurf 'tablau comisiynedig' ar gyfer rhanbarthau swyddfeydd y llywodraeth yn Lloegr ar gyfer y Cyfan o Gymru a Lloegr (gweler Tabl A2.1). Mae dosbarthiad grwpiau ethnig Cyfrifiad 2001 wedi ei ddefnyddio'n yn sail i ymarferion swyddogol eraill a fu'n casglu data ethnig, er bod y fenter Ystadegau Cymdogaeth hefyd yn caniatáu casglu gwybodaeth fanylach pan fo'n berthnasol (e.e. mewn ardaloedd lle y ceir poblogaethau DLlE arwyddocaol yn lleol).

Yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, yr oedd y cwestiwn yn y Cyfrifiad ychydig yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd yng Nghymru a Lloegr. Ychwanegwyd categori "Albanaidd" i'r categori "gwyn" gan Swyddfa'r Gofrestr Gyffredinol ar gyfer yr Alban (ac ychwanegwyd "Albanaidd" i'r disgrifiad o grwpiau ethnig lleiafrifol). Arweiniodd hyn at ymgyrch i ychwanegu opsiwn "Cymreig" i'r cwestiwn "gwyn" ar gyfer Cymru. Gwrthododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol newid ffurflen y Cyfrifiad, ond cytunodd i brosesu atebion lle'r oedd "Cymreig" wedi ei ysgrifennu

i mewn. Mae'r tablau grwpiau ethnig ar gyfer Cymru, felly, yn cynnwys colofn i gyflwyno nodweddion y bobl a ysgrifennodd "Cymreig" i mewn, ond mae'r cwestiwn hwn yn darparu amcangyfrif rhy isel o lawer o nifer y bobl sy'n ystyried eu hunain yn Gymry.

Yr oedd Cyfrifiad 2001, am y tro cyntaf erioed, yn cynnwys cwestiwn (gwirfoddol) ynghylch crefydd. Crefyddau o Asia a'r dwyrain canol yw'r rhan fwyaf o'r categorïau yn y cwestiwn hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r croesdablu ar allbwn y Cyfrifiad, a wnaed ar sail y grwpiau ethnig, yn cael ei ailadrodd ar gyfer crefydd. Un o nodau pwysig y cwestiwn crefydd oedd dadansoddi'r boblogaeth Indiaidd yn grwpiau crefyddol, gan fod hynny'n fwy arwyddocaol fel penderfynydd eu diwylliant a'u hunaniaeth. Mewn un tabl o'r Cyfrifiad (Tabl Safonol 104) croesddosberthir pobl yn ôl grŵp ethnig a chrefydd, gan ganiatáu cyfrifiad mwy soffistigedig o'r grwpiau ethnig a diwylliannol sy'n preswylio yng Nghymru.

## 2.2 Y cyfansoddiad ethnig a chrefyddol yng Nghymru, o gymharu â'r DU

Poblogaeth Cymru yn 2001 oedd 2.9 miliwn, sef ychydig o dan 5% o boblogaeth y DU (Tabl 2.1). Dim ond 1.3% o bobloget Ddu a Lleiafrifol Ethnig (DLlE) y DU oedd yn preswylio yng Nghymru. Yr oedd y grwpiau DLlE yn ffurfio 2.2% o boblogaeth Cymru, o gymharu â 7.9% o boblogaeth y DU gyfan.

**Tabl 2.1: Cyfansoddiad ethnig Cymru yn 2001**

| | Cymru | | | DU | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Unigolion** | **Canran o boblogaeth Cymru** | **Canran o boblogaeth y DU** | **Unigolion** | **Canran o boblogaeth y DU** |
| Gwyn | 2,841,507 | 97.9 | 5.2 | 53,153,898 | 92.1 |
| *Tras cymysg* | *17,661* | *0.6* | *2.6* | *677,117* | *1.2* |
| Gwyn/Du Caribïaidd | 5,996 | 0.2 | - | - | - |
| Gwyn / Du Asiaidd | 2,414 | 0.1 | - | - | - |
| Gwyn/Asiaidd | 4,999 | 0.2 | - | - | - |
| Gwyn/Arall | 4,251 | 0.1 | - | - | - |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *25,448* | *0.9* | *1.1* | *2,331,423* | *4.0* |
| Indiaidd | 8,259 | 0.3 | 0.8 | 1,053,411 | 1.8 |
| Pacistanaidd | 8,287 | 0.3 | 1.1 | 747,285 | 1.3 |
| Bangladeshi | 5,434 | 0.2 | 1.9 | 283,063 | 0.5 |
| Asiaidd Eraill | 3,464 | 0.1 | 1.4 | 247,664 | 0.4 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *7,069* | *0.2* | *0.6* | *1,148,738* | *2.0* |
| Du Caribïaidd | 2,597 | 0.1 | 0.5 | 565,876 | 1.0 |
| Du Affricanaidd | 3,727 | 0.1 | 0.8 | 485,277 | 0.8 |
| Du Eraill | 746 | 0.0 | 0.8 | 97,585 | 0.2 |
| *Grŵp ethnig Tsieineaidd neu Arall* | *11,402* | *0.4* | *2.4* | *478,018* | *0.8* |
| Tsieineaidd | 6,266 | 0.2 | 2.5 | 247,403 | 0.4 |
| Arall | 5,135 | 0.2 | 2.2 | 230,615 | 0.4 |
| *Du a Lleiafrifol Ethnig (DLlE)* | *61,576* | *2.1* | *1.3* | *4,635,296* | *7.9* |
| **Pob grŵp ethnig** | **2,903,083** | **100.0** | **4.9** | **5,878,919** | **100.0** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 6)*


Yn nhermau niferoedd, pobl Asiaidd oedd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o'r boblogaeth DLlE, sef dros 25 mil, wedyn y bobl o dras cymysg, y bobl o'r grŵp Tsieineaid ac Eraill, ac yna'r bobl Ddu (sef ychydig dros 7 mil). Yn nhermau grwpiau lleiafrifol unigol, y grwpiau ethnig Indiaidd a Phacistanaidd oedd y mwyaf, sef oddeutu 8.3 mil yr un; ond mae gan lawer o'r grwpiau DLlE unigol eraill boblogaethau o faint lled gyffelyb, sef rhwng 5 a 7 mil o bobl. Felly, mae'r boblogaeth DLlE yn un amrywiol o ran diwylliant, heb unrhyw un grŵp lleiafrifol sy'n gorbwyso.

Prydeinig yn cyfrif am 41% yn unig o boblogaeth DLlE Cymru yn 2001, ond hanner poblogaeth DLlE y DU, tra oedd pobl Ddu a Du Prydeinig yn ddim ond 11% o boblogaeth DLlE Cymru, o gymharu â 25% o boblogaeth DLlE y DU. Ar y llaw arall, yr oedd pobl o dras cymysg ac o'r grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill yn ffurfio canran fwy o lawer o'r boblogaeth DLlE yng Nghymru nag yn y DU gyfan.

Yr oedd y gyfran o'r boblogaeth DLlE a oedd â'u rhieni o ddau grŵp ethnig gwahanol bron ddwywaith cymaint yng Nghymru (29% o gymharu â 15% ar gyfer y DU); a chyfran y grŵp Tsieineaidd ac Eraill hefyd bron yn ddwbl y ganran gyfatebol yn y DU.

Mae canran uchel y boblogaeth o dras cymysg yn adlewyrchu hanes cymharol hir y boblogaeth DLlE yng Nghymru, sydd â'i chymunedau mwyaf hirsefydledig yn y dinasoedd porthladd yn ne Cymru. Diwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed oedd y cyfnod pan ymddangosodd y boblogaeth DLlE gynaf, wrth i bobl o dras Affricanaidd, Arabaidd a Somalïaidd ymfudo; ac y mae'r boblogaeth honno wedi cynyddu trwy ryngbriodi â phobl wyn ac aelodau o'r grwpiau DLlE eraill. Mae'r grŵp ethnig Tsieineaidd hefyd yn cynrychioli canran uwch o'r boblogaeth DLlE yng Nghymru, o gymharu â'r cyfan o'r DU; ac y mae 2.5% o boblogaeth Tsieineaidd y DU yn byw yng Nghymru.

## Ffigur 2.1: Dadansoddiad o'r Boblogaeth DLlE yng Nghymru o gymharu â'r DU




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 6)*

Mae'r Tabl 2.2, yn cymharu'r dadansoddiad o boblogaeth Cymru yn ôl crefydd gyferbyn â'r dadansoddiad ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Yng Nghymru, yr oedd canrannau ychydig yn uwch a oedd naill ai'n honni nad oedd ganddynt crefydd neu heb ateb y cwestiwn crefydd. Fodd bynnag, o'r rhai a oedd yn cyfeirio at grefydd, yr oedd y ganran o Gristnogion ychydig yn uwch nag ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Y lleiafrif crefyddol mwyaf yng Nghymru yw'r gymuned Foslemaidd, sy'n 2.7 mil o ran nifer ac yn cynrychioli 0.7% o'r boblogaeth gyfan.


### Tabl 2.2: Cymhariaeth o'r cyfansoddiad crefyddol yng Nghymru ac ym Mhrydain Fawr

| | Cymru | | | Prydain Fawr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Unigolion | Canran o'r boblogaeth | Canran â'r grefydd | Unigolion | Canran o'r boblogaeth | Canran â'r grefydd |
| **Poblogaeth** | **2,903,083** | **100.0** | | **57,103,927** | **100.0** | |
| Cristnogol | 2,087,242 | 71.9 | 97.9 | 40,633,031 | 71.2 | 93.0 |
| Bwdaidd | 5,407 | 0.2 | 0.3 | 151,283 | 0.3 | 0.3 |
| Hindŵaidd | 5,439 | 0.2 | 0.3 | 557,985 | 1.0 | 1.3 |
| Iddewig | 2,255 | 0.1 | 0.1 | 266,375 | 0.5 | 0.6 |
| Moslemaidd | 21,739 | 0.7 | 1.0 | 1,589,183 | 2.8 | 3.6 |
| Sicaidd | 2,012 | 0.1 | 0.1 | 335,930 | 0.6 | 0.8 |
| Unrhyw grefydd arall | 6,911 | 0.2 | 0.3 | 177,694 | 0.3 | 0.4 |
| *Pawb a enwodd grefydd* | *2,131,005* | *73.4* | *100.0* | *43,711,481* | *76.5* | *100.0* |
| Dim crefydd | 537,935 | 18.5 | | 9,103,727 | 15.9 | |
| Heb enwi crefydd | 234,143 | 8.1 | | 4,288,719 | 7.5 | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 7)*

Yr oedd tua thrydedd ran o'r boblogaeth DLlE yn Foslemiaid (er bod rhai o'r bobl yn y grwpiau ethnig gwyn hefyd yn Foslemiaid). Yn yr adolygiad cryno o'r llenyddiaeth ar anghenion tai a gyflwynwyd ym Mhennod 1, tynnwyd sylw at anghenion gwahanol y Moslemiaid, sy'n deillio o'u harferion crefyddol, ac y pwysir ar ddarparwyr tai cymdeithasol i'w diwallu. Nid yw Islam yn gysylltiedig yn benodol â rhanbarth arbennig o'r byd, nac â grŵp ethnig penodol yn gyffredinol, ac felly bydd pobl Foslemaidd yn gynwysedig yn y cyfartaleddau a gyflwynir ar gyfer grwpiau ethnig.

## Ffigur 2.2: Cyfansoddiad ethnig y grŵp crefyddol Moslemaidd




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 104)*

Mae'r Ffigur 2.2 yn darlunio amrywioldeb ethnig y bob sy'n arddel y grefydd Foslemaidd. Y gydran fwyaf o'r boblogaeth Foslemaidd oedd y bobl o dras ethnig Pacistanaidd, sef traean o'r cyfanswm; ond hyd yn oed ar y cyd â'r Bangladeshiaid, nid oedd eu nifer ond ychydig dros hanner y cyfanswm. Yr oedd Asiaid Eraill (Maleisiaid ac Indonesiaid yn bennaf, yn ôl pob tebyg) yn cyfrif am 8%, Du Affricanaidd (Somalïaid yn bennaf) 7%, a grwpiau ethnig "eraill" (gan gynnwys Arabiaid, mae'n debyg) 6% o'r cyfanswm. Yr oedd bron bumed ran ohonynt yn perthyn i'r grwpiau ethnig gwyn a thras cymysg, sy'n darlunio'r modd y mabwysiadwyd y grefydd hon trwy ryngbriodi.

## Tabl 2.3: Dadansoddiad o bob grŵp ethnig yn ôl crefydd (canran o'r atebion i'r cwestiwn crefydd)

| | Poblogaeth | Cristnogol | Bwdaidd | Hindŵaidd | Iddewig | Moslemaidd | Sicaidd | Unrhyw grefydd arall | Dim crefydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PAWB** | **2,903,083** | **78.2** | **0.2** | **0.2** | **0.1** | **0.8** | **0.1** | **0.3** | **20.2** |
| *Gwyn* | *2,841,504* | *79.2* | *0.1* | *0.0* | *0.1* | *0.1* | *0.0* | *0.3* | *20.2* |
| Prydeinig | 2,786,605 | 79.2 | 0.1 | 0.0 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.2 | 20.3 |
| Gwyddelig | 17,688 | 90.0 | 0.3 | - | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.4 | 9.1 |
| Gwyn Eraill | 37,211 | 74.8 | 0.4 | 0.1 | 0.6 | 2.9 | 0.1 | 0.7 | 20.3 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***61,579*** | ***31.1*** | ***3.6*** | ***9.2*** | ***0.2*** | ***34.2*** | ***3.1*** | ***0.7*** | ***17.9*** |
| *Tras cymysg* | *17,661* | *57.2* | *0.7* | *0.5* | *0.4* | *11.3* | *0.3* | *0.8* | *28.7* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 5,996 | 67.1 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.9 | 0.1 | 0.5 | 31.0 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 2,413 | 60.6 | 0.3 | - | 0.1 | 14.6 | 0.1 | 0.2 | 24.1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 5,001 | 49.3 | 0.9 | 1.3 | 0.1 | 16.4 | 0.6 | 0.8 | 30.5 |
| Cymysg Eraill | 4,251 | 50.9 | 1.4 | 0.4 | 1.5 | 18.1 | 0.1 | 1.6 | 26.0 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *25,450* | *7.2* | *1.0* | *21.1* | *0.1* | *60.2* | *7.1* | *0.6* | *2.8* |
| Indiaidd | 8,262 | 9.9 | 0.1 | 57.5 | 0.0 | 7.2 | 20.2 | 1.3 | 3.7 |
| Pacistanaidd | 8,287 | 4.8 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 92.8 | 0.0 | 0.1 | 2.0 |
| Bangladeshi | 5,437 | 1.2 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 97.3 | - | 0.1 | 1.1 |
| Asiaidd Eraill | 3,464 | 15.7 | 6.6 | 16.1 | 0.2 | 51.6 | 3.5 | 1.2 | 5.1 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *7,067* | *61.2* | *0.2* | *0.4* | *0.2* | *26.0* | - | *0.8* | *11.1* |
| Du Caribïaidd | 2,597 | 79.1 | 0.2 | 0.6 | 0.2 | 1.4 | - | 1.0 | 17.6 |
| Du Affricanaidd | 3,724 | 49.6 | 0.1 | 0.4 | - | 43.9 | - | 0.6 | 5.5 |
| Du Eraill | 746 | 58.5 | 0.5 | 0.5 | 0.9 | 20.3 | - | 1.4 | 17.9 |
| *Grŵp ethnig Tsieineaidd neu Arall* | *11,401* | *28.5* | *16.2* | *0.1* | *0.1* | *13.7* | *0.1* | *0.5* | *40.8* |
| Tsieineaidd | 6,266 | 21.8 | 16.2 | 0.1 | - | 0.3 | 0.1 | 0.5 | 61.0 |
| Grŵp Ethnig Arall | 5,135 | 36.4 | 16.1 | 0.2 | 0.2 | 29.7 | 0.1 | 0.5 | 16.8 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 104)*

Mae'r Tabl 2.3 yn dangos manylion y dadansoddiadau o bob grŵp ethnig yn ôl crefydd, ar sail y canrannau o unigolion ym mhob grŵp a atebodd y cwestiwn crefydd. Yr oedd pumed ran o'r bobl wyn, a chanran ychydig yn llai o'r bobl DLlE, yn ddigrefydd. Y lleiafrif crefyddol mwyaf ym mhlith pobl wyn a DLlE yw'r Moslemiaid, sy'n fwy niferus o ychydig na Christnogion ym mhlith y DLlE. Moslemiaid oedd bron y cwbl o'r Pacistaniaid a'r Bangladeshiaid, a oedd rhyngddynt yn cynrychioli tair rhan o bump o'r holl bobl o Dde Asia. Yr oedd Moslemiaid yn arbennig o amlwg hefyd ymhlith pobl o dras cymysg (ac eithrio'r rhai oedd ag un rhiant Du Caribïaidd), Asiaid Eraill, Du Affricanaidd (sydd â bron eu hanner yn Foslemiaid) a phobl o'r grwpiau ethnig Eraill. Hindŵiaid yw mwy na hanner yr Indiaid yng Nghymru a Siciaid yw pumed ran ohonynt.

Mae'n ymddangos na lwyddodd y cwestiwn crefydd i gyflwyno darlun da o ymlyniadau crefyddol y bobl Tsieineaidd; nododd tair rhan o bump ohonynt mai "arall" oedd eu crefydd, ac 16.2% yn unig oedd yn Fwdyddion. Trwy groesdablu ethnigrwydd yn erbyn crefydd, gellir gweld mor amrywiol yw'r grwpiau ethnig 'Asiaidd Eraill' ac 'Arall'.

## 2.3 Ethnigrwydd a gwlad enedigol

Bach yw poblogaeth DLlE Cymru o gymharu  gweddill y DU, ond mae'n tyfu'n gyflym, ac oddeutu hanner yn fwy o ran maint yn 2001 nag ydoedd adeg Cyfrifiad 1991 (gweler Pennod 7). Tra bo cyfraddau genedigaethau yn gymharol uchel ymhlith y boblogaeth DLlE ifanc, mae'r rhan fwyaf o'r twf i'w briodoli i fewnfudo i mewn i Gymru. Yn ystod y 1990au cododd y lefelau ymfudo rhyngwladol i mewn i'r DU yn uwch nag erioed o'r blaen, a bydd hynny wedi cyfrannu at dwf y boblogaeth DLlE yng Nghymru. Yn gyffredinol, 3.2% yn unig o boblogaeth Cymru, a 2.2% o'r bobl wyn a oedd wedi eu geni y tu allan i'r DU yn 2001 (Tabl 2.4).

Fodd bynnag, yr oedd ychydig dros hanner y boblogaeth DLlE wedi eu geni yng Nghymru; a'r prif ranbarthau genedigol tramor oedd De Asia a'r Dwyrain Pell.

**Tabl 2.4: Canran o unigolion o'r grwpiau ethnig bras ac o'r grefydd Foslemaidd a anwyd mewn ranbarthau o'r byd, 2001**

| | Pob grŵp ethnig | Gwyn | DLlE | Tras cymysg | Asiaidd | Du | Tsieineaidd ac arall | Moslemaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | **2,903,083** | **2,841,514** | **61569.0** | **17,670** | **25,447** | **7,055** | **11,397** | **21,743** |
| *DU* | *96.8* | *97.8* | *53.2* | *86.2* | *44.9* | *46.1* | *25.1* | *46.8* |
| Iwerddon | 0.4 | 0.4 | 0.2 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Ewrop arall | 1.0 | 1.0 | 0.7 | 1.6 | 0.3 | 0.5 | 0.4 | 2.3 |
| Gogledd Affrica | 0.1 | 0.0 | 1.3 | 1.3 | 0.1 | 3.5 | 2.5 | 3.7 |
| Affrica i'r de o'r Sahara | 0.3 | 0.2 | 6.3 | 2.1 | 5.0 | 31.1 | 0.4 | 5.6 |
| Dwyrain Canol | 0.2 | 0.1 | 3.6 | 2.0 | 4.7 | 0.9 | 5.3 | 9.2 |
| Dwyrain Pell | 0.3 | 0.1 | 12.8 | 2.4 | 1.1 | 0.1 | 62.9 | 2.1 |
| De Asia | 0.4 | 0.1 | 18.1 | 1.1 | 42.8 | 0.1 | 0.7 | 29.1 |
| Ynysoedd y De | 0.1 | 0.1 | 0.3 | 0.3 | 0.0 | 0.0 | 0.8 | 0.0 |
| Gwledydd America ac arall | 0.2 | 0.2 | 1.4 | 1.7 | 0.9 | 2.1 | 1.8 | 0.8 |
| Caribïaidd | 0.1 | 0.0 | 2.1 | 0.9 | 0.1 | 15.4 | 0.1 | 0.1 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 102 a 150)*

O'r bobl o dras cymysg, 13.8% yn unig a oedd wedi eu geni y tu allan i'r DU, ac yr oedd prif wledydd genedigol y rheini yn y Dwyrain Pell, yn Affrica i'r de o'r Sahara ac yn y Dwyrain Canol. Mae'r canrannau o'r bobl Asiaidd a anwyd yn y DU ac yn Ne Asia bron yn gyfartal, tra bo 5% wedi eu geni yn Affrica (dwyrain Affrica yn bennaf). Yr oedd bron hanner y boblogaeth Ddu wedi eu geni yn y DU, ond Affrica oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gweddill, gyda dim ond 15.4% wedi eu geni yn y Caribî. Chwarter yn unig o'r bobl Tsieineaidd ac Eraill a oedd wedi eu geni yn y DU, gyda

bron ddwy ran o dair wedi eu geni yn y Dwyrain Pell. Yr oedd bron hanner poblogaeth Foslemaidd Cymru wedi eu geni yn y DU, ond yr oedd bron draean wedi eu geni yn Ne Asia (ac yn ymrannu'n weddol gyfartal rhwng Pacistan a Bangladesh). Y Dwyrain Canol ac Affrica i'r de o'r Sahara (Somalia) oedd y prif ranbarthau genedigol eraill.

Er mor fach yw poblogaeth DLlE Cymru, mae'n boblogaeth hynod o amrywiol, fel a ddaw'n amlwg wrth edrych ar yr atebion a "ysgrifennwyd i mewn" yng Nghyfrifiad 2001. Yn y Tabl 2.5 dangosir y niferoedd o bobl a ysgrifennodd ateb penodol, wedi eu dosbarthu yn ôl y grŵp DLlE bras. Yn y grŵp tras cymysg, ysgrifennodd nifer fawr yr ateb cyffredinol syml "cymysg". Nid oedd y categorïau tras cymysg yn galluogi'r bobl o dras Tsieineaidd cymysg i roi tic mewn blwch, a chofnododd 410 o bobl eu hunain fel cymysg Tsieineaidd a gwyn. Yn y categori Asiaidd, yr oedd 534 o Sri Lanciaid.


Gan droi at y categori Du, cyfran fach yn unig o'r gymuned Somalïaidd (141, o gymharu ag 825 a anwyd yn Somalia) a ysgrifennodd i mewn eu tarddiad ethnig, ac nid yw'r atebion a ysgrifennwyd i mewn yn datgelu dim mwy manwl am aelodaeth y categori "Du Eraill". Datgelir y categori Tsieineaidd ac Eraill fel un pur amrywiol, gyda'r niferoedd mewn llawer o'r grwpiau ethnig yn sylweddol yn y cyd-destun Cymreig. Yr oedd nifer yr Arabiaid ychydig yn llai na 2000, gyda 1000 ychwanegol yn tarddu o grwpiau eraill yn y Dwyrain Canol. Yr oedd y boblogaeth o'r Dwyrain Pell yn cynnwys 926 o Japaneaid, 821 o Ffilipiniaid a 513 o Faleisiaid. Bydd llawer o'r bobl hyn wedi ymfudo i Gymru fel myfyrwyr, neu weithwyr yn y gwasanaeth iechyd neu gwmnïau o'r Dwyrain Pell sydd wedi buddsoddi yng Nghymru, a bydd eu hanghenion tai yn dra gwahanol i anghenion y grwpiau DLlE mwyaf difreintiedig.

## Tabl 2.5: Unigolion DLlE a roddodd atebion a "ysgrifennwyd i mewn" i'r cwestiwn grŵp ethnig

| Tras cymysg | | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | | Du neu Ddu Prydeinig | | Tsieineaidd a grwpiau ethnig eraill | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgrifennwyd** | **Nifer** | **Ysgrifennwyd** | **Nifer** | **Ysgrifennwyd** | **Nifer** | **Ysgrifennwyd** | **Nifer** |
| Du ac Asiaidd | 37 | Pwnjabi | 18 | Somalïaidd | 141 | Fietnamaidd | 184 |
| Du a Tsieineaidd | 18 | Cashmiri | 19 | Nigeraidd | 11 | Japaneaidd | 926 |
| Du a Gwyn | 240 | Asiaidd Dwyrain Affrica | 69 | Du Prydeinig | 282 | Ffilipinaidd | 821 |
| Tsieineaidd a Gwyn | 410 | Sri Lancaidd | 534 | Du Cymysg | 91 | Malaisaidd | 513 |
| Asiaidd a Tsieineaidd | 37 | Tamil | 38 | Du Eraill; Du Amhenodol | 222 | Arabaidd | 1,946 |
| Cymysg Eraill cymysg Amhenodol | 2,614 | Sinhalaidd | 19 | | | Gogledd- Affricanaidd | 423 |
| | | Asiaidd Caribïaidd | 33 | | | Canol-Ddwyreiniol (ac eithrio Israelaidd; Iranaidd ac 'Arabaidd') | 974 |
| | | Asiaidd Prydeinig | 262 | | | Israelaidd | 45 |
| | | Asiaidd Cymysg | 54 | | | Iranaidd | 479 |
| | | Asiaidd Eraill; Asiaidd Amhenodol | 816 | | | Cwrdaidd | 115 |
| | | | | | | Morocaidd | 51 |
| | | | | | | Lladin Americanaidd | 181 |
| | | | | | | De- a Chanol-Americanaidd | 389 |
| | | | | | | Ynysoedd Aml-ethnig | 297 |
| | | | | | | Unrhyw Grŵp Arall | 1,317 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M221*

## Ffigur 2.3: Cymhariaeth o strwythur oedran a rhyw poblogaethau gwyn a DLlE Cymru, 2001




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 101)*

## 2.4 Strwythur demograffig y poblogaeth DLlE

Yn Ffigur 2.3 dangosir pyramid poblogaeth ar gyfer holl boblogaeth Cymru yn 2001, gan wahaniaethu rhwng y gwyn a'r DLlE ym mhob grŵp oedran (cyflwynir pyramidiau ar gyfer pob grŵp DLlE unigol yn Atodiad 2.1; Ffigurau A2.1 i A2.16). Yr oedd strwythur poblogaeth Cymru yn eithaf nodweddiadol o boblogaeth Ewropeaidd aeddfed, sy'n weddol sefydlog. Ar gyfer pobl o dan 55 oed, yr oedd meintiau pob grŵp oedran pum-mlynedd yn lled gyfartal, ond niferoedd y bobl hŷn yn lleihau wrth i'r oedran godi. Dengys y diagram y bu nifer y genedigaethau'n anarferol o uchel yn ystod y 1990au cynnar (oherwydd y nifer uchel o blant 5 i 9 oed), ond yr oedd y nifer wedi gostwng erbyn ail hanner y 1990au. Mae cyfran y grwpiau DLlE o'r boblogaeth yn lleihau wrth i'r oedran gynyddu.

**Tabl 2.6: Oedran cymedrig mewn blynyddoedd a chymhareb rhywiau ar gyfer grwpiau ethnig a chrefyddol, Cymru 2001**

| | Unigolion | Gwrywod | Benywod | Gwrywod am bob mil benywod |
|---|---|---|---|---|
| **Pob grŵp ethnig** | **39.5** | **38.1** | **40.8** | **936** |
| *Gwyn* | *39.8* | *38.4* | *41.1* | *935* |
| Gwyn: Prydeinig | 39.7 | 38.3 | 41.0 | 935 |
| Gwyn: Gwyddelig | 49.7 | 48.9 | 50.4 | 921 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 39.7 | 39.5 | 40.0 | 918 |
| **DLIE** | **28.1** | **28.2** | **27.9** | **1,018** |
| *Tras cymysg* | *23.0* | *22.6* | *23.3* | *979* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 22.2 | 21.8 | 22.5 | 927 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 24.1 | 24.5 | 23.8 | 953 |
| Gwyn ac Asiaidd | 21.5 | 21.0 | 22.0 | 1,026 |
| Cymysg Eraill | 25.2 | 24.7 | 25.6 | 1,015 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *28.7* | *29.1* | *28.1* | *1,078* |
| Indiaidd | 31.6 | 32.3 | 30.9 | 1,048 |
| Pacistanaidd | 27.7 | 27.7 | 27.8 | 1,035 |
| Bangladeshi | 23.4 | 24.0 | 22.8 | 1,049 |
| Asiaidd Eraill | 32.1 | 32.8 | 31.2 | 1,332 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *34.6* | *35.0* | *34.0* | *1,129* |
| Du Caribïaidd | 40.9 | 41.8 | 39.8 | 1,220 |
| Du Affricanaidd | 30.8 | 30.8 | 30.6 | 1,096 |
| Du Eraill | 31.6 | 30.9 | 32.2 | 1,000 |
| *Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall* | *30.7* | *30.3* | *31.1* | *894* |
| Tsieineaidd | 31.1 | 30.7 | 31.5 | 991 |
| Grŵp Ethnig Arall | 30.2 | 29.9 | 30.5 | 788 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 42.6 | 40.9 | 44.1 | 861 |
| Bwdaidd | 39.4 | 39.4 | 39.4 | 1,069 |
| Hindŵaidd | 32.5 | 33.3 | 31.6 | 1,120 |
| Iddewig | 47.6 | 46.5 | 48.6 | 1,014 |
| Moslemaidd | 26.1 | 27.0 | 25.1 | 1,129 |
| Sicaidd | 29.0 | 29.6 | 28.4 | 1,026 |
| Unrhyw grefydd arall | 40.6 | 40.2 | 41.0 | 795 |
| Dim crefydd | 29.8 | 31.2 | 28.1 | 1,241 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 101 a 149)*

Dengys y Tabl 2.6 fod person cyfartalog o grŵp DLIE dros 10 mlynedd yn iau na'r person cyfatebol gwyn yn 2001. Yr oedd oedran cyfartalog y benywod yn uwch nag oedran cyfartalog y gwrywod yn y grwpiau ethnig gwyn oherwydd eu disgwyliad oes uwch. Fodd bynnag, yr oedd oedrannau cyfartalog y ddau ryw yn fwy cyfartal

ymhlith y grwpiau DLlE. Yn gyffredinol, y bobl o dras cymysg oedd yr ieuengaf ohonynt, a phobl Ddu neu Ddu Prydeinig oedd yr hynaf ar gyfartaledd. Y grŵp gwyn hynaf oedd y Gwyddelod, a'r grŵp DLlE hynaf oedd y Du Caribïaidd, gyda phobl Asiaidd Eraill, Indiaidd a Tsieineaid yn dilyn. Pobl Iddewig yw'r grŵp crefyddol hynaf ar gyfartaledd, gyda Christnogion a Bwdyddion yn dilyn. Y grwpiau crefyddol ieuengaf oedd y Moslemiaid a'r Siciaid (sef yr unig grwpiau crefyddol gydag oedrannau cyfartalog o dan 30).

## Tabl 2.7: Strwythur oedran pob un o'r grwpiau ethnig a chrefyddol (canrannau)

| | Poblogaeth | Oed 0-4 | Oed 5-15 | Oed 16-24 | Oed 25-44 | Oed 45-59/64 | Oed 60/65-74 | Oed 75+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm poblogaeth** | **2,903,083** | **5.8** | **14.4** | **10.9** | **26.6** | **22.2** | **11.8** | **8.3** |
| *Gwyn* | *2,841,505* | *5.7* | *14.3* | *10.8* | *26.5* | *22.4* | *11.9* | *8.4* |
| Gwyn: Prydeinig | 2,786,605 | 5.7 | 14.4 | 10.7 | 26.5 | 22.4 | 11.9 | 8.4 |
| Gwyn: Gwyddelig | 17,689 | 1.6 | 4.4 | 9.2 | 23.1 | 29.5 | 20.4 | 11.8 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 37,211 | 4.4 | 9.7 | 14.8 | 31.5 | 20.5 | 11.4 | 7.7 |
| **DLlE** | **61,578** | **10.1** | **21.7** | **17.1** | **31.0** | **13.6** | **4.6** | **1.9** |
| *Tras cymysg* | *17,660* | *15.0* | *31.5* | *16.4* | *22.5* | *9.2* | *3.3* | *2.0* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 5,996 | 14.9 | 34.6 | 15.8 | 21.7 | 7.3 | 3.5 | 2.3 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 2,414 | 15.9 | 26.9 | 15.1 | 25.6 | 11.4 | 3.7 | 1.3 |
| Gwyn ac Asiaidd | 4,999 | 16.2 | 32.7 | 17.2 | 22.1 | 7.7 | 2.7 | 1.6 |
| Cymysg Eraill | 4,251 | 13.4 | 28.5 | 17.3 | 22.3 | 12.4 | 3.6 | 2.4 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *25,447* | *9.6* | *19.5* | *17.7* | *32.0* | *15.1* | *4.6* | *1.5* |
| Indiaidd | 8,261 | 6.4 | 14.5 | 18.7 | 35.3 | 18.8 | 5.0 | 1.2 |
| Pacistanaidd | 8,287 | 11.0 | 21.6 | 17.6 | 29.3 | 13.1 | 5.5 | 1.8 |
| Bangladeshi | 5,436 | 13.5 | 25.8 | 19.0 | 29.6 | 8.9 | 2.4 | 0.9 |
| Asiaidd Eraill | 3,463 | 7.7 | 16.4 | 13.5 | 34.5 | 21.0 | 5.0 | 1.9 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *7,070* | *6.5* | *14.8* | *14.4* | *35.5* | *15.9* | *8.8* | *4.3* |
| Du Caribïaidd | 2,597 | 2.7 | 8.9 | 9.1 | 40.6 | 20.7 | 13.4 | 4.5 |
| Du Affricanaidd | 3,727 | 8.9 | 18.1 | 17.6 | 32.2 | 12.8 | 6.5 | 3.9 |
| Du Eraill | 746 | 7.5 | 18.4 | 16.8 | 34.2 | 14.3 | 3.9 | 5.0 |
| *Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall* | *11,401* | *5.8* | *15.6* | *18.4* | *39.3* | *15.8* | *3.8* | *1.3* |
| Tsieineaidd | 6,266 | 5.7 | 15.4 | 21.4 | 34.2 | 17.1 | 4.8 | 1.5 |
| Grŵp Ethnig Arall | 5,135 | 5.9 | 15.9 | 14.7 | 45.5 | 14.2 | 2.6 | 1.2 |
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Cristnogol | 2,087,242 | 4.3 | 13.4 | 9.4 | 24.4 | 24.5 | 14.1 | 10.0 |
| Bwdaidd | 5,407 | 2.2 | 7.1 | 11.9 | 38.9 | 31.1 | 6.2 | 2.6 |
| Hindŵaidd | 5,433 | 6.2 | 13.0 | 17.6 | 36.0 | 21.3 | 4.7 | 1.2 |
| Iddewig | 2,256 | 3.5 | 8.1 | 8.8 | 21.7 | 28.3 | 15.2 | 14.4 |
| Moslemaidd | 21,739 | 11.6 | 23.0 | 17.4 | 31.2 | 12.2 | 3.6 | 1.0 |
| Sicaidd | 2,014 | 7.1 | 21.8 | 18.9 | 30.7 | 15.5 | 3.7 | 2.3 |
| Unrhyw grefydd arall | 6,909 | 2.0 | 5.8 | 12.5 | 38.2 | 28.8 | 9.0 | 3.7 |
| Dim crefydd | 537,935 | 9.1 | 16.7 | 16.5 | 36.3 | 15.6 | 3.9 | 2.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 101 a 149)*

Yn wahanol i'r boblogaeth o bobl wyn, yn y grwpiau ethnig DLlE yr oedd y gwrywod ychydig yn fwy niferus na'r benywod, er bod benywod yn y mwyafrif yn y grwpiau ethnig tras cymysg a Tsieineaidd ac Eraill. Yn y grŵp ethnig Asiaidd Eraill, yr oedd tua 30% yn rhagor o wrywod na benywod. O'r grwpiau ethnig sy'n weddill, y Du Caribïaidd a'r Du Affricanaidd oedd â'r mwyafrifoedd gwrywaidd mwyaf. Ymhlith y Cristnogion, yr oedd benywod mewn mwyafrif sylweddol, ond yr oedd 10% yn fwy o wrywod na benywod yn y grwpiau crefyddol Hindŵaidd, Moslemaidd a Sicaidd.

Yn y Tabl 2.7, cyflwynir y canrannau o'r boblogaeth sy'n perthyn i'r grwpiau oedran allweddol. Tanlinellir mor ifanc yw'r boblogaeth DLlE o gymharu â'r bobl wyn; yr oedd mwy na phumed ran o'r olaf mewn oedran pensiwn, o gymharu 6.5% o'r bobl DLlE. I fyny hyd at 45 oed, yr oedd y ganran ym mhob grŵp oedran yn uwch ar gyfer y boblogaeth DLlE na'r gwyn; ond o hynny ymlaen, yr oedd y patrwm yn newid o chwith.

Yr oedd degfed ran o'r bobl DLlE mewn oedran cyn-ysgol yn 2001; ac yr oedd y ganran uchaf oll ymhlith rhai o dras cymysg. Yn 2001 yr oedd mwy na chweched ran o'r bobl Bangladeshi, ac 11.6% o'r bobl Foslemaidd, o dan 5 oed. Yr oedd pumed ran arall o'r bob DLlE mewn oedran ysgol orfodol a thros chweched ran yn oedolion ifanc. Plant rhwng 5 a 15 oed oedd bron draean o'r bobl o dras cymysg, chwarter y Bangladeshiaid, a phumed ran o'r Pacistaniaid a'r Siciaid. Pobl mewn oedran anterth gweithgarwch economaidd (25 i 44 oed) oedd bron draean o'r bob DLlE, gyda bron ddwy ran o bump o'r bobl Ddu Caribïaidd ac o'r grwpiau ethnig "eraill" yn perthyn i'r ystod oedran hwnnw.

Ym mhen hynaf yr amrediad oedran, er bod y ganran gyffredinol o bobl DLlE a oedd rhwng 45 ac oedran ymddeol yn is nag ydoedd ar gyfer y bobl wyn, yr oedd canrannau'r bobl Bacistanaidd, Asiaidd Eraill a Du Caribïaidd yn debyg i'r cyfartaledd gwyn. Yr oedd bron bumed ran o'r bobl Ddu Caribïaidd wedi cyrraedd oedran ymddeol, a 4.5 % yn 75 neu drosodd. Mae'r grŵp ethnig Gwyn Gwyddelig a'r grŵp crefyddol Iddewig hefyd yn nodedig am eu canrannau cymharol uchel o bobl mewn oedran pensiynadwy a phobl sy'n 75 oed neu'n hŷn.

### Tabl 2.8: Dosbarthiad daearyddol poblogaeth DLlE Cymru

| Awdurdod unedol | Cyfran o'r boblogaeth gyfan | cyfran o'r boblogaeth DLlE | Cyfran gronnol o'r boblogaeth DLlE | Canran o'r boblogaeth breswyl o'r grwpiau DLlE | Mynegai amrywiaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYMRU** | **100.0** | **100.0** | | **2.1** | **0.04** |
| Caerdydd | 10.5 | 41.8 | 41.8 | 8.4 | 0.16 |
| Casnewydd | 4.7 | 10.8 | 52.5 | 4.8 | 0.09 |
| Abertawe | 7.7 | 7.8 | 60.3 | 2.1 | 0.04 |
| Rhondda Cynon Taf | 8.0 | 4.4 | 64.7 | 1.2 | 0.02 |
| Bro Morgannwg | 4.1 | 4.2 | 68.9 | 2.2 | 0.04 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4.4 | 2.9 | 71.8 | 1.4 | 0.03 |
| Sir Gaerfyrddin | 6.0 | 2.6 | 74.4 | 0.9 | 0.02 |
| Caerffili | 5.8 | 2.5 | 76.8 | 0.9 | 0.02 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4.6 | 2.3 | 79.1 | 1.1 | 0.02 |
| Wrecsam | 4.4 | 2.3 | 81.4 | 1.1 | 0.02 |
| Gwynedd | 4.0 | 2.2 | 83.6 | 1.2 | 0.02 |
| Conwy | 3.8 | 1.9 | 85.6 | 1.1 | 0.02 |
| Sir y Fflint | 5.1 | 1.9 | 87.5 | 0.8 | 0.02 |
| Sir Benfro | 3.9 | 1.8 | 89.3 | 1.0 | 0.02 |
| Powys | 4.4 | 1.7 | 91.0 | 0.8 | 0.02 |
| Ceredigion | 2.6 | 1.7 | 92.7 | 1.4 | 0.03 |
| Sir Ddinbych | 3.2 | 1.7 | 94.4 | 1.1 | 0.02 |
| Sir Fynwy | 2.9 | 1.6 | 96.0 | 1.2 | 0.02 |
| Tor-faen | 3.1 | 1.4 | 97.4 | 1.0 | 0.02 |
| Blaenau Gwent | 2.4 | 0.9 | 0.9 | 0.8 | 0.02 |
| Merthyr Tudful | 1.9 | 0.9 | 1.8 | 0.9 | 0.02 |
| Ynys Môn | 2.3 | 0.8 | 2.5 | 0.7 | 0.01 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 101)*


## 2.5 Dosbarthiad daearyddol

Mae poblogaeth DLlE Cymru wedi ymgrynhoi yn ddaearyddol i raddau helaeth iawn (Tabl 2.8). Yr oedd Caerdydd ei hunan yn cynnwys dwy ran o bump o boblogaeth DLlE Cymru yn 200, ac yr oedd pum awdurdod unedol ar y cyd yn cynnwys 68.9% o'r boblogaeth DLlE. Dros y dau ar bymtheg awdurdod arall, yr oedd y boblogaeth DLlE wedi ei gwasgaru'n bur wastad. Caerdydd yw'r ddinas fwyaf yng Nghymru, er nad yw'n cynnwys ond ychydig dros ddegfed ran o boblogaeth y wlad, sy'n tanlinellu'r modd y mae pobl o'r grwpiau DLlE wedi ymgrynhoi ar yr arfordir deheuol trefoledig ac yn y cymoedd cyfagos.

Yr oedd y ganran o'r boblogaeth breswyl a berthynai i'r grwpiau DLlE yn llawer uwch yng Nghaerdydd nag yn unman arall;

ac yng Nghasnewydd, Bro Morgannwg ac Abertawe yn unig yr oedd y ganran o'r boblogaeth a berthynai i'r grwpiau DLlE yn uwch na chyfartaledd Cymru (sef 2.1%). Yng ngweddill y wlad, nid oedd y ganran yn unman yn uwch nag 1.4%, ac mewn rhan helaeth o ogledd, gorllewin a chanolbarth Cymru yr oedd y gyfran DLlE o'r boblogaeth yn 1% neu'n llai.

### Ffigur 2.4: Dosbarthiad daearyddol y grwpiau DLlE yng Nghymru




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 6)*

Yng ngholofn olaf y Tabl 2.8, cyflwynir mynegai amrywiaeth ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru (gweler Atodiad 1 am esboniad o'r mesur hwn). Cyfrifir hwn gan ddefnyddio 16 categori'r cwestiwn grwpiau ethnig yng Nghyfrifiad 2001, ac y mae'n amrywio rhwng 0 (poblogaeth gyfan yn perthyn i un grŵp ethnig) ac 1 (amrywiaeth lwyr). Dangosir bod gan Gaerdydd a Chasnewydd boblogaethau sydd hefyd yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd na'r ardaloedd eraill yng Nghymru. Datgelir mai poblogaeth bron yn gyfan gwbl o bobl wyn Brydeinig sydd i'w chael trwy'r rhan helaethaf o Gymru.

Mae Ffigur 2.4 yn rhoi pwyslais pellach ar grynodiad daearyddol y boblogaeth DLlE, trwy fapio poblogaeth DLlE yr ardaloedd trefol yng Nghymru (diffiniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol/ Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog o ardaloedd trefol ffisegol, a ddiffiniwyd gyntaf wedi Cyfrifiad 1981) gyferbyn â'r gyfran DLlE ym mhoblogaethau'r awdurdodau unedol. Yn y dinasoedd a'r trefi o fewn yr awdurdodau unedol hyn y mae'r rhan fwyaf o'r bobl DLlE yn byw; ac ar draws ardaloedd daearyddol eang, nid yw'r boblogaeth DLlE yn fwy na dyrnaid o aelwydydd yn unig. Y tu allan i dde Cymru, gwelir mai yn nhrefi twristaidd arfordir y gogledd, Wrecsam, Caerfyrddin, Merthyr Tudful ac mewn trefi prifysgol megis Bangor ac Aberystwyth y lleolir y prif boblogaethau DLlE. Mae'r Tabl 2.9 yn dangos y gwrthgyferbyniad rhwng Caerdydd, gyda'i phoblogaeth DLlE o bron 26 mil, mwyafrif yr awdurdodau unedol lle'r oedd y boblogaeth DLlE rhwng 1 ac 1.5 mil, ac Ynys Môn, sydd â phoblogaeth DLlE o lai na 500. Gwahaniaeth arall rhwng dinasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe a'r awdurdodau unedol eraill yw maint perthynol y categori Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig o gymharu â grwpiau ethnig lleiafrifol eraill. Ar draws llawer o'r wlad, y grwpiau ethnig tras cymysg a "Tsieineaidd ac Eraill" yw'r gydran fwyaf yn y boblogaeth DLlE. Mae'r bobl o'r grŵp ethnig Du a Du Prydeinig yn byw yn bennaf yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Nodwedd drawiadol arall yw fod cyfran lawer mwy o bobl o'r grwpiau tras cymysg a Tsieineaidd ac Eraill mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth DLlE yn fach. Golyga hyn fod maint y boblogaeth DLlE gyfan efallai yn ddangosydd anfoddhaol o'r angen mewn ardaloedd o'r fath, gan fod canran uwch o'r boblogaeth hwyrach yn perthyn i'r grwpiau DLlE llai difreintiedig.

## Tabl 2.9: Poblogaethau DLlE yn ôl awdurdod unedol

| Awdurdod unedol | Poblogaeth | Poblogaeth DLlE | Canran DLlE | Tras cymysg | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | Du neu Ddu Prydeinig | Tsieineaidd ac Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 305,353 | 25,729 | 8.4 | 6,084 | 12,080 | 3,898 | 3,667 |
| Casnewydd | 137,011 | 6,603 | 4.8 | 1,635 | 3,577 | 734 | 657 |
| Abertawe | 223,301 | 4,806 | 2.2 | 1,106 | 2,215 | 290 | 1,195 |
| Rhondda Cynon Taf | 231,946 | 2,673 | 1.2 | 812 | 928 | 207 | 726 |
| Bro Morgannwg | 119,292 | 2,576 | 2.2 | 1,133 | 704 | 273 | 466 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 128,645 | 1,767 | 1.4 | 501 | 546 | 104 | 616 |
| Sir Gaerfyrddin | 172,842 | 1,623 | 0.9 | 527 | 550 | 138 | 408 |
| Caerffili | 169,519 | 1,548 | 0.9 | 620 | 453 | 122 | 353 |
| Castell-nedd Port | 134,468 | 1,448 | 1.1 | 528 | 539 | 143 | 238 |
| Wrecsam | 128,476 | 1,403 | 1.1 | 452 | 457 | 131 | 363 |
| Gwynedd | 116,843 | 1,389 | 1.2 | 482 | 434 | 120 | 353 |
| Sir y Fflint | 148,594 | 1,194 | 0.8 | 526 | 271 | 97 | 300 |
| Conwy | 109,596 | 1,157 | 1.1 | 427 | 329 | 92 | 309 |
| Powys | 126,354 | 1,086 | 0.9 | 429 | 363 | 100 | 194 |
| Sir Ddinbych | 93,065 | 1,073 | 1.2 | 431 | 300 | 108 | 234 |
| Ceredigion | 74,941 | 1,037 | 1.4 | 397 | 272 | 115 | 253 |
| Sir Benfro | 114,131 | 1,026 | 0.9 | 366 | 302 | 88 | 270 |
| Sir Fynwy | 84,885 | 964 | 1.1 | 356 | 305 | 77 | 226 |
| Tor-faen | 90,949 | 852 | 0.9 | 343 | 238 | 84 | 187 |
| Blaenau Gwent | 70,064 | 581 | 0.8 | 184 | 222 | 59 | 116 |
| Merthyr Tudful | 55,981 | 564 | 1.0 | 135 | 269 | 41 | 119 |
| Ynys Môn | 66,829 | 481 | 0.7 | 187 | 94 | 48 | 152 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 6)*

Mae'r Ffigurau A2.17 i A2.21 yn mapio dosbarthiad daearyddol y grwpiau DLlE unigol ar draws yr holl adrannau etholiadol yng Nghymru. Er mai yn ninasoedd de Cymru yr oedd prif grynodiadau y boblogaeth DLlE, yr oedd niferoedd bach o bobl DLlE hefyd yn bresennol mewn llawer o'r trefi eraill. Mae gwahaniaethau amlwg rhwng dosbarthiadau daearyddol y grwpiau ethnig unigol. Yr oedd mwyafrif y bobl o dras cymysg yn byw yn ne-ddwyrain Cymru, ond yr oedd eu dosbarthiad daearyddol yn wastatach na dosbarthiad y grwpiau ethnig eraill, gyda niferoedd bach wedi eu gwasgaru ar draws nifer fawr o aneddiadau, a chrynodiadau lleol yn yr trefi twristaidd. Yr oedd y bobl Indiaidd wedi eu dosbarthu'n weddol eang trwy dde Cymru ac yr oeddent i'w cael hefyd yn nhrefi mwyaf

gogledd Cymru; ond yng Nghaerdydd yr oeddent wedi ymgrynhoi yn bennaf, a thueddent i beidio ag ymgartrefu yn yr ardaloedd twristaidd. Mae eu dosbarthiad daearyddol eang yn adlewyrchiad o'u cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd mewn galwedigaethau perthynol i iechyd (gweler Pennod 3). Yr oedd crynodiadau uchel o'r boblogaeth Bacistanaidd yng Nghaerdydd a Chasnewydd, tra bo'r crynodiadau mwyaf o'r grŵp ethnig Bangladeshi yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Yn ne-ddwyrain Cymru yn bennaf yr oedd y bobl Asiaidd Eraill yn byw, er bod crynodiad mawr ohonynt hefyd yn Aberhonddu. Yng Nghaerdydd i raddau helaeth y lleolwyd y bobl Ddu Affricanaidd, tra oedd y bobl Ddu Caribïaidd wedi eu canoli yn ne-ddwyrain Cymru, sef Casnewydd a'r Barri yn ogystal â Chaerdydd. Yr oedd dosbarthiad daearyddol y grŵp ethnig Tsieineaidd yn un eang, gyda'u niferoedd mwyaf yn ninasoedd de Cymru. Mae'r bobl o'r grwpiau ethnig Arall yn tueddu i fyw mewn trefi prifysgol, ond hefyd mewn ardaloedd gweithgynhyrchu fel Pen-y-bont ar Ogwr (lle mae'r poblogaethau o bobl Asiaidd a Du yn fach).

Yn achos y grwpiau ethnig Bangladeshi a Tsieineaidd, dichon fod y patrymau hyn yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol y tai bwyta Tsieineaidd ac Indiaidd, sector diwydiannol sydd o hyd yn cyflogi canran gymharol uchel o'r bobl o'r grwpiau ethnig hyn. Yr oedd trefi twristaidd gogledd a gorllewin Cymru, felly, yn cynnwys pobl o'r grwpiau ethnig hyn, er mai bach oedd eu nifer. Mae dau fater o bwys yn codi o hyn, ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau tai. Yn gyntaf, mae'r bobl o'r grwpiau ethnig hyn yn dioddef o'u hynysu, oddi wrth aelodau eraill o'u cymunedau eu hunain a hefyd oddi wrth y boblogaeth yn gyffredinol, ac yn wynebu anhawster wrth geisio esbonio'u hanghenion wrth ddarparwyr gwasanaethau, oherwydd mor fach yw eu cymunedau. Yn ail, mae llawer o'r bobl DLlE yn byw mewn ardaloedd gwledig a diarffordd lle mae'r stoc o dai cymdeithasol yn brin iawn, a'r cyfleoedd i landlordiaid cymdeithasol diwallu eu hanghenion penodol hefyd yn gyfyngedig, o ganlyniad.

## 2.6 Gwahanu daearyddol

Mae'r Tabl 2.10 yn crynhoi'r mathau o ardaloedd lle mae pobl o'r gwahanol grwpiau ethnig yn byw, gan ddefnyddio'r lefel "grŵp" yn nosbarthiad wardiau ac ardaloedd awdurdodau lleol diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar sail data Cyfrifiad 2001. Gwelwyd tuedd eglur i'r bobl DLlE fyw mewn 'cymunedau myfyrwyr' (sef ardaloedd gyda phoblogaethau cymysg, ifanc mewn ardaloedd trefol, lle mae'r tai yn tueddu i fod yn hŷn a llety ar rent yn fwy cyffredin) ac i beidio â byw yng nghefn gwlad nac yn yr ardaloedd diwydiannol traddodiadol, lle'r oedd y bobl wyn yn llawer mwy tebygol o fyw. Tuedd y grwpiau ethnig o Dde Asia oedd ymgrynhoi yn yr ardaloedd mwyaf trefol, ond yr oedd gwahaniaethau amlwg rhwng dosbarthiad daearyddol y bobl Indiaidd, a oedd â chanran uwch ohonynt yn byw mewn 'ardaloedd diwydiannol' a'r bobl Bacistanaidd a Bangladeshi. Yr oedd dosbarthiad y bobl Tsieineaidd a rhai o dras cymysg yn debycach na'r un arall i ddosbarthiad y bobl wyn, gyda chanran uwch o lawer yn byw mewn ardaloedd gwledig. Pobl Garibïaidd a rhai o dras cymysg oedd y grwpiau ethnig mwyaf tebygol o fyw mewn 'tai y tu allan i'r dref' (a allai gynnwys stadau awdurdodau lleol). Yr oedd pobl Affricanaidd yn fwy tebygol na grwpiau DLlE eraill o fyw mewn 'cymunedau myfyrwyr'.

### Tabl 2.10: Dosbarthiad daearyddol y grwpiau DLlE yn ôl y math o ardal etholiadol (canrannau o'r boblogaeth)

| | Gwyn | Du a Lleiafrifol Ethnig | Tras cymysg | Indiaidd | Pacistanaidd | Bangladeshi | Tsieineaidd | Caribïaidd | Affricanaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardaloedd Diwydiannol | 38.8 | 21.1 | 24.9 | 24.8 | 15.0 | 11.9 | 28.0 | 21.7 | 17.4 |
| Tai y Tu Allan i'r Dref | 7.3 | 10.7 | 15.7 | 6.3 | 7.7 | 9.4 | 8.2 | 22.5 | 10.8 |
| Gweithgynhyrchu Adeiledig | 3.3 | 5.3 | 7.0 | 2.2 | 5.9 | 7.3 | 2.0 | 9.8 | 5.7 |
| Economïau Trawsnewidiol | 4.2 | 11.9 | 8.1 | 10.9 | 23.8 | 19.1 | 5.5 | 10.7 | 13.3 |
| Ardaloedd Adeiledig | 2.2 | 2.7 | 2.2 | 2.1 | 1.0 | 7.3 | 3.5 | 1.3 | 1.7 |
| Cymunedau Myfyrwyr | 4.6 | 24.7 | 14.7 | 27.1 | 33.3 | 37.6 | 20.5 | 15.1 | 31.1 |
| Maestrefi | 5.9 | 3.8 | 3.9 | 4.6 | 1.7 | 0.7 | 6.5 | 3.2 | 3.1 |
| Maestrefi Ffyniannus | 0.7 | 1.2 | 1.0 | 1.1 | 0.4 | 0.3 | 2.3 | 0.8 | 1.0 |
| Maestrefi Cymudwyr | 1.8 | 4.1 | 3.4 | 5.8 | 4.3 | 1.2 | 3.5 | 2.7 | 3.0 |
| Cefn Gwlad | 16.8 | 6.4 | 9.2 | 5.2 | 3.2 | 1.8 | 8.3 | 5.7 | 6.9 |
| Cymunedau Hŷn | 4.9 | 3.2 | 3.2 | 3.7 | 1.5 | 1.9 | 5.0 | 1.6 | 2.5 |
| Gweithgynhyrchu y Tu Allan i'r Dref | 6.1 | 2.7 | 4.0 | 3.0 | 1.3 | 1.0 | 4.2 | 3.0 | 2.2 |
| Cefn Gwlad Hygyrch | 3.3 | 2.2 | 2.7 | 3.0 | 1.0 | 0.3 | 2.4 | 2.0 | 1.3 |
| Poblogaeth | 2,829,436 | 61,407 | 17,666 | 8,218 | 8,290 | 5,443 | 6,232 | 8,560 | 6,158 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 6)*

### Tabl 2.11: Mynegai Annhebygrwydd ar gyfer y grwpiau ethnig bras, Cymru 2001

| Grwpiau ethnig a gymherir | Gwyn | Cymysg | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | Du neu Ddu Prydeinig | Tsieineaidd ac Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| Tras cymysg | 35.3 | | | | |
| Asiaidd neu Asiaidd | 55.9 | 39.3 | | | |
| Du neu Ddu Prydeinig | 56.5 | 32.8 | 34.6 | | |
| Tsieineaidd ac Eraill | 41.7 | 34.6 | 38.3 | 45.0 | |
| Grwpiau DLlE | 44.3 | 22.5 | 19.5 | 26.5 | 27.3 |

### Tabl 2.12: Arwahaniad (Mynegai Annhebygrwydd) y grwpiau ethnig of Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig gyferbyn â'r grwpiau ethnig gwyn, tras cymysg, Du a Tsieineaidd ac Eraill, Cymru 2001

| | Gwyn | Grwpiau DLlE | Tras cymysg | Du Caribïaidd | Du Affricanaidd | Tsieineaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Indiaidd | 50.9 | 29.6 | 41.4 | 48.8 | 41.9 | 40.1 |
| Pacistanaidd | 64.8 | 36.5 | 51.0 | 48.0 | 41.6 | 54.2 |
| Bangladeshi | 72.2 | 43.3 | 55.7 | 52.3 | 51.2 | 62.6 |
| Asiaidd Eraill | 57.7 | 32.2 | 43.3 | 45.5 | 45.1 | 44.4 |

Yn y Tabl 2.11, crynhoir y patrwm o arwahanu ethnig trwy Gymru, gan ddefnyddio'r Mynegai Annhebygrwydd (gyda'r data ar gyfer y lefel Ardal Etholiadol). Mae'r mynegai hwn yn cyfrifo'r ganran o'r bobl o grŵp y byddai'n ofynnol iddynt symud er mwyn i ddosbarthiad daearyddol y ddau grŵp ethnig fod yn gyfartal. Yn gyffredinol, byddai'n ofynnol i 44.3% o'r bobl o grwpiau DLlE symud er mwyn i'r grwpiau hynny feddu'r un dosbarthiad daearyddol â'r bobl wyn. Yr oedd y grwpiau ethnig Du ac Asiaidd wedi eu harwahanu'n ddaearyddol i raddau mwy na phobl o dras cymysg, neu bobl o'r grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill. Yr oedd y bobl Bangladeshi a Phacistanaidd wedi eu harwahanu yn ddaearyddol i raddau mwy na'r bobl Indiaidd oddi wrth y bobl wyn a'r Tsieineaid (Tabl 2.12). Yr oedd y bobl Bangladeshi y llai tebygol na phobl o'r tri grŵp ethnig Asiaidd arall o fyw yn yr un ardaloedd â phobl o'r grwpiau ethnig Du.


## 2.7 Myfyrwyr DLlE

Mae cyfran fawr o'r boblogaeth DLlE yn fyfyrwyr, ac y mae llawer o'r cynnydd diweddar yn y boblogaeth hon yn fyfyrwyr, rhai a anwyd yn y DU a thramor. Pan gynhaliwyd Cyfrifiad 2001, yr oedd cyfanswm o 134969 o bobl 16 i 24 oed, a oedd yn byw yng Nghymru, yn fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai a oedd yn economaidd weithgar). O'r rhain, yr oedd 6737 yn tarddu o'r grwpiau DLlE (y boblogaeth o fyfyrwyr a anwyd dramor oedd 8106 sef 6% o'r cyfanswm). Yn Ffigur 2.5 cyflwynir dadansoddiad ethnig o'r boblogaeth o fyfyrwyr DLlE. Yr oedd bron eu chwarter o dras cymysg, gyda'r grwpiau ethnig Indiaidd a Tsieineaidd yn cyfrif am y canrannau nesaf o ran maint, ac wedyn y bobl Bacistanaidd, Du Affricanaidd a Bangladeshi. Byddai llawer o'r rhain yn fyfyrwyr chweched dosbarth neu addysg bellach, yn hytrach na myfyrwyr addysg uwch; ac y mae cyfansoddiad ethnig y boblogaeth o fyfyrwyr yn adlewyrchu ieuenctid cymharol y bobl o dras cymysg.

Tra bo 4.6% o boblogaeth Cymru yn fyfyrwyr 16 - 24 oed, myfyrwyr oedd dros ddegfed ran (10.9%) o boblogaeth DLlE Cymru, ac 14.8% o'r bobl Tsieineaidd ac Eraill.


Mae'r boblogaeth o fyfyrwyr yn arwyddocaol mewn astudiaeth o anghenion tai DLlE yng Nghymru oherwydd, er nad yw aelwydydd myfyrwyr yn cyfrif am ragor na 0.4% o'r holl aelwydydd, dyna yw 2.4% o'r aelwydydd DLlE (Ffigur 2.6). Mae'r ganran hon yn llawer uwch eto ar gyfer grwpiau lleiafrifol unigol, gyda 4.3% o'r aelwydydd Tsieineaidd ac "eraill", 3.9% o'r Du Affricanaidd a 3.7% o'r Indiaidd yn cynnwys myfyrwyr yn unig.

## Ffigur 2.5: Cyfansoddiad ethnig myfyrwyr DLlE 16 - 24 oed yng Nghymru, 2001




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 108)*

## Ffigur 2.6: Aelwydydd myfyrwyr fel canran o'r holl aelwydydd fesul grŵp ethnig, Cymru 2001




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 106)*

### Tabl 2.13: Y boblogaeth myfyrwyr DLlE yng Nghymru

| | Poblogaeth | Poblogaeth DLlE | Myfyrwyr DLlE | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Nifer | Canran o bobl DLlE | Canran o gyfanswm Cymru |
| CYMRU | 2,903,085 | 61,580 | 6,737 | 10.9 | 100.0 |
| Blaenau Gwent | 70,064 | 581 | 43 | 7.4 | 0.6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 128,645 | 1,767 | 135 | 7.6 | 2.0 |
| Caerffili | 169,519 | 1,548 | 101 | 6.5 | 1.5 |
| Caerdydd | 305,353 | 25,729 | 3,233 | 12.6 | 48.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 172,842 | 1,623 | 112 | 6.9 | 1.7 |
| Ceredigion | 74,941 | 1,037 | 239 | 23.0 | 3.5 |
| Conwy | 109,596 | 1,157 | 118 | 10.2 | 1.8 |
| Sir Ddinbych | 93,065 | 1,073 | 97 | 9.0 | 1.4 |
| Sir y Fflint | 148,594 | 1,194 | 69 | 5.8 | 1.0 |
| Gwynedd | 116,843 | 1,389 | 162 | 11.7 | 2.4 |
| Ynys Môn | 66,829 | 481 | 29 | 6.0 | 0.4 |
| Merthyr Tudful | 55,981 | 564 | 29 | 5.1 | 0.4 |
| Sir Fynwy | 84,885 | 964 | 66 | 6.8 | 1.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 134,468 | 1,448 | 105 | 7.3 | 1.6 |
| Casnewydd | 137,011 | 6,603 | 542 | 8.2 | 8.0 |
| Sir Benfro | 114,131 | 1,026 | 105 | 10.2 | 1.6 |
| Powys | 126,354 | 1,086 | 74 | 6.8 | 1.1 |
| Rhondda Cynon Taf | 231,946 | 2,673 | 381 | 14.3 | 5.7 |
| Abertawe | 223,301 | 4,806 | 626 | 13.0 | 9.3 |
| Tor-faen | 90,949 | 852 | 63 | 7.4 | 0.9 |
| Bro Morgannwg | 119,292 | 2,576 | 265 | 10.3 | 3.9 |
| Wrecsam | 128,476 | 1,403 | 114 | 8.1 | 1.7 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 101 a 108)*

Dylanwedir ar y nodweddion tai DLlE cyfartalog gan bresenoldeb yr aelwydydd hyn, a bydd yr ystumio a achosir yn amrywio yn ddaearyddol, oherwydd dosbarthiad daearyddol anwastad y myfyrwyr. Darlunnir hyn y Tabl 2.13, sy'n dangos y myfyrwyr fel canran o'r boblogaeth DLlE ym mhob ardal awdurdod unedol yng Nghymru. Yr oedd bron hanner y boblogaeth myfyrwyr DLlE yn byw yng Nghaerdydd, gyda'r prif grynodiadau eraill yn Abertawe a Chasnewydd. Cafwyd crynodiadau llai yn yr awdurdodau unedol sy'n cynnwys Colegau Prifysgol Cymru (e.e. Aberystwyth a Llanbedr yng Ngheredigion a Bangor yng Ngwynedd) ac yn Rhondda Cynon Taf (Prifysgol Morgannwg). Yng Ngheredigion, myfyrwyr oedd bron chwarter y boblogaeth DLlE.

Mae ymwybyddiaeth o effaith bosibl myfyrwyr ar nodweddion y boblogaeth a'r aelwydydd DLlE yn amlwg yn fater pwysig. O'r data yn y Cyfrifiad, fodd bynnag, ni ellir

gwahaniaethu rhwng aelwydydd myfyrwyr yn ôl grwpiau ethnig mewn ardaloedd lleol, ac felly ni ellir eu tynnu allan o'r dangosyddion amddifadedd tai.

## 2.8 Problemau dosbarthu ethnig

Fel a nodwyd eisoes, yr oedd y cwestiynau grŵp ethnig a ofynnwyd yng Nghyfrifiadau 1991 a 2001 ychydig yn wahanol. Yr oedd cwestiwn 2001 yn darparu dadansoddiad mwy manwl o'r grŵp ethnig gwyn ac o'r wybodaeth am bobl o dras cymysg. Un o'r problemau a wynebwyd gyda chwestiwn grwpiau ethnig 1991 oedd anhawster wrth fesur y boblogaeth Garibïaidd yn fanwl gywir, gan fod plant pobl Ddu Caribïaidd yn aml yn cael eu priodoli i'r grŵp Du Eraill, oherwydd eu disgrifio fel "Du Prydeinig" neu "cymysg" os oedd un rhiant yn wyn.

Yn 2001, trwy newid geiriad y cwestiwn i "Du neu Ddu Prydeinig", lleihawyd maint y categori Du Eraill, trwy ddiddymu'r angen i'r  bobl "Ddu Prydeinig" dicio'r blwch "Du Eraill" ac ysgrifennu disgrifiad o'u tarddiad ethnig. Fodd bynnag, pan fo un rhiant yn wyn, mae'r plant o briodasau neu bartneriaethau lle mae un rhiant yn wyn a'r llall yn Ddu Caribïaidd bellach yn ymddangos yn y categori "Cymysg: Gwyn/ Du Caribïaidd". Digwyddodd hyn hefyd yn achos y grŵp ethnig Du Affricanaidd mewn perthynas â'r categori "Cymysg: Gwyn/Du Affricanaidd". Gall y bobl o dras cymysg uniaethu gyda'r rhiant gwyn neu'r rhiant lleiafrifol, neu gallant ddynodi eu hunain yn "Ddu Prydeinig" neu'n  bobl o "dras cymysg".

Gan mor fach yw poblogaethau'r grwpiau DLlE yng Nghymru, mae'n ofynnol cyfuno grwpiau â'i gilydd wrth gyflwyno dadansoddiadau a data manwl ar gyfer ardaloedd daearyddol o fewn Cymru. Mae dosbarthiad Cyfrifiad 2001 yn darparu casgliad hwylus o 5 grŵp ethnig bras, a ddefnyddir yn y adroddiad hwn. Fodd bynnag, er mwyn mesur maint a nodweddion aelwydydd lle mae'r pennau teuluoedd yn bobl Ddu Affricanaidd neu Ddu Caribïaidd, crëir dau grŵp pellach trwy ychwanegu'r categorïau tras cymysg i'r grŵp ethnig digymysg "Du" cyfatebol, gan greu'r grwpiau ethnig "Caribïaidd" ac "Affricanaidd" newydd.

## .2.9 Crynodeb

- Yn y bennod hon dangoswyd bod poblogaeth DLlE Cymru, er yn fach o ran nifer, yn amrywiol iawn;
- Mae'r boblogaeth DLlE, ar gyfartaledd, yn llawer iau na'r boblogaeth o bobl wyn;
- Mae'r boblogaeth Ddu Garibïaidd yn hŷn na'r cyfartaledd ar gyfer pobl DLlE, tra'r bobl o dras cymysg yw'r ieuengaf oll ar gyfartaledd;
- Mae pobl o dras cymysg ac o'r grwpiau ethnig "eraill" yn arbennig o amlwg ymhlith poblogaeth DLlE Cymru;
- Mae crynswth y boblogaeth DLlE wedi ymgrynhoi yng nghornel dde-ddwyreiniol y wlad ac yn y prif ddinasoedd;
- Fodd bynnag, mae cymunedau DLlE yn bresennol trwy Gymru gyfan;
- Yn ddaearyddol, dosbarthwyd y grwpiau DLlE yn wahanol iawn i'r bobl wyn; maent yn fwy tebygol o fyw yn ardaloedd mewnol y dinasoedd a'r stadau ar y cyrion, yn hytrach nag ardaloedd gwledig neu ardaloedd diwydiannol traddodiadol;
- Wrth asesu'r anghenion tai DLlE mewn rhai mannau, dylid cymryd i ystyriaeth y ganran uchel o'r boblogaeth DLlE sy'n fyfyrwyr.

# 3. Nodweddion cymdeithasol ac economaidd pobl DLlE yng Nghymru

Yn y bennod hon, cyflwynir nodweddion cymdeithasol ac economaidd y grwpiau DLlE yng Nghymru, er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer y drafodaeth ar amddifadedd tai, a gyflwynir ym Mhennod 4. Mae'r bennod yn arddangos amrywiaeth profiad y grwpiau DLlE, yn ogystal â'r lefelau uchel o amddifadedd a brofir gan rai grwpiau lleiafrifol.

### Tabl 3.1: Gweithgarwch economaidd gwrywod yn ôl grŵp ethnig a chrefydd yng Nghymru, 2001

| | Oed 16-74 | Cyfradd gweithgarwch economaidd | Cyfradd gyflogaeth | Cyfradd ddiweithdra | Canran mewn gwaith sy'n hunan-gyflogedig | Hunan-gyflogedig gyda chyflogeion fel % o'r boblogaeth economaidd weithgar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CWRYWOD** | **1,014,610** | **67.7** | **62.7** | **7.4** | **18.2** | **6.4** |
| *Gwyn* | *994,209* | *67.8* | *62.8* | *7.3* | *18.1* | *6.3* |
| Prydeinig | 973,413 | 67.9 | 63.0 | 7.3 | 18.1 | 6.3 |
| Gwyddelig | 7,134 | 56.4 | 51.4 | 8.9 | 22.4 | 8.7 |
| Gwyn Eraill | 13,662 | 62.3 | 56.8 | 8.9 | 21.2 | 8.4 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***20,401*** | ***65.5*** | ***58.2*** | ***11.1*** | ***24.5*** | ***13.6*** |
| *Cymysg* | *4,399* | *63.5* | *53.1* | *16.3* | *14.0* | *5.3* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,351 | 63.3 | 50.9 | 19.6 | 11.4 | 2.8 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 662 | 66.6 | 57.6 | 13.6 | 13.6 | 5.0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,225 | 65.3 | 56.7 | 13.3 | 14.6 | 6.4 |
| Cymysg Eraill | 1,161 | 60.0 | 49.6 | 17.4 | 16.8 | 7.3 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *9,173* | *69.1* | *63.2* | *8.5* | *29.4* | *17.2* |
| Indiaidd | 3,283 | 70.7 | 66.7 | 5.7 | 27.5 | 18.2 |
| Pacistanaidd | 2,751 | 65.7 | 57.5 | 12.5 | 37.3 | 16.6 |
| Bangladeshi | 1,657 | 70.5 | 65.0 | 7.8 | 26.4 | 18.5 |
| Asiaidd Eraill | 1,482 | 70.4 | 64.2 | 8.8 | 24.2 | 14.3 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *2,778* | *58.2* | *47.6* | *18.1* | *14.9* | *4.3* |
| Du Caribïaidd | 1,188 | 63.4 | 53.1 | 16.2 | 16.0 | 4.0 |
| Du Affricanaidd | 1,334 | 53.1 | 42.4 | 20.1 | 14.7 | 4.4 |
| Du Eraill | 256 | 60.5 | 49.2 | 18.7 | 10.3 | 5.2 |
| *Grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill* | *4,051* | *64.5* | *59.8* | *7.3* | *28.1* | *19.4* |
| Tsieineaidd | 2,407 | 63.4 | 59.4 | 6.3 | 39.0 | 28.7 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,644 | 66.1 | 60.3 | 8.7 | 12.3 | 6.5 |
| Caribïaidd | 2,539 | 63.3 | 51.9 | 18.0 | 13.6 | 3.4 |
| Affricanaidd | 1,996 | 57.6 | 47.4 | 17.6 | 14.3 | 4.6 |
| **Crefydd** | | | | | | |
| Cristnogol | 703,917 | 64.3 | 60.4 | 6.0 | 19.4 | 7.1 |
| Bwdaidd | 2,466 | 63.2 | 57.2 | 9.6 | 25.4 | 9.6 |
| Hindŵaidd | 2,302 | 70.2 | 67.8 | 3.4 | 27.9 | 18.3 |
| Moslemaidd | 7,438 | 60.8 | 54.1 | 10.9 | 31.1 | 16.9 |
| Sicaidd | 702 | 64.8 | 60.4 | 6.8 | 39.2 | 24.0 |
| Iddewig | 889 | 61.1 | 57.0 | 6.6 | 35.3 | 15.1 |
| Arall | 2,698 | 61.3 | 51.3 | 16.4 | 25.8 | 5.9 |
| Dim crefydd | 219,158 | 71.2 | 64.5 | 9.4 | 16.0 | 5.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M247 ac M301).*

### 3.1 Cyfranogiad yn y farchnad lafar

Mae'r Tablau 3.1 a 3.2 yn crynhoi cyfranogiad economaidd gwrywod a benywod 16 i 74 oed ar draws pob un o'r grwpiau ethnig a chrefyddol a adwaenir yng Nghyfrifiad 2001 ar gyfer Cymru (sylwer bod y tablau hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n economaidd weithgar).

**Tabl 3.2: Gweithgarwch economaidd benywod yn ôl grŵp ethnig a chrefydd yng Nghymru, 2001**

| | Oed 16-74 | Cyfradd gweithgarwch economaidd | Cyfradd gyflogaeth | Cyfradd ddiweithdra | Canran mewn gwaith sy'n hunan-gyflogedig | Hunan-gyflogedig gyda chyflogeion fel % o'r boblogaeth economaidd weithgar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BENYWOD** | 1,060,743 | 54.5 | 51.8 | 4.9 | 8.0 | 3.2 |
| *Gwyn* | 1,040,293 | 54.7 | 52.0 | 4.8 | 8.0 | 3.1 |
| Prydeinig | 1,017,476 | 54.7 | 52.1 | 4.8 | 7.9 | 3.1 |
| Gwyddelig | 7,410 | 48.3 | 45.5 | 5.8 | 11.8 | 4.8 |
| Gwyn Eraill | 15,407 | 52.1 | 48.4 | 7.1 | 12.1 | 4.1 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | 20,450 | 46.9 | 42.0 | 10.4 | 13.5 | 7.5 |
| *Cymysg* | 4,691 | 54.7 | 48.6 | 11.2 | 6.8 | 2.8 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,543 | 56.4 | 49.3 | 12.5 | 6.4 | 2.4 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 687 | 55.5 | 48.3 | 12.9 | 5.1 | 1.8 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,254 | 53.3 | 48.4 | 9.3 | 8.4 | 3.9 |
| Cymysg Eraill | 1,207 | 53.5 | 47.9 | 10.5 | 6.7 | 2.6 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | 8,509 | 39.1 | 34.4 | 12.0 | 17.5 | 10.0 |
| Indiaidd | 3,150 | 53.7 | 49.2 | 8.5 | 19.0 | 10.6 |
| Pacistanaidd | 2,682 | 29.9 | 25.4 | 15.3 | 20.3 | 11.8 |
| Bangladeshi | 1,596 | 23.0 | 17.5 | 24.0 | 9.7 | 5.4 |
| Asiaidd Eraill | 1,081 | 43.0 | 38.9 | 9.7 | 12.1 | 8.2 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | 2,489 | 49.5 | 43.4 | 12.4 | 4.6 | 1.6 |
| Du Caribïaidd | 991 | 59.0 | 54.2 | 8.2 | 4.3 | 1.5 |
| Du Affricanaidd | 1,237 | 40.0 | 33.0 | 17.6 | 4.4 | 1.6 |
| Du Eraill | 261 | 58.2 | 51.3 | 11.8 | 6.7 | 2.0 |
| *Grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill* | 4,761 | 51.7 | 48.4 | 6.5 | 19.3 | 12.0 |
| Tsieineaidd | 2,449 | 55.7 | 52.5 | 5.6 | 26.4 | 18.3 |
| Grŵp Ethnig Arall | 2,312 | 47.5 | 44.0 | 7.5 | 10.3 | 4.2 |
| Caribïaidd | 2,534 | 57.4 | 51.2 | 10.8 | 5.5 | 2.1 |
| Affricanaidd | 1,924 | 45.5 | 38.5 | 15.5 | 4.7 | 1.7 |
| **Crefydd** | | | | | | |
| Cristnogol | 806,531 | 51.6 | 49.7 | 3.8 | 8.4 | 3.5 |
| Bwdaidd | 2,295 | 50.0 | 46.1 | 7.8 | 21.4 | 7.1 |
| Hindŵaidd | 2,020 | 51.0 | 47.7 | 6.6 | 18.7 | 10.5 |
| Moslemaidd | 6,561 | 25.6 | 21.5 | 15.9 | 16.9 | 9.5 |
| Sicaidd | 681 | 44.6 | 41.1 | 7.9 | 28.6 | 15.8 |
| Iddewig | 787 | 48.4 | 45.6 | 5.8 | 21.7 | 6.8 |
| Arall | 3,423 | 46.7 | 42.3 | 9.4 | 17.1 | 3.0 |
| Dim crefydd | 169,377 | 55.8 | 51.7 | 7.3 | 7.1 | 2.4 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M247 ac M301)*

Yr oedd tua dwy ran o dair o'r dynion 16 i 74 oed yn economaidd weithgar yn 2001, gyda chanran y dynion economaidd weithgar o'r grwpiau DLlE ychydig yn is na'r ganran gyfatebol ar gyfer dynion gwyn (yr oedd dynion Gwyddelig yn llai tebygol o fod yn perthyn i'r gweithlu na dynion Gwyn Prydeinig, ffaith a oedd yn adlewyrchu eu cyfartaledd oedran uwch - gweler Pennod 2). Yr oedd dynion Indiaidd a Bangladeshi yn fwy tebygol na dynion gwyn o fod yn economaidd weithgar, tra bo dynion o dras cymysg a dynion Pacistanaidd, Tsieineaidd a Du yn llai tebygol o fod yn economaidd weithgar (a dynion Affricanaidd oedd â'r gyfradd weithgarwch economaidd isaf oll). Dynion digrefydd a dynion Hindŵaidd oedd â'r cyfraddau gweithgarwch economaidd uchaf, a dynion Moslemaidd a Bwdaidd oedd â'r cyfraddau isaf.

Ychydig dros hanner yr holl fenywod 16-74 oed oedd yn economaidd weithgar (Tabl 3.2), sef cyfradd tuag wythfed ran yn is na chyfradd y dynion. Yr oedd y gwahaniaeth o ran gweithgarwch economaidd rhwng benywod gwyn a benywod DLlE yn llawer mwy nag ydoedd ar gyfer dynion, yn bennaf oherwydd cyfraddau cyfranogiad isel y benywod Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig. Yr oedd bron hanner y benywod o dras cymysg ac o'r grwpiau ethnig Du a Tsieineaidd ac Eraill yn economaidd weithgar, gyda'r benywod Caribïaidd a Tsieineaidd yn fwy tebygol na benywod gwyn o fod yn aelodau o'r gweithlu. Ar gyfer benywod Affricanaidd, Pacistanaidd a Bangladeshi, yr oedd y cyfraddau gweithgarwch economaidd yn is na'r cyfartaledd, gyda llai na chwarter o'r benywod Bangladeshi 16-74 oed yn aelodau o'r gweithlu. Chwarter o'r benywod Moslemaidd oedd yn economaidd weithgar, sef hanner y cyfartaledd ar gyfer benywod.

Yr oedd rhagor na thair rhan o bump o'r dynion gwyn mewn gwaith, sef canran uwch na'r dynion DLlE. Dynion Indiaidd, Bangladeshi ac Asiaidd Eraill oedd y mwyaf tebygol o fod mewn gwaith, a'r dynion Du Affricanaidd oedd y lleiaf tebygol. Dynion Hindŵaidd oedd â'r cyfraddau cyflogaeth uchaf, a dynion Moslemaidd a rhai sy'n arddel crefyddau "eraill" oedd â'r cyfraddau isaf. Yr oedd dwy ran o bump o'r benywod DLlE 16-74 oed mewn gwaith, o gymharu ag ychydig llai na hanner y benywod gwyn. Benywod Du Caribïaidd, Tsieineaidd ac Indiaidd oedd y mwyaf tebygol o fod mewn gwaith, a benywod Bangladeshi, Pacistanaidd a Du Affricanaidd oedd y lleiaf tebygol. 21.5% yn unig o'r benywod Moslemaidd oedd yn gweithio.

Yr oedd cyfradd diweithdra gwrywod tua hanner yn uwch eto, na chyfradd y benywod. Ymhlith dynion, yr oedd cyfradd ddiweithdra'r DLlE tuag 1.5 gwaith cyfradd diweithdra'r bobl wyn; ond yr oedd cyfradd ddiweithdra benywod DLlE dros ddwywaith y gyfradd ar gyfer benywod gwyn. Dynion Indiaidd a Tsieineaidd oedd â'r cyfraddau diweithdra isaf, a dynion Caribïaidd ac Affricanaidd oedd yn dioddef y cyfraddau diweithdra uchaf. Yr oedd cyfradd ddiweithdra gwrywod Bangladeshi ychydig yn uwch na chyfradd y bobl wyn, ond yr oedd cyfradd gwrywod Pacistanaidd 71 y cant yn uwch na'r gyfradd ar gyfer dynion gwyn. O ystyried y grwpiau crefyddol, yr oedd cyfradd diweithdra dynion Hindŵaidd yn eithafol o isel (3.4%), ond yr oedd tua degfed ran o'r dynion Bwdaidd a Moslemaidd yn ddi-waith. Dynion a oedd yn arddel crefyddau "eraill" oedd â'r cyfraddau diweithdra uchaf.

Ymhlith benywod, yr oedd y cyfraddau diweithdra uchaf yn y grwpiau ethnig Bangladeshi (24%), Affricanaidd (15.5%) a Phacistanaidd (15.3%). Ym mhob grŵp

ethnig, yr oedd y cyfraddau diweithdra yn uwch nag oeddent ar gyfer benywod gwyn, gyda'r cyfraddau isaf ymhlith y grwpiau ethnig Tsieineaidd, Arall, Du Caribïaidd ac Indiaidd. Yr oedd cyfradd ddiweithdra benywod o dras cymysg ymhell uwchlaw'r cyfartaledd DLlE ac ymhell dros ddwywaith cyfradd y benywod gwyn.

Mae'r ddwy golofn olaf yn y Tablau 3.1 a 3.2 yn ymwneud â hunangyflogaeth. Yn gyffredinol, yr oedd bron bumed ran o'r dynion ac 8% o'r benywod yn hunangyflogedig yn 2001. Yr oedd chwarter y dynion o'r grwpiau DLlE ac wythfed ran o'r benywod yn hunangyflogedig. Cafwyd y canrannau hunangyflogaeth uchaf ymhlith y grwpiau ethnig Tsieineaidd (39%), Pacistanaidd (37.3%), Indiaidd (27.5%) a Bangladeshi (26.4%). Ymhlith dynion o'r grwpiau ethnig Du a thras cymysg, yr oedd y cyfraddau hunangyflogaeth yn is nag ar gyfer dynion gwyn. Y cyfraddau hunangyflogaeth uchaf oedd 39.2% ar gyfer dynion Sicaidd, yna dynion Iddewig (35.3%), a Moslemaidd (31.1%). Y lleiaf tebygol o fod yn hunangyflogedig oedd y digrefydd. Ceir gwahaniaethau tebyg ymhlith benywod, gyda benywod Tsieineaidd a Phacistanaidd yn fwyaf tebygol o fod yn hunangyflogedig, ynghyd â benywod Sicaidd (28.6%) a Bwdaidd (21.4%). Yr oedd benywod o dras cymysg a benywod Du yn llawer llai tebygol na'r cyfartaledd o fod yn hunangyflogedig.

Mae'r golofn olaf yn y ddau dabl yn cyflwyno "cyfradd entrepreneuriaeth" - sef y ganran o'r bobl economaidd weithgar sy'n hunangyflogedig gyda chyflogeion.

**Tabl 3.3: Dosbarthiad daearyddol diweithdra gwyn a DLlE yng Nghymru**

| Awdurdod unedol | Diweithdra gwyn | | Diweithdra DLlE | | Cymhareb cyfraddau diweithdra, DLlE : gwyn | Cyfran y DLlE o'r cyfanswm diweithdra |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Cyfradd | Nifer | Cyfradd | | |
| Ynys Môn | 2,231 | 7.9 | 21 | 10.1 | 1.3 | 0.9 |
| Gwynedd | 3,423 | 6.8 | 33 | 6.1 | 0.9 | 1.0 |
| Conwy | 2,785 | 6.0 | 39 | 8.4 | 1.4 | 1.4 |
| Sir Ddinbych | 2,199 | 5.5 | 40 | 10.2 | 1.9 | 1.8 |
| Sir y Fflint | 3,214 | 4.4 | 27 | 5.2 | 1.2 | 0.8 |
| Wrecsam | 3,010 | 5.0 | 44 | 7.0 | 1.4 | 1.4 |
| Powys | 2,358 | 4.0 | 33 | 6.6 | 1.7 | 1.4 |
| Ceredigion | 1,576 | 5.1 | 15 | 4.1 | 0.8 | 0.9 |
| Sir Benfro | 3,097 | 6.5 | 33 | 9.2 | 1.4 | 1.1 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,090 | 5.7 | 44 | 6.5 | 1.1 | 1.1 |
| Abertawe | 5,671 | 6.1 | 143 | 8.3 | 1.4 | 2.5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,712 | 6.9 | 58 | 10.1 | 1.5 | 1.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3,151 | 5.7 | 52 | 7.0 | 1.2 | 1.6 |
| Bro Morgannwg | 2,693 | 5.0 | 80 | 7.6 | 1.5 | 2.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 5,859 | 6.2 | 72 | 6.5 | 1.0 | 1.2 |
| Merthyr Tudful | 1,587 | 7.4 | 36 | 12.0 | 1.6 | 2.2 |
| Caerffili | 4,297 | 6.0 | 65 | 9.2 | 1.5 | 1.5 |
| Blaenau Gwent | 2,301 | 8.4 | 18 | 8.0 | 1.0 | 0.8 |
| Tor-faen | 2,185 | 5.6 | 21 | 6.5 | 1.2 | 1.0 |
| Sir Fynwy | 1,577 | 4.0 | 22 | 5.6 | 1.4 | 1.4 |
| Casnewydd | 3,513 | 6.0 | 265 | 12.2 | 2.0 | 7.0 |
| Caerdydd | 5,972 | 4.6 | 841 | 9.4 | 2.0 | 12.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 108)*

Yn gyffredinol, yr oedd 6.4% o'r dynion economaidd weithgar a 3.2% o'r benywod economaidd weithgar yn rhedeg eu busnesau eu hunain ac yn cyflogi eraill yn 2001. Ym oedd benywod ym mhob grŵp ethnig cyfatebol yn llai tebygol na dynion o fod yn entrepreneuriaid. Yr oedd dros chwarter y dynion Tsieineaidd yn rhedeg busnesau a oedd yn cyflogi eraill, ac yr oedd cyfradd entrepreneuriaeth yr holl ddynion Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig ymhell uwchlaw'r cyfartaledd. Dynion o'r grwpiau ethnig Du a thras cymysg oedd y lleiaf tebygol o fod yn entrepreneuriaid. Dynion Sicaidd oedd y mwyaf tebygol o redeg busnesau a oedd yn cyflogi eraill. Yr oedd y patrwm ar gyfer benywod yn debyg iawn, gyda bron bumed ran o'r benywod Tsieineaidd a degfed ran o'r benywod Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig yn hunangyflogedig gyda chyflogeion.

Yr oedd y gyfradd ddiweithdra DLlE fel arfer tuag 1.2 i 1.5 gwaith yn uwch na chyfradd ddiweithdra'r gwyn (Tabl 3.3). Fodd bynnag, yr oedd y cyfraddau diweithdra DLlE yn is yng Ngwynedd a Cheredigion, sef ardaloedd sy'n cynnwys trefi twristaidd a cholegau Prifysgol Cymru. Yr oedd cyfradd diweithdra'r DLlE yn uwch yn ardaloedd diwydiannol de Cymru ac yn Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn y gogledd. Digwyddodd y cyfraddau diweithdra DLlE uchaf oll yng Nghasnewydd a Merthyr Tudful. Yng Nghasnewydd a Chaerdydd, yr oedd cyfradd ddiweithdra'r DLlE yn ddwywaith y gyfradd ar gyfer pobl wyn.

Yn y Tabl 3.4 rhoddir crynodeb o'r diwydiannau lle'r oedd y bobl o'r grwpiau DLlE a oedd yn byw yng Nghymru yn

**Tabl 3.4: Strwythur diwydiannol cyflogaeth fesul grŵp ethnig, Cymru 2001 (canrannau o'r cyfanswm)**

| | Pob grŵp ethnig | Gwyn | DLlE | Tras Cymysg | Asiaidd | Du | Tsieineaidd ac Eraill | Moslemaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pawb cyflogedig | | | | 4,612 | 8,723 | 2,400 | 4,721 | 5,905 |
| Amaethyddiaeth; hela a choedwigaeth | 2.5 | 2.5 | 0.5 | 0.7 | 0.4 | 0.6 | 0.6 | 0.5 |
| Pysgota | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | - |
| Mwyngloddio a chwarela | 0.3 | 0.3 | 0.1 | 0.3 | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.1 |
| Gweithgynhyrchu | 17.3 | 17.5 | 10.5 | 12.1 | 8.5 | 12.1 | 11.7 | 9.1 |
| Cyflenwi trydan, nwy a dŵr | 1.0 | 1.0 | 1.3 | 1.6 | 1.1 | 2.1 | 0.7 | 1.2 |
| Adeiladu | 7.1 | 7.2 | 3.0 | 4.4 | 2.3 | 5.1 | 1.7 | 3.0 |
| Masnach cyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio | 16.3 | 16.3 | 16.8 | 17.0 | 21.0 | 13.0 | 10.8 | 20.8 |
| Gwestyau a thai bwyta | 5.4 | 5.2 | 16.9 | 9.3 | 14.1 | 5.3 | 35.6 | 22.2 |
| Trafnidiaeth; storio a chyfathrebu | 5.5 | 5.5 | 5.4 | 5.6 | 7.1 | 5.8 | 1.7 | 7.7 |
| Cyfryngu ariannol | 2.6 | 2.6 | 2.6 | 3.0 | 2.8 | 3.6 | 1.3 | 2.8 |
| Ystadau; rhentu a gweithgareddau busnes | 8.5 | 8.5 | 8.3 | 10.2 | 7.5 | 11.0 | 6.5 | 7.4 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol | 6.8 | 6.8 | 4.6 | 6.2 | 4.7 | 5.7 | 2.2 | 3.1 |
| Addysg | 8.1 | 8.2 | 5.7 | 6.4 | 4.6 | 7.5 | 6.1 | 5.0 |
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 13.0 | 12.9 | 20.4 | 15.7 | 23.5 | 23.1 | 17.9 | 14.6 |
| Arall | 4.8 | 4.9 | 3.6 | 6.3 | 2.3 | 5.1 | 2.7 | 2.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 110 a 155)*

gweithio. Y ffynhonnell gyflogaeth bwysicaf ar gyfer y boblogaeth gyfan oedd y sector cyhoeddus (iechyd, addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a gweinyddu), a oedd yn cyflogi 27.9% o bawb a oedd mewn gwaith. Gweithgynhyrchu a dosbarthu cyfanwerth ac adwerth oedd y cyflogwyr nesaf o ran maint, ond yr oedd gweithgynhyrchu yn cyfrif am lai na phumed ran o'r gweithlu, ac nid oedd mwyngloddio a chwarela ond yn cyflogi 0.3% o bawb a oedd mewn gwaith. Yr oedd y bobl DLlE yn llai tebygol na'r gwyn o weithio mewn diwydiant gweithgynhyrchu, ond yn llawer mwy tebygol o weithio mewn gwestyau a thai bwyta ac yn y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yr oedd gwasanaethau'r sector cyhoeddus yn cyflogi 30.7% o'r bobl DLlE a 35.7% o'r bobl Ddu. Ar gyfer y bobl Asiaidd, cyfanwerthu ac adwerthu a thai bwyta a gwestyau oedd y prif ffynonellau cyflogaeth. Yr oedd rhagor na thraean o'r bobl Tsieineaidd ac Arall yn gweithio mewn gwestyau a thai bwyta. Yr oedd y ddau sector hyn ill dau yn cyflogi dros bumed ran o'r bobl Foslemaidd a oedd mewn gwaith.

Dangosir dosbarthiad y gweithwyr ar draws prif grwpiau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol yn ôl grŵp ethnig a chrefydd yn 2001 yn y Tabl 3.5. Amlygir rhai o'r is-brif grwpiau detholedig sy'n arbennig o bwysig ar gyfer grwpiau DLlE penodol.

Yr oedd canran uwch o'r DLlE nag o'r bobl wyn yn gweithio fel rheolwyr ac uwch-swyddogion. Ar gyfer pobl o'r grwpiau ethnig Asiaidd a Tsieineaidd ac Eraill, yr oedd y ganran hon yn uchel, ond yn is na'r cyfartaledd DLlE ar gyfer pobl o dras cymysg ac o'r grwpiau ethnig Du. Yn gyffredinol, yr oedd canran y bobl DLlE mewn galwedigaethau proffesiynol bron yn ddwywaith y ganran ar gyfer pobl wyn, gyda thros chwarter yr Asiaid a oedd mewn gwaith yn perthyn i'r prif grŵp DGS hwn. Meddygon oedd yn cyfrif am gyfran helaeth o'r gweithwyr hyn, gydag 17.9% o'r bobl Asiaidd a 9% o'r Moslemaidd yn gyflogedig fel "proffesiynolion iechyd", a phobl o bob un o'r grwpiau DLlE yn fwy tebygol na'r gwyn o fod yn perthyn i'r is-brif grŵp hwnnw. Yr oedd y bobl o'r grwpiau Du, tras cymysg a Tsieineaidd ac Eraill yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod mewn cyd-alwedigaethau proffesiynol a thechnegol megis "gweithwyr proffesiynol cyswllt iechyd a lles" (sy'n cynnwys nyrsys). Y bobl Tsieineaidd ac Arall yn unig (a oedd yn gweithio mewn "tecstiliau, argraffu a chrefftau medrus eraill") oedd yn fwy tebygol na'r bobl wyn o fod yn gweithio yn y crefftau medrus. Yr oedd pobl Ddu a phobl o dras cymysg yn fwy tebygol na phobl o'r grwpiau ethnig eraill o weithio mewn galwedigaethau gwasanaethau personol; ond galwedigaethau gwerthu oedd y pwysicaf ar gyfer grwpiau Asiaidd a phobl Foslemaidd. Tra bo'r bobl wyn yn fwy tebygol na phobl o'r grwpiau DLlE o fod yn weithwyr "proses, gweithredwyr offer a pheiriannau", yr oedd canran uwch o'r bobl o dras cymysg, pobl Ddu a phobl Foslemaidd mewn galwedigaethau elfennol.

## Tabl 3.5: Dadansoddiad galwedigaethol o gyflogaeth yn ôl grŵp ethnig ac ar gyfer pobl Foslemaidd (canrannau o'r cyflogedig)

| Prif grwpiau ac is-brif grwpiau detholedig DGS 2000 | Pob grŵp ethnig | Gwyn | DLlE | Tras cymysg | Asiaidd | Du | Tsieineaidd ac Eraill | Moslemaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob Galwedigaeth | 1,186,263 | 1,165,792 | 20,471 | 4,605 | 8,734 | 2,405 | 4,727 | 5,907 |
| 1. Rheolwyr ac Uwch-swyddogion | 12.2 | 12.2 | 14.6 | 12.0 | 16.6 | 8.9 | 16.1 | 16.5 |
| 2. Galwedigaethau Proffesiynol | 10.4 | 10.3 | 19.6 | 11.8 | 27.0 | 17.1 | 14.6 | 17.7 |
| *22. Proffesiynolion Iechyd* | *0.9* | *0.8* | *9.8* | *2.7* | *17.2* | *6.2* | *4.7* | *9.0* |
| 3. Cyd-alwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol | 12.8 | 12.8 | 12.8 | 14.7 | 9.0 | 17.9 | 15.3 | 7.5 |
| *32. Proffesiynolion Cyswllt Iechyd a Lles Cymdeithasol* | *4.0* | *4.0* | *5.8* | *4.4* | *3.3* | *8.6* | *10.2* | *2.6* |
| 4. Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 12.2 | 12.2 | 8.0 | 11.1 | 7.1 | 9.8 | 5.6 | 6.1 |
| 5. Galwedigaethau Crefftau Medrus | 13.4 | 13.5 | 11.5 | 9.0 | 9.3 | 8.7 | 19.5 | 13.3 |
| *54. Tecstiliau; Argraffu a Chrefftau Medrus Eraill* | *2.2* | *2.1* | *7.8* | *2.6* | *6.8* | *1.8* | *17.5* | *10.7* |
| 6. Galwedigaethau Gwasanaethau Personol | 7.4 | 7.5 | 4.6 | 8.0 | 2.7 | 8.6 | 3.0 | 3.4 |
| 7. Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | 8.0 | 8.0 | 9.4 | 10.6 | 9.9 | 6.8 | 8.6 | 10.8 |
| *71. Galwedigaethau Gwerthu* | *6.8* | *6.8* | *8.2* | *8.8* | *8.8* | *5.7* | *7.9* | *9.8* |
| 8. Gweithwyr Proses; Gweithredwyr Offer a Pheiriannau | 10.2 | 10.3 | 7.1 | 7.3 | 8.2 | 8.5 | 4.1 | 10.4 |
| 9. Galwedigaethau Elfennol | 13.3 | 13.3 | 12.5 | 15.5 | 10.2 | 13.7 | 13.2 | 14.2 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 109 a 154)*

### 3.2 Cyrhaeddiad addysgol

Yn gyffredinol yr oedd dwy ran o bump o'r bobl rhwng 16 a 74 oed heb unrhyw gymwysterau addysgol (neu'n meddu cymwysterau anhysbys) yng Nghymru yn 2001 (Tabl 3.6). Er mai traean yn unig o'r holl bobl DLlE a oedd heb gymwysterau, yr oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y grwpiau ethnig unigol. Pumed ran yn unig o'r bobl Indiaidd a chwarter y bobl Asiaidd Eraill a oedd heb gymwysterau, ond nid oedd unrhyw gymwysterau gan ddwy ran o bump o'r bobl Ddu Caribïaidd, na thros hanner y bobl Bangladeshi. Nid oedd cymwysterau addysgol chwaith gan ddwy ran o bump o'r bobl Foslemaidd.

Yr oedd y bobl wyn yn fwy tebygol na'r DLlE o feddu cymhwyster isel fel eu cymhwyster addysgol uchaf. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, yr oedd y bobl DLlE yn fwy tebygol o lawer na'r gwyn o feddu cymwysterau addysgol lefel uwch

(cymwysterau Lefel A ac uwch). Yr oedd cymwysterau uchel gan tua hanner y bobl Indiaidd a'r bobl o'r grwpiau ethnig Asiaidd Eraill ac Arall. Ymhlith y bobl o'r grwpiau ethnig Du a Du Prydeinig, yr oedd y bobl Affricanaidd yn llawer mwy tebygol na'r bobl wyn o fod â chymwysterau lefel uwch, tra bo'r bobl Garibïaidd yn llai tebygol na'r gwyn o feddu cymwysterau uchel. Y bobl a oedd ag un rhiant Du Caribïaidd oedd y lleiaf tebygol (12.7%) o feddu cymwysterau lefel uwch, er y gall ai hynny fod yn adlewyrchiad o'u hieuenctid cymharol.

### Tabl 3.6: Lefel y cymhwyster addysgol uchaf (canran o'r rhai 16-74 oed)


| | 16-74 Oed | Dim cymwysterau neu lefel anhysbys | Cymwysterau lefel isel | Cymwysterau lefel uwch |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm poblogaeth** | **2,075,347** | **40.2** | **42.4** | **17.4** |
| *Gwyn* | *2,034,501* | *40.4* | *42.5* | *17.1* |
| Gwyn: Prydeinig | 1,990,889 | 40.5 | 42.7 | 16.8 |
| Gwyn: Gwyddelig | 14,543 | 45.1 | 29.2 | 25.8 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 29,069 | 32.2 | 34.5 | 33.3 |
| ***DLIE*** | ***40,846*** | ***33.5*** | ***35.6*** | ***30.9*** |
| *Tras cymysg* | *9,087* | *32.1* | *46.5* | *21.3* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 2,891 | 38.6 | 48.8 | 12.7 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 1,349 | 35.4 | 43.4 | 21.2 |
| Gwyn ac Asiaidd | 2,480 | 25.0 | 47.9 | 27.0 |
| Cymysg Eraill | 2,367 | 29.9 | 44.1 | 26.0 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *17,682* | *34.2* | *32.8* | *33.0* |
| Indiaidd | 6,434 | 19.4 | 31.0 | 49.7 |
| Pacistanaidd | 5,433 | 42.4 | 36.7 | 20.9 |
| Bangladeshi | 3,253 | 56.0 | 32.4 | 11.6 |
| Asiaidd Eraill | 2,562 | 26.7 | 29.4 | 44.0 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *5,268* | *33.9* | *37.0* | *29.2* |
| Du Caribïaidd | 2,177 | 38.4 | 39.3 | 22.4 |
| Du Affricanaidd | 2,575 | 29.9 | 34.1 | 36.0 |
| Du Eraill | 516 | 34.9 | 41.5 | 23.6 |
| *Grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill* | *8,809* | *33.1* | *29.1* | *37.8* |
| Tsieineaidd | 4,855 | 38.8 | 33.5 | 27.7 |
| Grŵp Ethnig Arall | 3,954 | 26.2 | 23.6 | 50.2 |
| Caribïaidd | 5,068 | 38.5 | 44.7 | 16.8 |
| Affricanaidd | 3,924 | 31.8 | 37.3 | 30.9 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 1,510,448 | 42.1 | 41.2 | 16.7 |
| Bwdaidd | 4,763 | 28.0 | 35.1 | 36.8 |
| Hindŵaidd | 4,323 | 18.7 | 28.3 | 52.9 |
| Iddewig | 1,670 | 25.5 | 42.3 | 32.2 |
| Moslemaidd | 13,999 | 40.3 | 33.8 | 25.9 |
| Sicaidd | 1,385 | 34.2 | 42.2 | 23.7 |
| Unrhyw grefydd arall | 6,121 | 23.6 | 46.3 | 30.0 |
| Dim crefydd | 388,535 | 33.4 | 47.6 | 19.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 117 a 158)*

## 3.3 Iechyd


Mae Cyfrifiad Poblogaeth 2001 yn cynnwys dau ddangosydd iechyd unigolyn, sef iechyd cyffredinol, a salwch cyfyngol hirdymor (sef salwch sy'n parhau am flwyddyn neu ragor). Yn y Ffigur 3.1 dangosir sut y mae'r ganran o'r boblogaeth sy'n dioddef o afiechydon hirdymor cyfyngol yn cynyddu ochr yn ochr ag oedran. Ymhlith pob mewn oedran ymddeol, yr oedd bron 60% o'r dynion a chanran ychydig yn uwch o'r benywod yn dioddef o salwch hirdymor cyfyngol. Yr oedd y cyfraddau salwch hirdymor yn uwch ymhlith dynion gwyn na dynion DLlE ym mhob grŵp oedran; ond yn y grŵp oedran hynaf oll, yr oedd y ganran o'r benywod DLlE a oedd yn dioddef o afiechydon hirdymor cyfyngol ychydig yn uwch na'r ganran ar gyfer benywod gwyn.

### Ffigur 3.1: Canran o'r gwrywod a'r benywod sydd â salwch hirdymor cyfyngol, yn ôl oedran




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 107)*

### Ffigur 3.2: Canrannau o'r gwrywod a'r benywod sydd â salwch hirdymor cyfyngol, fesul grŵp ethnig





*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 107 a 152)*

Yn y Ffigur 3.2 dangosir gwrthgyferbyniadau o ran y ganran sy'n dioddef salwch hirdymor cyfyngol, yn ôl grŵp ethnig a rhyw. Yn y rhan fwyaf o'r grwpiau ethnig, yr oedd y cyfraddau salwch yn uwch ymhlith gwrywod na benywod. Yr oedd y gyfradd uchaf o salwch hirdymor cyfyngol (32% ar gyfer gwrywod a 30% i fenywod) yn digwydd ymhlith y bobl wyn Gwyddelig, y grŵp ethnig hynaf ar gyfartaledd (gweler Pennod 2), sef oddeutu 25% yn uwch na'r cyfraddau salwch cyfatebol ar gyfer yr holl bobl wyn.

Yr oedd tua chwarter y bobl wyn yn dioddef o salwch hirdymor cyfyngol, ond ar gyfartaledd yr oedd cyfraddau salwch o'r fath ymhlith pobl DLlE yn agos at hanner hynny. Ymhlith y bobl DLlE, pobl Ddu a Du Prydeinig oedd â'r cyfraddau salwch uchaf (20% o'r gwrywod a 18% o'r benywod). Yr oedd y cyfraddau salwch yn llawer uwch ymhlith pobl Ddu Caribïaidd na phobl Ddu Affricanaidd, gan adlewyrchu oedran gyfartalog hŷn y grŵp ethnig cyntaf.

Ymhlith y bobl Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig, y bobl Bacistanaidd oedd â'r cyfraddau salwch uchaf. Er gwaethaf oed cyfartalog hŷn y bobl Indiaidd, yr oedd eu cyfraddau salwch yn is. Y grŵp ethnig iachaf ar gyfartaledd oedd y bobl Tsieineaidd, gydag oddeutu 9% yn dioddef salwch cyfyngol hirdymor. Yn wahanol i'r grwpiau ethnig eraill, yr oedd iechyd benywod o'r grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill yn waeth nag iechyd y dynion.

## Ffigur 3.3: Canrannau gwrywod a benywod gyda salwch hirdymor cyfyngol, fesul crefydd





*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 152)*

Gan droi at grefydd (Ffigur 3.3), dilynwyr y ffydd Iddewig (sydd ag oedran cyfartalog uchel) a rhai a oedd yn arddel crefyddau "eraill" oedd â'r cyfraddau uchaf o salwch hirdymor cyfyngol. Yr oedd iechyd y bobl ddigrefydd ychydig yn well nag iechyd y Cristnogion oherwydd, yn ôl pob tebyg, bod eu hoedran cyfartalog yn is (ac efallai oherwydd eu statws economaidd-gymdeithasol uwch).

Pobl Hindŵaidd a Moslemaidd oedd â'r cyfraddau salwch hirdymor cyfyngol isaf, ac nid oedd cyfradd y bobl Sicaidd ond ychydig yn uwch. Ymhlith dilynwyr y tair crefydd hyn, yr oedd cyfraddau salwch ar gyfer benywod ychydig yn uwch nag ar gyfer gwrywod. Yr oedd Bwdyddion yn dioddef cyfraddau salwch uwch na dilynwyr y crefyddau lleiafrifol eraill, ond ychydig yn is na chyfraddau salwch y Cristnogion.

## 3.4 Tlodi plant

### Ffigur 3.4: Canran o blant dibynnol gwyn a DLlE, yn ôl DEG-YG y penteulu




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Thema Safonol 12)*

Un arall o arwyddion angen economaidd yw nifer y plant sydd mewn tlodi. Ceir dangosydd o hyn trwy edrych ar statws galwedigaethol yr aelwydydd lle mae plant yn byw. Yn Ffigur 3.4 dangosir y canrannau o blant dibynnol (0 i 15 oed) sy'n byw ar aelwydydd sydd â'u penteuluoedd ym mhob un o'r grwpiau DEG-YG (Dosbarthiad Economaidd Gymdeithasol Ystadegau Gwladol), gan gymharu plant gwyn a DLlE. Mae'r patrwm yn tueddu i adlewyrchu dosbarthiad galwedigaethol y ddau grŵp, gyda chanran ychydig yn uwch o blant DLlE ar aelwydydd lle mae'r penteulu mewn swydd reolwrol uwch neu broffesiynol, cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gyfrif, a galwedigaethau lled-arferol. Yr oedd plant gwyn yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd gyda phenteulu mewn swydd reolwrol is, neu alwedigaeth ganolraddol, neu alwedigaeth oruchwylio neu dechnegol is, neu alwedigaeth arferol. Fodd bynnag, yr oedd canran lawer uwch o blant DLlE na phlant gwyn yn byw ar aelwydydd lle'r oedd y penteulu naill ai heb weithio erioed, neu wedi bod yn ddi-waith am dymor hir, neu na ellid ei ddyrannu i grŵp DEG-YG, ac felly yn economaidd anweithgar. Yn y grwpiau cymdeithasol hyn, mae lefelau incwm aelwydydd ymhell islaw'r cyfartaledd.

Yn y Tabl 3.7 rhoddir dadansoddiad o'r gwrthgyferbyniadau hyn fesul grŵp ethnig unigol yn 2001. Yr oedd rhagor na phumed ran (21.9%) o'r plant DLlE, o gymharu ag 13.6% o'r plant gwyn, yn byw ar aelwydydd lle nad oedd y penteulu wedi gweithio ers cryn amser neu heb weithio erioed. Yr oedd dros chwarter y

plant Caribïaidd a thrydedd ran o'r plant Affricanaidd yn byw ar aelwydydd o'r fath. Yr oedd penteuluoedd tua dwy ran o bump o'r holl blant dibynnol naill ai'n perthyn i'r grwpiau galwedigaethol isaf (lled-arferol ac arferol) neu y tu allan i'r gweithlu; yr oedd eu nifer yn fwy na'r hanner yn achos plant Affricanaidd, Caribïaidd a Phacistanaidd, a bron yn dair rhan o bump yn achos plant Bangladeshi a Du Eraill. Ar y llaw arall, chwarter yn unig o'r plant dibynnol Indiaidd a Tsieineaidd oedd yn byw ar aelwydydd o'r fath.


## Tabl 3.7: Canran o'r plant dibynnol ar aelwydydd, yn ôl galwedigaeth person cyswllt yr aelwyd

| | Pob plentyn dibynnol | Rheolwrol a phroffesiynol | Galwedi-gaethau canolraddol | Cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gyfrif | Galwedigaethau goruchwyliol a thechnegol is | Lled-arferol ac arferol | Erioed Wedi Gweithio/ Di-waith Hirdymor/ Di-ddosbarth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth gyfan** | **658,564** | **30.1** | **6.3** | **11.1** | **12.2** | **26.3** | **13.9** |
| *Gwyn* | 636,748 | 30.2 | 6.4 | 10.9 | 12.4 | 26.5 | 13.6 |
| Prydeinig | 629,728 | 30.1 | 6.4 | 10.9 | 12.5 | 26.6 | 13.6 |
| Gwyddelig | 1,191 | 34.7 | 3.6 | 10.1 | 7.6 | 21.7 | 22.3 |
| Gwyn Eraill | 5,829 | 39.4 | 5.6 | 10.1 | 8.0 | 19.2 | 17.6 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***21,816*** | ***28.6*** | ***4.6*** | ***16.1*** | ***6.8*** | ***22.1*** | ***21.9*** |
| *Tras cymysg* | *8,984* | *32.5* | *6.8* | *9.0* | *7.5* | *21.8* | *22.3* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 3,210 | 20.9 | 7.9 | 6.6 | 8.7 | 28.0 | 27.9 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 1,120 | 29.7 | 6.7 | 8.0 | 8.7 | 22.6 | 24.3 |
| Gwyn ac Asiaidd | 2,693 | 42.0 | 5.6 | 11.8 | 6.6 | 16.4 | 17.6 |
| Cymysg Eraill | 1,961 | 40.0 | 6.8 | 9.8 | 6.1 | 18.7 | 18.7 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *8,421* | *23.9* | *3.0* | *21.9* | *6.6* | *24.1* | *20.5* |
| Indiaidd | 2,005 | 45.0 | 4.3 | 22.0 | 4.7 | 14.8 | 9.1 |
| Pacistanaidd | 3,088 | 17.7 | 2.7 | 27.7 | 5.4 | 22.7 | 23.9 |
| Bangladeshi | 2,388 | 8.5 | 1.6 | 19.2 | 11.3 | 37.2 | 22.2 |
| Asiaidd Eraill | 940 | 38.5 | 4.6 | 10.1 | 2.9 | 15.0 | 28.9 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *1,695* | *29.2* | *4.7* | *4.2* | *3.8* | *19.7* | *38.3* |
| Du Caribïaidd | 350 | 30.0 | 10.6 | 3.7 | 4.3 | 25.4 | 26.0 |
| Du Affricanaidd | 1,120 | 30.4 | 3.2 | 3.6 | 2.9 | 15.0 | 45.0 |
| Du Eraill | 225 | 22.2 | 2.7 | 8.4 | 8.0 | 34.2 | 24.4 |
| *Tsieineaidd neu arall* | *2,716* | *29.5* | *2.0* | *28.5* | *6.8* | *18.3* | *14.9* |
| Tsieineaidd | 1,518 | 19.4 | 1.6 | 47.0 | 6.9 | 17.6 | 7.6 |
| Grŵp ethnig arall | 1,198 | 42.4 | 2.4 | 5.1 | 6.8 | 19.2 | 24.1 |
| Caribïaidd | 3,560 | 21.8 | 8.2 | 6.3 | 8.3 | 27.7 | 27.7 |
| Affricanaidd | 2,240 | 30.0 | 5.0 | 5.8 | 5.8 | 18.8 | 34.6 |
| **Crefydd** | | | | | | | |
| Cristnogol | 418,711 | 33.7 | 6.7 | 11.9 | 12.8 | 24.3 | 10.7 |
| Bwdaidd | 595 | 34.8 | 4.4 | 22.0 | 6.2 | 19.0 | 13.6 |
| Hindŵaidd | 1,230 | 53.1 | 4.3 | 23.8 | 2.8 | 10.7 | 5.3 |
| Iddewig | 306 | 46.7 | 5.2 | 16.7 | 3.6 | 16.0 | 11.8 |
| Moslemaidd | 8,459 | 21.6 | 2.5 | 18.7 | 6.4 | 23.8 | 26.9 |
| Sicaidd | 658 | 20.1 | 5.2 | 25.8 | 8.5 | 25.1 | 15.3 |
| Unrhyw grefydd arall | 659 | 34.1 | 5.5 | 9.9 | 6.2 | 17.3 | 27.0 |
| Dim crefydd | 153,449 | 23.9 | 5.6 | 8.7 | 11.7 | 30.7 | 19.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Thema Safonol 12 a 52)*

Plant Indiaidd oedd y mwyaf tebygol, a phlant Bangladeshi y lleiaf tebygol, o fyw ar aelwyd gyda phenteulu rheolwrol neu broffesiynol. Yr oedd plant Tsieineaidd yn fwyaf tebygol o fyw ar aelwydydd gyda phenteulu a oedd yn gyflogwr bach neu'n rhedeg busnes ei hunan (47% o'r holl blant Tsieineaidd). Yr oedd plant o'r grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd lle'r oedd y penteulu o'r DEG-YG hwn, o gymharu â phlant o'r grwpiau ethnig gwyn, tras cymysg, Du a Du Prydeinig. Plant Bangladeshi a gwyn oedd y mwyaf tebygol o fyw ar aelwydydd gyda phenteulu sy'n gweithio mewn galwedigaeth oruchwyliol neu dechnegol is. Yr oedd bron ddwy ran o bump o'r plant Du a Du Prydeinig yn byw ar aelwydydd lle'r oedd y penteulu naill ai'n ddi-waith ers tymor hir, heb weithio erioed neu'n rhywun na ellid ei ddosbarthu i DEG-YG. Yr oedd hanner y plant Hindŵaidd a bron hanner y plant Iddewig yn byw ar aelwydydd rheolwrol neu broffesiynol, ond mwy na hanner y plant Moslemaidd yn byw ar aelwydydd lle'r oedd y penteulu mewn galwedigaeth lled-arferol neu arferol, neu y tu allan i'r farchnad lafur.

**Ffigur 3.5: Canran o blant dibynnol yn byw ar aelwydydd heb ddim oedolion economaidd-weithgar, neu gyda dau neu ragor**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Thema Safonol 12 a 52)*

Yn Ffigur 3.5 darperir persbectif gwahanol ar y gwrthgyferbyniadau ynglŷn â thlodi plant, trwy ddangos y canrannau o'r plant 0-15 oed ym mhob grŵp ethnig a chrefyddol a oedd yn byw ar aelwydydd naill ai heb ddim oedolion economaidd-weithgar yn bresennol, neu lle'r oedd dau neu ragor o oedolion o'r fath. Plant Indiaidd, Tsieineaidd a Hindŵaidd oedd y mwyaf tebygol o fwy ar aelwydydd gyda dau neu ragor o oedolion economaidd weithgar, sef y math mwyaf llewyrchus o aelwyd. Mewn gwrthgyferbyniad hynny, plant Affricanaidd a Charibïaidd oedd y mwyaf tebygol o fyw ar yr aelwydydd tlotaf, sef yr aelwydydd heb ddim oedolion economaidd weithgar.

## 3.5 Gallu ac anfantais ieithyddol

### Tabl 3.8: Canran oed yn alluog i siarad Cymraeg, 2001

| | Pob oedran | 3-4 oed | 5-15 oed | 16-19 oed | 20-44 oed | 45-64 oed | 65-74 oed | 75+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob grŵp ethnig** | **20.8** | **18.8** | **40.8** | **27.6** | **15.5** | **15.6** | **18.1** | **21.1** |
| Gwyn | 21.0 | 19.2 | 41.3 | 28.1 | 15.9 | 15.8 | 18.2 | 21.2 |
| Du a Lleiafrifol Ethnig | 9.6 | 7.4 | 26.9 | 13.1 | 2.8 | 2.8 | 4.5 | 9.2 |
| Tras cymysg | 18.1 | 12.5 | 34.8 | 19.4 | 6.7 | 6.4 | 6.7 | 11.1 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 6.9 | 3.2 | 22.2 | 10.2 | 1.7 | 1.7 | 3.6 | 9.4 |
| Du neu Ddu Prydeinig | 6.5 | 4.3 | 20.6 | 11.0 | 2.4 | 3.5 | 5.3 | 8.9 |
| Grŵp Ethnig Tsieineaidd neu Arall | 4.8 | 4.0 | 18.7 | 9.3 | 1.3 | 1.3 | 3.0 | 4.6 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Thema Safonol 15)*

Gellid dehongli'r gallu i siarad Cymraeg fel dangosydd anfantais o ran cael mynediad at wasanaethau. Mewn rhannau o ogledd Cymru (yn arbennig yng Ngwynedd) y Gymraeg yw'r iaith gyntaf, a gall diffyg hyfedredd yn y Saesneg a'r Gymraeg fod yn llyffethair i'r bobl DLlE. Yn gyffredinol, ychydig dros bumed ran o boblogaeth Cymru a allai siarad Cymraeg yn 2001, gyda'r canrannau uchaf yn digwydd yn y grwpiau oedran addysg orfodol (5 i 15 oed), lle y gallai dwy ran o bump siarad Cymraeg (Tabl 3.8). Digwydd hyn oherwydd bod y Gymraeg yn rhan o'r cwricwlwm ysgol. Mae'r ganran a all siarad Cymraeg wedyn yn lleihau wrth i'r oedran gynyddu, hyd at oedran ymddeol, pan yw'n cynyddu drachefn.

Yn 2001, llai nag 1 o bob 10 o'r grwpiau DLlE a allai siarad Cymraeg, sef hanner y cyfartaledd ar gyfer pobl wyn. Yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl DLlE a allai siarad Cymraeg mewn oedran a olygai eu bod naill ai'n ddisgyblion ysgol neu mewn addysg bellach neu uwch. Mae'r canrannau isel o bobl ifanc DLlE sy'n alluog i siarad Cymraeg i'w priodoli i'r ymgrynhoi mewn ardaloedd lle mae'r iaith Gymraeg wanaf, arwahaniad daearyddol y cymunedau DLlE, a'r tebygolrwydd uwch fod pobl ifanc o'r fath wedi derbyn eu haddysg y tu allan i Gymru (dramor neu yn Lloegr). Pobl o dras cymysg oedd y mwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg, sydd hwyrach yn arwydd o integreiddio i raddau mwy â chymuned fwyafrifol y bobl wyn. Yr oedd y bobl DLlE 75 oed a throsodd yn fwy tebygol nag oedolion DLlE eraill o fod yn siaradwyr Cymraeg. Gall hyn fod yn adlewyrchiad o'u hymfudo i Gymru ar adeg pan siaredid Cymraeg yn ehangach, neu ymfudo i rannau o Gymru lle'r oedd yr iaith yn gryfach.

### Tabl 3.9: Perchnogaeth Car yng Nghymru, 2001

| | Aelwydydd | Dim car | Un car | Dau gar neu ragor |
|---|---|---|---|---|
| **Pob grŵp ethnig** | **1,209,021** | **26.0** | **45.5** | **28.5** |
| *Gwyn* | *1,190,400* | *25.9* | *45.6* | *28.5* |
| Prydeinig | 1,164,985 | 25.8 | 45.6 | 28.6 |
| Gwyddelig | 9,437 | 32.3 | 44.0 | 23.7 |
| Gwyn Eraill | 15,978 | 27.2 | 45.8 | 27.0 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***18,621*** | ***29.6*** | ***43.9*** | ***26.5*** |
| *Tras cymysg* | *4,426* | *37.6* | *41.6* | *20.8* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,493 | 44.3 | 38.8 | 16.9 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 710 | 37.0 | 43.0 | 20.0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,042 | 28.2 | 45.2 | 26.6 |
| Cymysg Eraill | 1,181 | 37.7 | 41.2 | 21.1 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *7,466* | *23.1* | *45.4* | *31.5* |
| Indiaidd | 2,763 | 17.9 | 42.2 | 39.9 |
| Pacistanaidd | 2,179 | 22.3 | 47.6 | 30.1 |
| Bangladeshi | 1,226 | 36.0 | 49.4 | 14.6 |
| Asiaidd Eraill | 1,298 | 23.6 | 44.5 | 31.9 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *3,060* | *41.1* | *41.9* | *17.0* |
| Du Caribïaidd | 1,459 | 37.4 | 44.5 | 18.2 |
| Du Affricanaidd | 1,294 | 44.2 | 40.0 | 15.8 |
| Du Eraill | 307 | 46.3 | 37.5 | 16.3 |
| *Tsieineaidd neu arall* | *3,669* | *23.7* | *45.2* | *31.1* |
| Tsieineaidd | 1,998 | 20.2 | 46.8 | 33.0 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,671 | 28.0 | 43.2 | 28.8 |
| Caribïaidd | 2,952 | 40.9 | 41.6 | 17.5 |
| Affricanaidd | 2,004 | 41.7 | 41.0 | 17.3 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 25 | 46 | 29 |
| Bwdaidd | 2,666 | 25 | 49 | 26 |
| Hindŵaidd | 1,859 | 17 | 42 | 41 |
| Iddewig | 1,138 | 22 | 46 | 32 |
| Moslemaidd | 5,985 | 28 | 47 | 25 |
| Sicaidd | 611 | 21 | 42 | 37 |
| Unrhyw grefydd arall | 3,619 | 30 | 48 | 22 |
| Dim crefydd | 214,452 | 26 | 46 | 28 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 111 a 156)*

### 3.6 Perchnogaeth Car

Nid yw'r Cyfrifiad Poblogaeth yn cynnwys cwestiwn ynghylch incwm. Defnyddiwyd nifer o ddirprwyon i amcangyfrif incwm o'r data sydd yn y Cyfrifiad, a'r dewis mwyaf cyffredin yw perchnogaeth car. Rhagdybir bod aelwydydd gyda dau neu ragor o geir yn gymharol gyfoethog, er yr ystyrir

perchnogaeth car yn aml yn hanfodol mewn gwlad sy'n gymharol wledig, oherwydd prinder trafnidiaeth gyhoeddus. Gellir tybio bod aelwyd heb ddim car yn dynodi amddifadedd, yn nhermau incwm ac o ran mynediad at gyflogaeth a chyfleoedd eraill.

Yn y Tabl 3.9 dangosir y canrannau o'r aelwydydd, fesul grŵp ethnig a chrefydd, sydd heb ddim car, neu'n berchen un car, neu'n berchen dau neu ragor. Perchnogaeth car yw'r norm ar gyfer aelwydydd, bellach, gyda bron hanner yr aelwydydd yn berchnogion un car, a chwarter arall gyda dau gar neu ragor. Chwarter yr aelwydydd sydd heb gar, a'r rhain fydd yr aelwydydd tlotaf, y mwyaf oedrannus a'r mwyaf allgaeedig yn gymdeithasol.

O gymharu â'r gwyn, yr oedd canran uwch o'r aelwydydd DLlE heb ddim car o gwbl, ond nid oedd canran y rhai oedd  â dau gar ond ychydig yn is na chanran yr aelwydydd gwyn. Yr oedd gwrthgyferbyniad eglur rhwng gwahanol grwpiau DLlE. Pobl Asiaidd oedd y mwyaf tebygol o fod yn berchnogion car, ac yn llawer mwy tebygol nag aelwydydd gwyn o fod yn berchnogion dau gar neu ragor. Yr aelwydydd Indiaidd (39.9%) oedd y mwyaf tebygol o fod yn berchnogion dau gar, ond yr aelwydydd Bangladeshi (14.6%) oedd y lleiaf tebygol. Aelwydydd tras cymysg, Caribïaidd ac Affricanaidd oedd y lleiaf tebygol o fod yn berchnogion  car. Ymhlith aelwydydd Tsieineaidd a Phacistanaidd yr oedd canrannau lled debyg heb ddim car a chyda dau gar neu ragor. Yr oedd eu cyfradd perchnogaeth car ychydig yn uwch na chyfradd yr aelwydydd gwyn.

Aelwydydd Hindŵaidd oedd y tebycaf o fod yn berchnogion dau gar, gydag Aelwydydd Sicaidd yn ail. Yr aelwydydd Moslemaidd oedd â'r ganran uchaf heb ddim car.

## 3.7 Crynodeb

Yn y bennod hon, archwiliwyd nifer o'r mesurau anfantais cymdeithasol ac economaidd yn ôl grwpiau ethnig a chrefyddol ar gyfer Cymru gyfan.  Nid darlun syml o fantais i'r gwyn ac anfantais i'r DLlE yw'r hyn sy'n ymddangos. Yr oedd cryn amrywiaeth ymhlith y grwpiau DLlE, gyda rhai ohonynt bellach yn profi cyfraddau diweithdra cyffelyb neu is na chyfraddau'r bobl wyn. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau ethnig, yn enwedig pobl o'r grwpiau ethnig Du neu Ddu Prydeinig, yn ymddangos o dan anfantais ar sawl dimensiwn.

Tra bo cyfran o'r boblogaeth DLlE yn bendant mewn sefyllfa fanteisiol, naill ai mewn galwedigaethau proffesiynol neu'n rhedeg busnesau eu hunain, mae eraill yn dioddef lefel uchel o allgau cymdeithasol. Amlygir hyn yn y modd y mae eu cyflogaeth yn crynhoi o fewn amrediad cyfyng o sectorau diwydiannol, mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd isel, cyfraddau diweithdra uchel, canrannau uchel o blant ar aelwydydd lle nad oes neb yn ennill cyflog neu gyda phenteulu mewn galwedigaeth  o statws isel, ac mewn cyfraddau isel o berchnogaeth ceir.

# 4. Amgylchiadau tai pobl DLlE yng Nghymru

Yn y tair pennod gyntaf o'r adroddiad hwn, cyflwynwyd y cyd-destun ar gyfer tai DLlE yng Nghymru, ac adolygwyd yr hyn sy'n wybyddus am anghenion tai DLlE, natur y boblogaeth DLlE a'r gwrthgyferbyniadau rhwng y grwpiau ethnig o ran lefel eu hangen materol. Mae'r bennod bresennol yn canolbwyntio'n benodol ar amgylchiadau tai yr aelwydydd DLlE. Dechreuir trwy gyflwyno nodweddion yr aelwydydd a'r teuluoedd fesul grŵp ethnig yng Nghymru, cyn mynd ymlaen i ymdrin nodweddion ffisegol a deiliadaeth y tai fesul grŵp ethnig. Yn olaf, bydd y bennod hon yn ystyried amddifadedd tai yn bur fanwl.

## 4.1 Strwythur aelwydydd

### Tabl 4.1: Mathau o aelwyd yn ôl grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001 (canrannau o aelwydydd)

| | Aelwydydd | Oedolion unigol | Pensiynwyr unigol | Cyplau pensiynwyr | Cyplau di-blant | Cyplau â phlant | Rheini unigol | Aelwydydd myfyrwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth gyfan** | **1,209,048** | **13.7** | **15.5** | **9.6** | **16.9** | **20.8** | **10.6** | **0.4** |
| *Gwyn* | *1,190,399* | *13.6* | *15.6* | *9.7* | *17.0* | *20.7* | *10.6* | *0.4* |
| Prydeinig | 1,164,985 | 13.6 | 15.6 | 9.7 | 17.0 | 20.7 | 10.6 | 0.4 |
| Gwyddelig | 9,436 | 16.1 | 18.6 | 10.7 | 17.1 | 14.6 | 8.7 | 1.3 |
| Gwyn Eraill | 15,978 | 16.4 | 13.0 | 8.7 | 16.5 | 20.0 | 10.2 | 2.1 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***18,649*** | ***17.5*** | ***5.9*** | ***2.7*** | ***12.0*** | ***31.5*** | ***12.0*** | ***2.4*** |
| *Tras cymysg* | | | | | | | | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,493 | 21.7 | 8.6 | 3.9 | 11.8 | 17.4 | 24.8 | 0.6 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 708 | 19.8 | 6.9 | 2.1 | 12.4 | 25.1 | 18.8 | 2.1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,041 | 24.3 | 6.5 | 3.2 | 14.0 | 24.5 | 14.6 | 1.6 |
| Cymysg Eraill | 1,188 | 26.3 | 9.3 | 3.1 | 13.0 | 20.0 | 15.7 | 2.0 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *7,473* | *11.3* | *3.9* | *2.2* | *12.1* | *40.0* | *8.1* | *2.1* |
| Indiaidd | 2,764 | 12.3 | 3.1 | 3.0 | 17.8 | 36.0 | 6.5 | 3.7 |
| Pacistanaidd | 2,178 | 8.7 | 5.1 | 2.5 | 8.6 | 38.9 | 10.5 | 0.9 |
| Bangladeshi | 1,230 | 7.5 | 2.3 | 0.2 | 4.6 | 54.3 | 7.3 | 0.5 |
| Asiaidd Eraill | 1,301 | 17.1 | 4.8 | 2.2 | 13.3 | 36.8 | 8.1 | 2.2 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | | | | | | | | |
| Du Caribïaidd | 1,464 | 26.7 | 10.5 | 5.3 | 12.3 | 18.6 | 16.5 | 0.5 |
| Du Affricanaidd | 1,299 | 20.6 | 10.9 | 3.2 | 8.4 | 25.3 | 12.1 | 3.9 |
| Du Eraill | 310 | 25.2 | 9.4 | 2.3 | 8.1 | 21.3 | 20.3 | 1.9 |
| *Tsieineaidd neu arall* | | | | | | | | |
| Tsieineaidd | 2,001 | 16.2 | 4.0 | 2.1 | 12.3 | 32.9 | 9.7 | 4.3 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,672 | 20.0 | 3.2 | 1.4 | 12.6 | 38.0 | 8.1 | 4.3 |
| Caribïaidd | 2,957 | 24.2 | 9.5 | 4.6 | 12.0 | 18.0 | 20.7 | 0.6 |
| Affricanaidd | 2,007 | 20.3 | 9.5 | 2.8 | 9.8 | 25.3 | 14.4 | 3.3 |

*(Parhad)*

| | Aelwydydd | Oedolion unigol | Pensiynwyr unigol | Cyplau pensiynwyr | Cyplau di-blant | Cyplau â phlant | Rheini unigol | Aelwydydd myfyrwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 11.5 | 18.0 | 11.4 | 17.0 | 19.3 | 9.7 | 0.3 |
| Bwdaidd | 2,666 | 32.5 | 6.7 | 2.4 | 16.1 | 19.2 | 11.3 | 1.6 |
| Hindŵaidd | 1,862 | 11.6 | 3.1 | 3.0 | 18.8 | 37.9 | 5.3 | 3.3 |
| Iddewig | 1,139 | 17.7 | 20.7 | 11.9 | 19.1 | 13.9 | 6.3 | 0.5 |
| Moslemaidd | 5,985 | 12.5 | 2.6 | 1.0 | 8.6 | 43.1 | 10.1 | 1.8 |
| Sicaidd | 616 | 13.0 | 4.9 | 1.9 | 13.1 | 33.1 | 13.5 | 2.8 |
| Unrhyw grefydd arall | 3,620 | 27.8 | 9.8 | 3.7 | 16.7 | 15.1 | 15.7 | 1.1 |
| Dim crefydd | 214,452 | 20.5 | 5.0 | 3.0 | 17.3 | 27.9 | 14.3 | 0.9 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 106 a 151)*

Mae data'r Cyfrifiad ar strwythur yr aelwydydd yn arwyddo pa fath o lety sydd ei angen ar wahanol grwpiau ethnig. Yn y Tabl 4.1 rhoddir amlinelliad o strwythur aelwydydd y grwpiau ethnig yng Nghymru yn 2001. Mae'r dosbarthiad a ddefnyddir yn y Cyfrifiad yn gwahaniaethu rhwng 'teuluoedd' (sef rhieni gyda phlant neu gyplau heb blant) oddi wrth bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain a phobl ddiberthynas sy'n byw gyda'i gilydd. Yn gyffredinol yn 2001, 31.4% yn unig o'r aelwydydd oedd yn cynrychioli teuluoedd lle'r oedd plant yn bresennol; yr oedd pumed ran o'r holl aelwydydd yn gyplau gyda phlant a degfed ychwanegol yn aelwydydd rhieni unigol. Nodweddion y bobl wyn yn bennaf a adlewyrchir yn y cyfartaledd hwn, gan fod 43.5% o'r aelwydydd DLlE yn cynnwys teuluoedd (cyplau a rheini unigol) gyda phlant. Yr oedd cyplau gyda phlant 50% yn fwy cyffredin ymhlith aelwydydd DLlE o gymharu ag aelwydydd gwyn (31.5% o gymharu â 20.8%) ac aelwydydd rhieni unigol ychydig yn fwy cyffredin yn yr aelwydydd DLlE o gymharu â'r gwyn.

Fodd bynnag, mae'r gosodiad hwn ei hunan yn gyffredinoliad , gan ei fod yn cuddio gwahaniaethau sylweddol rhwng y grwpiau DLlE. Yr oedd dwy ran o bump o'r aelwydydd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig, a rhagor na thraean o'r aelwydydd Tsieineaidd ac Eraill yn cynnwys cyplau a phlant; ond 21.7% yn unig o'r Du a Du Prydeinig, a 21% o'r aelwydydd a oedd â pherson cyswllt o dras cymysg, oedd yn aelwydydd o'r math hwnnw. Ar y llaw arall, yr oedd teuluoedd rhieni unigol yn llai cyffredin na'r cyfartaledd ymhlith aelwydydd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig, ac yn llawer mwy cyffredin ymhlith aelwydydd lle'r oedd y person cyswllt o'r grŵp ethnig Du a Du Prydeinig neu o dras cymysg. Yr oedd dros hanner yr aelwydydd Bangladeshi yn cynnwys teuluoedd â phlant, tra oedd chwarter y personau cyswllt o'r grŵp ethnig "Cymysg: Gwyn/Du Caribïaidd" yn rhieni unigol (2.5 gwaith y cyfartaledd). O ystyried crefyddau, yr oedd cyplau â phlant yn cynrychioli pumed ran o'r aelwydydd Cristnogol a Bwdaidd, ond 33.1% of aelwydydd Sicaidd, 37.9% o'r Hindŵaidd a 43.1% of Moslemaidd.

### *4.1.1 Aelwydydd rhiant unigol*

Yr oedd aelwydydd rhiant unigol yn fwyaf cyffredin lle'r oedd person cyswllt yr aelwyd o'r grŵp ethnig Du neu Ddu Prydeinig neu o dras cymysg. Yr oedd bron chwarter yr aelwydydd lle'r oedd y person cyswllt o dras cymysg gwyn a Du Caribïaidd, a phumed ran o'r aelwydydd Du Eraill, yn aelwydydd rhiant unigol. Trwy adio at ei gilydd holl bersonau cyswllt yr aelwydydd o darddiad Caribïaidd, gwelir bod pumed ran o'r aelwydydd a oedd â'r tarddiad ethnig hwn yn aelwydydd rhiant unigol. Yn y grŵp ethnig Du Affricanaidd, yr oedd aelwydydd rhiant unigol yn llai cyffredin, ac yr oeddent yn llai cyffredin na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (ac eithrio'r bobl Bacistanaidd). Yr oedd canran y rhieni unigol yn isel iawn ymhlith pobl Hindŵaidd a phobl Iddewig, ond yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith pobl Sicaidd a phobl o "unrhyw grefydd arall" a'r "digrefydd".

### *4.1.2 Cyplau di-blant a phensiynwyr unigol*

Of the remaining two-thirds of all Ymhlith y dwy ran o dair sy'n weddill o'r holl aelwydydd, cyplau di-blant a phensiynwyr unigol oedd y categorïau mwyaf. Yn gyffredinol, yr oedd pensiynwyr yn cynrychioli chwarter yr holl aelwydydd. Yn y boblogaeth yn gyffredinol (ac ymhlith grwpiau ethnig gwyn), yr oedd degfed ran holl bersonau cyswllt yr aelwydydd yn bensiynwyr a oedd yn byw ar eu pen eu hunain. Yr oedd chweched ran ychwanegol yn bensiynwyr a oedd yn byw fel un o gwpl (ymhlith yr holl aelwydydd, y bobl wyn Gwyddelig oedd â'r gyfran uchaf o bensiynwyr). Dim ond 2.7% o'r holl aelwydydd DLlE oedd yn aelwydydd pensiynwyr, a'r grŵp ethnig Du Caribïaidd oedd â'r ganran uchaf (sef 5.3%). Nid oedd aelwydydd pensiynwyr unigol ond yn un rhan o dair mor gyffredin ymhlith aelwydydd DLlE, o gymharu ag aelwydydd gwyn. Ffodd bynnag, yr oedd dros 10% o bersonau cyswllt yr aelwydydd Du Caribïaidd a Du Affricanaidd ac 8.1% o'r personau cyswllt o dras cymysg yn bensiynwyr unigol, o gymharu â 3.9% o'r grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig. Yr oedd y ganran o bensiynwyr unigol a chyplau pensiynwyr yn arbennig o uchel ymhlith pobl Iddewig a Christnogol ac yn isel ymhlith pobl Foslemaidd.

Yr oedd cyplau di-blant yn fwyaf cyffredin ymhlith yr aelwydydd gwyn. O'r grwpiau DLlE, yr oedd canran y cyplau di-blant yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith pobl Indiaidd, ac yn isel iawn ymhlith y bobl Bacistanaidd, Affricanaidd ac, yn arbennig, Bangladeshi. Amlygwyd canrannau cymharol uchel o gyplau di-blant ymhlith y grwpiau ethnig Asiaidd Eraill, Tsieineaidd, "Arall" a Du Caribïaidd. Yr oeddent yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl Hindŵaidd ac Iddewig ac yn lleiaf cyffredin ymhlith pobl Foslemaidd. Yr oedd canran yr aelwydydd a gynrychiolid gan oedolion a oedd yn byw ar eu pen eu hunain yn arbennig o uchel ar gyfer pobl o'r grwpiau ethnig Du, pobl o dras cymysg a'r grŵp ethnig "Arall", a hefyd ymhlith Bwdyddion a phobl a oedd yn arddel crefydd "arall" neu'n "ddigrefydd". O gymharu â'r bobl wyn, yr oedd aelwydydd myfyrwyr yn llawer mwy cyffredin ymhlith grwpiau DLlE, yn arbennig ymhlith y grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill, a hefyd y grwpiau Du Affricanaidd ac Indiaidd.

## Tabl 4.2: Mathau o deulu a meintiau teuluoedd fesul grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001 (canrannau o deuluoedd)

| | Rhiant unigol | Priod neu ailbriod | Cyplau'n cyd-fyw |
|---|---|---|---|
| **Pob teulu** | **17.5** | **70.6** | **11.9** |
| *Gwyn* | *17.4* | *70.6* | *12.0* |
| Prydeinig | 17.4 | 70.6 | 12.0 |
| Gwyddelig | 15.7 | 71.6 | 12.7 |
| Gwyn Eraill | 17.6 | 69.6 | 12.8 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***20.3*** | ***71.5*** | ***8.2*** |
| *Tras cymysg* | *33.9* | *49.3* | *16.8* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 41.9 | 39.4 | 18.6 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 32.4 | 49.8 | 17.8 |
| Gwyn ac Asiaidd | 26.8 | 57.5 | 15.6 |
| Cymysg Eraill | 30.2 | 55.2 | 14.6 |
| *Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig* | *13.2* | *82.6* | *4.2* |
| Indiaidd | 10.1 | 85.8 | 4.1 |
| Pacistanaidd | 16.5 | 79.2 | 4.3 |
| Bangladeshi | 13.1 | 83.4 | 3.5 |
| Asiaidd Eraill | 13.7 | 81.6 | 4.8 |
| *Du a Du Prydeinig* | *30.9* | *55.9* | *13.2* |
| Du Caribïaidd | 31.3 | 50.8 | 17.8 |
| Du Affricanaidd | 28.2 | 63.3 | 8.5 |
| Du Eraill | 39.8 | 48.7 | 11.5 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *15.0* | *79.9* | *5.0* |
| Tsieineaidd | 15.9 | 78.1 | 6.1 |
| Grŵp ethnig arall | 14.0 | 82.4 | 3.7 |
| Tarddiad ethnig Caribïaidd | 37.0 | 44.8 | 18.2 |
| Tarddiad ethnig Affricanaidd | 29.8 | 58.2 | 12.0 |
| **Crefydd** | | | |
| Cristnogol | 16.0 | 74.7 | 9.3 |
| Bwdaidd | 22.5 | 62.0 | 15.4 |
| Hindŵaidd | 7.8 | 88.9 | 3.3 |
| Moslemaidd | 16.8 | 78.8 | 4.5 |
| Sicaidd | 19.6 | 75.0 | 5.4 |
| Iddewig | 12.5 | 75.2 | 12.3 |
| Arall | 29.9 | 52.9 | 17.2 |
| Dim crefydd | 22.5 | 55.7 | 21.8 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M235 ac M290)*

## Tabl 4.3: Maint teulu cymedrig fesul math o deulu, grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001

| | Pob teulu | Rhiant unigol | Married or re-married | Cohabiting couple |
|---|---|---|---|---|
| **Pob teulu** | **2.9** | **2.6** | **2.9** | **2.8** |
| *Gwyn* | *2.8* | *2.5* | *2.9* | *2.8* |
| Prydeinig | 2.9 | 2.6 | 2.9 | 2.8 |
| Gwyddelig | 2.1 | 1.6 | 2.2 | 2.2 |
| Gwyn Eraill | 2.6 | 2.2 | 2.7 | 2.6 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***3.6*** | ***3.7*** | ***3.7*** | ***3.2*** |
| *Tras cymysg* | *5.2* | *5.4* | *5.3* | *4.2* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 5.1 | 5.8 | 4.7 | 4.3 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 4.2 | 4.8 | 4.1 | 3.5 |
| Gwyn ac Asiaidd | 6.3 | 6.3 | 6.9 | 4.4 |
| Cymysg Eraill | 4.8 | 4.5 | 5.2 | 4.2 |
| *Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig* | *3.4* | *3.0* | *3.5* | *2.9* |
| Indiaidd | 3.0 | 2.8 | 3.0 | 2.6 |
| Pacistanaidd | 3.7 | 3.2 | 3.8 | 3.1 |
| Bangladeshi | 4.2 | 3.3 | 4.3 | 3.9 |
| Asiaidd Eraill | 2.8 | 2.5 | 2.9 | 2.2 |
| *Du a Du Prydeinig* | *2.6* | *2.6* | *2.8* | *2.1* |
| Du Caribïaidd | 2.0 | 2.0 | 2.2 | 1.8 |
| Du Affricanaidd | 3.2 | 3.2 | 3.3 | 2.6 |
| Du Eraill | 2.9 | 2.8 | 3.0 | 2.9 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *3.2* | *2.5* | *3.4* | *2.8* |
| Tsieineaidd | 3.2 | 2.5 | 3.4 | 2.3 |
| Grŵp ethnig arall | 3.2 | 2.4 | 3.3 | 3.8 |
| Tarddiad ethnig Caribïaidd | 3.7 | 4.3 | 3.4 | 3.2 |
| Tarddiad ethnig Affricanaidd | 3.6 | 3.9 | 3.6 | 3.1 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 2.8 | 2.3 | 2.9 | 2.8 |
| Bwdaidd | 2.4 | 1.7 | 2.7 | 2.2 |
| Hindŵaidd | 2.8 | 2.4 | 2.9 | 2.5 |
| Moslemaidd | 3.7 | 3.1 | 3.8 | 3.1 |
| Sicaidd | 3.4 | 3.0 | 3.5 | 2.7 |
| Iddewig | 2.4 | 2.1 | 2.4 | 2.2 |
| Arall | 2.3 | 1.7 | 2.6 | 2.4 |
| Dim crefydd | 2.9 | 2.9 | 3.0 | 2.8 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M235 ac M290)*

## 4.2 Mathau o deuluoedd

Yn 2001, cyplau priod neu ailbriod oedd 70.6% o'r teuluoedd yng Nghymru; yr oedd 11.9% arall o'r holl deuluoedd yn gyplau a oedd yn cyd-fyw, ac 17.5% yn deuluoedd rhiant unigol (Tabl 4.2). Tra oedd canran y teuluoedd priod neu ailbriod ychydig yn uwch ar gyfer y bobl DLlE na'r gwyn, yr oedd canran y cyplau a oedd yn cyd-fyw yn is.

Rhieni unigol oedd dros 30% o bersonau cyswllt y teuluoedd o dras cymysg neu o'r grwpiau ethnig Du, ac yr oedd y cyfraddau'n arbennig o uchel ar gyfer pobl o dras Caribïaidd a phobl Ddu Eraill. Yn wir, rhieni unigol oedd y categori mwyaf ymhlith teuluoedd gyda phenteulu o dras cymysg Gwyn/Du Caribïaidd, ac yr oedd cyplau priod neu ailbriod yn lleiafrif. Y bobl a nododd eu crefydd fel "arall", "dim crefydd" neu Bwdaidd oedd y mwyaf tebygol, a phobl Hindŵaidd oedd y lleiaf tebygol, o fod yn rhieni unigol.

Yr oedd cyd-fyw yn fwyaf cyffredin ymhlith personau cyswllt teuluol o dras cymysg ac o darddiad ethnig Du Caribïaidd neu Ddu Eraill. Y bobl ddigrefydd neu ddilynwyr crefydd "arall" a'r Bwdyddion oedd y mwyaf tebygol o gyd-fyw. Mae canran y cyplau sy'n cyd-fyw yn isel iawn ymhlith y grwpiau ethnig De Asiaidd.

### *4.2.1 Maint teuluoedd*

Ar gyfartaledd, yr oedd 2.9 person yn byw ym mhob teulu, ac ychydig yn llai na hynny mewn teuluoedd rhieni unigol (Tabl 4.3). Yn y teulu DLlE cyfartalog, yr oedd oddeutu un person ychwanegol ar yr aelwydydd lle'r oedd rhieni unigol neu gyplau priod, ond 0.4 person ychwanegol lle'r oedd cyplau'n cyd-fyw. Cafwyd y teuluoedd mwyaf lle'r oedd personau cyswllt teuluol o dras cymysg, ond yr oedd teuluoedd gyda phenteulu Du yn llai ar gyfartaledd na theuluoedd gwyn. Yr oedd teuluoedd gyda phenteulu De Asiaidd yn fwy na'r cyfartaledd, a theuluoedd Bangladeshi oedd y mwyaf oll, gyda 4.2 person ym bob teulu  Yr oedd  teuluoedd gyda phenteuluoedd Du Caribïaidd a Du Affricanaidd yn llai na'r cyfartaledd, mae'n debyg oherwydd bod y grwpiau ethnig hyn yn cynnwys canran gymharol fach o bobl ifanc. Fodd bynnag, os ystyrir yr holl deuluoedd o darddiad Caribïaidd neu Affricanaidd gyda'i gilydd (h.y. gan ychwanegu teuluoedd lle'r oedd person cyswllt y teulu o dras cymysg Gwyn a Du Caribïaidd neu Ddu Affricanaidd), datgelir fod maint cymedrig teuluoedd Caribïaidd ac Affricanaidd yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl grwpiau DLlE. Teuluoedd gyda phenteuluoedd Moslemaidd neu Sicaidd oedd y mwyaf ar gyfartaledd, a'r lleiaf oedd y rheini gyda pherson cyswllt Bwdaidd neu o grefydd "arall".

Yr oedd yr amrywiadau hyn ym maint y teuluoedd fesul grŵp ethnig yn debyg iawn yn achos teuluoedd cyplau.  Fodd bynnag, yr oedd yr amrywiad yn ôl y grŵp ethnig yn fwy ym maint y teuluoedd rhieni unigol. Yr oedd teuluoedd rhieni unigol o'r grwpiau ethnig Du Caribïaidd, Asiaidd Eraill a Tsieineaidd ac Eraill yn llai na'r cyfartaledd, a theuluoedd Pacistanaidd a Bangladeshi yn ddim ond ychydig yn fwy na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, yr oedd maint cyfartalog y teulu pan oedd y person cyswllt o dras cymysg yn 5.4 person, sef mwy na dwywaith y cyfartaledd. Er bod teuluoedd arbennig o fawr gan rieni unigol o darddiad Caribïaidd, y teuluoedd mwyaf oedd y rheini lle'r oedd person cyswllt y teulu o dras cymysg Gwyn ac Asiaidd (er nad oedd ond 180 o aelwydydd o'r math hwn yng Nghymru yn 2001).

## *4.3 Cyfansoddiad yr Aelwydydd o ran dosbarth cymdeithasol*

Darperir rhagor o gyd-destun yma ar gyfer yr adrannau o'r bennod hon sy'n ymwneud ag amddifadedd tai, trwy drafod dadansoddiad o Bersonau Cyswllt yr Aelwydydd (PCA) fesul grŵp ethnig a chrefydd, gan ddefnyddio'r dosbarthiad DEG-YG (Tabl 4.4).

Un o nodweddion trawiadol y tabl hwn yw'r ganran llawer uwch o'r PCA DLlE sy'n perthyn i'r grwpiau DEG-YG rheolwrol a phroffesiynol uwch a "chyflogwyr bach", o gymharu â'r PCA gwyn. Fodd bynnag, yr oedd y PCA DLlE yn llai tebygol o weithio mewn galwedigaethau goruchwyliol a

thechnegol is, tra oedd y ganran "ddi-ddosbarth" yn lawer is nag ydoedd ar gyfer y PCA gwyn, gan mai'r rhain yw'r bobl (hŷn fel rheol) sy'n anweithgar yn economaidd. Ar y llaw arall, yr oedd canran y PCA a oedd naill ai'n ddi-waith ers tymor hir neu heb weithio erioed yn llawer uwch ymhlith y DLlE nag ymhlith y PCA gwyn. Yr oedd yn amlwg, felly fod yr aelwydydd DLlE yn cynnwys rhai tra breintiedig yn ogystal ag aelwydydd difreintiedig iawn, a bod y gynrychiolaeth o'r eithafoedd hyn yn fwy nag ydoedd ymhlith y boblogaeth o bobl wyn.

**Tabl 4.4: DEG-YG Personau Cyswllt yr Aelwydydd (canrannau) fesul grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001 (canrannau o Bersonau Cyswllt yr Aelwydydd)**

| Grŵp ethnig neu grefydd | Pob PCA | Galwedigaethau rheolwrol a phroffesiynol uwch | Galwedigaethau rheolwrol a phroffesiynol is | Galwedigaethau canolraddol | Cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gyfrif | Galwedigaethau goruchwyliol a thechnegol is | Galwedigaethau lled-arferol | Galwedigaethau arferol | Erioed wedi gweithio a di-waith hirdymor | Di-ddosbarth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1,209,067** | **7.0** | **15.2** | **5.4** | **7.9** | **8.2** | **9.2** | **9.1** | **2.8** | **35.1** |
| *Gwyn* | *1,190,403* | *6.9* | *15.3* | *5.4* | *7.8* | *8.2* | *9.2* | *9.1* | *2.7* | *35.3* |
| Prydeinig | 1,164,984 | 6.8 | 15.3 | 5.5 | 7.8 | 8.3 | 9.2 | 9.2 | 2.7 | 35.2 |
| Gwyddelig | 9,436 | 8.9 | 14.6 | 3.5 | 7.1 | 6.1 | 7.0 | 7.4 | 3.4 | 42.0 |
| Gwyn Eraill | 15,983 | 12.7 | 15.9 | 4.8 | 8.3 | 6.0 | 7.3 | 6.7 | 3.4 | 34.9 |
| ***Du a Lleiafrifol Ethnig*** | ***18,664*** | ***16.6*** | ***13.2*** | ***4.7*** | ***12.8*** | ***5.9*** | ***11.3*** | ***6.4*** | ***6.9*** | ***22.2*** |
| *Tras cymysg* | *4,428* | *9.3* | *15.4* | *6.8* | *6.4* | *8.2* | *11.7* | *8.9* | *7.6* | *25.7* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,492 | 5.1 | 12.4 | 7.2 | 5.6 | 9.7 | 13.7 | 11.5 | 8.8 | 26.1 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 711 | 7.3 | 17.0 | 6.8 | 8.6 | 8.9 | 13.4 | 8.6 | 6.2 | 23.3 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,036 | 15.1 | 18.2 | 6.9 | 6.9 | 6.4 | 9.9 | 6.0 | 7.1 | 23.4 |
| Cymysg Eraill | 1,189 | 10.7 | 15.7 | 6.2 | 5.8 | 7.4 | 9.8 | 8.3 | 7.4 | 28.7 |
| *Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig* | *7,470* | *23.4* | *10.1* | *3.7* | *16.9* | *4.7* | *11.5* | *5.2* | *6.9* | *17.6* |
| Indiaidd | 2,760 | 39.7 | 12.2 | 4.1 | 12.8 | 3.2 | 5.9 | 3.2 | 2.6 | 16.2 |
| Pacistanaidd | 2,177 | 11.4 | 7.9 | 3.6 | 23.6 | 4.8 | 12.1 | 6.0 | 10.4 | 20.3 |
| Bangladeshi | 1,233 | 6.3 | 5.2 | 2.5 | 19.3 | 9.3 | 24.9 | 9.4 | 10.4 | 12.4 |
| Asiaidd Eraill | 1,300 | 25.2 | 14.0 | 4.3 | 11.9 | 3.7 | 9.4 | 4.2 | 6.5 | 20.8 |
| *Du a Du Prydeinig* | *3,083* | *10.0* | *16.0* | *5.5* | *5.0* | *5.9* | *10.8* | *7.8* | *9.1* | *29.9* |
| Du Caribïaidd | 1,465 | 7.2 | 19.2 | 7.1 | 5.3 | 7.4 | 12.2 | 9.8 | 5.8 | 26.0 |
| Du Affricanaidd | 1,308 | 13.3 | 12.6 | 3.4 | 4.5 | 4.1 | 9.2 | 5.0 | 13.2 | 34.6 |
| Du Eraill | 310 | 9.4 | 15.2 | 7.1 | 5.2 | 5.8 | 11.3 | 10.0 | 7.4 | 28.7 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *3,683* | *16.8* | *14.3* | *3.4* | *18.6* | *5.7* | *11.1* | *4.7* | *4.2* | *21.1* |
| Tsieineaidd | 2,002 | 10.7 | 10.2 | 3.3 | 29.1 | 5.8 | 13.1 | 3.9 | 3.2 | 20.6 |
| Grŵp ethnig arall | 1,681 | 24.1 | 19.2 | 3.6 | 6.1 | 5.6 | 8.7 | 5.6 | 5.4 | 21.6 |
| Tarddiad ethnig Caribïaidd | 2,957 | 6.1 | 15.8 | 7.1 | 5.4 | 8.6 | 12.9 | 10.7 | 7.3 | 26.1 |
| Tarddiad ethnig Affricanaidd | 2,019 | 11.2 | 14.2 | 4.6 | 5.9 | 5.8 | 10.6 | 6.2 | 10.7 | 30.7 |
| **Crefydd** | | | | | | | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 6.4 | 14.7 | 5.3 | 7.8 | 7.7 | 8.6 | 8.3 | 2.0 | 39.2 |
| Bwdaidd | 2,662 | 15.3 | 21.3 | 5.9 | 11.8 | 5.3 | 7.9 | 5.4 | 4.1 | 23.1 |
| Hindŵaidd | 1,865 | 43.3 | 12.0 | 3.5 | 13.5 | 2.5 | 5.2 | 2.9 | 1.8 | 15.2 |
| Moslemaidd | 5,989 | 14.4 | 9.6 | 3.2 | 17.0 | 5.7 | 13.9 | 6.5 | 10.4 | 19.2 |
| Sicaidd | 618 | 13.4 | 12.9 | 4.4 | 21.7 | 6.1 | 8.3 | 7.8 | 7.1 | 18.3 |
| Iddewig | 1,146 | 14.5 | 17.4 | 4.4 | 11.0 | 4.0 | 3.4 | 3.1 | 2.4 | 39.9 |
| Arall | 3,622 | 9.0 | 21.2 | 5.6 | 8.5 | 5.6 | 9.3 | 5.6 | 5.7 | 29.4 |
| Dim crefydd | 214,450 | 9.0 | 17.8 | 6.2 | 8.3 | 10.7 | 11.7 | 12.7 | 5.1 | 18.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 109 a 154)*

Ar lefel y grwpiau ethnig a chrefyddau unigol, yr oedd y gwrthgyferbyniadau'n fwy trawiadol eto. Yr oedd penteuluoedd dwy ran o bump o'r aelwydydd Indiaidd mewn galwedigaeth reolwrol neu broffesiynol uwch, ac yr oedd canrannau'r PCA o'r grŵp cymdeithasol hwn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yn y grwpiau ethnig Asiaidd Eraill, "Arall", Du Affricanaidd a Phacistanaidd. Yr oedd PCA Hindŵaidd (43.3%) yn llawer mwy tebygol na phobl o grefyddau eraill o fod yn Rheolwyr neu broffesiynolion uwch. Mae'r PCA Tsieineaidd a'r holl PCA De Asiaidd yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn gyflogwyr bach neu weithwyr hunan-gyfrif. Fodd bynnag, yr oedd y bobl Ddu a phobl o dras cymysg yn llawer llai tebygol o fod yn rhedeg eu busnes eu hunan. Yr oedd y bobl Sicaidd a Moslemaidd yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn gyflogwyr bach neu'n weithwyr hunan-gyfrif.

Yr oedd pobl Ddu (yn enwedig y bobl Ddu Caribïaidd), pobl o dras cymysg a phobl o'r grwpiau ethnig "Arall" yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o weithio mewn galwedigaethau rheolwrol a phroffesiynol is, categori sy'n cynnwys nyrsys a phroffesiynolion cyswllt eraill. Yr oedd y bobl o'r grwpiau ethnig Du a Du Prydeinig, pobl o dras cymysg a phobl Bangladeshi a Tsieineaidd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o weithio mewn galwedigaethau lled-arferol. Yr oedd PCA Du Affricanaidd, Pacistanaidd a Bangladeshi yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn ddi-waith ers tymor hir neu heb weithio erioed. Yr oedd PCA Moslemaidd yn fwy tebygol nag eraill o weithio mewn galwedigaethau lled-arferol neu o fod yn ddi-waith ers tymor hir neu heb weithio erioed.

Mae hyn yn datgelu patrwm ffyniant pur gymhleth, gyda chryn amrywiaeth profiad rhwng ac o fewn y grwpiau ethnig. Er enghraifft, mae'r cyfartaledd y bobl Indiaid yn cwmpasu Hindŵiaid o statws uchel iawn (gyda gorbwysedd, mae'n debyg, o broffesiynolion meddygol ac addysg uwch) yn ogystal â'r Siciaid llai ffyniannus o lawer, sy'n llawer mwy tebygol o fod yn rhedeg eu busnes eu hunain. Yr oedd y grwpiau ethnig Pacistanaidd a Bangladeshi yn cynnwys canrannau uwch na'r cyfartaledd o rai a oedd yn rhedeg eu busnes eu hunain ac o rai mewn galwedigaethau statws-isel, neu heb fynediad i'r farchnad lafur. Ymhlith y PCA Du Affricanaidd, yr oedd gorgynrychiolaeth o broffesiynolion yn ogystal â'r di-waith hirdymor.

## 4.4 Mathau ffisegol o dai

Y math mwyaf cyffredin o annedd yng Nghymru yn 2001 oedd tŷ neu fyngalo pâr (y "tŷ semi"), a oedd yn cyfrif am 32.5% o'r holl aelwydydd, wedyn y tŷ teras a'r tŷ ar wahân; yr oedd y tri hyn rhyngddynt yn cyfrif am bron 90% o'r holl anheddau (Tabl 4.5). Dim ond 10.9% o'r aelwydydd oedd yn byw mewn fflatiau, ac yr oedd y rhan fwyaf o'r fflatiau hynny wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, ac nid yn rhan o dŷ a addaswyd. Yr oedd aelwydydd o'r grwpiau DLlE yn fwy tebygol nag aelwydydd gwyn o fyw mewn fflatiau a thai teras, ac yn llai tebygol o fyw mewn tai ar wahân neu dai pâr.

Aelwydydd gyda phobl Ddu (yn enwedig aelwydydd Du Affricanaidd) a phobl o dras cymysg, ynghyd ag aelwydydd o ethnigrwydd "Arall", oedd y mwyaf tebygol o fyw mewn fflatiau (a godwyd yn bwrpasol ac a addaswyd). Yr oedd degfed ran o'r aelwydydd Tsieineaidd a 4.8% o'r bobl Indiaidd yn byw mewn fflatiau mewn adeiladau masnachol (uwchben adeiladau adwerthu, mae'n debyg). Mewn tai teras yr oedd dros hanner yr aelwydydd Bangladeshi a bron hanner yr aelwydydd Pacistanaidd yn byw, ac yr oedd pobl Ddu o darddiad ethnig Caribïaidd ac Affricanaidd hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn tai teras.

Ym mhen arall yr amrediad tai, yr oedd aelwydydd gyda phenteuluoedd o'r grwpiau ethnig Indiaidd, "Arall", Asiaidd Eraill a Tsieineaidd, a oedd yn fwy tebygol na'r aelwydydd gwyn o fyw mewn tai ar wahân.

Aelwydydd Moslemaidd oedd y mwyaf tebygol o fyw mewn tai teras, ac yr oeddent yn llai tebygol nag aelwydydd o'r grwpiau crefyddol eraill o fyw mewn tai ar wahân neu dai pâr. Yn wrthgyferbyniol i hynny, yr oedd aelwydydd Iddewig a Hindŵaidd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn anheddau ar wahân ac yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn anheddau teras. Yr oedd aelwydydd Sicaidd hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn anheddau teras a fflatiau mewn adeiladau masnachol, ac yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn tai ar wahân neu dai pâr.

**Tabl 4.5: Mathau o anheddau fesul grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001 (canrannau o'r aelwydydd)**

| | Pob math o dai | Tŷ neu fyngalo ar wahân | Tŷ neu fyngalo pâr | Tŷ neu fyngalo teras | Fflat; maisonette; neu randy: Pwrpasol | Fflat; maisonette; neu randy: Rhan o dŷ addasedig neu a rennir | Fflat; maisonette; neu randy: mewn adeilad masnachol | Carafán neu adeiledd symudol neu dros-dro arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth gyfan** | **1,209,067** | **27.1** | **32.5** | **29.2** | **7.8** | **2.1** | **1.0** | **0.4** |
| *Gwyn* | *1,190,403* | *27.2* | *32.6* | *29.1* | *7.7* | *2.1* | *1.0* | *0.4* |
| Prydeinig | 1,164,984 | 27.2 | 32.7 | 29.2 | 7.6 | 2.0 | 0.9 | 0.4 |
| Gwyddelig | 9,436 | 24.7 | 29.7 | 29.1 | 10.0 | 4.6 | 1.4 | 0.7 |
| Gwyn Eraill | 15,983 | 27.1 | 28.1 | 28.2 | 9.3 | 4.9 | 1.9 | 0.5 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***18,664*** | ***21.0*** | ***23.5*** | ***33.8*** | ***12.6*** | ***5.3*** | ***3.3*** | ***0.4*** |
| *Cymysg* | *4,428* | *16.8* | *27.5* | *32.5* | *15.2* | *6.3* | *1.3* | *0.4* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,492 | 13.0 | 29.1 | 34.7 | 16.5 | 5.4 | 1.1 | 0.2 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 711 | 11.7 | 28.4 | 35.4 | 17.0 | 5.3 | 1.7 | 0.4 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,036 | 22.5 | 28.0 | 29.2 | 11.8 | 7.5 | 1.1 | 0.0 |
| Cymysg Eraill | 1,189 | 19.8 | 24.4 | 31.0 | 15.3 | 7.0 | 1.7 | 0.8 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *7,470* | *23.3* | *22.2* | *37.1* | *9.3* | *4.2* | *3.5* | *0.3* |
| Indiaidd | 2,760 | 31.9 | 21.0 | 24.7 | 12.4 | 5.1 | 4.8 | 0.1 |
| Pacistanaidd | 2,177 | 17.3 | 23.3 | 46.3 | 5.1 | 3.5 | 3.7 | 0.8 |
| Bangladeshi | 1,233 | 10.4 | 18.2 | 57.7 | 7.1 | 3.8 | 2.2 | 0.5 |
| Asiaidd Eraill | 1,300 | 27.6 | 26.8 | 28.2 | 11.7 | 4.0 | 1.7 | 0.0 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *3,083* | *13.4* | *23.0* | *35.9* | *18.4* | *7.0* | *1.9* | *0.4* |
| Du Caribïaidd | 1,465 | 10.4 | 23.7 | 41.2 | 16.9 | 6.5 | 1.3 | 0.0 |
| Du Affricanaidd | 1,308 | 16.3 | 22.1 | 30.4 | 20.0 | 8.2 | 2.3 | 0.7 |
| Du Eraill | 310 | 15.2 | 23.5 | 34.2 | 18.4 | 4.8 | 2.9 | 1.0 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *3,683* | *27.8* | *21.9* | *27.0* | *11.6* | *4.9* | *6.3* | *0.4* |
| Tsieineaidd | 2,002 | 27.6 | 20.4 | 30.3 | 7.7 | 3.8 | 10.0 | 0.1 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,681 | 28.1 | 23.7 | 23.0 | 16.4 | 6.1 | 2.0 | 0.8 |
| Caribïaidd | 2,957 | 11.7 | 26.4 | 37.9 | 16.7 | 6.0 | 1.2 | 0.1 |
| Affricanaidd | 2,019 | 14.7 | 24.3 | 32.2 | 19.0 | 7.2 | 2.1 | 0.6 |
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 28.9 | 33.1 | 27.7 | 7.4 | 1.7 | 0.8 | 0.3 |
| Bwdaidd | 2,662 | 28.1 | 24.1 | 27.3 | 11.0 | 6.2 | 2.7 | 0.5 |
| Hindŵaidd | 1,865 | 33.7 | 21.2 | 22.8 | 13.1 | 4.6 | 4.1 | 0.5 |
| Moslemaidd | 5,989 | 17.5 | 21.9 | 41.8 | 10.4 | 4.9 | 3.2 | 0.2 |
| Sicaidd | 618 | 25.2 | 23.6 | 31.1 | 6.6 | 4.0 | 8.9 | 0.5 |
| Iddewig | 1,146 | 36.5 | 24.1 | 18.3 | 14.1 | 4.6 | 1.8 | 0.5 |
| Arall | 3,622 | 23.7 | 25.7 | 31.8 | 9.8 | 6.7 | 1.4 | 1.0 |
| Dim crefydd | 214,450 | 20.7 | 31.0 | 34.8 | 8.2 | 3.5 | 1.5 | 0.4 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M263 ac M317)*

### 4.5 Maint yr aelwydydd

Gall yr amrywiadau rhwng y grwpiau ethnig, o ran maint yr aelwydydd sy'n byw mewn gwahanol fathau o annedd, fod yn arwydd o'r angen am dai, er enghraifft os datgelir bod aelwydydd mawr o ryw grŵp penodol yn byw mewn mathau o anheddau sydd, yn nodweddiadol, â llai o le ynddynt. Ar gyfartaledd, yr aelwydydd lle'r oedd y penteulu o dras cymysg oedd y mwyaf o ran maint, wedyn yr aelwydydd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, ac wedyn y Tsieineaidd ac Eraill. Ar gyfartaledd, yr oedd nifer y preswylwyr ar aelwydydd Du a Du Prydeinig yn llai nag ar yr aelwydydd gwyn.

**Tabl 4.6: Unigolion ar bob aelwyd mewn anheddau o bob math, Cymru 2001**

| | POB AELWYD | Aelwydydd mewn llety nas rhennir | Aelwydydd mewn llety nas rhennir | Flat, maisonette or apartment | Caravan or other mobile or temporary structure | Household in shared accommodation |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1,209,047** | **2.4** | **2.5** | **1.5** | **1.9** | **1.4** |
| *Gwyn* | 1,190,399 | 2.4 | 2.5 | 1.5 | 1.9 | 1.3 |
| Prydeinig | 1,164,985 | 2.4 | 2.5 | 1.5 | 1.9 | 1.3 |
| Gwyddelig | 9,436 | 1.8 | 1.9 | 1.4 | 1.8 | 1.2 |
| Gwyn Eraill | 15,978 | 2.2 | 2.3 | 1.7 | 2.3 | 1.4 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | 18,648 | 3.2 | 3.5 | 2.2 | 2.3 | 1.6 |
| *Cymysg* | 4,432 | 3.9 | 4.5 | 2.0 | 2.1 | 1.3 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,493 | 4.0 | 4.6 | 1.9 | 2.8 | 1.7 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 709 | 3.3 | 3.8 | 2.0 | 1.7 | 1.0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,042 | 4.7 | 5.4 | 2.2 | 1.8 | 1.5 |
| Cymysg Eraill | 1,188 | 3.5 | 4.1 | 1.8 | 2.0 | 1.1 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *7,472* | *3.3* | *3.5* | *2.6* | *2.9* | *2.1* |
| Indiaidd | 2,762 | 2.9 | 2.9 | 2.5 | 3.3 | 1.8 |
| Pacistanaidd | 2,178 | 3.8 | 3.9 | 2.9 | 2.4 | 2.2 |
| Bangladeshi | 1,231 | 4.4 | 4.6 | 3.2 | 5.3 | 3.4 |
| Asiaidd Eraill | 1,301 | 2.5 | 2.6 | 2.0 | 2.3 | 2.0 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | 3,073 | 2.2 | 2.4 | 1.6 | 1.8 | 1.5 |
| Du Caribïaidd | 1,464 | 1.7 | 1.9 | 1.3 | - | 1.0 |
| Du Affricanaidd | 1,300 | 2.7 | 3.0 | 1.9 | 1.6 | 1.8 |
| Du Eraill | 309 | 2.4 | 2.6 | 1.6 | - | 1.3 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | 3,671 | 2.9 | 3.0 | 2.3 | 1.8 | 1.2 |
| Tsieineaidd | 1,999 | 2.9 | 3.0 | 2.6 | - | 1.3 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,672 | 2.8 | 3.1 | 2.0 | 1.8 | 1.1 |
| Caribïaidd | 2,957 | 2.9 | 3.2 | 1.6 | 1.6 | 1.4 |
| Affricanaidd | 2,009 | 2.9 | 3.3 | 2.0 | 1.6 | 1.6 |
| **Crefydd** | | | | | | |
| Cristnogol | 891,218 | 2.3 | 2.4 | 1.4 | 1.9 | 1.3 |
| Bwdaidd | 2,656 | 1.9 | 2.0 | 1.5 | 1.6 | 1.1 |
| Hindŵaidd | 1,844 | 2.8 | 2.8 | 2.5 | 2.8 | 1.2 |
| Iddewig | 1,134 | 1.9 | 2.0 | 1.4 | 1.0 | 1.2 |
| Moslemaidd | 5,957 | 3.6 | 3.8 | 2.5 | 2.5 | 2.2 |
| Sicaidd | 608 | 3.2 | 3.3 | 2.6 | - | 4.1 |
| Arall | 3,596 | 1.9 | 2.0 | 1.4 | 1.8 | 1.3 |
| Dim | 214,094 | 2.6 | 2.8 | 1.6 | 2.1 | 1.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M263 ac M317)*

Mae'r Tabl 4.6 yn dangos maint cyfartalog yr aelwydydd sy'n byw ym mhob math ffisegol o annedd. Yn gyffredinol, yr oedd yr aelwydydd mwyaf yn byw yn yr anheddau mwyaf yn 2001 - yr oedd maint cyfartalog yr aelwyd yn fwy o un person mewn tai a bynglos o gymharu â fflatiau a maisonettes. Tueddai'r aelwydydd DLlE i fod yn fwy na'r aelwydydd gwyn, ac yr oedd yr aelwydydd DLlE mwyaf hefyd yn byw mewn tai a bynglos. Yr aelwydydd mwyaf oedd y rheini lle'r oedd person cyswllt yr aelwyd o dras cymysg neu o darddiad ethnig Bangladeshi. Ymhlith y nifer fach o aelwydydd a oedd yn byw mewn llety dros-dro, dengys y tabl fod yr aelwydydd De Asiaidd (yn enwedig Bangladeshi) yn tueddu i fod yn fwy na'r cyfartaledd. At ei gilydd, aelwydydd bach a oedd yn byw mewn llety a rannwyd (eu maint cyfartalog oedd 1.7 person), ond yr oedd yr aelwydydd Bangladeshi a oedd yn rhannu llety ddwywaith cymaint â'r cyfartaledd hwnnw.

## 4.7 Deiliadaeth tai

### Tabl 4.7: Math o ddeiliadaeth yr aelwydydd fesul grŵp ethnig, Cymru 2001 (canrannau o'r holl aelwydydd)

| | POB AELWYD | Perchen-ddeiliadaeth | Ar rent gan y cyngor | Cymdeithasol arall ar rent | Preifat ar rent, neu'n ddi-rent |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1,209,047** | **71.3** | **13.7** | **4.2** | **10.8** |
| *Gwyn* | *1,190,399* | *71.5* | *13.8* | *4.1* | *10.6* |
| Prydeinig | 1,164,985 | 71.7 | 13.8 | 4.1 | 10.4 |
| Gwyddelig | 9,436 | 65.2 | 14.4 | 5.5 | 14.9 |
| Gwyn Eraill | 15,978 | 64.7 | 10.6 | 3.9 | 20.8 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***18,648*** | ***58.2*** | ***11.6*** | ***7.3*** | ***23.0*** |
| *Cymysg* | *4,432* | *50.7* | *19.1* | *10.2* | *20.0* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,493 | 46.5 | 23.1 | 13.6 | 16.8 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 709 | 47.5 | 23.7 | 9.9 | 18.8 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,042 | 58.1 | 13.7 | 7.2 | 21.0 |
| Cymysg Eraill | 1,188 | 51.3 | 16.0 | 8.9 | 23.7 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *7,472* | *67.0* | *6.4* | *4.8* | *21.8* |
| Indiaidd | 2,762 | 66.3 | 3.8 | 3.0 | 26.9 |
| Pacistanaidd | 2,178 | 72.5 | 6.8 | 5.0 | 15.7 |
| Bangladeshi | 1,231 | 62.8 | 10.0 | 8.5 | 18.7 |
| Asiaidd Eraill | 1,301 | 63.1 | 7.8 | 4.9 | 24.2 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *3,073* | *48.6* | *19.6* | *12.6* | *19.2* |
| Du Caribïaidd | 1,464 | 58.7 | 18.9 | 10.5 | 11.9 |
| Du Affricanaidd | 1,300 | 38.2 | 19.5 | 14.5 | 27.9 |
| Du Eraill | 309 | 44.3 | 23.9 | 15.2 | 17.2 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *3,671* | *57.3* | *6.2* | *4.2* | *32.3* |
| Tsieineaidd | 1,999 | 71.3 | 4.6 | 1.9 | 22.3 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,672 | 40.6 | 8.1 | 7.1 | 44.1 |
| Caribïaidd | 2,957 | 52.6 | 21.0 | 12.0 | 14.4 |
| Affricanaidd | 2,009 | 41.5 | 21.0 | 12.8 | 24.7 |

*(Parhad)*

| | POB AELWYD | Perchen- | Ar rent gan y cyngor | Cymdeithasol arall ar rent | Preifat ar rent, neu'n ddi-rent |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd** | | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 74.1 | 13.1 | 3.7 | 9.1 |
| Bwdaidd | 2,666 | 60.4 | 9.0 | 4.8 | 25.8 |
| Hindŵaidd | 1,861 | 66.1 | 2.8 | 2.7 | 28.4 |
| Iddewig | 1,139 | 75.0 | 5.8 | 4.8 | 14.4 |
| Moslemaidd | 5,985 | 58.8 | 10.1 | 8.5 | 22.6 |
| Sicaidd | 615 | 71.9 | 7.6 | 3.7 | 17.1 |
| Arall | 3,620 | 56.7 | 13.5 | 6.5 | 23.3 |
| Dim | 86,551 | 66.2 | 16.6 | 4.8 | 12.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 111 a 156)*

Yn gyffredinol, yr oedd ymhell dros ddwy ran o dair o'r aelwydydd yng Nghymru yn berchen-ddeiliaid (naill ai'n berchnogion cyfan-gwbl neu'n prynu eu cartrefi). Yr oedd awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol eraill yn lletya 17.9% o'r holl aelwydydd, a landlordiaid o'r sector preifat yn darparu llety i 10.8% o'r holl aelwydydd (Tabl 4.7). Ar gyfartaledd yr oedd yr aelwydydd DLlE yn llai tebygol nag aelwydydd gwyn o fod yn berchnogion eu tai eu hunain; ond yr oeddent hefyd yn llai tebygol o fyw mewn llety a rentiwyd gan yr awdurdod lleol. Felly, yr oedd aelwydydd DLlE ddwywaith mor debygol ag aelwydydd gwyn o fyw mewn llety a rentiwyd gan y sector preifat, a hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn llety a ddarperir gan gymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol eraill.

Mae'r cyfartaledd cyffredinol hwn ar gyfer yr aelwydydd DLlE yn cuddio gwahaniaethau sylweddol rhwng y gwahanol grwpiau ethnig. Yr oedd dwy ran o dair o'r aelwydydd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig yn berchnogion eu hanheddau; ond hanner yn unig o'r aelwydydd a oedd â phenteulu o'r grwpiau ethnig Du neu Ddu Prydeinig neu dras cymysg oedd yn berchnogion eu cartrefi. Yr oedd y ddau grŵp ethnig olaf yn fwy tebygol na'r grwpiau ethnig bras eraill o fyw mewn llety ar rent, yn enwedig tai a rentiwyd gan awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol arall. O gymharu ag aelwydydd o'r grwpiau ethnig eraill, yr oedd aelwydydd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn llai tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol ar rent, ond yn fwy tebygol o fyw mewn llety ar rent o'r sector preifat. Yr aelwydydd DLlE gyda phenteuluoedd Pacistanaidd a Tsieineaidd oedd y mwyaf tebygol o fod yn berchen-ddeiliaid (sef canran debyg i'r aelwydydd gwyn). Yr aelwydydd gyda phenteuluoedd o'r grwpiau ethnig "Arall", Du Affricanaidd ac Asiaidd Eraill oedd y mwyaf tebygol o fyw mewn llety ar rent o'r sector preifat.

Gan ystyried crefydd y penteulu, aelwydydd Iddewig a Sicaidd oedd y mwyaf tebygol o fod yn berchen-ddeiliaid, a'r aelwydydd gyda phenteulu Hindŵaidd oedd y mwyaf tebygol o rentu gan landlordiaid preifat. Aelwydydd gyda pherson cyswllt Sicaidd oedd y mwyaf tebygol o rentu gan landlordiaid cymdeithasol.

## Tabl 4.8: Maint aelwyd cymedrig (nifer unigolion am bob aelwyd) ym mhob math o ddeiliadaeth fesul grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001

| | Perchen-ddeiliadaeth | Rhentiwyd gan y Cyngor | Cymdeithasol arall | Rhentiwyd o'r sector preifat |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **2.4** | **2.2** | **2.2** | **2.2** |
| *Gwyn* | *2.4* | *2.2* | *2.2* | *2.1* |
| Prydeinig | 2.4 | 2.2 | 2.2 | 2.1 |
| Gwyddelig | 1.9 | 1.5 | 1.4 | 1.9 |
| Gwyn Eraill | 2.2 | 2.1 | 1.9 | 2.2 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***3.4*** | ***3.0*** | ***3.0*** | ***2.9*** |
| *Cymysg* | *4.3* | *3.7* | *3.8* | *3.3* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 4.0 | 4.1 | 4.3 | 3.5 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 3.4 | 3.2 | 3.3 | 3.2 |
| Gwyn ac Asiaidd | 5.2 | 4.2 | 3.7 | 3.9 |
| Cymysg Eraill | 4.0 | 3.1 | 3.1 | 2.8 |
| *Asiaidd neu Asiaidd* | *3.4* | *3.1* | *3.0* | *3.0* |
| Indiaidd | 2.9 | 2.3 | 2.2 | 2.7 |
| Pacistanaidd | 3.9 | 3.3 | 3.2 | 3.4 |
| Bangladeshi | 4.7 | 4.0 | 3.9 | 3.6 |
| Asiaidd Eraill | 2.5 | 2.4 | 2.3 | 2.8 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *2.1* | *2.0* | *2.5* | *2.3* |
| Du Caribïaidd | 1.8 | 1.6 | 1.6 | 1.7 |
| Du Affricanaidd | 2.6 | 2.5 | 3.1 | 2.7 |
| Du Eraill | 2.5 | 2.1 | 2.6 | 2.0 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *3.0* | *2.4* | *2.1* | *2.7* |
| Tsieineaidd | 3.0 | 2.2 | 2.3 | 2.6 |
| Grŵp Ethnig Arall | 3.0 | 2.6 | 2.0 | 2.8 |
| Caribïaidd | 2.8 | 3.0 | 3.1 | 2.8 |
| Affricanaidd | 2.9 | 2.8 | 3.2 | 2.8 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 2.4 | 2.0 | 2.0 | 2.0 |
| Bwdaidd | 2.0 | 1.7 | 1.6 | 1.9 |
| Hindŵaidd | 2.8 | 1.9 | 1.9 | 2.7 |
| Iddewig | 1.9 | 1.7 | 1.7 | 1.9 |
| Moslemaidd | 3.9 | 3.1 | 3.2 | 3.2 |
| Sicaidd | 3.4 | 2.4 | 2.5 | 2.9 |
| Arall | 2.0 | 1.7 | 1.5 | 1.7 |
| Dim | 2.5 | 2.7 | 2.4 | 2.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 111 a 156, a'r Tablau Thema 15 a 53)*

### *4.7.1 Maint aelwydydd yn ôl deiliadaeth*

Mae'r Tabl 4.8 yn dangos y maint cymedrig yr aelwydydd ar gyfer pob grŵp ethnig a chrefyddol. Ar gyfartaledd, yr oedd maint yr aelwydydd yn fwy mewn llety perchen-ddeiliadaeth o gymharu â llety ar rent, ar gyfer aelwydydd gwyn a DLlE fel ei gilydd; ond yr oedd yr aelwydydd Caribïaidd mwyaf mewn llety cymdeithasol ar rent. Yr aelwydydd mwyaf oedd y rhai gyda phersonau cyswllt o'r grwpiau ethnig tras cymysg Gwyn/Asiaidd, Bangladeshi, Pacistanaidd a Sicaidd ac a oedd yn byw mewn anheddau perchen-ddeiliadaeth.

**Tabl 4.9: Mathau o annedd a deiliadaeth ar gyfer aelwydydd gwyn a DLlE, Cymru 2001**

| | GWYN | | | DLlE | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perchen-ddeiliadaeth | Rhent, cymdeithasol | Rhent, sector preifat | Perchen-ddeiliadaeth | Rhent, cymdeithasol | Rhent, sector preifat |
| Ar wahân | 34.0 | 4.9 | 18.3 | 29.3 | 6.1 | 10.4 |
| Llety pâr | 33.9 | 37.1 | 21.2 | 27.1 | 28.3 | 21.5 |
| Tŷ/bynglo teras | 28.8 | 28.2 | 30.5 | 37.4 | 35.4 | 29.9 |
| Fflatiau pwrpasol | 2.0 | 27.2 | 10.9 | 2.2 | 27.3 | 18.8 |
| Fflat - tŷ a addaswyd neu a rennir (gan gynnwys fflatiau | 0.6 | 2.3 | 12.4 | 0.9 | 2.0 | 10.4 |
| Fflat neu maisonette mewn adeilad masnachol | 0.4 | 0.2 | 6.1 | 2.2 | 1.0 | 9.0 |
| Adeiledd symudol neu dros-drostructure | 0.3 | 0.1 | 0.6 | 0.9 | 0.0 | 0.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 Sampl unigol 3% o'r cofnodion a wnaed yn ddienw*

### *4.7.2 Deiliadaeth tai a math o annedd*

O'r aelwydydd hunan-ddeiliadaeth, yr oedd y rhai gyda phersonau cyswllt DLlE yn llawer mwy tebygol na'r aelwydydd gwyn o fwy mewn anheddau teras (Tabl 4.9). Yn y sector rhentu cymdeithasol, yr oedd aelwydydd DLlE yn llai tebygol nag aelwydydd gwyn o fyw mewn tai pâr, yn ddim mwy tebygol o fyw mewn fflatiau, ond unwaith eto'n fwy tebygol o fyw mewn anheddau teras. Yn y sector rhentu preifat, yr oedd aelwydydd DLlE yn fwy tebygol o fyw mewn fflatiau a adeiladwyd yn bwrpasol ac mewn fflatiau neu maisonettes o fewn adeiladau masnachol.

**Tabl 4.10: Canran sy'n byw ym mhob math o deulu yn ôl deiliadaeth ar gyfer aelwydydd gwyn a DLlE, Cymru 2001**

| | GWYN | | | DLlE | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perchen-ddeiliadaeth | Rhent, cymdeithasol | Rhent, sector preifat | Perchen-ddeiliadaeth | Rhent, cymdeithasol | Rhent, sector preifat |
| Rhiant unigol - gwryw | 1.4 | 2.2 | 1.9 | 1.5 | 3.0 | 1.8 |
| Rhiant unigol - benyw | 6.4 | 27.6 | 20.8 | 8.9 | 35.9 | 15.8 |
| Cwpl priod - dim plant | 23.6 | 10.6 | 9.8 | 12.8 | 3.9 | 6.5 |
| Cwpl priod - y plant i gyd yn perthyn i'r ddau bartner | 42.7 | 21.0 | 16.1 | 55.8 | 29.9 | 35.0 |
| Cwpl priod - y plant i gyd yn perthyn i'r ddau bartner | 3.8 | 4.6 | 2.6 | 4.0 | 3.3 | 2.3 |
| Cwpl yn cyd-fyw - dim plant | 3.6 | 2.4 | 7.2 | 1.9 | 0.7 | 2.8 |
| Cwpl yn cyd-fyw - y plant i gyd yn perthyn i'r ddau bartner | 2.9 | 5.5 | 4.2 | 2.0 | 3.3 | 1.3 |
| Cwpl yn cyd-fyw - y plant i gyd ddim yn perthyn i'r ddau bartner | 2.3 | 4.3 | 3.3 | 1.3 | 2.0 | 0.3 |
| Unigolyn di-grŵp (nid mewn teulu) | 13.2 | 21.7 | 34.2 | 11.9 | 18.1 | 34.5 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 Sampl unigol 3% o'r cofnodion a wnaed yn ddienw*

### *4.7.3 Mathau o deulu a deiliadaeth*

Cyplau priod oedd y math mwyaf cyffredin o lawer o deulu a oedd yn byw mewn tai perchen-ddeiliadaeth, sef 70.1% o'r bobl wyn a 72.6% o'r DLlE a oedd yn byw yn y categori deiliadaeth hwn (Tabl 4.11), ond yr oedd yr aelwydydd DLlE yn fwy tebygol o gynnwys plant dibynnol. Yr oedd cyplau a oedd yn cyd-fyw ychydig yn fwy cyffredin ymhlith aelwydydd gwyn, a rhieni unigol yn fwy cyffredin ymysg aelwydydd DLlE. Yn y sector rhentu cymdeithasol, yr oedd canran y bobl wyn a oedd yn byw mewn aelwydydd rhieni unigol bron cymaint â'r ganran a oedd yn byw mewn teuluoedd cwpl priod, a'r trydydd categori mwyaf oedd y bobl nad oeddent yn byw mewn teuluoedd. Yn yr aelwydydd DLlE, yr oedd 38.9% o'r holl bobl a oedd yn byw mewn llety cymdeithasol ar rent yn byw mewn teuluoedd rhiant unigol. Yr oedd cyplau gwyn yn fwy tebygol na chyplau DLlE o beidio â byw gyda phlant. O ran darparu llety i bobl sengl, yr oedd y sector rhentu preifat yn ffynhonnell bwysig, gyda 34.2% o'r bobl wyn a 34.5% o'r bobl DLlE nad oeddent yn byw mewn teulu.

Un gwahaniaeth mawr rhwng y bobl wyn a'r DLlE oedd fod 37.3% o'r bobl DLlE a oedd yn byw mewn llety ar rent yn y sector preifat yn byw mewn teuluoedd cwpl priod gyda phlant dibynnol - mwy na dwywaith y ganran gyfatebol ar gyfer pobl wyn.

### *4.7.4 Amrywiadau daearyddol mewn deiliadaeth tai DLlE*

**Tabl 4.11: Cyfansoddiad deiliadaeth yr aelwydydd DLlE, Cymru 2001 (canrannau o'r aelwydydd DLlE)**

| | Aelwydydd DLlE | Perchen-ddeiliadaeth | Rhent, Cyngor | Cymdeithasol arall ar rent | Sector preifat |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | 280 | 73.6 | 6.4 | 3.2 | 20.0 |
| Sir y Fflint | 381 | 70.9 | 11.5 | 4.5 | 13.4 |
| Caerffili | 555 | 70.8 | 11.5 | 5.6 | 12.1 |
| Conwy | 367 | 69.5 | 6.5 | 4.9 | 22.6 |
| Bro Morgannwg | 799 | 68.6 | 10.1 | 6.0 | 15.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 501 | 66.5 | 15.0 | 1.8 | 13.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 828 | 65.6 | 6.4 | 6.5 | 21.5 |
| Tor-faen | 265 | 63.4 | 22.3 | 4.5 | 12.5 |
| Ynys Môn | 152 | 63.2 | 7.9 | 2.0 | 26.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 535 | 62.2 | 8.8 | 2.2 | 26.0 |
| Merthyr Tudful | 203 | 61.6 | 7.9 | 3.0 | 26.1 |
| Casnewydd | 1,874 | 59.2 | 15.7 | 8.6 | 16.1 |
| Abertawe | 1,353 | 56.5 | 9.7 | 8.1 | 26.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 527 | 56.2 | 11.2 | 5.7 | 26.2 |
| Caerdydd | 7,713 | 55.0 | 11.7 | 9.5 | 23.8 |
| Sir Benfro | 337 | 54.6 | 11.6 | 3.0 | 29.7 |
| Powys | 303 | 54.5 | 8.9 | 4.0 | 32.0 |
| Gwynedd | 381 | 53.3 | 10.2 | 3.4 | 31.0 |
| Sir Ddinbych | 335 | 52.2 | 8.7 | 6.3 | 33.4 |
| Blaenau Gwent | 188 | 51.1 | 25.0 | 6.4 | 12.8 |
| Wrecsam | 483 | 43.9 | 17.6 | 7.5 | 31.5 |
| Ceredigion | 315 | 40.0 | 4.8 | 2.2 | 51.1 |
| **Cymru** | **18,675** | **58.1** | **11.6** | **7.3** | **22.9** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 111)*

Yr oedd deiliadaeth y tai lle'r oedd aelwydydd DLlE yn preswylio yn amrywio'n fawr ymysg awdurdodau unedol Cymru yn 2001(Tabl 4.11). Yn Sir Fynwy, Sir y Fflint, Caerffili, Conwy a Bro Morgannwg yr oedd dros ddwy ran o dair yn berchen-ddeiliaid, ond llai na'u hanner oedd yn berchen-ddeiliaid yng Ngheredigion a Wrecsam. Yr oedd y canrannau uchaf a oedd yn rhentu gan yr awdurdodau lleol yn digwydd ym Mlaenau Gwent a Thor-faen, ond mewn rhannau eraill o'r cymoedd (e.e. Rhondda Cynon Taf) yr oedd y ganran bron mor isel ag yn yr ardaloedd gyda'r canrannau isaf o rentu gan yr awdurdod lleol (sef Ceredigion). Yr oedd y canrannau uchaf a oedd yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol eraill yn digwydd yn y tair dinas yn ne Cymru (9.5% yng Nghaerdydd) ac yn Wrecsam. Dibynnai'r aelwydydd DLlE yn fwyaf ar landlordiaid o'r sector preifat am eu llety yng Ngheredigion, lle'r oedd 51.1% yn byw mewn llety sector preifat ar rent, yna mewn ardaloedd gwledig megis Sir Ddinbych a Phowys, ac wedyn Wrecsam. Yn y Cymoedd - Caerffili, Tor-faen a Blaenau Gwent yr oedd y canrannau isaf a oedd yn rhentu o'r sector preifat.

**Tabl 4.12: Aelwydydd DLIE fel canran o'r aelwydydd ym mhob categori deiliadaeth, Cymru 2001**

| | Aelwydydd DLIE | Oll | Perchen-ddeiliadaeth | Rhent, Cyngor | Cymdeithasol arall ar rent | Sector preifat |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 7,713 | 6.2 | 4.9 | 7.1 | 9.0 | 11.2 |
| Casnewydd | 1,874 | 3.3 | 2.8 | 3.1 | 5.7 | 6.8 |
| Bro Morgannwg | 799 | 1.6 | 1.4 | 1.9 | 2.4 | 2.7 |
| Abertawe | 1,353 | 1.4 | 1.2 | 1.0 | 2.3 | 3.4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 535 | 1.0 | 0.8 | 0.8 | 0.7 | 3.1 |
| Ceredigion | 315 | 1.0 | 0.6 | 0.5 | 0.8 | 2.9 |
| Merthyr Tudful | 203 | 0.9 | 0.8 | 0.4 | 0.5 | 2.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 501 | 0.9 | 0.8 | 0.8 | 0.4 | 1.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 828 | 0.9 | 0.8 | 0.5 | 1.3 | 1.9 |
| Wrecsam | 483 | 0.9 | 0.6 | 0.7 | 2.5 | 3.5 |
| Caerffili | 555 | 0.8 | 0.8 | 0.5 | 1.1 | 1.6 |
| Conwy | 367 | 0.8 | 0.7 | 0.6 | 0.9 | 1.2 |
| Sir Ddinbych | 335 | 0.8 | 0.6 | 0.8 | 1.4 | 2.0 |
| Gwynedd | 381 | 0.8 | 0.6 | 0.5 | 0.7 | 1.6 |
| Sir Fynwy | 280 | 0.8 | 0.8 | 0.5 | 0.7 | 1.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 527 | 0.7 | 0.6 | 0.6 | 1.3 | 1.8 |
| Sir Benfro | 337 | 0.7 | 0.6 | 0.6 | 0.5 | 1.6 |
| Tor-faen | 265 | 0.7 | 0.7 | 0.7 | 0.9 | 1.6 |
| Blaenau Gwent | 188 | 0.6 | 0.5 | 0.7 | 0.9 | 1.0 |
| Sir y Fflint | 381 | 0.6 | 0.6 | 0.5 | 0.9 | 1.1 |
| Powys | 303 | 0.6 | 0.4 | 0.5 | 0.5 | 1.2 |
| Ynys Môn | 152 | 0.5 | 0.5 | 0.3 | 0.7 | 0.9 |
| Cymruu | 18,648 | 1.5 | 1.3 | 1.3 | 2.7 | 3.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 111)*

Yng Nghaerdydd yr oedd y gyfran uchaf o lawer o'r aelwydydd DLIE, fel canran o'r holl aelwydydd, ac wedyn Casnewydd, Bro Morgannwg ac Abertawe, i lawr hyd at y gyfran isaf oll, sef 1 o bob 200 o'r aelwydydd yn Ynys Môn, (Tabl 4.12). Yr oedd cyfran y DLIE o'r holl aelwydydd mewn llety ar rent yn llawer uwch na'u cyfran o'r tai perchen-ddeiliadaeth yn ardaloedd trefol Cymru. Er hynny, yr oedd aelwydydd DLIE yn cynrychioli llai nag 1% o'r aelwydydd mewn llety awdurdodau lleol ym mhob awdurdod unedol ac eithrio Caerdydd, Casnewydd, Bro Morgannwg ac Abertawe, a llai nag 1.5% o'r aelwydydd a letywyd gan landlordiaid cymdeithasol eraill, ym mhob awdurdod unedol ac eithrio'r pedwar uchod a Wrecsam. Yr oedd eu cyfran o'r llety sector preifat ar rent yn uwch na'u cyfran o'r holl aelwydydd ym mhob awdurdod unedol, ac yn uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd trefol.

Fel a ddangoswyd ym Mhennod 2, yn ninasoedd Cymru yr oedd y prif grynodiadau o bobl o'r grwpiau ethnig lleiafrifol. Yr oedd y grwpiau DLlE hefyd wedi ymgrynhoi yn ddaearyddol o fewn y dinasoedd hynny, fel a ddangosir yn y Ffigurau A3.1a i A3.7b, sy'n dangos dosbarthiad daearyddol yr aelwydydd, a ddosrennir yn ôl deiliadaeth ar draws Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

## 4.8 Yr Angen am Dai

Yng ngweddill y bennod hon, cyflwynir data ar nifer o ddimensiynau yr angen am dai, yn ôl grŵp ethnig a chrefydd yr aelwyd. Wrth adolygu'r llenyddiaeth ym Mhennod 1, dangoswyd bod nifer o gydrannau yn cyfrannau i'r angen am dai, gan gynnwys:

- Gorlenwi;
- Diffyg amwynderau ffisegol a defnydd o annedd iddynt eu hunain;
- Tai sy'n ddiwylliannol addas.

Mae a wnelo'r ddau gyntaf o'r rhain â chymeriad ffisegol y tai sydd ar gael. Yn y Cyfrifiad Poblogaeth, gofynnir cwestiynau am natur ffisegol yr annedd, ei pherchnogaeth, a yw'n hunangynwysedig ai peidio, y nifer o ystafelloedd sydd ynddi, a phresenoldeb amwynderau. Yr amwynderau a gwmpesir yn y Cyfrifiad yw: ystafell ymolchi/toiled at ddefnydd yr aelwyd yn unig; a phresenoldeb gwres canolog yn yr annedd. Nifer fach iawn o aelwydydd bellach sydd heb ystafell ymolchi neu doiled, ac y mae'r ganran sydd heb wres canolog hefyd yn lleihau. Dangosodd Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998 fod gan 99% o'r holl anheddau yng Nghymru y pum amwynder sylfaenol o ddefnydd o faddon/cawod iddynt eu hunain, toiled, basn ymolchi, sinc cegin a chyflenwad o ddŵr poeth ac oer wedi ei blymio. Yr oedd y nodweddion hyn yn fwyaf anghyffredin mewn anheddau ar rent o'r sector preifat, anheddau hŷn a thai teras.

Mae gorlenwi yn ffwythiant o faint yr annedd a maint yr aelwyd. Fel a ddangoswyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'r aelwydydd DLlE yn tueddu i fod yn fwy na'r aelwydydd gwyn, a'r aelwydydd mwyaf yw'r rheini sydd â phenteulu o dras cymysg, o'r grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig ac o'r grefydd Foslemaidd.

### *4.8.1 Gorlenwi*

Yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth a gyflwynwyd ym Mhennod 1, tynnwyd sylw at yr hyn a ganfuwyd droeon mewn astudiaethau o'r anghenion tai a dadansoddiadau o'r data Cyfrifiad, sef bod aelwydydd DLlE yn dioddef lefelau gorlenwi uwch na'r aelwydydd gwyn (a fesurir fel y ganran o'r aelwydydd neu'r bobl sy'n byw o dan amodau gorlenwi). Cyn 2001, yr oedd y Cyfrifiadau Poblogaeth yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer yr aelwydydd a oedd yn byw ar lefel dwysedd o ragor nag 1.5 person am bob ystafell neu 1 person am bob ystafell. Yng Nghyfrifiad 2001, darparwyd Graddiad Meddiannaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a oedd yn mesur tanfeddiannaeth yn ogystal â gorlenwi. Mae'n cysylltu nifer gwirioneddol yr ystafelloedd â'r nifer o ystafelloedd sy'n 'ofynnol' ar gyfer aelodau'r aelwyd (ar sail y berthynas rhyngddynt a'u hoedrannau). Er enghraifft, rhagdybir bod angen tair ystafell ar aelwyd un-person (sef dwy ystafell gyffredin ac ystafell wely). Mae gorlenwi yn digwydd mewn aelwydydd sydd â llai o ystafelloedd na'u Graddiad Meddiannaeth.

Yn y Tabl 4.13 dangosir nifer a chanran yr aelwydydd a'r unigolion sy'n byw o dan amodau gorlenwi, gan ddefnyddio'r diffiniadau o nifer yr unigolion am bob ystafell a'r Graddiad Meddiannaeth. Mewn un aelwyd yn unig ym mhob 200 yr oedd y dwysedd yn uwch nag 1 person am bob ystafell, ac mewn 1 aelwyd o bob 1000 yn unig yr oedd rhagor nag 1.5 am bob ystafell. Fodd bynnag, yr oedd 2.3% o'r aelwydydd DLlE yn byw ar lefel dwysedd uwch nag 1 person am bob ystafell, a 0.8% yn byw ar lefel dwysedd o 1.5 person neu ragor am bob ystafell. Aelwydydd Caribïaidd yn unig oedd yn byw ar lefel dwysedd tebyg i'r aelwydydd gwyn, ac aelwydydd gyda

phenteulu o dras cymysg oedd yr ail leiaf tebygol o fyw ar lefel dwysedd uchel. O fewn y grwpiau ethnig Du, yr oedd y bobl Affricanaidd yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp ethnig arall, ac eithrio pobl Bangladeshi, o fyw ar lefel dwysedd uchel. Ymhlith y grwpiau Asiaidd yr oedd y dwyseddau uchaf yn digwydd yn y grwpiau ethnig Bangladeshi, Arall, Tsieineaidd, Asiaidd Eraill a Phacistanaidd. Yr oedd aelwydydd Moslemaidd a Sicaidd yn llawer mwy tebygol na phobl o gefndiroedd crefyddol eraill o fyw ar lefelau dwysedd uchel.

### Tabl 4.13: Gorlenwi fesul grŵp ethnig a chrefydd, Cymru 2001

| | Aelwydydd gyda llai o ystafelloedd na'r gofynnol | | | | % o aelwydydd gyda | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswylwyr | Canran o unigolion o'r grŵp ethnig | Aelwydydd | Canran of aelwydydd o'r grŵp ethnig | Rhagor nag 1 unigolyn am bob ystafell | Rhagor nag 1.5 unigolyn am bob ystafell |
| **Cyfanswm** | **165,508** | **5.8** | **52,907** | **4.4** | **0.5** | **0.1** |
| *Gwyn* | *154,995* | *5.5* | *50,007* | *4.2* | *0.4* | *0.1* |
| Prydeinig | 150,188 | 5.5 | 48,185 | 4.1 | 0.4 | 0.1 |
| Gwyddelig | 1,573 | 7.6 | 607 | 6.4 | 0.6 | 0.2 |
| Gwyn Eraill | 3,234 | 8.5 | 1,215 | 7.6 | 0.7 | 0.3 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***10,513*** | ***19.0*** | ***2,900*** | ***15.5*** | ***2.3*** | ***0.8*** |
| *Cymysg* | *1,299* | *12.0* | *480* | *10.8* | *1.1* | *0.3* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 319 | 8.8 | 118 | 7.9 | 0.8 | 0.1 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 274 | 14.9 | 93 | 13.1 | 1.5 | 0.5 |
| Gwyn ac Asiaidd | 302 | 11.8 | 115 | 11.0 | 1.1 | 0.4 |
| Cymysg Eraill | 404 | 14.5 | 154 | 12.9 | 1.1 | 0.5 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *5,412* | *20.9* | *1,266* | *16.9* | *2.8* | *1.0* |
| Indiaidd | 1,291 | 15.6 | 388 | 14.0 | 1.9 | 0.7 |
| Pacistanaidd | 1,628 | 19.5 | 341 | 15.6 | 2.5 | 0.8 |
| Bangladeshi | 1,742 | 32.3 | 331 | 26.8 | 4.8 | 1.9 |
| Asiaidd Eraill | 751 | 19.2 | 206 | 15.9 | 2.6 | 0.8 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *1,412* | *18.2* | *462* | *15.0* | *1.9* | *0.6* |
| Du Caribïaidd | 308 | 9.4 | 134 | 9.1 | 0.6 | 0.1 |
| Du Affricanaidd | 969 | 26.2 | 286 | 22.0 | 3.1 | 1.2 |
| Du Eraill | 135 | 17.0 | 42 | 13.5 | 1.1 | 0.0 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *2,390* | *22.0* | *692* | *18.9* | *2.7* | *0.9* |
| Tsieineaidd | 1,357 | 22.8 | 375 | 18.8 | 2.7 | 0.8 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,033 | 21.1 | 317 | 18.9 | 2.8 | 1.0 |
| Caribïaidd | 627 | 9.1 | 252 | 8.5 | 0.7 | 0.1 |
| Affricanaidd | 1,243 | 22.5 | 379 | 18.9 | 2.6 | 1.0 |
| **Crefydd** | | | | | | |
| Cristnogol | 98,357 | 4.8 | 32,974 | 3.7 | 0.4 | 0.1 |
| Bwdaidd | 522 | 10.1 | 238 | 8.9 | 0.8 | 0.4 |
| Hindŵaidd | 839 | 16.5 | 272 | 14.6 | 2.2 | 0.8 |
| Iddewig | 96 | 4.5 | 42 | 3.7 | 0.1 | 0.0 |
| Moslemaidd | 5,466 | 25.6 | 1,280 | 21.4 | 3.6 | 1.3 |
| Sicaidd | 378 | 19.3 | 92 | 15.0 | 2.7 | 0.9 |
| Arall | 487 | 7.2 | 250 | 6.9 | 0.7 | 0.2 |
| Dim | 41,043 | 7.7 | 12,859 | 6.0 | 0.7 | 0.1 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 123, 124, 159 a 160)*

Mae'r Graddiad Meddiannaeth yn diffinio canrannau llawer uwch o'r bobl ac o'r aelwydydd yn rhai sy'n byw o dan amodau gorlenwi. Yn gyffredinol, yr oedd 4.4% o'r holl aelwydydd a 5.8% o'r holl bobl yn byw mewn anheddau lle'r oedd nifer yr ystafelloedd yn llai na gofynion yr aelwyd. Yr oedd y gorlenwi'n llawer gwaeth ar gyfer y grwpiau DLlE, gyda 15.5% o'r aelwydydd ac 19% o'r bobl yn byw mewn anheddau gyda nifer annigonol o ystafelloedd.

Y grwpiau ethnig Tsieineaidd ac Eraill oedd yn dioddef y lefel uchaf o orlenwi, gyda bron bumed ran o'r aelwydydd a rhagor na phumed o'r unigolion yn byw mewn anheddau gyda nifer annigonol o ystafelloedd. Unwaith eto, aelwydydd gyda phenteulu o dras cymysg neu darddiad ethnig Caribïaidd oedd y lleiaf tebygol o ddioddef gorlenwi, tra bo'r gorlenwi yn waeth yn achos y grwpiau ethnig Du Affricanaidd ac Asiaidd. Yr oedd bron draean o'r bobl Bangladeshi a chwarter y bobl Ddu Affricanaidd yn byw mewn anheddau gyda nifer annigonol o ystafelloedd, a phumed ran o'r bobl Asiaidd Eraill yn byw o dan amodau gorlenwi. Aelwydydd Moslemaidd a Sicaidd oedd y mwyaf tebygol o fyw mewn anheddau lle'r oedd nifer yr ystafelloedd yn annigonol ar gyfer yr aelwydydd. Er bod y bobl Hindŵaidd yn dioddef lefel gorlenwi llawer uwch na'r cyfartaledd, yr oeddent yn llai tebygol nag aelwydydd o'r crefyddau Asiaidd eraill o fyw mewn anheddau gorlawn.

**Tabl 4.14: Aelwydydd sy'n dioddef prinder amwynderau, Cymru 2001**

| | Mewn annedd a rennir | | Heb wres canolog | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| **Cyfanswm** | **1,518** | **0.1** | **90,786** | **7.5** |
| *Gwyn* | *1,405* | *0.1* | *89,735* | *7.5* |
| Prydeinig | 1,315 | 0.1 | 87,628 | 7.5 |
| Gwyddelig | 33 | 0.3 | 881 | 9.3 |
| Gwyn Eraill | 57 | 0.4 | 1,226 | 7.7 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***113*** | ***0.6*** | ***1,051*** | ***5.6*** |
| *Cymysg* | *25* | *0.6* | *294* | *6.6* |
| Gwyn / Du Caribïaidd | 3 | 0.2 | 95 | 6.4 |
| Gwyn / Du Affricanaidd | 3 | 0.4 | 53 | 7.5 |
| Gwyn / Asiaidd | 3 | 0.3 | 64 | 6.1 |
| Cymysg Eraill | 16 | 1.3 | 82 | 6.9 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *46* | *0.6* | *331* | *4.4* |
| Indiaidd | 28 | 1.0 | 63 | 2.3 |
| Pacistanaidd | 7 | 0.3 | 148 | 6.8 |
| Bangladeshi | 11 | 0.9 | 77 | 6.2 |
| Asiaidd Eraill | | 0.0 | 43 | 3.3 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *22* | *0.7* | *195* | *6.3* |
| Du Caribïaidd | 9 | 0.6 | 90 | 6.1 |
| Du Affricanaidd | 10 | 0.8 | 82 | 6.3 |
| Du Eraill | 3 | 1.0 | 23 | 7.4 |

*(Parhad)*

| | Mewn annedd a rennir | | Heb wres canolog | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *20* | *0.5* | *231* | *6.3* |
| Tsieineaidd | 6 | 0.3 | 118 | 5.9 |
| Grŵp Ethnig Arall | 14 | 0.8 | 113 | 6.8 |
| Caribïaidd | 12 | 0.4 | 185 | 6.3 |
| Affricanaidd | 13 | 0.6 | 135 | 6.7 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 939 | 0.1 | 66,337 | 7.4 |
| Bwdaidd | 7 | 0.3 | 304 | 11.4 |
| Hindŵaidd | 15 | 0.8 | 47 | 2.5 |
| Iddewig | | 0.0 | 81 | 7.1 |
| Moslemaidd | 31 | 0.5 | 329 | 5.5 |
| Sicaidd | 3 | 0.5 | 32 | 5.2 |
| Arall | 24 | 0.7 | 471 | 13.0 |
| Dim | 358 | 0.2 | 15,449 | 7.2 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 123 a 159)*

### *4.8.2 Diffyg amwynderau ffisegol*

Yn y Tablau 4.14 a 4.15 cyflwynir y canrannau o aelwydydd ac o unigolion, yn eu trefn, sy'n byw mewn llety a rennir ac sydd heb wres canolog. Yn gyffredinol, dim ond 1 aelwyd o bob 1000 oedd yn byw mewn annedd a rannwyd; ond ar gyfer yr aelwydydd gwyn Gwyddelig yr oedd y gyfradd deirgwaith yn uwch na'r cyfartaledd, ac yr oedd chwe gwaith yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer aelwydydd DLlE. Ar yr aelwydydd lleiaf y mae hyn yn effeithio, fodd bynnag, gan fod y ganran o'r unigolion DLlE sy'n byw mewn llety o'r fath yn is na'r ganran o'r aelwydydd (0.4% o gymharu â 0.6%).

O fewn grwpiau ethnig unigol, yr oedd nifer yr aelwydydd a oedd yn byw mewn anheddau a rennir yn fach iawn. Y ganran fwyaf o aelwydydd yr effeithiwyd arnynt oedd honno yn y grŵp ethnig Indiaidd, gydag 1% o'r aelwydydd (a 0.8% o'r aelwydydd Hindŵaidd) yn byw mewn anheddau a rannwyd, wedyn aelwydydd y grŵp ethnig "Arall" ac aelwydydd Bangladeshi.

## Tabl 4.15: Unigolion sy'n dioddef prinder amwynderau, Cymru 2001

| | Mewn annedd a rennir | | Heb wres canolog | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| **Cyfanswm** | **2,061** | **0.1** | **184,152** | **6.4** |
| *Gwyn* | *1,866* | *0.1* | *181,621* | *6.5* |
| Prydeinig | 1,743 | 0.1 | 177,570 | 6.5 |
| Gwyddelig | 44 | 0.2 | 1689 | 8.2 |
| Gwyn Eraill | 79 | 0.2 | 2362 | 6.2 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***195*** | ***0.4*** | ***2531*** | ***4.6*** |
| *Cymysg* | *35* | *0.3* | *597* | *5.5* |
| Gwyn / Du Caribïaidd | 11 | 0.3 | 208 | 5.8 |
| Gwyn / Du Affricanaidd | 4 | 0.2 | 114 | 6.2 |
| Gwyn / Asiaidd | 3 | 0.1 | 140 | 5.5 |
| Cymysg Eraill | 17 | 0.6 | 135 | 4.8 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *100* | *0.4* | *1,067* | *4.1* |
| Indiaidd | 44 | 0.5 | 145 | 1.8 |
| Pacistanaidd | 15 | 0.2 | 490 | 5.9 |
| Bangladeshi | 30 | 0.6 | 338 | 6.3 |
| Asiaidd Eraill | 11 | 0.3 | 94 | 2.4 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *30* | *0.4* | *314* | *4.0* |
| Du Caribïaidd | 9 | 0.3 | 141 | 4.3 |
| Du Affricanaidd | 18 | 0.5 | 134 | 3.6 |
| Du Eraill | 3 | 0.4 | 39 | 4.9 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *30* | *0.3* | *553* | *5.1* |
| Tsieineaidd | 15 | 0.3 | 325 | 5.5 |
| Grŵp Ethnig Arall | 15 | 0.3 | 228 | 4.6 |
| Caribïaidd | 20 | 0.3 | 349 | 5.1 |
| Affricanaidd | 22 | 0.4 | 248 | 4.5 |
| **Crefydd** | | | | |
| Cristnogol | 1,236 | 0.1 | 131,309 | 6.4 |
| Bwdaidd | 10 | 0.2 | 463 | 9.0 |
| Hindŵaidd | 18 | 0.4 | 89 | 1.7 |
| Iddewig | 3 | 0.1 | 115 | 5.4 |
| Moslemaidd | 61 | 0.3 | 1,030 | 4.8 |
| Sicaidd | 29 | 1.5 | 85 | 4.3 |
| Arall | 31 | 0.5 | 767 | 11.3 |
| Dim | 473 | 0.1 | 33,639 | 6.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 124 a 160)*

Yn gyffredinol ym 1998, datgelodd Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) fod 8.5% o'r anheddau yng Nghymru yn anffit. Yr oedd anffitrwydd yn fwy cyffredin ymhlith anheddau preifat ar rent (dosbarthwyd 18.4% yn anffit), o gymharu ag anheddau perchen-ddeiliaid neu'r sector rhentu cymdeithasol. Y rheswm mwyaf cyffredin am anffitrwydd anheddau preifat ar rent oedd 'dadfeiliad'. Mae oedran yr annedd yn ffactor pwysig mewn anffitrwydd; dosbarthwyd 14.9% of o'r tai a adeiladwyd cyn 1919 ac 11.4% o'r tai teras yng Nghymru yn anffit.

Nid yw'r Cyfrifiad yn cofnodi cyflwr ffisegol unrhyw annedd, ond y mae'n cofnodi diffyg amwynderau megis gwres canolog, neu ystafell ymolchi neu doiled sydd at ddefnydd yr aelwyd yn unig. Yn 2001, yr oedd 7.5% o'r holl aelwydydd heb ddim gwres canolog, er mai 6.4% yn unig o'r boblogaeth a oedd yn byw mewn tai o'r fath. Pensiynwyr oedd llawer o'r bobl yn y tai hyn ac adlewyrchir hynny yn y ganran uwch o aelwydydd a phreswylwyr gwyn Gwyddelig a oedd yn byw mewn tai o'r fath. Yr oedd aelwydydd DLlE yn llai tebygol nag aelwydydd gwyn o fyw mewn anheddau heb wres canolog, a dim ond 4.6% o'r bobl DLlE a oedd yn byw mewn anheddau o'r fath.

Os edrychir ar grwpiau DLlE unigol, gwelir bod y ganran o aelwydydd a phreswylwyr sy'n byw mewn tai heb wres canolog yn llai nag ar gyfer pobl wyn. Aelwydydd Indiaidd oedd y lleiaf tebygol o fyw mewn tai o'r fath; ond yr oedd aelwydydd Pacistanaidd, Bangladeshi, Du Affricanaidd a Du Caribïaidd yn fwy tebygol nag aelwydydd DLlE eraill o fod heb wres canolog yn eu cartrefi. Cyfanswm o 21 yn unig o aelwydydd DLlE a oedd yn byw heb ddim gwres canolog mewn llety a rannwyd.

### Tabl 4.16: Aelwydydd heb faddon neu doiled at ddefnydd yr aelwyd yn unig, yn ôl grŵp ethnig person cyswllt yr aelwyd, a'r ddinas

| Grŵp ethnig person cyswllt yr aelwyd | CYMRU | | Caerdydd | | Casnewydd | | Abertawe | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | aelwy-dydd | canran | aelwy-dydd | canran | aelwy-dydd | canran | aelwy-dydd | canran |
| Pob grŵp ethnig | 4,676 | 0.4 | 501 | 0.4 | 194 | 0.3 | 292 | 0.3 |
| Gwyn | 4,486 | 0.4 | 434 | 0.4 | 158 | 0.3 | 275 | 0.3 |
| Grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig | 190 | 1.0 | 67 | 0.9 | 36 | 1.9 | 17 | 1.3 |
| Tras cymysg | 40 | 0.9 | 18 | 1.1 | 9 | 2.6 | 8 | 3.2 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 69 | 0.9 | 20 | 0.6 | 8 | 0.9 | - | - |
| Du neu Ddu Prydeinig | 44 | 1.4 | 19 | 1.2 | 13 | 3.3 | 10 | 8.3 |
| Tsieineaidd neu arall | 37 | 1.0 | 10 | 0.8 | 6 | 2.4 | 3 | 0.9 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001, Tabl Comisiynedig M93*

### Tabl 4.17: Canrannau o aelwydydd ac unigolion sydd heb ddim amwynderau, yn ôl deiliadaeth, Cymru 2001

| | Gwyn | | | DLlE | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Perchen-ddeiliad | Rhentiwr cymdeithasol | Rhentiwr preifat | Perchen-ddeiliad | Rhentiwr cymdeithasol | Rhentiwr preifat |
| **Aelwydydd** | | | | | | |
| Rhannu, neu ddim baddon/toiled | 0.2 | 0.5 | 1.4 | 0.0 | 0.0 | 1.4 |
| Dim gwres canolog | 6.5 | 7.9 | 15.3 | 5.9 | 2.0 | 9.7 |
| O leiaf dwy ystafell dros y nifer gofynnol | 67.4 | 27.2 | 37.1 | 60.7 | 19.2 | 29.9 |
| Nifer ystafelloedd yn is na'r nifer gofynnol | 2.2 | 8.7 | 10.9 | 10.3 | 18.2 | 24.3 |
| Dim gwres canolog a nifer llai na'r gofynnol o ystafelloedd | 0.3 | 0.6 | 2.5 | 0.6 | 0.0 | 4.9 |
| **Unigolion** | | | | | | |
| Rhannu, neu ddim baddon/toiled | 0.2 | 0.3 | 0.9 | 0.5 | 0.0 | 1.0 |
| Dim gwres canolog | 5.4 | 8.4 | 12.5 | 4.8 | 4.9 | 6.0 |
| O leiaf dwy ystafell dros y nifer gofynnol | 62.2 | 22.7 | 34.5 | 53.9 | 17.4 | 30.0 |
| Nifer ystafelloedd yn is na'r nifer gofynnol | 3.4 | 11.9 | 12.0 | 14.0 | 20.7 | 25.3 |
| Dim gwres canolog a nifer llai na'r gofynnol o ystafelloedd | 0.3 | 1.0 | 2.0 | 0.7 | 0.3 | 2.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 Sampl unigol 3% o'r cofnodion a wnaed yn ddienw*

Mae aelwydydd sydd heb ddefnydd toiled neu faddon iddynt eu hunain yn brin iawn bellach, ac yr oedd hyn effeithio ar gyfanswm o lai na 5 mil o aelwydydd yn 2001, sef 0.4% o holl aelwydydd Cymru (Tabl 4.16). Fodd bynnag, yr oedd 1% o'r aelwydydd DLlE heb ddefnydd o'r amwynderau hyn iddynt eu hunain yn unig, a'r grwpiau ethnig Du a Du Prydeinig oedd y mwyaf tebygol o fod heb ystafell ymolchi neu doiled at eu defnydd eu hunain yn unig. Yr oedd aelwydydd o blith y rhain a'r grwpiau ethnig tras cymysg yng Nghasnewydd ac Abertawe yn fwy tebygol o fyw mewn anheddau heb ddefnydd o ystafell ymolchi neu doiled iddynt eu hunain yn unig. O'r 69 aelwyd o blith y grwpiau ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a oedd yn byw mewn anheddau o'r fath, yr oedd 20 yn preswylio yng Nghaerdydd.

Yn y Tabl 4.17, archwilir y berthynas rhwng cyflwr ffisegol tai a deiliadaeth tai. Yr oedd yr aelwydydd gwyn o fewn pob categori deiliadaeth yn fwy tebygol na'r aelwydydd DLlE o rannu ystafell ymolchi neu doiled neu fod heb wres canolog. Yr oedd y gwahaniaeth yn arbennig o fawr ar gyfer aelwydydd mewn llety cymdeithasol a phreifat ar rent, ond yn tueddu i effeithio yn benodol ar aelwydydd bach. Ar gyfer yr

aelwydydd gwyn a'r DLlE, yr oedd diffyg gwres canolog yn fwyaf cyffredin mewn llety sector preifat a rentiwyd.

Yr oedd aelwydydd gwyn yn llawer llai tebygol nag aelwydydd DLlE o ddioddef gorlenwi, ym mhob math o ddeiliadaeth. Yn y sector perchen-ddeiliadaeth yr oedd gan ddwy ran o dair o'r aelwydydd gwyn ddwy ystafell o leiaf dros ben hyn oedd yn ofynnol, cyfran fwy o lawer na'r ffigur cyfatebol ar gyfer aelwydydd DLlE (adlewyrchiad tebygol o amlder y pensiynwyr gwyn a oedd yn byw mewn tai ar eu pen eu hunain). Yn ogystal, yr oedd llety preifat a rentiwyd ar gyfer yr aelwydydd gwyn yn debygol o fod yn helaethach na llety cyfatebol yr aelwydydd DLlE. Yr oedd gorlenwi yn fwyaf cyffredin yn y sector rhentu preifat, gyda chwarter yr aelwydydd a'r preswylwyr DLlE yn byw mewn anheddau gyda llai o ystafelloedd nag a oedd yn ofynnol, ond yr oedd gan bumed ran o'r aelwydydd DLlE a oedd yn byw mewn llety cymdeithasol ar rent hefyd lai o ystafelloedd nag oedd yn ofynnol ar gyfer yr aelwydydd. Ychydig o aelwydydd oedd yn dioddef o ddiffyg gwres canolog yn ogystal ag amodau byw gorlawn. Yr oedd hyn yn fwyaf cyffredin yn y sector rhentu preifat, lle'r effeithiai ar 4.9% o denantiaid DLlE landlordiaid preifat (aelwydydd bach yn bennaf).

## 4.9 Amddifadedd aelwydydd

Ar gyfer prosiect ymchwil a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (CYECh) dyfeisiwyd cyfres o Ddosbarthiadau Aelwydydd Amgen a oedd yn darparu disgrifiad cryno o amddifadedd aelwyd, i'w ddefnyddio yng Nghyfrifiad 2001. Diffiniwyd pedwar dimensiwn o amddifadedd aelwyd, a oedd yn cwmpasu cyflogaeth, addysg, iechyd ac anabledd, a thai. Yma, cyflwynir y mesur amddifadedd tai fesul grŵp ethnig a chrefydd.

Yn ôl y diffiniad, yr oedd aelwyd yn dioddef amddifadedd yn y parth tai os oedd ei llety naill ai:

- yn orlawn (dangosydd meddiannaeth - 1 neu lai); neu
- mewn annedd a rennir neu heb ddefnydd i'r aelwyd ei hunan yn unig o faddon/cawod neu doiled; neu
- heb wres canolog.

Cyflwynir y mesur hwn fesul grŵp ethnig a chrefydd yn y Tabl 4.18. Yn gyffredinol, yr oedd aelwydydd DLlE yn llawer mwy tebygol nag aelwydydd gwyn o wynebu amddifadedd yn y parth tai (20.3% o gymharu ag 11.3%). Yr oedd aelwydydd DLlE yn cynrychioli 2.7% o'r holl aelwydydd a amddifadwyd yn y parth tai, o gymharu ag 1.5% o'r holl aelwydydd (ac yr oeddent felly 1.8 gwaith yn fwy tebygol o'u hamddifadu nag yr awgrymai eu cyfran o'r boblogaeth). Yr oedd cyfraddau amddifadedd yn uwch na'r cyfartaledd DLlE yn y grŵp "Tsieineaidd ac Eraill", ac yn is na'r cyfartaledd mewn aelwydydd gyda phenteulu o dras cymysg.

Mae'r mesur hwn yn tanlinellu'r cyfraddau amddifadedd tai uwch o lawer ymhlith aelwydydd Bangladeshi (31.7%) a Du Affricanaidd (27.6%). Er bod amddifadedd yr holl grwpiau DLlE yn y parth tai yn uwch o gymharu ag aelwydydd gwyn, yr aelwydydd DLlE a amddifadwyd leiaf oedd yr Indiaidd a'r Caribïaidd. O ystyried crefydd, gwelir bod aelwydydd Moslemaidd 2.2 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef amddifaded yn y parth tai nag a awgrymir gan eu cyfran o'r boblogaeth, ac aelwydydd Sicaidd oedd yr ail fwyaf tebygol. Er eu bod yn gymharol llewyrchus yn economaidd, yr oedd aelwydydd Hindŵaidd hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddioddef amddifadedd tai.

## Tabl 4.18: Amddifadedd tai yn ôl grŵp ethnig, Cymru 2001

| | Pob aelwyd | | Amddifad ar y dimensiwn tai | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Canran amddifad | Cymhareb y gyfran amddifad i'r gyfran o'r holl aelwydydd |
| **Cyfanswm** | **1,209,048** | **100.0** | **138,887** | **100.0** | **11.5** | **1.0** |
| *Gwyn* | *1,190,399* | *98.5* | *135,107* | *97.3* | *11.3* | *1.0* |
| Prydeinig | 1,164,985 | 96.4 | 131,405 | 94.6 | 11.3 | 1.0 |
| Gwyddelig | 9,436 | 0.8 | 1,413 | 1.0 | 15.0 | 1.3 |
| Gwyn Eraill | 1,5978 | 1.3 | 2,289 | 1.6 | 14.3 | 1.2 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | *18,649* | *1.5* | *3,780* | *2.7* | *20.3* | *1.8* |
| *Cymysg* | *4,431* | *0.4* | *757* | *0.5* | *17.1* | *1.5* |
| Gwyn/Du Caribïaidd | 1,493 | 0.1 | 215 | 0.2 | 14.4 | 1.3 |
| Gwyn/Du Affricanaidd | 708 | 0.1 | 141 | 0.1 | 19.9 | 1.7 |
| Gwyn/Asiaidd | 1,042 | 0.1 | 175 | 0.1 | 16.8 | 1.5 |
| Cymysg Eraill | 1,188 | 0.1 | 226 | 0.2 | 19.0 | 1.7 |
| *Asiaidd neu Asiaidd* | *7,472* | *0.6* | *1,550* | *1.1* | *20.7* | *1.8* |
| Indiaidd | 2,762 | 0.2 | 440 | 0.3 | 15.9 | 1.4 |
| Pacistanaidd | 2,178 | 0.2 | 472 | 0.3 | 21.7 | 1.9 |
| Bangladeshi | 1,231 | 0.1 | 390 | 0.3 | 31.7 | 2.8 |
| Asiaidd Eraill | 1,301 | 0.1 | 248 | 0.2 | 19.1 | 1.7 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *3,074* | *0.3* | *630* | *0.5* | *20.5* | *1.8* |
| Du Caribïaidd | 1,463 | 0.1 | 206 | 0.1 | 14.1 | 1.2 |
| Du Affricanaidd | 1,300 | 0.1 | 359 | 0.3 | 27.6 | 2.4 |
| Du Eraill | 311 | 0.0 | 65 | 0.0 | 20.9 | 1.8 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *3,672* | *0.3* | *843* | *0.6* | *23.0* | *2.0* |
| Tsieineaidd | 2,000 | 0.2 | 452 | 0.3 | 22.6 | 2.0 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,672 | 0.1 | 391 | 0.3 | 23.4 | 2.0 |
| Caribïaidd | 2,956 | 0.2 | 421 | 0.3 | 14.2 | 1.2 |
| Affricanaidd | 2,008 | 0.2 | 500 | 0.4 | 24.9 | 2.2 |
| **Crefydd** | | | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 73.8 | 96,597 | 69.6 | 10.8 | 0.9 |
| Bwdaidd | 2,666 | 0.2 | 506 | 0.4 | 19.0 | 1.7 |
| Hindŵaidd | 1,863 | 0.2 | 311 | 0.2 | 16.7 | 1.5 |
| Iddewig | 5,986 | 0.5 | 1,544 | 1.1 | 25.8 | 2.2 |
| Moslemaidd | 616 | 0.1 | 126 | 0.1 | 20.5 | 1.8 |
| Sicaidd | 1,139 | 0.1 | 123 | 0.1 | 10.8 | 0.9 |
| Arall | 3,620 | 0.3 | 666 | 0.5 | 18.4 | 1.6 |
| Dim | 214,452 | 17.7 | 26,865 | 19.3 | 12.5 | 1.1 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M267 ac M321).*

Mae'r Tabl 4.19 yn dangos y canrannau o'r aelwydydd o bob grŵp ethnig bras a oedd yn amddifad ar y dimensiwn tai, fesul awdurdod unedol. Yng Ngwynedd yr oedd y ganran uchaf o aelwydydd gwyn amddifad (24.6%), ac yr oedd yr isaf yng Nghaerffili (6.6%). Ym mhob awdurdod unedol, yr oedd canran yr aelwydydd DLlE amddifad yn uwch na'r ganran gyfatebol o aelwydydd gwyn, gan gyrraedd uchafbwynt yng Ngheredigion (31.1%), ac isafbwynt yng Nghaerffili (lle'r oedd y ganran isaf o aelwydydd gwyn amddifad hefyd).


Cofnodwyd cyfraddau amddifadedd uchel iawn mewn rhai grwpiau ethnig unigol (e.e. pobl Affricanaidd a Tsieineaidd ac Eraill), ond yr oedd y niferoedd hyn yn seiliedig ar niferoedd bach iawn o aelwydydd. Yr oedd y cyfraddau amddifadedd yn uchel mewn awdurdodau unedol a oedd yn cynnwys Prifysgolion (e.e. Aberystwyth a Llanbedr yng Ngheredigion, a Bangor yng Ngwynedd) ac yn yr ardaloedd mwyaf gwledig Yr oedd tuedd i'r cyfraddau amddifadedd fod yn isel yn y Cymoedd.

**Tabl 4.19: Canrannau o aelwydydd amddifad yn y parth tai fesul awdurdod unedol, Cymru 2001**

| | Gwyn | Grwpiau ethnig lleiafrifol | Tras cymysg | Asiaidd | Du | Tsieineaidd ac Eraill | Caribïaidd | Africanaid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wales | 11.3 | 20.3 | 17.1 | 20.7 | 20.5 | 23.0 | 14.2 | 24.9 |
| Ceredigion | 19.2 | 31.1 | 28.1 | 25.5 | 41.9 | 35.3 | 28.1 | 41.0 |
| Isle of Anglesey | 21.5 | 28.9 | 29.4 | 23.1 | 30.4 | 32.6 | 38.9 | 28.6 |
| Gwynedd | 24.6 | 28.8 | 33.0 | 25.0 | 29.8 | 29.6 | 32.3 | 20.4 |
| Wrexham | 16.2 | 26.7 | 18.6 | 25.6 | 25.4 | 33.1 | 19.6 | 24.3 |
| Pembrokeshire | 16.1 | 23.6 | 20.0 | 21.6 | 31.0 | 26.4 | 21.1 | 20.0 |
| Conwy | 17.7 | 22.6 | 25.2 | 21.5 | 19.6 | 22.6 | 25.5 | 32.4 |
| Cardiff | 12.0 | 21.9 | 18.3 | 21.8 | 23.7 | 24.6 | 15.4 | 29.1 |
| Denbighshire | 15.1 | 20.6 | 18.4 | 20.3 | 26.9 | 19.3 | 16.2 | 37.5 |
| Swansea | 8.2 | 20.6 | 15.9 | 22.6 | 21.1 | 20.2 | 7.0 | 28.0 |
| Carmarthenshire | 9.7 | 20.4 | 17.3 | 18.0 | 19.7 | 28.9 | 20.0 | 20.6 |
| Merthyr Tydfil | 9.8 | 20.1 | 7.5 | 19.4 | 26.1 | 31.6 | 0.0 | 17.6 |
| Newport | 8.1 | 19.0 | 16.1 | 22.2 | 15.7 | 16.3 | 13.0 | 19.0 |
| Rhondda, Cynon, Taf | 10.2 | 18.5 | 16.0 | 16.7 | 13.2 | 25.3 | 15.1 | 15.5 |
| Bridgend | 7.6 | 17.8 | 13.4 | 20.5 | 14.6 | 18.8 | 4.7 | 20.7 |
| Powys | 11.2 | 17.7 | 16.7 | 22.0 | 17.1 | 12.5 | 16.7 | 19.4 |
| Blaenau Gwent | 7.2 | 17.0 | 9.1 | 24.2 | 14.3 | 15.8 | 12.5 | 20.0 |
| Flintshire | 9.8 | 14.8 | 15.7 | 20.0 | 0.0 | 15.6 | 14.0 | 7.9 |
| Monmouthshire | 7.2 | 14.1 | 11.5 | 14.4 | 18.2 | 14.5 | 10.3 | 12.0 |
| Torfaen | 6.8 | 14.0 | 12.2 | 13.7 | 7.5 | 20.6 | 12.0 | 0.0 |
| The Vale of Glamorgan | 8.3 | 13.5 | 11.1 | 17.8 | 11.5 | 12.5 | 8.8 | 14.9 |
| Neath Port Talbot | 7.3 | 13.3 | 8.7 | 12.8 | 12.8 | 22.2 | 7.1 | 20.5 |
| Caerphilly | 6.6 | 11.8 | 10.6 | 8.7 | 10.3 | 19.6 | 14.3 | 7.7 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001, Tabl Comisiynedig M90.*

## Ffigur 4.1: Canran o'r aelwydydd Gwyn a DLlE amddifad ar y dimensiwn tai, fesul DEG-YG




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M267*

Mae'r Ffigur 4.1 yn cyferbynnu'r canrannau o'r aelwydydd gwyn a DLlE sy'n amddifad yn y parth tai, yn ôl DEG-YG person cyswllt yr aelwyd. Yn yr aelwydydd gwyn, yr oedd y ganran amddifad yn cynyddu wrth i statws cymdeithasol person cyswllt yr aelwyd ostwng, gan godi o 5% ar gyfer uwch reolwyr a galwedigaethau proffesiynol i bron 20% ar gyfer rhai nad oedd erioed wedi gweithio neu'r di-waith hirdymor. Yr oedd y ganran amddifad yn is ar gyfer rhai na ellid eu dosbarthu (sy'n cynnwys pensiynwyr).

## Tabl 4.20: Canran o'r aelwydydd amddifad yn y parth tai, yn ôl DEG-YG person cyswllt yr aelwyd, Cymru 2001

| WALES/CYMRU | Galwedigaethau Rheolwrol a Phroffesiynol Uwch | Galwedigaethau Rheolwrol a Phroffesiynol Is | Galwedigaethau canolraddol | Cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gyfrif | Galwedigaethau goruchwyliol a thechnegol is | Galwedigaethau Lled-arferol | Galwedigaethau Arferol | Erioed Wedi Gweithio a Di-waith Hirdymor | Di-ddosbarth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob PCA** | **5.3** | **7.1** | **9.1** | **12.2** | **10.6** | **13.5** | **14.0** | **19.9** | **13.2** |
| *Gwyn* | *5.0* | *6.9* | *9.0* | *11.9* | *10.5* | *13.4* | *13.9* | *19.6* | *13.1* |
| Prydeinig | 4.9 | 6.9 | 8.9 | 11.9 | 10.5 | 13.3 | 13.9 | 19.4 | 13.0 |
| Gwyddelig | 7.2 | 10.0 | 9.7 | 13.9 | 15.5 | 17.1 | 19.1 | 26.5 | 16.9 |
| Gwyn Eraill | 9.3 | 9.1 | 13.3 | 14.9 | 13.0 | 17.6 | 18.3 | 24.6 | 16.3 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | *13.1* | *17.1* | *16.3* | *24.2* | *21.2* | *21.5* | *21.9* | *27.3* | *22.6* |
| *Cymysg* | *12.1* | *14.1* | *16.4* | *17.8* | *14.5* | *19.4* | *19.0* | *20.4* | *18.8* |
| Gwyn/Du Caribïaidd | 6.5 | 11.4 | 10.2 | 18.1 | 13.0 | 15.2 | 17.3 | 19.4 | 14.9 |
| Gwyn/Du Affricanaidd | 17.9 | 16.0 | 19.6 | 21.3 | 15.9 | 26.9 | 17.5 | 15.9 | 22.6 |
| Gwyn/Asiaidd | 12.2 | 13.8 | 22.2 | 12.5 | 17.9 | 19.6 | 23.4 | 17.3 | 18.4 |
| Cymysg Eraill | 12.8 | 16.1 | 18.1 | 20.0 | 13.5 | 20.5 | 20.0 | 26.7 | 21.7 |
| *Asiaidd neu Asiaidd* | *13.2* | *18.5* | *16.2* | *24.7* | *26.9* | *22.7* | *25.1* | *29.5* | *21.7* |
| Indiaidd | 12.4 | 15.4 | 11.4 | 25.1 | 14.9 | 15.9 | 19.3 | 32.4 | 15.7 |
| Pacistanaidd | 15.6 | 22.0 | 18.2 | 20.9 | 20.0 | 21.8 | 26.5 | 28.0 | 22.2 |
| Bangladeshi | 21.5 | 38.1 | 26.7 | 35.9 | 38.3 | 28.3 | 31.0 | 32.8 | 30.3 |
| Asiaidd Eraill | 11.9 | 14.1 | 17.9 | 19.4 | 37.0 | 19.7 | 18.5 | 25.9 | 25.8 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *13.5* | *15.7* | *17.5* | *16.2* | *20.5* | *18.1* | *18.3* | *32.6* | *24.2* |
| Du Caribïaidd | 6.8 | 12.9 | 11.8 | 7.7 | 12.8 | 15.1 | 16.7 | 29.1 | 14.4 |
| Du Affricanaidd | 19.5 | 21.3 | 22.2 | 26.8 | 29.6 | 21.4 | 26.6 | 36.4 | 31.8 |
| Du Eraill | 0.0 | 13.0 | 33.3 | 21.4 | 36.4 | 22.9 | 9.4 | 17.4 | 27.3 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *13.1* | *20.2* | *14.4* | *27.6* | *23.8* | *24.6* | *26.2* | *25.5* | *27.6* |
| Tsieineaidd | 14.0 | 12.7 | 13.6 | 27.6 | 23.1 | 26.2 | 27.5 | 20.0 | 23.4 |
| Grŵp Ethnig Arall | 12.7 | 25.0 | 15.3 | 27.5 | 24.7 | 21.8 | 25.0 | 29.3 | 32.5 |
| Caribïaidd | 6.7 | 12.3 | 11.0 | 13.0 | 12.9 | 15.1 | 17.0 | 23.3 | 14.7 |
| Affricanaidd | 19.1 | 19.1 | 20.9 | 23.9 | 22.2 | 23.8 | 22.3 | 32.3 | 29.3 |
| **Crefydd** | | | | | | | | | |
| Cristnogol | 4.4 | 6.3 | 8.1 | 11.3 | 9.9 | 12.8 | 13.5 | 19.5 | 12.6 |
| Bwdaidd | 8.4 | 15.7 | 18.2 | 24.1 | 19.9 | 19.9 | 24.5 | 30.3 | 22.8 |
| Hindŵaidd | 12.9 | 17.1 | 11.9 | 25.6 | 16.7 | 18.2 | 21.4 | 35.3 | 16.9 |
| Iddewig | 6.6 | 4.1 | 5.9 | 7.1 | 21.7 | 33.3 | 21.9 | 26.9 | 12.1 |
| Moslemaidd | 16.5 | 22.4 | 27.3 | 24.3 | 31.1 | 27.2 | 27.9 | 29.5 | 30.3 |
| Sicaidd | 13.3 | 16.7 | - | 29.3 | 17.9 | 15.1 | 27.1 | 36.4 | 16.8 |
| Arall | 10.7 | 15.7 | 14.9 | 19.4 | 17.4 | 22.8 | 23.8 | 35.7 | 17.5 |
| Dim | 6.1 | 8.3 | 10.8 | 13.4 | 12.0 | 14.6 | 14.6 | 19.1 | 15.6 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Comisiynedig M267 ac M321

Yr oedd y patrwm yn debyg ar gyfer aelwydydd DLlE, ond yr oedd canran uwch o aelwydydd DLlE nag o'r aelwydydd gwyn yn amddifad ym mhob grŵp DEG-YG. Yr oedd y gwahaniaeth yn fwy po uchaf oedd statws y PCA (Tabl 4.20). Ymhlith aelwydydd gyda phenteulu mewn galwedigaeth reolwrol a phroffesiynol is, yr oedd 38.1% o'r aelwydydd Bangladeshi a 25% o'r aelwydydd Arall yn amddifad, tra oedd 35.9% o'r aelwydydd Bangladeshi a 27.6% o'r aelwydydd Tsieineaidd a oedd â'u PCA yn y DEG-YG "cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gyfrif" yn amddifad yn y parth tai. Tueddai'r aelwydydd Caribïaidd ac+ Indiaidd i amlygu cyfraddau amddifadedd is ym mhob DEG-YG. Aelwydydd Moslemaidd oedd yn dioddef y cyfraddau amddifadedd uchaf ym mhob DEG-YG.

Er mwyn gwahanu effaith ethnigrwydd oddi wrth galwedigaeth, oedran, rhyw a gweithgarwch economaidd y penteulu, amcangyfrifwyd y tebygolrwydd y bydd aelwyd yn dioddef amddifadedd yn y dimensiwn tai, gan ddefnyddio model atchweliad logistaidd deuaidd (rhoddir y manylion yn Atodiad 4). Esboniodd y model 5.3 y cant o'r amrywiad (a fesurwyd gydag ystadegyn R2 Nagelkerke) rhwng aelwydydd yn y tebygolrwydd o fod yn amddifad.

Y ffactorau economaidd-gymdeithasol pwysicaf oedd oedran y penteulu (yr oedd rhai 16-19 oed yn llawer mwy tebygol o ddioddef amddifadedd tai), bod yn di-waith, bod mewn iechyd gwael, bod yn rhiant unigol a bod â chymwysterau addysgol gwael. Yr oedd y tebygolrwydd y byddai aelwydydd yn amddifad yn cynyddu wrth i statws economaidd-gymdeithasol eu cyflogaeth ostwng.

Ar ôl tynnu allan effaith nodweddion cymdeithasol ac economaidd y penteulu, daeth nifer o grwpiau ethnig i'r amlwg fel rhai llawer mwy tebygol na phobl wyn o ddioddef amddifadedd tai. Datgelwyd bod aelwydydd o'r grwpiau ethnig Bangladeshi, Tsieineaidd, Du Affricanaidd, Indiaidd a Phacistanaidd yn fwy tebygol o lawer o fod yn amddifad ar y dimensiwn tai. Yn wrthgyferbyniol, yr oedd y bobl o'r grwpiau ethnig "Arall" yn llawer llai tebygol o brofi amddifadedd tai. Datgelir bod amddifadedd tai y bobl o dras cymysg i raddau helaeth yn ganlyniad eu nodweddion cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd tai (er enghraifft, eu hieuenctid cymharol).

## 4.10 Digartrefedd


### Tabl 4.21: Digartrefedd fesul grŵp ethnig, Cymru 2001

| | Preswylwyr hostelau i'r digartref (gan gynnwys hostelau ieuenctid) | Unigolion yn cysgu allan | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Unigolion | Gwrywod | Benywod |
| CYFANSWM UNIGOLION | 436 | 111 | 96 | 15 |
| Gwyn | 405 | 105 | 93 | 12 |
| Cymysg | 12 | 0 | 0 | 0 |
| De Asiaidd | 7 | 6 | 3 | 3 |
| Du | 12 | 0 | 0 | 0 |
| Tsieineaidd ac Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig | 31 | 6 | 3 | 3 |
| Canran o'r grwpiau DLlE | 7.1 | 5.4 | 3.1 | 20.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M248*

Cymharol ychydig o bobl ddigartref a ganfuwyd yng Nghyfrifiad 2001; 436 mewn hostelau a 111 a oedd yn cysgu allan (Tabl 4.21). Gyda niferoedd mor fach, mae amrywiadau ar hap, a'r arfer o adio/tynnu haprifau i ddiogelu cyfrinachedd y data, yn dylanwadu'n drwm ar y canrannau. Fodd bynnag, yr oedd y gyfran o 7.1% o bobl DLlE ymhlith y digartref yn llawer mwy na'u cyfran o'r boblogaeth yn gyffredinol. Pobl DLlE oedd 5.4% o'r rhai a oedd yn cysgu allan yn 2001. Yr oedd y rhan fwyaf o'r breswylwyr DLlE a oedd mewn hostelau i'r digartref yn perthyn i'r categorïau Du neu dras cymysg. Yr oedd nifer y bobl DLlE a oedd yn cysgu allan yn rhy fach i ganiatáu nodi unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig.

### Ffigur 4.2: Cyfansoddiad ethnig yr unigolion a oedd mewn hostelau i'r digartref, Cymru 2001




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M094*

Yng Nghaerdydd yr oedd tua thraean (140 allan o 436) o'r bobl ddigartref a oedd yn byw mewn hostelau i'r digartref yn 2001. O'r 31 o bobl DLlE yn y cyfanswm hwnnw, yr oedd 26 yng Nghaerdydd, lle'r oeddent yn ffurfio 18.1% o breswylwyr yr hostelau i'r digartref. Rhwng Hydref a Rhagfyr 2003, ymgeiswyr DLlE oedd 3.6% o'r holl bobl ddigartref a wnaeth gais am gymorth, a oedd yn gymwys (yn unol â rhan VII, Deddf Tai 1996), yn ddigartref yn anfwriadol, mewn angen blaenoriaeth, ac y cofnodwyd eu hethnigrwydd (cyfanswm o 70). O'r rhain, yr oedd 33 yng Nghaerdydd, 14 yn Abertawe a 5 yn Wrecsam.

## 4.11 Crynodeb

- Mae aelwydydd DLlE yn tueddu i fod yn fwy nag aelwydydd gwyn, ar gyfartaledd. Mae tuedd i'r aelwydydd Asiaidd a Moslemaidd fod ymhlith y mwyaf.

- Grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig sydd â'r canrannau uchaf o gyplau priod, tra bo'r aelwydydd Du a Du Prydeinig ac aelwydydd o dras cymysg yn cynnwys canrannau uwch o aelwydydd rhiant unigol.
- Mae teuluoedd DLlE yn fwy na theuluoedd y bobl wyn, ac yn fwyaf oll ymhlith y grwpiau ethnig Bangladeshi, Pacistanaidd a theuluoedd o dras cymysg.
- Mae cyfansoddiad cymdeithasol yr aelwydydd DLlE yn gymhleth. Yn y grŵp ethnig Indiaidd mae canran uchel o Hindŵiaid sydd mewn galwedigaethau o statws uchel yn ogystal â Siciaid sydd â'u statws galwedigaethol yn is. Penteuluoedd Pacistanaidd, Bangladeshi a Tsieineaidd yw'r mwyaf tebygol o fod yn hunangyflogedig.
- O gymharu â'r gwyn, mae'r aelwydydd DLlE yn llai tebygol o fod yn berchen-ddeiliaid, ac yn fwy tebygol o rentu gan landlordiaid preifat. Maent yn fwy tebygol na'r aelwydydd gwyn o fyw mewn tai teras a fflatiau.
- Mae aelwydydd DLlE yn fwy tebygol o fod yn orlawn nag aelwydydd gwyn, ond yn fwy tebygol hefyd o fwy mewn tai sydd ag amrediad llawn o amwynderau.
- Mae'r aelwydydd DLlE yn dioddef cyfradd uwch o amddifadedd tai na'r aelwydydd gwyn, waeth beth fo dosbarth cymdeithasol yr aelwyd.
- Mae'r gyfran sy'n ddigartref ymhlith y bobl DLlE yn uwch na'u cyfran o'r boblogaeth.

# 5. Poblogaeth Cymru o ffoaduriaid a cheiswyr lloches

## 5.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon trafodir poblogaethau Cymru o ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'n wahanol o ran ei natur a'i chynnwys i bob un o'r penodau eraill. Y rheswm am hyn yw fod data meintiol ar y raddfa leol ynglŷn â ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y DU yn llawer prinnach na'r data ar y grwpiau DLlE. Bydd y bennod hon, felly, yn esbonio pam y mae bylchau mor helaeth yn ein gwybodaeth am y grwpiau hyn, a byddwn yn cynnig braslun o nodweddion cyffredinol ac anghenion tai tebygol y poblogaethau hyn.

Dylai'r darllenwyr sy'n dymuno deall yr hyn sy'n peri i ffoaduriaid ffoi, pam y mae rhai ceiswyr lloches yn dewis dod i'r DU yn hytrach na gwledydd noddfa eraill, a'u disgwyliadau ynglŷn â bywyd yma, droi i Robinson a Segrott (2002). Mae Robinson (2003a) yn trafod rhai o'r materion ymarferol a moesegol sy'n codi wrth ymchwilio i geiswyr lloches a ffoaduriaid.

## 5.2 Egluro diffiniadau

Ym meddwl y cyhoedd, a hefyd yn y wasg boblogaidd, mae llawer o ddryswch ynghylch pwy yw'r ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches. Mae'r termau hyn yn aml yn cael eu defnyddio neu'u hepgor fel pe baent yn gyfystyr, er eu bod yn dermau ar wahân, sydd hyd yn oed yn meddu diffiniadau cyfreithiol gwahanol.

**Ceisydd lloches** yw rhywun sy'n gadael gwlad ei gartref oherwydd erledigaeth honedig, ac yn ceisio lloches dros dro neu'n barhaol mewn gwlad arall. Os a phan gydnabyddir ei hawliad am loches gan y wlad lle y ceisia ymsefydlu, ac os rhoddir yr hawl iddo ef neu hi breswylio yno, naill ai'n barhaol neu dros dro, bydd y ceisydd lloches wedyn yn **ffoadur**. Label dros dro, felly, yw 'ceisydd lloches' a osodir ar ddarpar-ffoaduriaid.

O fewn y boblogaeth o ffoaduriaid, gwahaniaethir ymhellach yn ôl gallu'r unigolion a'u dibynyddion i fodloni llythyren y gyfraith ryngwladol. Daw'r rhai sy'n bodloni gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ffoaduriaid 1951 yn **Ffoaduriaid Confensiwn**, tra bo'n bosibl i eraill, sydd ag achos taer dros gael lloches ond na allant fodloni'r diffiniad manwl, hwyrach gael statws amgen megis Amddiffyniad Dyngarol (AD) neu Ganiatâd Disgresiynol (CD). Ffoadur Confensiwn yw unigolyn:

> *"Oherwydd ofn erledigaeth, ar sail gadarn, o achos hil, crefydd, cenedligrwydd neu farn wleidyddol, sydd y tu allan i wlad ei genedligrwydd ac yn analluog, neu, oherwydd y fath ofn neu am resymau heblaw hwylustod personol, yn anfodlon i fanteisio ar amddiffyniad y wlad honno"*

Diogelir y Ffoaduriaid Confensiwn a'r rhai y rhoddir AC neu CD iddynt trwy gyfraith rhag eu dychwelyd yn ddiannod i wlad eu tarddiad (sef yr egwyddor 'non-refoulement'); gall y rhan fwyaf ohonynt fanteisio ar gymorth lles, gallant weithio, ac y mae ganddynt hawliau preswyl. Yn achos Ffoadur Confensiwn, nid oes terfyn amser ar yr hawliau hyn, ond yn achos AD neu CD, mae'r hawliau'n parhau am gyfnod penodol yn unig, ac wedi hynny rhaid i'r unigolyn wneud cais am adnewyddu ei statws neu geisio statws mwy parhaol. I'r rhan fwyaf o'r bobl a gafodd Ganiatâd Eithriadol i Aros (rhagflaenydd AD ac CD) yn y DU, rhoddir statws parhaol ar ôl preswylio yn y DU am saith mlynedd.

### 5.3 Pam y mae'r diffiniadau yn bwysig

Mae'n bwysig gwahaniaethau rhwng ceiswyr lloches a ffoaduriaid am nifer o resymau.

Y cyntaf yw fod gan y grwpiau hyn anghenion tai gwahanol, sydd hwyrach yn galw am ymatebion gwahanol o ran polisi. Yn ôl y targedau a bennwyd yn Neddf Ymfudo a Lloches 1999, dylai ceiswyr lloches gael penderfynu eu cais am loches ymhen dau fis ar ôl gwneud cais, a chael pedwar mis wedyn i drefnu apêl yn erbyn dyfarniad gwrthwynebus. Felly mae 'ceisydd lloches' yn label sydd, yn dechnegol, yn gyfyngedig ei barhad i gyfnod o chwe mis ar y mwyaf, ac felly hefyd y buddion sy'n gysylltiedig â'r label hwnnw. Ar ôl chwe mis, mae ceiswyr lloches aflwyddiannus naill ai'n cael eu dychwelyd i wlad eu tarddiad neu - os yw pob posibilrwydd o apelio wedi ei ddihysbyddu - yn dod yn hytrach yn fewnfudwyr anghyfreithlon. Trwy ddiffiniad, felly, cyfansoddir y boblogaeth ceiswyr lloches o bobl na allant weithio'n gyfreithlon, sy'n ddibynnol yn gyfan gwbl ar y wladwriaeth am lety, a chyda therfyn amser ar eu hawl gyfreithiol i noddfa. Bydd cymeriad y boblogaeth ceiswyr lloches hefyd yn newid yn bur gyson, wrth i geiswyr lloches newydd gael eu hychwanegu'n barhaus, ac i geiswyr aflwyddiannus gel eu tynnu allan. Mewn geiriau eraill, mae'r trosiant yn uchel o fewn y boblogaeth ceiswyr lloches. Mae ffoaduriaid, ar y llaw arall, wedi eu derbyn gan y wladwriaeth ar gyfer ymsefydlu dros dymor hir (hyd yn oed os gellir mynnu, yn dechnegol, bod rhaid adnewyddu'r hawl honno), ac yn meddu'r un hawl i weithio a'r un anghenion tai ag unrhyw breswylwyr hirdymor eraill yn y DU. Unwaith y caniateir statws ffoadur i unigolyn, bydd ganddo'r un hawl i dai a budd-dâl tai â dinasyddion y DU yn gyffredinol. Bydd y trosiant poblogaeth yn llawer llai ymhlith y ffoaduriaid, gyda cholledion yn dod trwy ymfudo rhyngwladol a marwolaethau ac enillion wrth i geiswyr lloches gael statws ffoaduriaid.

Yr ail reswm dros wahaniaethu yw fod anghenion lles y ddau grŵp, oherwydd eu natur, yn wahanol. Y brif flaenoriaeth ar gyfer ceiswyr lloches yw gyrru ymlaen yn effeithiol â'u hawliad am loches, a thrwy hynny sicrhau eu dyfodol. Ar gyfer hyn mae'n ofynnol iddynt breswylio o fewn, neu o fewn cyrraedd, i dref neu ddinas lle mae cynrychiolwyr cyfreithiol arbenigol, ac mewn rhai achosion, cyfieithwyr. Hwyrach y bydd angen cymorth meddygol ar frys ar rai ceiswyr lloches, hyd yn oed cymorth arbenigol os cawsant eu harteithio. Fel arfer, ni chaniateir i geiswyr lloches weithio (o fewn chwe mis ar ôl cyrraedd y DU), a bydd llawer ohonynt heb ddimai. Mae anghenion y ffoaduriaid braidd yn wahanol. Gan fod ganddynt hawl preswylio am o leiaf pum mlynedd, ac yn ôl pob tebyg am eu hoes, gallant ganolbwyntio ar integreiddio hirdymor, ar lefel unigolion a chymunedau. Mae integreiddio'r unigolyn yn golygu ailymuno â'r farchnad lafur a chaffael (pan fo angen) sgiliau iaith Saesneg a allai hwyluso hynny. Er mwyn integreiddio cymunedau, yn ogystal â datblygu cymunedol, rhaid chreu sefydliadau cymunedol ar gyfer ffoaduriaid. Mae integreiddio unigolion a datblygu cymunedol ill dau'n faterion sy'n sensitif i'w lleoliad, ac felly mae anghenion tai y ffoaduriaid yn ymestyn tu hwnt i ddarparu noddfa ddiogel yn unig: mae'n rhaid ystyried lleoliad y llety a ddarperir.

Y trydydd gwahaniaeth rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches yw fod lles y ddau grŵp yn gyfrifoldeb i wahanol sefydliadau. Nid oes gwahaniaeth rhwng ffoaduriaid a dinasyddion y DU. Mae eu hanghenion lles yn gyfrifoldeb i ba bynnag gangen o'r wladwriaeth les a fyddai'n gwasanaethu dinesydd a anwyd ym Mhrydain. Yn

amodol ar eu hamgylchiadau unigol, byddant naill ai'n byw mewn llety preifat ar rent, neu'n berchen-ddeiliaid neu mewn llety cymdeithasol, a gwasanaethir eu hanghenion lles gan naill ai awdurdod lleol neu brif adrannau'r llywodraeth ganol (e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau). Er pan ddaeth Deddf Ymfudo a Lloches 1999 i rym, gofalwyd am brif anghenion lles y ceiswyr lloches cymwys gan system gymorth a thai gyfochrog ar wahân, a weinyddir gan y Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol (NASS). Rhoddir manylion pellach ynglŷn â hyn isod.

Y pedwerydd reswm pam y mae'n bwysig gwahaniaethu'n eglur rhwng ceiswyr lloches a ffoaduriaid yw fod lefelau ein gwybodaeth am y ddau grŵp yn bur wahanol. Gan fod ceiswyr lloches yn hawlio lloches gan y llywodraeth, rhaid iddynt gysylltu â Chyfarwyddiaeth Ymfudo a Chenedligrwydd (IND) y Swyddfa Gartref. Mae'r IND, yn casglu data yn rheolaidd gan bob un o'r ceiswyr lloches (boed heb ddimai o arian neu'n economaidd hunangynhaliol), ac y mae'r wybodaeth ddemograffig honno o werth i'r astudiaeth bresennol. Cyhoeddir rhywfaint o'r wybodaeth hon gan IND, a rhoddir rhywfaint o'r wybodaeth ar gael ar gyfer dadansoddiadau eilaidd gan ymchwilwyr bona fide. Mae'r cyrff sy'n gyfrifol am eu sefydlu yn y rhanbarthau hefyd yn casglu gwybodaeth bersonol, ond nid mewn ffordd mor systematig. Ar y llaw arall, mae'r ffoaduriaid, sydd â hawliau preswylio, yn anwahanol i unrhyw breswylwyr parhaol eraill yn y DU, a chynhwysir hwy yn syml yn setiau data generig y llywodraeth, ochr yn ochr ag unigolion ac aelwydydd eraill. Nid yw'r Cyfrifiad, er enghraifft, yn mynnu bod pobl yn datgan a ydynt, neu a fuont, yn ffoaduriaid; (ni wneir hynny chwaith yn yr Arolwg Gweithlu, nac yn yr Arolwg Aelwydydd Cyffredinol). Oherwydd hynny, mae'n amhosibl creu is-sampl o'r ffoaduriaid o'r setiau data generig cenedlaethol er mwyn disgrifio'u nodweddion Yn olaf, dylid nodi nad oes unrhyw ddata swyddogol ar gael - am resymau amlwg - am y ceiswyr lloches hynny sy'n newid yn ymfudwyr anghyfreithlon.

### 5.4 Ffoaduriaid yng Nghymru; eu hanes diweddar cyn 1999

Mae pellter Cymru oddi wrth y prif borthladdoedd mynediad i'r DU wedi sicrhau mai cyfyngedig iawn fu ei chyfraniad i hanes diweddar sefydlu ffoaduriaid yn y DU. Anodd, fodd bynnag, fyddai datgan gydag unrhyw sicrwydd pa mor gyfyngedig yn union oedd y cyfraniad hwnnw. Oherwydd absenoldeb data swyddogol ar ddemograffeg gymdeithasol y ffoaduriaid, mae bron yn amhosibl ffurfio syniad cywir o ddosbarthiad y grŵp na'r nifer sy'n bresennol mewn unrhyw ranbarth neu ardal benodol. Ys dywedodd un awdur a oedd yn gresynu oherwydd y prinder data swyddogol a phrinder ymchwil: 'nid oes data swyddogol dibynadwy ar gael i'r cyhoedd ar faint na dosbarthiad y grwpiau ffoaduriaid o fewn y Deyrnas Unedig' (Robinson, 1998).

Fodd bynnag, er gwaethaf y diffyg data swyddogol, cynhaliwyd nifer o astudiaethau yn ystod y 1990au cynnar a diweddar sy'n rhoi inni gipolwg ar y boblogaeth ffoaduriaid, gan ddatgelu pa grwpiau cenedlaethol a ymfudodd i Gymru, ymhle yr oeddent yn byw yng Nghymru, a'u demograffeg.

Y cyntaf o'r rhain oedd ymchwil archwiliadol a gomisiynwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru er mwyn paratoi rhai amcangyfrifon o faint poblogaeth ffoaduriaid Cymru (Robinson, 1997). Dechreuodd Robinson trwy geisio defnyddio'r Cyfrifiad i baratoi uchafsymiau ar gyfer y gwahanol grwpiau cenedlaethol

yng Nghymru. Wedyn, ceisiodd ddefnyddio data a gasglwyd gan gyrff anllywodraethol i ystyried pa nifer o **ffoaduriaid 'cwota'** a ailsefydlwyd yng Nghymru gan y llywodraeth ganol. Gellir gwahaniaethu rhwng ffoaduriaid 'cwota a'r **'ffoaduriaid digymell'**. Mae'r math olaf yn teithio fel unigolion ac yn gwneud cais unigol am loches ar ôl cyrraedd. Ar y llaw arall, mae ffoaduriaid cwota yn cael lloches fel grŵp cyn gadael eu gwlad gartref (neu wersylloedd mewn trydydd gwlad), yn cael eu cludo i'r DU yn lliaws gyda'i gilydd, ac yna'n cael cymorth trwy gyfrwng rhaglen lles ac adsefydlu a weinyddir gan y llywodraeth.

Yn ystod y cyfnod diweddar, mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dderbyn pum cwota o ffoaduriaid, sef 28608 o Asiaid o Uganda ym 1973, 5000 o Chileaid ym 1975, 12000 o Fietnamiaid dros y cyfnod 1979-84, 4000 o Fosniaid ym 1992 a 4300 o Gosofiaid ym 1999. Ym mhob un o'r achosion hyn, dirprwyodd y llywodraeth y cyfrifoldeb am eu derbyn a'u hadsefydlu i gyrff anllywodraethol a gyllidwyd ac a oruchwyliwyd gan y Swyddfa Gartref (Robinson, 1999). Bu'r Uned Ymfudiad ym Mhrifysgol Cymru Abertawe yn gwerthuso polisïau'r llywodraeth mewn perthynas â dyfodiad pob un o'r grwpiau hyn; ac mewn tri o'r pum achos casglodd yr Uned ddata gan y cyrff anllywodraethol ar ddosbarthiad daearyddol y ffoaduriaid a adsefydlwyd trwy gyfrwng cynlluniau'r llywodraeth. Dangosodd y data hyn fod yr Asiaid Wgandaidd ar y dechrau, a hefyd yn ddiweddarach, wedi ymgrynhoi mewn ardaloedd yn Lloegr lle'r oedd cymunedau Asiaidd o faint sylweddol eisoes yn bod (er enghraifft yng Nghaerlŵr ac yn Llundain). Nid oedd Cymru yn gyrchfan a ffafriwyd. Yr oedd achos y Fietnamiaid ychydig yn wahanol, gan na chawsant fawr o ddewis ynglŷn â'u man adsefydlu, a chawsant hefyd eu gwasgaru'n fwriadol trwy Brydain mewn grwpiau o rhwng 4 a 10 teulu. Dangosodd data Robinson a Hale (1989) fod y Fietnamiaid wedi eu gwasgaru'n eang trwy'r DU, a bod oddeutu 602 ohonynt yn preswylio yng Nghymru ym 1981. Yn y dadansoddiad dangoswyd hefyd bod y Fietnamiaid wedi ailymgynnull yn ddiweddarach ym mhrif ardaloedd trefol yn Lloegr, trwy broses o ymfudo eilaidd helaeth a buan. O ganlyniad, gostyngodd nifer o Fietnamiaid yng Nghymru i 282 erbyn 1991. Yn ddiweddarach, mae'r Bosniaid hefyd wedi profi ymdrechion ar ran y llywodraeth i drefnu eu dosbarthiad daearyddol trwy dargedu'r gwaith o adsefydlu ffoaduriaid ar 'ardaloedd clwstwr' dynodedig yn yr Alban, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Swydd Efrog, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Llundain (Robinson a Coleman, 2000). Gan nad oedd Cymru'n ardal clwstwr ddynodedig, ni dderbyniodd unrhyw gwota o ffoaduriaid o Bosnia. Ar sail y gwahanol ddadansoddiadau hyn o'r rhaglenni cwota, daeth Robinson (1997) i'r casgliad:

> *'Mae'n amlwg nad oedd Cymru'n un o'r cyrchfannau a ffafriwyd ar gyfer adsefydlu ffoaduriaid cwota yn 1970au, 1980au a'r 1990au. Trwy ymyrryd yn yr adsefydlu, creodd y llywodraeth ganlyniad daearyddol artiffisial lle nad oedd gan Gymru ond rhan fach i'w chwarae. Lle'r oedd grwpiau bach o unigolion wedi eu hadsefydlu yn y Dywysogaeth, tueddent i beidio ag aros yno, ac i chwilio yn hytrach am le i fyw o fewn cymunedau mwy o'u cydwladwyr eu hunain, yn ninasoedd Lloegr fel arfer. Er enghraifft, yr oedd y gymuned Fietnamaidd yn Abertawe a ddechreuodd gyda 14 o deuluoedd wedi crebachu i wyth teulu yn unig erbyn 1989'*

Yn olaf, ceisiodd Robinson (1997) lunio'i amcangyfrifon ei hunan o faint a dosbarthiad y boblogaeth o ffoaduriaid yng Nghymru, trwy gynnal ei arolwg ei hunan. Ar gyfer hyn gwnaeth arolwg holiadur o'r sefydliadau y gellid disgwyl iddynt ddod i gysylltiad â ffoaduriaid, neu a allai fod yn eu cynrychioli. Dosbarthwyd cyfanswm o 329 holiadur i adrannau cynghorau sir, awdurdodau dosbarth, cymdeithasau tai, yr heddlu, cynghorau hyfforddiant a menter, canolfannau gwaith, canghennau'r Groes Goch, grwpiau ffoaduriaid, cyrff anllywodraethol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach trwy Gymru gyfan. Daeth 90 eitem o ohebiaeth i law oddi wrth y sefydliadau hyn, sef cyfradd ymateb o 27%. Mewn deg achos lle'r oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr atebwyr naill ai'n anghyflawn neu'n ennyn diddordeb pellach, cysylltwyd â'r sefydliadau ar y teleffon i geisio rhagor o fanylion; a defnyddiwyd y teleffon hefyd, yn hytrach nag anfon holiadur, yn achos wyth sefydliad ychwanegol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwil. Yr oedd canlyniadau'r arolwg hwn yn ddiddorol a dadlennol. Er bod holiadur wedi ei anfon at yr holl gyrff statudol ac anstatudol y tybiwyd eu bod yn debygol o ddod i gysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches, nifer fach iawn a fu mewn cysylltiad â phobl o'r fath mewn gwirionedd. Tri ar ddeg yn unig o'r 329 o sefydliadau yr anfonwyd atynt (sef 4%) a ddywedodd iddynt fod mewn cysylltiad â ffoaduriaid, ac ar wahân i ddau eithriad, yr oedd nifer y rhai y cysylltwyd â hwy'n fach iawn.

Datgelodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ceiswyr lloches / ffoaduriaid ym 1997 wedi ymgrynhoi yng Nghaerdydd ((67% o'r cyfanswm), Casnewydd (16%), ac Abertawe (12%). Y tu allan i'r clystyrau hyn, nid oedd ond niferoedd bach, neu hyd yn oed unigolion, a oedd yn tarddu o amrywiaeth o grwpiau ethnig ac a oedd yn gysylltiedig weithiau â chanolfannau dysg (Llanbedr pont Steffan, Pontypridd, Port Talbot). Yr oedd deg a thrigain y cant o'r aelwydydd ffoaduriaid yn Somalïaid, 9.3% yn Fietnamiaid, 7% yn Iraniaid, 6% yn Swdaniaid, a 5.6% yn Iraciaid. Yr oeddent yn cynrychioli pymtheg o wahanol genhedloedd. Ar sail yr arolwg hwn, daeth Robinson i'r casgliad mai maint poblogaeth ffoaduriaid/ceiswyr lloches Cymru oedd oddeutu 1016 o aelwydydd, a oedd hwyrach yn cynnwys 3565 o unigolion. Os gwir hyn, golygai fod Cymru'n cynnwys tua 3.6% o'r 100,000 ffoaduriaid a oedd yn byw yn y DU ar y pryd, yn ôl amcangyfrif Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR). Gan fod Cymru'n cynnwys 5.3% o holl boblogaeth y DU, mae'r gynrychiolaeth o ffoaduriaid yn sylweddol is na'r disgwyl yng Nghymru. Rhybuddiodd Robinson, fodd bynnag, y gallai'r amcangyfrif hwn fod yn anghywir, am nifer fawr o resymau. Y rhain oedd: gallai ffoaduriaid ddewis, yn fwriadol neu trwy ddamwain, peidio â chyflwyno'u hunain fel y cyfryw pan ddeuent i gyffyrddiad â sefydliadau; mae'n bosibl na all darparwyr gwasanaethau bryd hynny wahaniaethu rhwng ffoaduriaid ac aelodau eraill o'r boblogaeth DLlE; gallai'r ffoaduriaid fod wedi dewis datrys eu problemau eu hunain yn hytrach na cheisio cymorth gan eraill, ac felly heb erioed ddod i sylw'r cyrff cyhoeddus; gallai'r ffoaduriaid fod wedi ymatal rhag cysylltu â darparwyr y gwasanaethau, gan nad oeddent yn gweld gwerth yn yr hyn a ddarperid; neu hwyrach nad oedd y 'ffoaduriaid' eu hunain yn cydnabod dilysrwydd y label hwnnw a'u bod yn gwrthod uniaethu ag ef.

Yr ail ddarn o ymchwil a fu'n ystyried poblogaeth ffoaduriaid Cymru cyn pasio Deddf Ymfudo a Lloches 1999 oedd astudiaeth o'r gymuned Somalïaidd yng Nghaerdydd, a wnaed gan Achub y Plant (1994). Fel a nodwyd uchod, mae'n

debygol mai'r Somalïaid oedd y grŵp unigol mwyaf o ffoaduriaid yng Nghymru, ac yr oeddent wedi ymgrynhoi yn bennaf mewn dau anheddiad, sef Caerdydd a Chasnewydd. Disgrifiodd Achub y Plant (1994) fel yr oedd yr anheddiad yng Nghaerdydd yn ymestyn yn ôl i ddechrau'r ganrif, pan oedd morwyr Somalïaidd yn gweithio ar y llongau a oedd yn allforio glo o Gymru. Cyrhaeddodd ymfudwyr gwrywaidd ychwanegol yn ystod y 1950au, a ddenwyd yno gan ffyniant yr economi a'r gwaith a oedd ar gael. Nid cyn y 1960au, fodd bynnag, y crëwyd 'cymuned' yno, wrth i fenywod ymuno â'r dynion, ac i deuluoedd ymffurfio neu ailffurfio yn y ddinas. Cryfhawyd y gymuned hon ymhellach yn ystod y 1980au, wrth i deuluoedd barhau i aduno ac i ffoaduriaid sengl gyrraedd, er mwyn dianc rhag sefyllfa wleidyddol a oedd yn dirywio ar y pryd yn Somalia. Erbyn 1994, yn ôl Achub y Plant, yr oedd y gymuned Somalïaidd yng Nghaerdydd yn cynnwys oddeutu 4000 o bobl, rhyw 2000 ohonynt yn ffoaduriaid a oedd wedi cyrraedd yn ddiweddar, gan gynnwys 1,400 o bobl mewn teuluoedd a 500 o bobl sengl eraill. Dadleuai'r elusen hefyd nad oedd Cyfrifiad 1991 yn ddangosydd manwl gywir o faint a nodweddion y gymuned, gan na chyfrifwyd llawer o'r Somalïaid, naill ai oherwydd na wyddent fod y Cyfrifiad yn digwydd neu oherwydd eu bod yn anllythrennog. Yn ychwanegol, tybid bod teuluoedd Somalïaidd yn symudol iawn yn ddaearyddol, yn enwedig y gwrywod sengl, ac felly yn anodd iawn i'w cyfrif. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhai amcangyfrifon o nodweddion y gymuned ar sail tystiolaeth anecdotaidd, dyfaliadau addysgedig, neu ryngosodiadau a seiliwyd ar y data 'DuEraill' a 'Du Affricanaidd' yng Nghyfrifiad 1991. Yr oedd y rhain fel a ganlyn:

- nifer fach o bobl oedrannus oedd yn y gymuned, hwyrach cyn lleied â 3.7% o'r cyfanswm;
- gallai cymaint â 48% o'r boblogaeth fod yn blant;
- yr oedd wythfed ran o'r gymuned yn ddynion sengl a oedd yn ffoaduriaid
- yr oedd y lefelau anabledd a salwch hirdymor cyfyngol yn uchel;
- gallai'r cyfraddau diweithdra fod mor uchel â 90%;
- tybiwyd mai maint cyfartalog aelwyd oedd 7 unigolyn.

Disgrifiwyd y gymuned hefyd fel un a oedd wedi ei chydgysylltu gan rwydweithiau teuluol eang a'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r bobl yn tarddu o'r un rhan o Somalia, ond yr oedd ymgiprys rhwng tylwythau hefyd yn ei rhannu. Yn yr adroddiad amlygir pedwar o faterion tai a oedd yn hawlio sylw: lefel y gorlenwi; yr angen i addasu gosodiad mewnol y llety a'r cyfleusterau a oedd ynddo ar gyfer anghenion penodol teuluoedd Somalïaidd; darparu rhagor o anheddau prydles-fer y gellid eu defnyddio yn hytrach na llety gwely-a-brecwast; a mewnosod gwell amddiffyniad rhag fandaliaeth hiliol. Nodwyd bod gan Somalïaid hŷn anghenion arbennig, gan fod 66% ohonynt yn cael anhawster i ddarllen ac ysgrifennu (yn Saesneg ac yn ieithoedd y gymuned) a bod llawer ohonynt yn gaeth i'w tai ac felly wedi eu hynysu a'u datgysylltu oddi wrth eu cymunedau. Ychydig ohonynt oedd yn defnyddio'r systemau cymorth ffurfiol a oedd ar gael (e.e. prydau halal ar glud) a llai, hyd yn oed, yn mynd i'r clybiau a'r canolfannau dydd.

Y trydydd darn o ymchwil i'r boblogaeth ffoaduriaid yng Nghymru oedd prosiect Hansen a Hempel-Jorgensen ym 1999 (a gyllidwyd gan Gyngor Sir Caerdydd) a fu'n edrych ar anghenion a nodweddion y gymuned Somalïaidd yng Nghaerdydd

(Hansen a Hempel-Jorgensen, 2001; Hansen, 2002). Yr allbwn cyntaf o'r prosiect hwn oedd adroddiad a geisiai ddisgrifio anghenion y gymuned Somalïaidd yng Nghaerdydd. Amcangyfrifai Hansen a Jorgensen (2001) fod y boblogaeth hon oddeutu 3500-4500 o ran nifer, bod tua'i hanner yn fewnfudwyr a ddaeth i Gymru fel morwyr cyn y 1970au, a bod yr hanner arall yn ffoaduriaid a gyrhaeddodd yn ddiweddar ar ôl dianc rhag y rhyfel cartref a gychwynnodd ym 1988. Sylwasant hefyd ar y gred gyffredinol ymhlith atebwyr eu hymchwil nad oedd Cyfrifiad 1991 wedi llwyddo i gyfrif aelodau'r gymuned yn gywir, ac na ellid ei ddefnyddio, felly, i ddibenion ymchwil.

Canfyddiadau allweddol Hansen a Jorgensen, o safbwynt yr adroddiad presennol, oedd: bod llawer o'r Somalïaid yn byw mewn tai gorlawn; bod y 30 teulu Somalïaidd a ailgartrefwyd gan y Cyngor yn Llaneirwg yn gynnar yn y 1990au yn dioddef cryn elyniaeth ac ynysu, a'u bod yn symud yn ôl i ganol y gymuned yn ardaloedd y Drenewydd a Threfaerdre, er bod hynny'n golygu symud i dai a oedd yn llawer llai; a bod yr hostel a ddefnyddid ar gyfer Somalïaid digartref wedi ei lleoli yn ardal Trelái, a oedd ymhell o'r gymuned, o'r mosgiau ac o'r siopau bwyd arbenigol. Aethant ymlaen wedyn i ystyried yr anghenion tai yn y dyfodol. Eu canfyddiadau cyntaf oedd fod llawer o'r Somalïaid a gyfwelwyd yn fodlon ar eu tai presennol ac nid oeddent yn teimlo fod ganddynt lawer o le i gwyno, a bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd, a oedd yn perthyn i'r gymuned, yn dweud eu bod yn fodlon ar leoliad eu tai, yn enwedig yn Nhrefaerdre, ond hefyd mewn ardaloedd eraill fel y Drenewydd a'r Sblot (Hansen a Jorgensen, 2001; 18 & 19).

Teimlai'r gymuned, fodd bynnag, fod yna dri angen nad oedd yn cael eu diwallu'n ddigonol. Credid mai'r nifer cyfartalog o bobl ar aelwyd o ethnigrwydd Somalïaidd oedd chwech, ond yr oedd llai na phedair ystafell wely yn y mwyafrif o'r anheddau lle'r oedd Somalïaid yn byw yn ardaloedd y Drenewydd a Threfaerdre. O ganlyniad yr oedd gorlenwi yn bur gyffredin. Yr oedd y Cyngor wedi adeiladu rhywfaint o dai gyda phedair ystafell wely, ac yr oedd y rheini ar gael i'r Somalïaid, ond tybid eu bod yn anneniadol oherwydd eu pellter o'r gymuned a'i gwasanaethau cymorth a'u lleoliad mewn ardaloedd lle'r oedd aflonyddu hiliol yn gyffredin. Y dewis i deuluoedd Somalïaidd, felly, oedd tai mawr mewn mannau a ystyrient yn anaddas neu dai gorlawn mewn lleoliadau addas a diogel. Yr ail angen nad oedd wedi ei ddiwallu oedd tai i bobl anabl yn ardaloedd y Drenewydd a Threfaerdre. A'r trydydd oedd amharodrwydd Somalïaid oedrannus i symud i lety cysgodol. Yr oedd y Somalïaid oedrannus a oedd yn berchnogion eu tai eu hunain yn amharod i symud i lety cysgodol rhag aberthu eu hannibyniaeth a chael eu hynysu oddi wrth eu cymuned, neu oherwydd anwybodaeth o'r cyfleoedd, neu bryder na allai eu gofalwyr siarad Somalieg. O ganlyniad, yr oedd rhai'n dal i fyw mewn tai llety preifat a oedd mewn cyflwr gwael yng nghyffiniau Stryd Angelina, tra bo eraill yn parhau i fyw yn eu tai eu hunain, er na allent, mewn gwirionedd, ofalu amdanynt eu hunain yn briodol. Nododd Hansen a Jorgensen, fodd bynnag, fod Adran Tai'r Cyngor a Chymdeithas Tai Taf, yn ystod ysgrifennu eu hadroddiad, yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu darpariaeth benodol ar gyfer Somalïaid hŷn. Mae hynny bellach wedi ei gyflawni.

Dychwelodd Hansen (2002) i Gaerdydd yn ddiweddarach er mwyn datblygu ei gwaith ymhellach trwy ganolbwyntio ar faterion rhyw, ond gan ehangu cwmpas yr astudiaeth i gynnwys Somalïaid, Swdaniaid a Bangladeshiaid. Yr oedd y

Swdaniaid, i raddau helaeth, yn gymuned o ffoaduriaid a cheiswyr lloches a yrrwyd allan o Khartoum gan derfysg gwleidyddol a rhyfel cartref yn y 1990au. Eu nifer oedd tua 100-150 o oedolion, ynghyd â phlant ac ychydig o fyfyrwyr. Dadleuai Hansen fod profiad ac anghenion tai'r tri grŵp hyn yn dra gwahanol i'w gilydd. Mynnai fod y benywod Swdanaidd wedi eu gwasgaru'n eang trwy Gaerdydd, eu bod yn byw yn bennaf mewn ardaloedd dosbarth-canol 'gwyn', ac nad oedd hiliaeth yn gymaint o bryder iddynt. Ceisient dai newydd mewn cymdogaethau tawel a deniadol a oedd yn agos at y cyfleusterau prif-ffrwd, megis siopau a chanol y ddinas, ac nid oedd byw wrth ymyl Swdaniaid eraill yn flaenoriaeth ganddynt, er eu bod yn mwynhau treulio amser yng nghwmni ei gilydd ac yn gwerthfawrogi eu hunaniaeth Swdanaidd. Gallai'r rhan fwyaf ohonynt yrru car ac arferent ddefnyddio un. O fewn y gymuned Somalïaidd, yr oedd y darlun braidd yn wahanol. Yr oedd y benywod yn eu plith na allent siarad ond ychydig o Saesneg, ac nad oedd cerbyd ganddynt at eu defnydd, yn awyddus i fyw yn agos at Somalïaid eraill. Yr oedd hynny'n rhoi iddynt ymdeimlad o hunaniaeth, cymorth gyda gofal plant, mynediad at wasanaethau cyfieithu, ac ymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn: dywedent, er enghraifft, nad oedd y bobl yno yn syllu arnynt byth a hefyd. Yr oedd y gosodiadau cyffredinol hyn yn wir hefyd am Somalïaid oedrannus. Dyheadau gwahanol oedd gan Somalïaid ifanc a allai siarad Saesneg yn rhwydd, a'r rhai yr oedd car ganddynt at eu defnydd. Er y tybient fod cyswllt â Somalïaid eraill yn bwysig, gallent gael hynny heb orfod byw mewn ardal ethnig. Iddynt hwy, y ffactorau lleoliad critigol yn hytrach oedd agosrwydd at siopau, canol y ddinas, ysgolion da a rhyddid rhag aflonyddu hiliol.

Y darn olaf o waith a fu'n ymdrin yn benodol â ffoaduriaid yng Nghymru ac sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn yw astudiaeth Ahmed (1998) o anfantais economaidd-gymdeithasol y bobl Somalïaidd yng Nghaerdydd. Diddordeb dechreuol Ahmed oedd mewn lleoli oedolion Somalïaidd o fewn y strwythurau cymdeithasol Prydeinig a'r farchnad lafur. Nododd fod ffoaduriaid Somalïaidd yng Nghymru yn dioddef cyfraddau diweithdra a oedd dros 90%, ac oherwydd yr anhawster o gael cydnabyddiaeth yn y DU i gymwysterau tramor, yr oedd tangyflogi yn digwydd hefyd (gyda graddedigion peirianneg, er enghraifft, yn gyrru tacsis), ac yr oedd llawer o blant yn gadael yr ysgol heb gymwysterau ffurfiol.. Disgrifiodd hefyd y problemau sylweddol a oedd yn wynebu Somalïaid wrth iddynt geisio cychwyn eu busnesau eu hunain. Oherwydd y tueddiadau hyn, yr oedd y gymuned Somalïaidd wedi ei hamddifadu yn gymdeithasol ac yn byw mewn tlodi. Sylwodd Ahmed, fel y gwnaeth eraill, fod angen annedd gyda 4-6 ystafell wely ar gyfer yr aelwyd Somalïaidd gyfartalog o chwe pherson, ond mai prin iawn yw anheddau o'r fath, ac y gorfodir y rhan fwyaf o'r bobl i ymdopi â dwyseddau sy'n annymunol o uchel. Cyfeiriodd hefyd at y modd yr oedd Somalïaid ifanc sengl yn byw mewn llety gwely-a-brecwast dros dro.

Yn gryno, felly, ychydig o wybodaeth fanwl a chynhwysfawr sydd ar gael am y boblogaeth o ffoaduriaid yng Nghymru a'i dosbarthiad gofodol. Nid oes unrhyw set ddata na ffynhonnell sy'n caniatáu inni broffilio'r grŵp hwn o bobl gydag unrhyw fanylder, gan eu bod yn blanedig o fewn categorïau mwy, yn y Cyfrifiad cenedlaethol ac arolygon cymdeithasol generig eraill. Mae astudiaethau lleol ac astudiaethau archwiliadol wedi caniatáu inni roi braslun o gymeriad y boblogaeth ac awgrymu rhai o'r materion tai sy'n eu hwynebu, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

## 5.5 Y system loches bresennol, a swyddogaeth Cymru oddi mewn iddi

Nid yn unig yr oedd Deddf Ymfudo a Lloches 1999 yn dynodi newid sylfaenol ym mholisi lloches Prydain, yr oedd hefyd yn drobwynt yng Nghymru. Am y tro cyntaf, ymrwymodd y llywodraeth i bolisi o wasgaru ceiswyr lloches allan o dde-ddwyrain Lloegr yn gyffredinol, ac o'r prif borthladdoedd mynediad yn benodol, i ardaloedd clwstwr dynodedig ar draws y wlad (gweler Robinson, Andersson a Musterd, 2003). Daeth Cymru, am y tro cyntaf, yn ardal derbyn swyddogol ar gyfer ceiswyr lloches.

Er bod Cymru wedi gwirfoddoli i chwarae rhan yn y rhwydwaith o bolisïau gwasgaru gwirfoddol a lleol a oedd yn rhagflaenu Deddf 1999, yr oedd y rheini wedi methu â chyflawni'r polisi gwasgaru cenedlaethol integredig a fynnai'r llywodraeth ganol. O ganlyniad, disodlwyd y mecanweithiau anffurfiol hynny gan bolisi newydd a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 1999 (Robinson, 2002). Yr oedd y polisi newydd yn gorfodi trefn wasgaru genedlaethol a gynlluniwyd ac a reolid yn ganolog, ac a weinyddid gan y Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol (NASS). Mae'r system newydd yn gweithio fel a ganlyn. Yn gyntaf oll, mae'r ceiswyr lloches yn gwneud cais i'r Gyfarwyddiaeth Ymfudo a Chenedligrwydd. Yna mae'r Gyfarwyddiaeth yn penderfynu a ddylid caniatáu i'r ceiswyr lloches gael mynediad i'r wlad dros dro (tra gwrandewir ar eu hawliad), ynteu a ddylid eu cadw yn y ddalfa oherwydd bod yr hawliad yn amlwg yn ddi-sail neu oherwydd bod tebygolrwydd uchel yn gallent ddianc. Cyfeirir y rhai sy'n cael mynediad dros dro at gynorthwywr derbyn a gyllidir gan NASS, a fydd yn penderfynu a oes ganddynt fodd i gynnal eu hunain ai peidio. Os nad oes, deuir o hyd i lety dros dro ar eu cyfer tra bo'r cynorthwywr yn eu helpu i baratoi hawliad am gymorth gan NASS. Mae NASS wedyn yn penderfynu, o fewn saith diwrnod, a yw'r ceiswyr yn gymwys i gael cymorth ai peidio (Comisiwn Archwilio, 2000), ac os ydynt, dyrennir llety iddynt (heb gynnig dewis) yn un o'r ardaloedd clwstwr yn y 10 rhanbarth gwasgaru dynodedig sydd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Ar ôl eu cludo yno ar fws, darperir llety (gan gynnwys cost y cyfleustodau) yn ddi-dâl i'r ceiswyr lloches sydd heb ddimai, ynghyd â budd-daliadau cyfwerth â 70% o'r cyfraddau cymhorthdal incwm i oedolion a 100% o'r cyfraddau cymhorthdal incwm ar gyfer plant. Mae'r Ddeddf yn darparu y dylai sefydliadau ac awdurdodau ymuno âi gilydd mewn consortia lleol, y disgwylid iddynt ddarparu'r amrediad llawn o wasanaethau ar gyfer anghenion y ceiswyr lloches. Byddai pob consortiwm yn cael £100,000 y flwyddyn ar gyfer trefnu, cydgysylltu a gweinyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau, a fyddai'n cynnwys canolfannau cynghori un-stop. Byddai'n ofynnol iddynt hefyd ffynonellu 40% o'r holl dai y byddai'u hangen ar gyfer y rhaglen wasgaru, a hyrwyddo delweddau positif o'r ceiswyr lloches yn y cyfryngau lleol (Finney, 2003). Yn olaf, disgwylir i'r consortia wneud darpariaeth hirdymor i integreiddio'r ceiswyr lloches hynny sydd, ar ddiwedd y broses yn cael statws ffoaduriaid, Amddiffyniad Dyngarol neu Ganiatâd Disgresiynol. Mae hyn yn cynnwys mesurau i helpu ffoaduriaid i gael gwaith, dysgu sgiliau iaith a chael darpariaeth addysgol briodol.

Os a phan roddir statws ffoaduriaid neu Ganiatâd i Aros i geiswyr lloches, bydd ganddynt yr hawl i fyw ym mhle bynnag a fynnant, ac ni fyddant yn gyfyngedig i'r ardal clwstwr y dyrannwyd hwy iddi ar y dechrau. Pan fo ffoaduriaid yn dewis symud allan o'r rhanbarth y'u gwasgarwyd iddo, cyfeirir at hynny fel 'ymfudo eilaidd' neu 'ôl-ddrifft'.

Un consortiwm sydd yng Nghymru, ac y mae'n cynnwys 21 awdurdod lleol, sef pob un trwy'r wlad heblaw Wrecsam. Tra bo'r consortia yn Lloegr o dan contract i ddarparu llety yn ogystal â gwasanaethau cymorth, nid yw hynny'n wir yng Nghymru. Cydgysylltydd a darparwr gwasanaethau yw Consortiwm Cymru, ac nid darparwr tai. Mae'n darparu ar gyfer anghenion y ceiswyr lloches a wasgerir gan NASS i dai yn y tair ardal clwstwr, sef Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd. Cyflenwir y tai gan bump o wahanol ddarparwyr llety.

Gall y sefyllfa newid yn y dyfodol, ond y mae Wrecsam yn sefyll y tu allan i'r Consortiwm Cymru-gyfan hwn. Gwasgerir ceiswyr lloches i ardal clwstwr Wrecsam gan NASS, sydd â chontractau gyda dau o ddarparwyr llety yn yr ardal, ac y mae'r awdurdod lleol wedyn yn darparu ar gyfer anghenion statudol y ceiswyr lloches.

Mae'r darparwyr llety yn cyflenwi amrediad o lety addas yn ogystal â phecyn o gymorth angenrheidiol (e.e. cyfeiriadu, arweiniad sgiliau byw a gweithgareddau i atal ceiswyr lloches rhag cael eu hynysu).

Y bwriad gwreiddiol oedd i Gymru dderbyn ei cheiswyr lloches gwasgaredig cyntaf yn Ebrill 2000, ond o ganlyniad i negodi tringar rhwng llywodraeth ganol a llywodraeth leol, ac oherwydd bod angen sefydlu masau critigol o geiswyr lloches mewn rhannau eraill o'r DU, nid anfonwyd y ceiswyr lloches cyntaf i Gymru tan fis Mai 2001.

## 5.6 Demograffeg y ceiswyr lloches a wasgarwyd i Gymru

Er bod y brasamcanion a gyflwynir uchod yn ddigonol i'r rhan fwyaf o ddibenion, dylai'r prosiect presennol fynd ymhellach na'r rheini. Gyda hynny mewn golwg, cysylltwyd ag Adran Ymchwil ac Ystadegau Ymfudo (IRSS) y Swyddfa Gartref i geisio cael data ychwanegol a llawnach ar y ceiswyr lloches a wasgarwyd gan NASS, a'r rhai sy'n preswylio yng Nghymru ar y telerau a elwir gan NASS yn 'gynhaliaeth yn unig'. Cytunodd IRSS i ddarparu ystadegau nas cyhoeddwyd yn gynharach ynglŵn â'r ceiswyr lloches hynny, allan o ASYS, sef y gronfa ddata ganolog a gesglir gan NASS. Mae ASYS yn cynnwys gwybodaeth am y bobl sy'n derbyn cymorth gan NASS, gyda'r pwrpas o reoli'r modd y telir budd-daliadau. Nid yw'r rhai y gwrthodir cymorth iddynt, na'r rhai sy'n dewis peidio â gwneud cais am gymorth, yn ymddangos yn y gronfa ddata hon. O ganlyniad, nid yw oddeutu 30% (amcangyfrif y Swyddfa Gartref, ymholiad personol) o'r holl ymgeiswyr am loches yn ymddangos yn ASYS. Cesglir y data sydd yn y gronfa gan Swyddogion Adsefydlu yn ystod y cyfweliad cyntaf rhwng y ceisydd lloches a NASS. Cofnodir y data mewn ysgrifen, wrth i'r Swyddog Adsefydlu'n dilyn trefn neu raglen benodol wrth gyfweld. Mae'r Swyddog Adsefydlu wedyn yn cofnodi'r cwbl o'r data a gesglir yn ASYS, ac yn ystod y broses honno gwneir rhai gwiriadau ansawdd sylfaenol, ar ffurf meysydd gorfodol a dewislenni cwympo. Fel arfer, ar gyfer staff NASS yn unig y caniateir mynediad i ASYS. Un prawf yn unig a ddefnyddiwyd i wirio'r data a gofnodir yn ASYS, sef trwy sicrhau bod y cyfeiriadau a gofnodir ar gyfer y ceiswyr lloches yn gywir. Yr oedd y prawf hwnnw, a wnaed gan y Swyddfa Gartref, yn awgrymu bod lefel cywirdeb y data yn 95%. Trwy garedigrwydd NASS, cafwyd data i'w dadansoddi ar gyfer chwe chwarter gwahanol, gan gychwyn gyda'r chwarter hyd at 31 Rhagfyr 2002, a gorffen gyda'r chwarter hyd at 31 Mawrth 2004. Gyda'r data hyn, hwyrach y gellid canfod rhai newidiadau arwyddocaol dros amser yn y boblogaeth o geiswyr lloches.

Oherwydd natur gyfyngedig y data personol a gesglir gan NASS, ni allwn ond disgrifio rhai yn unig o nodweddion y

boblogaeth ceiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn nodweddion yw rhyw, iaith lafar, cenedligrwydd y prif ymgeiswyr, maint y grŵp neu nifer y dibynyddion y cyraeddasant gyda hwy, a'u tref breswyl bresennol yng Nghymru.

Fodd bynnag, o fewn y boblogaeth ceiswyr lloches, gallwn hefyd ddirnad dau is-grŵp pendant. Y cyntaf yw'r bobl sy'n derbyn cymorth ac yn byw mewn llety NASS. Bydd yr is-grŵp hwn, felly, wedi ei wasgaru i Gymru gan NASS heb gael cynnig unrhyw ddewis. Ar lefel y DU, mae'r achosion 'cymorth a llety' hyn yn cynrychioli 44% o'r holl geiswyr lloches a 63% o'r rhai sy'n cael cymorth gan NASS. Yr ail is-grŵp yw rhai sy'n cael cynhaliaeth yn unig gan NASS. Bydd y rhain wedi gwneud penderfyniad eu hunain i fyw yng Nghymru ac wedi dod o hyd i lety eu hunain. Hwyrach y byddant wedi dewis dod i Gymru oherwydd bod perthnasau ganddynt yma eisoes. Ar lefel y DU, mae'r achosion 'cynhaliaeth yn unig' yn cyfrif am 26% o'r holl geiswyr lloches, a 37% o'r rhai sy'n derbyn cymorth gan NASS. Ffaith ddiddorol yw fod y cydbwysedd rhwng 'cymorth a llety' a 'chynhaliaeth yn unig' yn wahanol yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU. Mae'r ganran o'r holl geiswyr lloches a gefnogir gan NASS sy'n achosion 'cymorth a llety' ac a wasgarwyd i Gymru wedi codi'n raddol o 90% yn Rhagfyr 2002 i 95% ym Mawrth 2004. Golyga hyn mai 5% yn unig a ddewisodd Gymru yn fwriadol fel lle i fyw, yn ôl pob tebyg oherwydd bod y boblogaeth DLlE bresennol yng Nghymru mor fach, a cheiswyr lloches, felly, yn annhebygol o fod â pherthnasau sydd eisoes yn byw yng Nghymru.

### *5.6.1 Niferoedd Cyfanswm*

**Tabl 5.1: Niferoedd cyfnewidiol y ceiswyr lloches a gefnogwyd gan NASS yng Nghymru, rhwng 31 Rhagfyr 2002 a 31 Mawrth 2004**

| | Gwrywod | Benywod | Cymhareb G:B | Cyfanswm | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 4 2002 | 1,160 | 605 | 1.92:1 | 1,765 | - |
| Chwarter 1 2003 | 1,295 | 755 | 1.72:1 | 2,050 | +285 |
| Chwarter 2 2003 | 1,410 | 885 | 1.60:1 | 2,295 | +245 |
| Chwarter 3 2003 | 1,455 | 1,040 | 1.40:1 | 2,495 | +200 |
| Chwarter 4 2003 | 1,495 | 1,125 | 1.33:1 | 2,625 | +130 |
| Chwarter 1 2004 | 1,420 | 1,185 | 1.20:1 | 2,605 | -20 |

*Ffynhonnell: Data ASYS a gyflenwyd gan NASS. Talgrynnir pob cell i'r 5 agosaf, ac felly hwyrach nad yw pob rhes a cholofn yn adio'n gywir*

Mae'r Tabl 5.1 yn dangos sut y tyfodd nifer y ceiswyr lloches yng Nghymru a oedd yn derbyn cymorth gan NASS (naill ai llety a chymorth neu gynhaliaeth yn unig) rhwng 1 Hydref 2002 a diwedd 2003. Yr adeg honno, maint y grŵp hwn o geiswyr lloches oedd 2625. Digwyddodd y cynnydd mwyaf yn y niferoedd ar ddechrau 2003 wrth i'r rhaglen o wasgaru i Gymru ddechrau cyflymu. Yn ystod y chwarter olaf digwyddodd gostyngiad bach iawn yn y niferoedd, yn unol â'r gostyngiad cenedlaethol yn nifer y ceisiadau am loches a'r lleihad canlyniadol yn nifer y bobl a wasgarwyd.

### 5.6.2 Gender

Mae'r Tabl 5.1 hefyd yn dangos y rhaniad rhwng y ddau ryw o fewn y boblogaeth ceiswyr lloches a gefnogir gan NASS. Dengys y data fod y gwrywod yn fwy niferus na'r benywod o 1.20:1, a bod yr anghydbwysedd rhyw wedi lleihau'n raddol er 2002. Nid yw'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi unrhyw ffigurau cenedlaethol y gellir cymharu ffigurau Cymru gyferbyn â hwy.

**Tabl 5.2: Dosbarthiad cyfnewidiol y ceiswyr lloches a gefnogwyd gan NASS yng Nghymru, rhwng 31 Rhagfyr 2002 a 31 Mawrth 2004, fesul chwarter**

| Awdurdod unedol | 4/2002 | % o gyfanswm Cymru, Rhagfyr 2002 | 1/2003 | 2/2003 | 3/2003 | 4/2003 | 1/2004 | % o gyfanswm Cymru, Mawrth 2002 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | | | 1 | 1 | 1 | 3 | 1 | 0.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 0.3 | 8 | 7 | 5 | 5 | 3 | 0.1 |
| Caerffili | 7 | 0.4 | 3 | 7 | 10 | 7 | 2 | 0.1 |
| Caerdydd | 1,072 | 60.8 | 1,180 | 1,234 | 1,285 | 1,220 | 1,153 | 44.1 |
| Sir Gaerfyrddin. | 6 | 0.3 | 7 | 6 | 5 | 6 | 7 | 0.3 |
| Ceredigion | 2 | 0.1 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 0.1 |
| Conwy | 5 | 0.3 | 4 | 4 | 5 | 5 | 7 | 0.3 |
| Sir Ddinbych | 3 | 0.2 | 4 | 4 | 5 | 3 | 2 | 0.1 |
| Sir y Fflint | 9 | 0.5 | 6 | 7 | 5 | 4 | 5 | 0.2 |
| Gwynedd | 2 | 0.1 | 2 | 3 | 5 | 4 | 4 | 0.2 |
| Ynys Môn | 1 | 0.1 | 1 | 1 | | | | |
| Merthyr Tudful | | | | | | | 1 | 0.0 |
| Sir Fynwy | 1 | 0.1 | 1 | 2 | 5 | 2 | 1 | 0.0 |
| Castell-nedd Port | 5 | 0.3 | 8 | 9 | 10 | 4 | 4 | 0.2 |
| Casnewydd | 140 | 7.9 | 156 | 218 | 295 | 405 | 420 | 16.1 |
| Sir Benfro | 1 | 0.1 | | | 1 | 1 | 2 | 0.1 |
| Powys | 2 | 0.1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 7 | 0.4 | 9 | 8 | 5 | 8 | 6 | 0.23 |
| Abertawe | 426 | 24.2 | 603 | 731 | 810 | 881 | 930 | 35.6 |
| Tor-faen | 7 | 0.4 | 4 | 2 | 5 | 2 | 1 | 0.04 |
| Bro Morgannwg | 2 | 0.1 | 3 | 1 | | | | |
| Wrecsam | 59 | 3.4 | 51 | 57 | 50 | 64 | 61 | 2.3 |

*Ffynhonnell: Data ASYS a gyflenwyd gan NASS*

Yn y Tabl 5.2 dangosir y modd y newidiodd y dosbarthiad hwn dros amser. Gwelir mai Caerdydd, yn gyson trwy gydol y cyfnod, a letyodd y nifer mwyaf o geiswyr lloches a gefnogir gan NASS,  gyda'r nifer gwirioneddol a oedd yn byw yn y ddinas yn codi o 1072 yn Rhagfyr 2002 i 1153 ym Mawrth 2004. Wrth i awdurdodau eraill ymuno â'r rhaglen, mae cyfran **gymharol** y ddinas o gyfanswm Cymru wedi lleihau dros amser, o 60% ar ddiwedd 2002 i 44% erbyn diwedd Mawrth 2004. Ac i'r gwrthwyneb, mae'r cyfrannau cymharol ac absoliwt wedi cynyddu yn Abertawe a Chasnewydd, wrth i'r dinasoedd hynny ymuno **fwyfwy** yn y rhaglen. Wrecsam oedd yr unig anheddiad arall gyda niferoedd arwyddocaol o geiswyr lloches, ond hyd yn oed yno, yr oedd y niferoedd yn fach iawn ac nid ydynt wedi cynyddu dros amser.

Ym Mawrth 2004, nid oedd ond 133 o geiswyr lloches yng Nghymru a oedd wedi symud i Gymru yn wirfoddol (sef y nifer a dderbyniai gymorth 'cynhaliaeth yn unig'), gyda 64% ohonynt yn yr un pedair ardal clwstwr a letyai'r ceiswyr lloches a oedd yn derbyn cymorth a llety, wedi eu denu yno yn ôl pob tebyg gan bresenoldeb cyfeillion, perthnasau neu gyfleusterau cymunedol.

Yr oedd y rhai a oedd yn byw tu allan i'r ardaloedd clwstwr ar wasgar trwy 16 o'r 22 ardal awdurdod lleol, gan gynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf diarffordd a gwledig. Yn y cyrchfannau gwledig hyn, mae'n bosibl eu bod yn dioddef hiliaeth wledig yn ogystal â diffyg dealltwriaeth (Robinson, 2003b; Robinson a Gardner 2004a; Robinson a Gardner 2004b; Robinson a Gardner 2005).

### *5.6.3 Cenedligrwydd*

**Tabl 5.3: Cenedligrwydd y ceiswyr lloches a gefnogid gan NASS yng Nghymru**

| 31 Rhagfyr 2002 | | | 31 Mawrth 2003 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cenedligrwydd** | **Nifer** | **Canran** | **Cenedligrwydd** | **Nifer** | **Canran** |
| Y Weriniaeth | 305 | 17.3 | Somalïaidd | 345 | 13.3 |
| Somalïaidd | 245 | 13.9 | Pacistan | 265 | 10.2 |
| Irac | 200 | 11.3 | Iraq | 250 | 9.6 |
| Iran | 100 | 5.7 | Iran | 205 | 7.9 |
| Simbabwe | 90 | 5.1 | Affganistan | 145 | 5.6 |
| Pacistan | 80 | 4.5 | Twrci | 125 | 4.8 |
| Twrci | 75 | 4.3 | Algeria | 105 | 4 |
| Affganistan | 65 | 3.7 | GDd y Congo | 90 | 3.5 |
| Palestina | 45 | 2.6 | Simbabwe | 75 | 2.9 |
| Congo | 45 | 2.6 | Y Weriniaeth | 70 | 2.7 |
| GDd y Congo | 35 | 2 | Congo | 70 | 2.7 |
| Swdan | 35 | 2 | Swdan | 65 | 2.5 |
| Pwyl | 35 | 2 | Angola | 60 | 2.3 |
| Algeria | 30 | 1.7 | Palestina | 50 | 1.9 |
| Eraill | | 21.3 | | | 26.1 |

*Ffynhonnell: Data ASYS a gyflenwyd gan NASS*

Yn y Tabl 5.3 dangosir 14 prif darddiad cenedlaethol y ceiswyr lloches a oedd naill ai wedi eu gwasgaru i Gymru neu a oedd wedi dewis byw yng Nghymru ar sail 'cynhaliaeth yn unig'. Yr oedd y 14 prif darddiad cenedlaethol yn cyfrif am 79% o'r cyfanswm ar ddiwedd 2002, a 74% erbyn diwedd 2004. Ymhlith y ceiswyr loches a gefnogid gan NASS ac a oedd yn byw yng Nghymru ar ddiwedd 2002 yr oedd cyfanswm o 62 o wahanol genhedloedd, ond erbyn diwedd Mawrth 2004 yr oedd y nifer wedi codi i 74. Er mwyn cymharu, sylwer bod data ASYS ar gyfer y cyfan o'r DU yn rhestru tua 132 o wahanol genhedloedd yn 2002. Felly, hanner yn unig o genhedloedd y ceiswyr lloches yn y DU a gynrychiolir ymhlith y ceiswyr lloches sy'n preswylio yng Nghymru. Mae'n debygol fod hyn eto yn ganlyniad detholusrwydd y polisïau gwasgaru a'r mewnfudo gwirfoddol ar ran yr achosion cymorth cynhaliaeth.

Newidiodd pwysigrwydd cymharol y gwahanol genhedloedd yn sylweddol yn ystod 2003. Gostyngodd cyfran y Weriniaeth Tsiecaidd yn sylweddol (o 17.3% o'r cyfanswm i 2.74%), a lleihaodd pwysigrwydd y Simbabweaid, Iraciaid, a'r Pwyliaid hefyd. Ar y llaw arall, digwyddodd cynnydd mawr yng nghyfran y Pacistaniaid (i fyny o 4.5% i 10.2%), a'r Algeriaid (hyd at 4.0%). Yr oedd cyfran yr Iraniaid yn bwysicach (i fyny o 5.7% o'r cyfanswm i 7.9%), a hefyd yr Affganiaid (i fyny o 3.7% i 5.6%).

### *5.6.4 Maint y grwpiau*

Gyda'r data ASYS, gallwn ystyried maint y grŵp sy'n gysylltiedig â phob prif geisydd lloches, er bod y Swyddfa Gartref yn mynnu nad oes perthynas uniongyrchol rhwng meintiau'r grwpiau a meintiau'r aelwydydd.

Dengys y Tabl 5.4 mai'r maint grŵp a gofnodir amlaf yng Nghymru yw pobl sengl, ac wedyn grwpiau sy'n cynnwys naill ai pedwar neu dri o bobl. Gyda'i gilydd, yr oedd y tri phrif faint grŵp hyn yn cyfrif am 76% o'r holl grwpiau, a 57% o'r holl geiswyr lloches a gefnogir gan NASS yng Nghymru. Mae yna hefyd nifer fach o grwpiau mawr neu fawr iawn: yr oedd 32 o'r grwpiau'n cynnwys 7 neu ragor o bobl, a'r mwyaf oll yn cynnwys 12. Y maint grŵp cymedrig ar gyfer Cymru oedd 2.39 o bobl ym Mawrth 2004, i fyny o 2.11 o bobl yn Rhagfyr 2002. Tra oedd 82% o'r ceiswyr lloches yn y DU yn oedolion sengl, diddorol yw nodi mai 51% yn unig o'r ceiswyr lloches a gefnogir gan NASS yng Nghymru sy'n oedolion sengl. Mae'n debygol fod y gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu natur y stoc llety y llwyddodd NASS i'w ffynonellu yn lleol.

**Tabl 5.4: Achosion lloches a gefnogid gan NASS yng Nghymru, fesul maint grŵp, ar gyfer 31 Rhagfyr 2002 a 31 Mawrth 2004**

| Nifer o unigolion yn y grŵp | March 31st 2004 | | | December 31st 2002 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer achosion | Nifer y ceiswyr lloches | % o'r holl geiswyr lloches | Nifer achosion | Nifer y ceiswyr lloches | % o'r holl geiswyr lloches |
| 1 | 555 | 555 | 21.3 | 480 | 480 | 30.1 |
| 2 | 115 | 230 | 8.8 | 60 | 120 | 7.5 |
| 3 | 145 | 435 | 16.7 | 60 | 180 | 11.3 |
| 4 | 125 | 500 | 19.2 | 50 | 200 | 12.5 |
| 5 | 70 | 350 | 13.4 | 55 | 275 | 17.2 |
| 6 | 50 | 300 | 11.5 | 35 | 210 | 13.1 |
| 7 | 25 | 175 | 6.7 | 10 | 70 | 4.4 |
| 8 | 5 | 40 | 1.5 | 5 | 40 | 2.5 |
| 9 | | | | 1 | 9 | 0.6 |
| 11 | 1 | 11 | 0.4 | 1 | 11 | 0.7 |
| 12 | 1 | 12 | 0.5 | | | |
| Cyfanswm | 1,092 | 2,608 | | 757 | 1,595 | |

*Ffynhonnell: Data ASYS a gyflenwyd gan NASS*

**Tabl 5.5: Y pymtheg iaith fwyaf cyffredin ymhlith ceiswyr lloches a gefnogid gan NASS yng Nghymru, 31 Mawrth 2004**

| Iaith | Nifer siaradwyr | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Arabeg | 370 | 14.3 |
| Slofaceg | 300 | 11.6 |
| Wrdw | 220 | 8.5 |
| Saesneg | 210 | 8.1 |
| Ffarsi | 185 | 7.1 |
| Ffrangeg | 165 | 6.4 |
| Crio | 100 | 3.8 |
| Somalieg | 85 | 3.3 |
| Dari | 85 | 3.3 |
| Tigrineg | 85 | 3.3 |
| Tsieceg | 70 | 2.7 |
| Cwrdeg | 65 | 2.5 |
| Pwyleg | 65 | 2.5 |
| Portiwgaleg | 60 | 2.3 |
| Sbaeneg | 50 | 1.9 |
| Rwmaneg | 45 | 1.7 |
| Twrceg | 40 | 1.5 |
| Punjabi | 30 | 1.2 |
| Albaneg | 40 | 1.5 |
| Pathaneg | 35 | 1.4 |
| Bengaleg | 30 | 1.2 |
| Pwnjabeg | 30 | 1.2 |
| Rwseg | 25 | 1.0 |

*Ffynhonnell: Data ASYS a gyflenwyd gan NASS*

### *5.6.5 Iaith*

Mae NASS hefyd yn casglu gwybodaeth am iaith lafar gyntaf pob prif geisydd, yn bennaf oherwydd bod gwasgaru ceiswyr lloches i glystyrau ieithyddol yn un o'r amcanion polisi. Gwneir hyn er mwyn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau ganolbwyntio'u hymdrechion cyfieithu ar nifer cyfyngedig o ieithoedd. Er bod iaith yn aml yn cyd-ddigwydd chenedligrwydd, nid yw hynny'n wir bob amser.

Yn y Tabl 5.5 rhestrir y 23 uchaf o'r 54 o ieithoedd (gan gynnwys Saesneg) a siaredir gan geiswyr lloches yng Nghymru. Mae'r deng iaith uchaf yn cyfrif am 70% o'r holl geiswyr lloches a gefnogir gan NASS yng Nghymru, a'r ddwy iaith fwyaf cyffredin yn cyfrif am bron un o bob pedwar o'r holl geiswyr lloches. O gymharu dros amser, datgelir cryn anwadalwch. Er enghraifft, prin fod Krio yn bresennol o gwbl yn Rhagfyr 2003, ond hi oedd yr seithfed mwyaf cyffredin o'r ieithoedd a siaredid gan geiswyr lloches yng Nghymru ym Mawrth 2004.

### *5.6.6 Ymfudiad eilaidd y ceiswyr lloches a wasgerir i Gymru*

Ar ôl llunio proffil o'r ceiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru ac yn derbyn cefnogaeth gan NASS, a thrafod y tebygolrwydd y gallent aros yng Nghymru ar ôl penderfynu eu cais am loches, edrychir yn awr ar

batrymau ymfudiad eilaidd y ceiswyr lloches, i mewn ac allan o Gymru. Mae'r ceiswyr lloches sy'n cael cynhaliaeth yn unig yn rhydd i symud o le i le yn y DU tra bo'u ceisiadau am loches o dan ystyriaeth. Ar y llaw arall, mae'r opsiynau'n fwy cyfyngedig i'r rhai a letyir gan NASS, gan nad oes mecanwaith swyddogol ar gyfer trosglwyddo ceiswyr lloches sy'n anfodlon ar eu man preswyl o'r naill glwstwr i'r llall. Serch hynny, mae'n bosibl i geiswyr lloches ddewis gadael eu llety NASS a derbyn cynhaliaeth yn unig, gan ddod yn gyfrifol wedyn am eu llety eu hunain. Neu gallant wrthod unrhyw gymorth gan NASS, gwneud eu holl drefniadau eu hunain a thorri pob cysylltiad ag NASS.

Ar ddau achlysur yn unig yn y gorffennol yr ymchwiliwyd i fater ymfudo eilaidd o fewn y DU.  Yr ymchwil cyntaf oedd hwnnw gan Robinson a Hale (1989), sef astudiaeth genedlaethol o ymfudiad eilaidd ffoaduriaid Fietnamaidd, ac nid yw'n berthnasol mewn gwirionedd i'r adroddiad presennol. Ymchwil gan Robinson ar ran y Swyddfa Gartref oedd yr ail astudiaeth, a arweiniodd at adroddiad nas cyhoeddwyd (Robinson, 2002), a oedd yn defnyddio dwy brif set ddata. Ddefnyddiwyd data ASYS  i siartio yn feintiol symudiadau 55,000 o geiswyr lloches a gefnogid gan NASS, rhwng 2000 a 2002. Defnyddiwyd cyfweliadau manwl er mwyn deall amgylchiadau, achosion a chanlyniadau naturiol ymfudo eilaidd o'r fath.  Cynhaliwyd y cyfweliadau ar sampl cenedlaethol o'r geiswyr lloches a gefnogid gan NASS, y ceiswyr lloches digymorth a'r ffoaduriaid.

Mae'n bwysig nodi mai ar gyfer disgrifio symudiadau'r rhai a barhaodd mewn cysylltiad ag NASS, yn unig, y gellir defnyddio'r data meintiol. Hyd yma, ni chanfuwyd unrhyw fethodoleg hollgynhwysol i olrhain symudiadau'r ceiswyr lloches sy'n torri eu cysylltiad ag NASS, nac ychwaith ffoaduriaid. Llwyddodd cyfweliadau manwl Robinson ar ran y Swyddfa Gartref yn 2002 i ail-greu symudiadau a chymhellion a) ceiswyr lloches o fewn y system NASS, b) ceiswyr lloches y gwrthodwyd eu ceisiadau am loches, ac  c) ceiswyr lloches a ddaeth wedyn yn ffoaduriaid. Dewis posibl arall fyddai defnyddio 'arolygon ymadael' i archwilio cynlluniau, dyheadau a disgwyliadau'r ceiswyr lloches a ffoaduriaid, ond byddai'n rhaid cydnabod y gallai rhai o'r cynlluniau hynny fethu â llwyddo yn y diwedd.

Defnyddiwyd y data ASYS i ddisgrifio prif batrymau ymfudo eilaidd y ceiswyr lloches a gefnogid gan NASS, a adawodd eu llety NASS gan ddewis cymorth cynhaliaeth yn unig ac a symudodd i lety preifat.  Yn gyffredinol, yr oedd 1 o bob 11 o'r ceiswyr lloches a gefnogid gan NASS wedi newid eu trefniadau cymorth yn y modd hwnnw erbyn Ionawr 2002. Datgelodd y data hyn fod tua 7.4% o'r brif geiswyr lloches yng Nghymru - ar yr adeg pan oedd Robinson yn ysgrifennu - wedi newid u trefniadau cymorth yn y modd hwn, ac wedi symud i ranbarth yn Lloegr, sef cyfradd ymfudo eilaidd a oedd yn debyg i gyfradd dwyrain Canolbarth Lloegr. Yr oedd Cymru'n seithfed ar restr o 13 rhanbarth, yn nhrefn ddisgynnol eu colledion (lle'r oedd y golled uchaf 18.4% a'r isaf yn 1.0%). Caerdydd oedd yr unig ddinas/tref a adwaenid yn benodol wrth ei henw yn y data ar gyfer y DU; cofnododd gyfradd colled o 6.4% (o fewn amrediad cenedlaethol a oedd yn amrywio o 21.9% i 0%).  Gosododd hyn Gaerdydd yn 15fed mewn cynghrair o 53 o ddinasoedd/trefi a restrwyd yn ôl eu gallu i gadw'r ceiswyr lloches a wasgarwyd. Wrth ddadansoddi daearyddiaeth yr ymfudo eilaidd, gwelwyd bod Cymru'n gymharol anghyffredin. Dim ond 6% o'r

symudiadau a wnaed o fewn y rhanbarth ei hunan, ac yr oedd 94%, felly, yn disgrifio pobl a oedd yn symud allan o Gymru i ranbarthau yn Lloegr. Mae'r ffigur olaf yn cynrychioli colled net uchel iawn. O'r ymadawiadau hyn, yr oedd 47% i Lundain, ffigur a oedd ychydig yn is na ffigurau'r rhan fwyaf o'r rhanbarthau eraill. Yr oedd ymadawyr o Gymru yn symud i amrywiaeth o gyrchfannau, yn hytrach nag ymfudo i Lundain, Birmingham neu Fanceinion yn unig (sef y prif gyrchfannau cyfredol ar gyfer ymfudwyr eilaidd).

## 5.7 Casgliad

Ceisiodd y bennod hon ddisgrifio nodweddion demograffig allweddol dwy boblogaeth DLlE gydgysylltiedig sy'n preswylio yng Nghymru: yn gyntaf, y ceiswyr lloches sydd naill ai wedi'u gwasgaru i Gymru yn sgîl Deddf Ymfudo a Lloches 1999 neu sydd wedi dewis ymsefydlu yma ar sail 'cynhaliaeth yn unig' (oherwydd ei natur, mae'n anochel mai poblogaeth dros dro yw hon, gan fod ceiswyr lloches yn newid naill ai'n ffoaduriaid neu'n fewnfudwyr anghyfreithlon, unwaith y gwrandewir ar eu cais am loches); ac yn ail, y boblogaeth o ffoaduriaid sydd, neu a fydd, yn breswylwyr parhaol. Mae'r ddau grŵp hyn yn ychwanegiadau cymharol ddiweddar at boblogaeth Cymru.

Ni ellir adnabod y grwpiau hyn o'r setiau data megis y Cyfrifiad, sydd ar gael i'r cyhoedd, a rhaid oedd ceisio dirnad eu proffiliau o ddata a ffynonellau eraill. Ymhlith y ffynonellau hynny yr oedd gwybodaeth eilaidd o'r ychydig lenyddiaeth sydd ar gael ac amrywiaeth o ddata anghyhoeddedig o eiddo'r Swyddfa Gartref.

Er mai'r proffil a ddarparwyd yw'r gorau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'n rhwym o fod yn llai cywir a chyflawn o lawer na'r rhai a ddarperir mewn penodau eraill yn yr adroddiad hwn. Dichon, felly, mai'r prif argymhelliad sy'n tarddu o'r dadansoddiad hwn yw fod angen rhaglen o ymchwil cynlluniedig i nodweddion, profiadau, anghenion a dyheadau'r gwahanol grwpiau a chymunedau sy'n cyfansoddi poblogaethau ffoaduriaid a cheiswyr lloches Cymru. Hyd nes cwblheir gwaith o'r fath, ni allwn ond datgan yr hyn na wyddom. Yr hyn a ddylai fod yn ganolog mewn rhaglen ymchwil o'r fath yw astudiaeth fanwl i weld a oes ceiswyr lloches yn aros yng Nghymru yn dilyn penderfyniadau i dderbyn neu wrthod eu ceisiadau am loches, ynteu ai gwlad dramwy yn unig yw Cymru i'r bobl hyn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau ac er mwyn datblygu cynlluniau cymunedol. Dichon mai'r ffordd orau i gasglu gwybodaeth o'r fath fyddai cyfuniad o 'arolygon ymadael', cyfweliadau manwl o'r math a ddefnyddiwyd gan Robinson (2002) yn ei astudiaeth genedlaethol o ymfudo eilaidd, ac astudiaeth hydredol gan banel yng Nghymru.

Gallwn ddweud rhywfaint, fodd bynnag, am natur unigryw'r poblogaethau o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd yng Nghymru. Gan na fu Cymru, yn draddodiadol, erioed yn un o'r cyrchfannau a ffafriwyd gan ffoaduriaid diannod, nac yn gyrchfan ddynodedig ar gyfer rhaglenni ffoaduriaid, mae ei phoblogaeth o ffoaduriaid yn drawiadol wahanol i honno yng ngweddill y DU. Ni ddaeth yr un o'r grwpiau ffoaduriaid allweddol, a gyrhaeddodd y DU yn ystod y blynyddoedd wedi'r rhyfel, ar gyfyl Cymru. Yn hytrach, ffoaduriaid Somalïaidd oedd yr unig rai a ddenwyd o ddifrif i Gymru, yn bennaf oherwydd y mewnfudiad llafur blaenorol o'r wlad honno. Yn dilyn Deddf Ymfudo a lloches 1999, y mae Cymru wedi croesawu poblogaeth ansefydlog o geiswyr lloches,

ond mae'r bobl hyn eto'n wahanol i'r boblogaeth ehangach o geiswyr lloches yn y DU:

- maent wedi ymgrynhoi i raddau mwy mewn nifer cyfyngedig o ddinasoedd a threfi;
- maent yn llai tebygol o fod wedi dewis dod i Gymru;
- maent yn fwy tebygol na'u cymheiriaid yn Lloegr o fod yn geiswyr sengl; ac y maent yn;
- tarddu o amrediad mwy cyfyngedig o genhedloedd a grwpiau.

Mae'r holl wahaniaethau hyn yn adlewyrchu cyfuniad o'r hanes hir yr ymfudo i Gymru, a'r modd y gweithredwyd y rhaglen wasgaru yn ymarferol yng Nghymru.

**Tabl 5.6: Dyraniad y tarddiadau cenedlaethol i'r "bandiau" gan y Gwasanaeth Mewnfudo**

| Cenedl | Band |
|---|---|
| Somalia | Coch |
| Irac | Coch |
| Pacistan | Melyn |
| Iran | Coch |
| Affganistan | Gwyrdd |
| Twrci | Gwyrdd |
| Algeria | Melyn |
| Y Weriniaeth Tsiecaidd | Gwyrdd |
| GDd y Congo | Melyn |
| Simbabwe | Coch |
| Congo | Melyn |
| Swdan | Gwyrdd |
| Palestina | Melyn |
| Angola | Melyn |

*Ffynhonnell: amcangyfrifon NASS a ddarparwyd yn uniongyrchol*

# 6. Hynafgwyr DLlE

Yn y bennod hon, disgrifir nodweddion y bobl hŷn sy'n perthyn i'r grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig (DLlE). Yn anffodus, nid yw tablau'r Cyfrifiad a gyhoeddwyd yn dadansoddi holl nodweddion y boblogaeth yn ôl oedran yn ogystal â grŵp ethnig. Mae'r bennod hon felly yn canolbwyntio ar yr agweddau ar y boblogaeth DLlE y cyhoeddwyd tablau ar eu cyfer, sef: strwythur oedran, dosbarthiad daearyddol, math o aelwyd, iechyd, a gweithgarwch economaidd.

## 6.1 Y Boblogaeth DLlE Hŷn

### Tabl 6.1: Poblogaeth hŷn Cymru fesul grŵp ethnig, 2001

| | Pob oedran | | 50+ oed | | 65+ oed | | % o'r grŵp ethnig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | 50+ oed | 65+ oed |
| **PAWB** | **2,903,083** | **100.0** | **1,042,882** | **100.0** | **504,770** | **100.0** | **35.9** | **17.4** |
| *Gwyn* | *2,841,505* | *97.9* | *1,033,803* | *99.1* | *501,441* | *99.3* | *36.4* | *17.6* |
| Gwyn: Prydeinig | 2,786,605 | 96.0 | 1,011,803 | 97.0 | 490,186 | 97.1 | 36.3 | 17.6 |
| Gwyn: Gwyddelig | 17,689 | 0.6 | 9,629 | 0.9 | 4,967 | 1.0 | 54.4 | 28.1 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 37,211 | 1.3 | 12,371 | 1.2 | 6,288 | 1.2 | 33.2 | 16.9 |
| **DLlE** | ***61,578*** | ***2.1*** | ***9,079*** | ***0.9*** | ***3,329*** | ***0.7*** | ***14.7*** | ***5.4*** |
| *Cymysg* | *17,660* | *0.6* | *1,950* | *0.2* | *811* | *0.2* | *11.0* | *4.6* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 5,996 | 0.2 | 628 | 0.1 | 311 | 0.1 | 10.5 | 5.2 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 2,414 | 0.1 | 281 | 0.0 | 100 | 0.0 | 11.6 | 4.1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 4,999 | 0.2 | 433 | 0.0 | 183 | 0.0 | 8.7 | 3.7 |
| Cymysg Eraill | 4,251 | 0.1 | 608 | 0.1 | 217 | 0.0 | 14.3 | 5.1 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *25,447* | *0.9* | *3,943* | *0.4* | *1,243* | *0.2* | *15.5* | *4.9* |
| Indiaidd | 8,261 | 0.3 | 1,555 | 0.1 | 406 | 0.1 | 18.8 | 4.9 |
| Pacistanaidd | 8,287 | 0.3 | 1,223 | 0.1 | 493 | 0.1 | 14.8 | 5.9 |
| Bangladeshi | 5,436 | 0.2 | 453 | 0.0 | 150 | 0.0 | 8.3 | 2.8 |
| Asiaidd Eraill | 3,463 | 0.1 | 712 | 0.1 | 194 | 0.0 | 20.6 | 5.6 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *7,070* | *0.2* | *1,638* | *0.2* | *790* | *0.2* | *23.2* | *11.2* |
| Du Caribïaidd | 2,597 | 0.1 | 812 | 0.1 | 398 | 0.1 | 31.3 | 15.3 |
| Du Affricanaidd | 3,727 | 0.1 | 688 | 0.1 | 331 | 0.1 | 18.5 | 8.9 |
| Du Eraill | 746 | 0.0 | 138 | 0.0 | 61 | 0.0 | 18.5 | 8.2 |
| *Grŵp Ethnig Tsieineaidd neu Arall* | *11,401* | *0.4* | *1,548* | *0.1* | *485* | *0.1* | *13.6* | *4.3* |
| Tsieineaidd | 6,266 | 0.2 | 981 | 0.1 | 324 | 0.1 | 15.7 | 5.2 |
| Grŵp Ethnig Arall | 5,135 | 0.2 | 567 | 0.1 | 161 | 0.0 | 11.0 | 3.1 |
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Cristnogol | 2,087,242 | 71.9 | 874,299 | 83.8 | 435,238 | 86.2 | 41.9 | 20.9 |
| Bwdaidd | 5,407 | 0.2 | 1606 | 0.2 | 375 | 0.1 | 29.7 | 6.9 |
| Hindŵaidd | 5,433 | 0.2 | 1,087 | 0.1 | 246 | 0.0 | 20.0 | 4.5 |
| Iddewig | 2,256 | 0.1 | 1,137 | 0.1 | 604 | 0.1 | 50.4 | 26.8 |
| Moslemaidd | 21,739 | 0.7 | 2,503 | 0.2 | 788 | 0.2 | 11.5 | 3.6 |
| Sicaidd | 2,014 | 0.1 | 313 | 0.0 | 105 | 0.0 | 15.5 | 5.2 |
| Unrhyw grefydd arall | 6,909 | 0.2 | 2,154 | 0.2 | 707 | 0.1 | 31.2 | 10.2 |
| Dim crefydd | 537,935 | 18.5 | 86,020 | 8.2 | 27,517 | 5.5 | 16.0 | 5.1 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 101)*

Mae poblogaeth Ddu a Lleiafrifol Ethnig Cymru yn llawer ieuengach ar gyfartaledd na'r boblogaeth o bobl wyn (yn 2001, eu hoedran cyfartalog oedd 28.1, o gymharu â 39.5 ar gyfer y bobl wyn). Serch hynny, mae nifer sylweddol o bobl hŷn o'r grwpiau DLlE yn byw yng Nghymru (Tabl 6.1). Yn gyffredinol, yr oedd 9.1 mil o bobl DLlE dros 50 oed, a 3.3 mil dros 65 oed yn preswylio yng Nghymru yn 2001, sef 0.9% o bawb a oedd dros 50 oed , a 0.7% o bawb a oedd dros 65. Yr oedd gwrthgyferbyniadau o ran strwythur oedran rhwng grwpiau ethnig unigol, a'r grwpiau a ymfudodd i Gymru gyntaf oedd yn cynnwys y canrannau uchaf o bobl hŷn. Er bod pobl dros 50 oed yn cynrychioli 14.7% o'r holl boblogaeth DLlE, yr oedd bron chwarter (23.2%) o'r bobl Ddu a Du Prydeinig, a 31.3% o'r bobl Garibïaidd dros 50 oed yn 2001. Y grŵp ethnig hynaf oll yw'r gwyn Gwyddelig, gyda mwy na hanner eu nifer yn 50 oed neu'n hŷn yn 2001.

Yn nhermau crefydd, yr oedd y bobl a oedd dros 50 oed yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyfan o fod yn Gristnogion, tra oedd 86.2% o'r bobl a oedd dros 65 yn Gristnogion. Y bobl a nododd mai Iddewiaeth oedd eu crefydd oedd y grŵp crefyddol hynaf ar gyfartaledd, gyda mwy na'u hanner dros 50 oed a chwarter yn 65 neu'n hŷn. Y grŵp crefyddol DLlE mwyaf ymhlith y bobl hŷn oedd y Moslemiaid, gyda 2.5 mil ohonynt dros 50 oed a 788 dros 65; ac yn agos y tu ôl iddynt mae'r grŵp "unrhyw grefydd arall" (categori sy'n cynnwys llawer o bobl Tsieineaidd), gyda 2.2 mil dros 50 a 707 dros 65 yn 2001. Fodd bynnag, pobl Foslemaidd o ran crefydd oedd yr ieuengaf hefyd ar gyfartaledd, gyda'r bobl 50 oed a throsodd yn ffurfio dim ond 11.5% o'u poblogaeth, o gymharu â dwy ran o bump o'r Cristnogion.

## 6.2 Dosbarthiad daearyddol

### Tabl 6.2: Dosbarthiad daearyddol y bobl hŷn gwyn a DLlE yng Nghymru

| | Canran o'r grŵp ethnig | | | | Cyfran o gyfanswm Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 50+ oed | | 65+ oed | | 50+ oed | | 65+ oed | |
| | Gwyn | DLlE | Gwyn | DLlE | Gwyn | DLlE | Gwyn | DLlE |
| CYMRU | 36.4 | 14.7 | 17.6 | 5.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Blaenau Gwent | 35.7 | 20.6 | 17.0 | 5.4 | 2.4 | 1.3 | 2.4 | 0.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 35.4 | 14.9 | 16.7 | 3.9 | 4.3 | 2.9 | 4.2 | 2.1 |
| Caerffili | 33.5 | 20.0 | 15.3 | 6.8 | 5.4 | 3.3 | 5.1 | 3.1 |
| Caerdydd | 30.8 | 12.9 | 15.5 | 4.7 | 8.3 | 36.4 | 8.6 | 36.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 39.6 | 18.8 | 19.6 | 6.9 | 6.6 | 3.3 | 6.7 | 3.3 |
| Ceredigion | 38.8 | 15.5 | 18.7 | 6.0 | 2.8 | 1.8 | 2.8 | 1.9 |
| Conwy | 43.0 | 21.3 | 23.2 | 9.0 | 4.5 | 2.8 | 5.0 | 3.2 |
| Sir Ddinbych | 40.0 | 17.9 | 20.4 | 6.7 | 3.6 | 2.1 | 3.7 | 2.1 |
| Sir y Fflint | 34.4 | 17.7 | 15.0 | 5.8 | 4.9 | 2.3 | 4.4 | 2.1 |
| Gwynedd | 38.7 | 15.3 | 19.2 | 5.4 | 4.3 | 2.3 | 4.4 | 2.2 |

*(Parhad)*

| | Canran o'r grŵp ethnig | | | | Cyfran o gyfanswm Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 50+ oed | | 65+ oed | | 50+ oed | | 65+ oed | |
| | Gwyn | DLlE | Gwyn | DLlE | Gwyn | DLlE | Gwyn | DLlE |
| Ynys Môn | 40.0 | 16.1 | 19.0 | 5.5 | 2.6 | 0.9 | 2.5 | 0.8 |
| Merthyr Tudful | 34.4 | 17.3 | 16.3 | 5.7 | 1.8 | 1.0 | 1.8 | 0.9 |
| Sir Fynwy | 38.7 | 18.9 | 18.1 | 5.7 | 3.1 | 2.1 | 3.0 | 1.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 37.2 | 19.5 | 18.4 | 8.5 | 4.8 | 3.1 | 4.9 | 3.6 |
| Casnewydd | 34.6 | 13.9 | 16.7 | 5.3 | 4.4 | 10.1 | 4.3 | 10.6 |
| Sir Benfro | 40.0 | 19.7 | 19.3 | 8.7 | 4.4 | 2.4 | 4.4 | 2.9 |
| Powys | 40.8 | 16.1 | 20.1 | 6.2 | 4.9 | 1.9 | 5.0 | 2.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 34.5 | 16.6 | 16.4 | 6.3 | 7.7 | 4.9 | 7.5 | 5.1 |
| Abertawe | 37.0 | 12.0 | 18.6 | 3.7 | 7.8 | 6.3 | 8.1 | 5.3 |
| Tor-faen | 35.2 | 18.3 | 16.9 | 7.0 | 3.1 | 1.8 | 3.0 | 1.8 |
| Bro Morgannwg | 35.9 | 15.4 | 17.0 | 6.4 | 4.1 | 4.4 | 4.0 | 5.0 |
| Wrecsam | 34.8 | 15.5 | 16.2 | 5.4 | 4.3 | 2.4 | 4.1 | 2.3 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 101)*

Mae'r boblogaeth o bobl wyn dros 50 oed wedi ei thaenu'n fwy gwastad trwy Gymru na'r bobl hŷn DLlE (Tabl 6.2). Yr oedd mwy na thraean o'r bobl hŷn DLlE ac o'r bobl DLlE 65 oed a throsodd yn byw yng Nghaerdydd. Yr oedd y tair dinas fwyaf (Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe) yn cynnwys oddeutu hanner poblogaeth DLlE hŷn Cymru. Mae'r poblogaethau gwyn a DLlE yn y dinasoedd mwyaf yn iau na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae'r boblogaeth yng Nghaerdydd hefyd yn gymharol ifanc, gyda dim ond 30.8% o'r bobl wyn yn 50 oed a throsodd, a 15.5% yn 65 a throsodd yn 2001. Mewn rhan helaeth o ogledd a chanolbarth Cymru, yr oedd dwy ran o bump o'r bobl wyn dros 50 oed yn 2001, gyda phoblogaethau gwyn cymharol hŷn mewn ardaloedd trefi gwyliau megis Conwy (43% yn 50 oed a throsodd a 23.2% yn 65 a throsodd). Yr oedd y cyfrannau uchaf o bobl DLlE 65 oed a throsodd yn digwydd yn yr ardaloedd arfordirol a thwristaidd megis Conwy a Sir Benfro, ynghyd â Chastell-nedd Port Talbot.

## Tabl 6.3: Canran o'r boblogaeth 65 oed a throsodd o bob grŵp ethnig

| Awdurdod unedol | 65 oed a throsodd | Gwyn | DLlE | Cymysg | Asiaidd neu | Du neu Ddu Prydeinig | Grŵp Ethnig Tsieineaidd neu Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYMRU | 504,770 | 99.3 | 0.7 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.1 |
| Blaenau Gwent | 11,829 | 99.7 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 21,297 | 99.7 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 |
| Caerffili | 25,829 | 99.6 | 0.4 | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.0 |
| Caerdydd | 44,573 | 97.3 | 2.7 | 0.5 | 1.0 | 0.9 | 0.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 33,699 | 99.7 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.0 |
| Ceredigion | 13,875 | 99.5 | 0.5 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.1 |
| Conwy | 25,315 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 18,816 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Sir y Fflint | 22,145 | 99.7 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.0 |
| Gwynedd | 22,199 | 99.7 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| Ynys Môn | 12,601 | 99.8 | 0.2 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Merthyr Tudful | 9,040 | 99.7 | 0.3 | 0.0 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Sir Fynwy | 15,250 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 24,641 | 99.5 | 0.5 | 0.1 | 0.2 | 0.2 | 0.1 |
| Casnewydd | 22,110 | 98.4 | 1.6 | 0.3 | 0.7 | 0.4 | 0.2 |
| Sir Benfro | 21,922 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Powys | 25,200 | 99.7 | 0.3 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 37,737 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.1 |
| Abertawe | 40,789 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.2 | 0.0 | 0.1 |
| Tor-faen | 15,287 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Bro Morgannwg | 20,013 | 99.2 | 0.8 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| Wrecsam | 20,604 | 99.6 | 0.4 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.1 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 101)*

Yn y Tabl 6.3, dangosir cyfansoddiad ethnig y boblogaeth 65 oed a throsodd yn 2001. Trwy'r rhan fwyaf o Gymru, yr oedd y bob DLlE yn cynrychioli llai nag 1 o bob 200 o'r holl bobl 65 oed a throsodd. Mae Caerdydd a Chasnewydd y sefyll allan oherwydd eu cyfrannau llawer mwy o bobl oedrannus o'r grwpiau DLlE, o gymharu ag awdurdodau unedol eraill Cymru. Yng Nghaerdydd, yr oedd y boblogaeth hŷn Asiaidd ychydig yn fwy na'r boblogaeth hŷn Ddu. Nodwedd hynod oedd maint y boblogaeth oedrannus o dras cymysg, a oedd cymaint â'r grwpiau Asiaidd a'r Du gyda'i gilydd mewn nifer o awdurdodau (e.e. Caerffili).

Er bod poblogaeth DLlE hŷn Cymru yn bur fach yn 2001, dengys y data a gyflwynir yma fod pobl hŷn DLlE yn byw ym mhob rhan o Gymru, a bod ethnigrwydd y boblogaeth DLlE hŷn yn amrywiol. Felly mae'r darparwyr gwasanaethau yn yr ardaloedd llai poblog yn wynebu cryn her wrth geisio darparu yn ddiwylliannol-sensitif ar gyfer niferoedd bach o bobl.

## 6.3 Mathau o aelwydydd

### Tabl 6.4: Aelwydydd sy'n cynnwys pensiynwyr, fesul grŵp ethnig a chrefyddol

| | Pob aelwyd | Pensiynwyr unigol | | Teuluoedd pensiynwyr | | Aelwydydd pensiynwyr eraill | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **PAWB** | 1,209,048 | 186,875 | 15.5 | 116,285 | 9.6 | 6,407 | 0.5 |
| *Gwyn* | *1,190,399* | *185,773* | *15.6* | *115,781* | *9.7* | *6,360* | *0.5* |
| Gwyn: Prydeinig | 1,164,985 | 181,938 | 15.6 | 113,377 | 9.7 | 6,198 | 0.5 |
| Gwyn: Gwyddelig | 9,436 | 1,751 | 18.6 | 1,012 | 10.7 | 76 | 0.8 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 15,978 | 2,084 | 13.0 | 1,392 | 8.7 | 86 | 0.5 |
| **DLIE** | *18,649* | *1,102* | *5.9* | *504* | *2.7* | *47* | *0.3* |
| *Cymysg* | *4,430* | *357* | *8.1* | *143* | *3.2* | *11* | *0.2* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 1,493 | 129 | 8.6 | 58 | 3.9 | 5 | 0.3 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 708 | 49 | 6.9 | 15 | 2.1 | 3 | 0.4 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1,041 | 68 | 6.5 | 33 | 3.2 | - | - |
| Cymysg Eraill | 1,188 | 111 | 9.3 | 37 | 3.1 | 3 | 0.3 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *7,473* | *288* | *3.9* | *168* | *2.2* | *15* | *0.2* |
| Indiaidd | 2,764 | 85 | 3.1 | 82 | 3.0 | 3 | 0.1 |
| Pacistanaidd | 2,178 | 112 | 5.1 | 54 | 2.5 | 9 | 0.4 |
| Bangladeshi | 1,230 | 28 | 2.3 | 3 | 0.2 | - | - |
| Asiaidd Eraill | 1,301 | 63 | 4.8 | 29 | 2.2 | 3 | 0.2 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *3,073* | *323* | *10.5* | *126* | *4.1* | *15* | *0.5* |
| Du Caribïaidd | 1,464 | 153 | 10.5 | 78 | 5.3 | 3 | 0.2 |
| Du Affricanaidd | 1,299 | 141 | 10.9 | 41 | 3.2 | 12 | 0.9 |
| Du Eraill | 310 | 29 | 9.4 | 7 | 2.3 | - | - |
| *Grŵp Ethnig Tsieineaidd neu Arall* | *3,673* | *134* | *3.6* | *67* | *1.8* | *6* | *0.2* |
| Tsieineaidd | 2,001 | 81 | 4.0 | 43 | 2.1 | 3 | 0.1 |
| Grŵp Ethnig Arall | 1,672 | 53 | 3.2 | 24 | 1.4 | 3 | 0.2 |
| **Crefydd** | | | | | | | |
| Cristnogol | 892,157 | 160,407 | 18.0 | 101,952 | 11.4 | 5,432 | 0.6 |
| Bwdaidd | 2,666 | 179 | 6.7 | 65 | 2.4 | 7 | 0.3 |
| Hindŵaidd | 1,862 | 58 | 3.1 | 56 | 3.0 | - | - |
| Iddewig | 1,139 | 236 | 20.7 | 136 | 11.9 | 4 | 0.4 |
| Moslemaidd | 5,985 | 158 | 2.6 | 58 | 1.0 | 11 | 0.2 |
| Sicaidd | 616 | 30 | 4.9 | 12 | 1.9 | - | - |
| Unrhyw grefydd arall | 3,620 | 354 | 9.8 | 134 | 3.7 | 7 | 0.2 |
| Dim crefydd | 214,452 | 10,701 | 5.0 | 6,536 | 3.0 | 325 | 0.2 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 106 a 151)*

Yn gyffredinol, yr oedd aelwydydd lle'r oedd y "person cyswllt" neu bartner yn bensiynwr yn cyfrif am dros chwarter (25.6%) o'r holl aelwydydd yng Nghymru. Yr oedd chweched ran o'r aelwydydd a oedd â pherson cyswllt gwyn yn bensiynwyr unigol, a degfed ran ychwanegol yn deuluoedd pensiynwyr (sef teuluoedd a oedd yn cynnwys cwpl mewn oedran pensiwn). Y grŵp ethnig gwyn Gwyddelig oedd yr hynaf oll, gyda'r ganran uchaf o aelwydydd pensiynwyr a'r ganran uchaf o bensiynwyr unigol. Pensiynwyr oedd y penteuluoedd mewn bron draean o'r aelwydydd Iddewig. Ymhlith y grwpiau ethnig DLlE, yr oedd canran yr aelwydydd pensiynwyr oddeutu un rhan o dair o'r ganran gyffredinol, ond serch hynny, yr oedd cyfanswm o 1,653 ohonynt yng Nghymru yn 2001.

Yr oedd aelwydydd pensiynwyr yn llawer mwy cyffredin ymhlith y grwpiau ethnig Du a Du Prydeinig nag ymhlith y grwpiau Asiaidd. Mewn mwy na degfed ran o'r aelwydydd Du Caribïaidd a Du Affricanaidd, yr oedd pensiynwr yn byw ar ei ben ei hunan. Yr oedd aelwydydd pensiynwyr unigol yn llai cyffredin o lawer ymhlith pobl Bangladeshi, Indiaidd, Tsieineaidd a Phacistanaidd o gymharu â grwpiau ethnig eraill. Ymhlith y grwpiau ethnig ieuengaf yr oedd teuluoedd pensiynwyr yn anghyffredin iawn; ac o'r 6,407 o'r "aelwydydd pensiynwyr eraill" (pensiynwyr diberthynas a oedd yn yr un cyfeiriad), 47 yn unig oedd yn cynnwys pobl DLlE. Mewn 3.8% yn unig o'r aelwydydd Moslemaidd yr oedd y penteulu'n bensiynwr, er bod aelwydydd pensiynwyr unigol yn fwy cyffredin na chyplau o bensiynwyr. Er mai bach oedd y boblogaeth Sicaidd oedrannus yn 2001, yr oedd 4.9% o'u haelwydydd yn aelwydydd pensiynwyr unigol, cyfran uwch o lawer na'r crefyddau De Asiaidd eraill. Mae'r gyfran fach o deuluoedd pensiynwyr a gofnodir mewn llawer o'r grwpiau ethnig DLlE yn dynodi bod pobl hŷn yn y grwpiau hyn yn fwy tebygol o fyw ar aelwyd lle mae'r penteulu'n berthynas iau.

**Tabl 6.5: Canrannau o ddynion a benywod 50-64 oed neu 65 a throsodd sydd â salwch hirdymor cyfyngol neu iechyd cyffredinol gwael**

| | GWRYWOD | | | | BENYWOD | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 50-64 oed | | 65+ oed | | 50-64 oed | | 65+ oed | |
| | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael |
| **PAWB** | 37.0 | 22.0 | 57.7 | 27.7 | 34.3 | 20.1 | 59.6 | 30.4 |
| *Gwyn* | *37.0* | *22.0* | *57.8* | *27.7* | *34.3* | *20.1* | *59.6* | *30.4* |
| Gwyn: Prydeinig | 37.0 | 21.9 | 57.8 | 27.7 | 34.3 | 20.1 | 59.7 | 30.4 |
| Gwyn: Gwyddelig | 41.0 | 27.2 | 56.4 | 30.4 | 35.3 | 22.9 | 56.0 | 29.6 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 34.1 | 20.8 | 58.5 | 28.3 | 31.7 | 17.8 | 57.3 | 31.1 |
| **DLlE** | ***36.1*** | ***21.6*** | ***54.8*** | ***28.8*** | ***37.4*** | ***21.7*** | ***60.3*** | ***31.8*** |
| *Cymysg* | *43.4* | *30.5* | *55.0* | *27.5* | *39.2* | *25.0* | *60.4* | *30.2* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 44.0 | 33.3 | 57.7 | 28.9 | 40.3 | 30.2 | 59.3 | 32.1 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 39.6 | 28.7 | 56.9 | 11.8 | 40.0 | 21.3 | 58.3 | 33.3 |
| Gwyn ac Asiaidd | 41.1 | 29.8 | 50.6 | 22.4 | 36.5 | 19.8 | 66.0 | 25.0 |
| Cymysg Eraill | 46.2 | 29.4 | 53.8 | 37.5 | 39.7 | 25.8 | 57.9 | 30.7 |

*(Parhad)*

| | GWRYWOD | | | | BENYWOD | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 50-64 oed | | 65+ oed | | 50-64 oed | | 65+ oed | |
| | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael | Gyda salwch hirdymor | Mewn iechyd gwael |
| *Asiaidd neu Asiaidd* | *36.3* | *19.7* | *55.1* | *30.6* | *41.8* | *24.4* | *63.0* | *35.1* |
| Indiaidd | 28.3 | 14.6 | 46.1 | 22.0 | 36.9 | 19.9 | 63.5 | 37.1 |
| Pacistanaidd | 50.5 | 26.6 | 59.0 | 35.7 | 55.9 | 34.9 | 65.6 | 34.8 |
| Bangladeshi | 58.4 | 31.2 | 70.5 | 47.7 | 46.3 | 24.2 | 51.7 | 28.3 |
| Asiaidd Eraill | 25.6 | 16.4 | 53.8 | 23.6 | 24.7 | 16.5 | 62.6 | 36.3 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *43.0* | *26.9* | *54.9* | *31.5* | *37.2* | *20.2* | *61.9* | *33.1* |
| Du Caribïaidd | 44.7 | 29.2 | 55.8 | 32.9 | 34.0 | 16.5 | 58.1 | 29.7 |
| Du Affricanaidd | 41.5 | 25.1 | 54.0 | 29.9 | 41.3 | 22.3 | 61.8 | 35.0 |
| Du Eraill | 40.8 | 22.4 | 52.0 | 28.0 | 31.0 | 31.0 | 76.9 | 38.5 |
| *Grŵp Ethnig Tsieineaidd neu Arall* | *21.4* | *12.3* | *53.0* | *21.5* | *26.2* | *13.7* | *51.6* | *25.0* |
| Tsieineaidd | 23.9 | 13.6 | 50.0 | 19.3 | 28.1 | 13.1 | 48.1 | 21.6 |
| Grŵp Ethnig Arall | 16.9 | 10.1 | 59.3 | 25.9 | 23.3 | 14.6 | 58.5 | 31.7 |
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Cristnogol | 36.9 | 21.6 | 57.6 | 27.5 | 34.2 | 19.8 | 59.3 | 30.8 |
| Bwdaidd | 33.9 | 23.8 | 52.7 | 33.5 | 31.6 | 20.0 | 55.4 | 29.0 |
| Hindŵaidd | 26.8 | 12.9 | 44.9 | 20.4 | 33.3 | 18.8 | 65.0 | 35.9 |
| Iddewig | 39.1 | 26.9 | 54.9 | 28.7 | 29.7 | 18.8 | 55.3 | 28.9 |
| Moslemaidd | 40.6 | 22.9 | 61.9 | 36.4 | 48.2 | 28.1 | 69.3 | 39.4 |
| Sicaidd | 37.7 | 23.7 | 49.1 | 26.3 | 47.4 | 37.9 | 58.8 | 35.3 |
| Unrhyw grefydd arall | 45.8 | 30.1 | 60.4 | 30.5 | 45.3 | 29.3 | 64.9 | 36.6 |
| Dim crefydd | 36.0 | 23.1 | 56.7 | 31.0 | 33.5 | 21.3 | 56.7 | 32.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 107 a 152)*

## 6.4 Amrywiadau iechyd

Yn y Tabl 6.5 cyflwynir dau o fesur (hunanadroddedig) iechyd gwael: y ganran o'r bobl a oedd yn dioddef o iechyd hirdymor a oedd yn cyfyngu eu gweithgarwch; a lefel iechyd cyffredinol "gwael" dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Tabl yn cymharu iechyd dynion a benywod yn y grwpiau oedran 50 i 64a 65 a throsodd.

Tuedd y lefelau iechyd yw gwaethygu ochr yn ochr ag oedran, ac yr oedd y canrannau salwch hirdymor ac iechyd gwael yn sylweddol uwch ar gyfer pobl 65 oed a throsodd, o gymharu â 50-64 oed. Yr oedd iechyd gwrywod yn waeth nag iechyd benywod yn y grŵp oedran iau, ond yr oedd y patrwm yn newid o chwith yn y grŵp oedran hŷn oherwydd, yn ôl pob tebyg, bod benywod yn byw'n hwy, ar gyfartaledd, na'r dynion. Yr oedd mwy na thraean o'r bobl 50 i 64, a bron dair rhan o bump o'r bobl 65 oed a throsodd, yn dioddef o broblem iechyd hirdymor. Yr oedd ansawdd iechyd gwael gan bumed ran o'r bobl 50 oed a thros chwarter y rhai 65 oed a throsodd.

Y gyffredinol, yr oedd dynion DLlE yn dioddef cyfraddau is o salwch hirdymor na'r dynion gwyn, ond yr oedd benywod DLlE yn dioddef cyfraddau uwch. O gymharu â phobl wyn o'r un grŵp oedran, yr oedd gwaeth lefelau iechyd gan fenywod DLlE a dynion DLlE hŷn. Er bod y bobl Ddu a'r bobl Asiaidd yn tueddu i ddioddef gwaeth lefelau iechyd na'r bobl wyn, yr oedd gan y bobl Tsieineaidd gyfraddau salwch is a lefelau iechyd gwell na na'r un grŵp ethnig arall.

Yr oedd gwrthgyferbyniadau helaeth rhwng y grwpiau ethnig Asiaidd. Yn y ddau grŵp oedran, yr oedd lefelau iechyd dynion Indiaidd well o lawer na'r gwyn, ond yr oedd benywod Indiaidd yn fwy tebygol na benywod gwyn o ddioddef salwch cyfyngol hirdymor, ac yr oedd eu hiechyd cyffredinol yn dirywio'n gyflymach gydag oedran, o gymharu â benywod gwyn. Dioddefai dynion Pacistanaidd a Bangladeshi 50-64 oed waeth iechyd o lawer na dynion gwyn, ac yr oedd y gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy ymhlith dynion Bangladeshi 65 oed a throsodd. Er bod iechyd benywod Bangladeshi 50-64 oed yn waeth nag iechyd benywod gwyn o'r un oedran, yr oedd y benywod 65 oed a throsodd mewn gwell iechyd na'r benywod gwyn. cyfatebol. Yr oedd iechyd cymharol gwrywod Du 50-64 o gymharu â dynion gwyn, yn waeth nag ydoedd yn y grŵp oedran 65 a throsodd. Yr oedd lefelau iechyd benywod Du yn debyg i'r lefelau'r benywod gwyn.

O ystyried crefydd, yr oedd lefelau salwch hirdymor ac iechyd gwael yn tueddu i fod yn isel ymhlith dynion Hindŵaidd, ond yr oedd iechyd benywod hŷn Hindŵaidd yn waeth na'r cyfartaledd. Ymhlith Bwdyddion cymharol isel oedd y cyfraddau salwch hirdymor cyfyngol ond yr oedd y cyfraddau iechyd cyffredinol yn agos at y cyfartaledd. Ymhlith benywod Sicaidd 50-64 oed, yr oedd y cyfraddau salwch cyfyngol hirdymor ac iechyd cyffredinol gwael yn uchel. Ymhlith y bobl Foslemaidd yr oedd dynion a benywod yn dioddef lefelau uwch na'r cyfartaledd o salwch cyfyngol hirdymor ac iechyd gwael.

## 6.5 Nodweddion economaidd

Yn yr adran hon, ystyrir tri mesur gweithgarwch marchnad lafur o safbwynt pobl hŷn: y gyfradd gweithgarwch economaidd, y gyfradd gyflogaeth a'r gyfradd ddiweithdra..

Dangosir y cyfraddau gweithgarwch economaidd yn y Tabl 6.6. Yr oedd y ganran o'r boblogaeth a oedd yn weithgar yn y farchnad lafur yn lleihau'n gyflym ochr yn ochr ag oedran ar gyfer pobl dros 50 oed, gan ostwng o 63.5% ar gyfer dynion 55-59 oed i 9.2% ar gyfer dynion 65-74 oed. Tra oedd ychydig llai na hanner y benywod 55-59 oed yn economaidd weithgar, 5.3% yn unig o'r benywod 65-74 oed oedd yn economaidd weithgar. Yr oedd cyfraddau gweithgarwch gwrywod o'r grwpiau ethnig DLlE yn uwch na chyfraddau dynion gwyn ym mhob un o'r tri grŵp oedran, tra bo cyfraddau gweithgarwch benywod DLlE yn is na chyfraddau benywod gwyn ym mhob un ond yr hynaf o'r grwpiau oedran. Dynion o'r grwpiau ethnig Indiaidd, Asiaidd Eraill, "Arall" a Tsieineaidd oedd y mwyaf tebygol o fod yn economaidd weithgar, a dynion o'r grwpiau ethnig Du Affricanaidd, Bangladeshi a Du Caribïaidd oedd â'r cyfraddau gweithgarwch economaidd isaf.

Benywod gwyn, Du Caribïaidd ac Indiaidd oedd â'r cyfraddau gweithgarwch economaidd uchaf, ac yr oedd benywod o'r ddau grŵp ethnig olaf yn tueddu i aros yn y farchnad lafur yn hwy na benywod gwyn. Yr oedd y cyfraddau gweithgarwch economaidd ar gyfer benywod Pacistanaidd a Bangladeshi yn llawer is nag ar gyfer pob grŵp ethnig arall. Yn y grŵp oedran 65 i

74 oed, yr oedd y cyfraddau gweithgarwch economaidd yn uwch ar gyfer benywod o bob grŵp DLlE ac eithrio'r Bangladeshiaid, o gymharu â'r gyfradd ar gyfer benywod gwyn.

**Tabl 6.6: Cyfraddau gweithgarwch economaidd fesul grŵp ethnig, grŵp oedran a rhyw**

| | GWRYWOD | | | BENYWOD | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oed 55-59 | Oed 60-64 | Oed 65-74 | Oed 55-59 | Oed 60-64 | Oed 65-74 |
| **PAWB** | 63.5 | 38.8 | 9.2 | 48.3 | 21.7 | 5.3 |
| *Gwyn* | *63.5* | *38.8* | *9.2* | *48.4* | *21.7* | *5.3* |
| Gwyn: Prydeinig | 63.5 | 38.7 | 9.2 | 48.3 | 21.7 | 5.3 |
| Gwyn: Gwyddelig | 60.8 | 38.5 | 10.8 | 53.6 | 24.3 | 7.2 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 67.2 | 43.2 | 10.1 | 51.4 | 24.8 | 6.3 |
| **DLlE** | ***67.1*** | ***41.0*** | ***12.0*** | ***38.7*** | ***19.6*** | ***10.5*** |
| *Cymysg* | *57.6* | *33.1* | *6.9* | *46.5* | *19.7* | *12.9* |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 54.4 | 31.1 | 5.5 | 41.9 | 21.1 | 15.7 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 60.5 | 40.0 | 10.8 | 50.0 | 18.2 | 18.8 |
| Gwyn ac Asiaidd | 59.5 | 37.5 | 14.0 | 45.0 | 20.0 | 7.4 |
| Cymysg Eraill | 57.6 | 28.6 | 0.0 | 49.2 | 19.0 | 10.7 |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | *72.6* | *46.3* | *14.5* | *36.9* | *16.4* | *7.8* |
| Indiaidd | 79.8 | 52.8 | 17.7 | 48.9 | 17.9 | 10.3 |
| Pacistanaidd | 59.8 | 39.0 | 15.9 | 22.9 | 12.8 | 8.4 |
| Bangladeshi | 58.8 | 38.5 | 4.5 | 17.5 | 10.0 | 0.0 |
| Asiaidd Eraill | 77.1 | 55.9 | 11.4 | 46.7 | 26.7 | 5.6 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | *60.8* | *29.4* | *10.0* | *35.9* | *26.6* | *11.6* |
| Du Caribïaidd | 64.5 | 29.4 | 9.0 | 48.3 | 31.9 | 14.2 |
| Du Affricanaidd | 52.1 | 30.9 | 13.0 | 19.6 | 21.8 | 9.3 |
| Du Eraill | 68.4 | 23.1 | 0.0 | 46.7 | 0.0 | 0.0 |
| *Grŵp Ethnig Tsieineaidd neu Arall* | *69.7* | *45.5* | *14.4* | *36.3* | *19.8* | *11.5* |
| Tsieineaidd | 66.3 | 43.8 | 13.5 | 40.7 | 15.2 | 10.9 |
| Grŵp Ethnig Arall | 75.0 | 50.0 | 16.7 | 27.3 | 30.0 | 13.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M248*

Mae'r cyfraddau cyflogaeth (y ganran o'r boblogaeth sydd mewn gwaith cyflogedig) hefyd yn gostwng y gyflym ochr yn ochr ag oedran ar gyfer dynion a benywod (Tabl 6.7), ond yn arafach ar gyfer y bobl DLlE. Yr oedd canran y dynion DLlE a oedd mewn gwaith cyflogedig yn uwch na'r gyfran gyfatebol ar gyfer dynion gwyn ym mhob un o'r tri grŵp oedran. Yr oedd y ganran o'r benywod DLlE 55-59 oed a oedd mewn gwaith yn is na'r ganran ar gyfer benywod gwyn, ond yr oedd y ganran a oedd mewn gwaith tu hwnt i'r oedran ymddeol swyddogol (60) yn uwch ar gyfer benywod DLlE na benywod gwyn.

Ymhlith gwrywod, dynion Indiaidd oedd â'r gyfradd gyflogaeth uchaf ym mhob un o'r tri grŵp, ac wedyn dynion o'r grwpiau ethnig Asiaidd Eraill, "Arall" a Tsieineaidd,


gyda phob un o'r grwpiau hyn y fwy tebygol o fod mewn gwaith na dynion gwyn. Dynion Bangladeshi Du Affricanaidd a dynion o dras cymysg oedd y lleiaf tebygol o fod mewn gwaith. Yr oedd dynion Du Caribïaidd yn fwy tebygol na dynion Du Affricanaidd o fod mewn gwaith, ond yn llai tebygol na dynion Pacistanaidd.

### Tabl 6.7: Cyfradd gyflogaeth fesul grŵp ethnig, grŵp oedran a rhyw

| | GWRYWOD | | | BENYWOD | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oed 55-59 | Oed 60-64 | Oed 65-74 | Oed 55-59 | Oed 60-64 | Oed 65-74 |
| **PAWB** | 60.0 | 36.5 | 8.9 | 46.8 | 21.4 | 5.1 |
| *Gwyn* | *59.9* | *36.5* | *8.9* | *46.9* | *21.4* | *5.1* |
| Gwyn: Prydeinig | 59.9 | 36.5 | 8.8 | 46.8 | 21.4 | 5.1 |
| Gwyn: Gwyddelig | 56.1 | 35.2 | 10.2 | 50.8 | 23.6 | 7.2 |
| Gwyn Eraill: Gwyn | 62.8 | 39.8 | 9.9 | 48.8 | 24.2 | 6.0 |
| **DLIE** | ***61.7*** | ***37.1*** | ***11.5*** | ***35.9*** | ***19.6*** | ***8.3*** |
| *Cymysg* | 49.0 | 27.7 | 6.9 | 42.9 | 19.7 | 6.2 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 47.4 | 31.1 | 5.5 | 41.9 | 21.1 | 8.4 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 50.0 | 40.0 | 10.8 | 39.3 | 18.2 | 0.0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 45.9 | 30.0 | 14.0 | 37.5 | 20.0 | 7.4 |
| Cymysg Eraill | 51.5 | 17.9 | 0.0 | 49.2 | 19.0 | 5.4 |
| *Asiaidd neu Asiaidd* | *70.0* | *41.7* | *13.9* | *32.3* | *16.4* | *6.2* |
| Indiaidd | 79.8 | 50.8 | 17.7 | 44.7 | 17.9 | 7.8 |
| Pacistanaidd | 55.1 | 32.8 | 14.3 | 19.3 | 12.8 | 6.5 |
| Bangladeshi | 50.0 | 30.8 | 4.5 | 10.0 | 10.0 | 0.0 |
| Asiaidd Eraill | 74.3 | 51.5 | 11.4 | 41.7 | 26.7 | 5.6 |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | 50.3 | 25.9 | 8.9 | 35.9 | 26.6 | 11.6 |
| Du Caribïaidd | 52.6 | 26.5 | 9.0 | 48.3 | 31.9 | 14.2 |
| Du Affricanaidd | 45.8 | 25.5 | 10.0 | 19.6 | 21.8 | 9.3 |
| Du Eraill | 52.6 | 23.1 | 0.0 | 46.7 | 0.0 | 0.0 |
| *Grŵp Ethnig Tsieineaidd* | *65.5* | *45.5* | *14.4* | *36.3* | *19.8* | *11.5* |
| Tsieineaidd | 62.9 | 43.8 | 13.5 | 40.7 | 15.2 | 10.9 |
| Grŵp Ethnig Arall | 69.6 | 50.0 | 16.7 | 27.3 | 30.0 | 13.0 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M248*

## Ffigur 6.1: Cyfradd ddiweithdra pobl 55-59 oed




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 Tabl Comisiynedig M248*

Ymhlith benywod DLlE hŷn, cofnodwyd y gyfradd gyflogaeth uchaf ar gyfer y grŵp ethnig Du Caribïaidd ac yna benywod Indiaidd, benywod o dras cymysg a benywod Asiaidd eraill. O'r benywod Bangladeshi a oedd o dan 65 oed, 10% yn unig oedd yn gweithio, tra oedd oddeutu pumed ran o'r benywod 55-59 oed Pacistanaidd a Du Affricanaidd yn gweithio.

Cyferbynnir y cyfraddau diweithdra ar gyfer dynion a benywod 55-59 oed (sef y ganran o'r bobl economaidd weithgar a adroddodd eu bod yn ddi-waith yn ystod yr wythnos cyn y Cyfrifiad) fesul grŵp ethnig yn Ffigur 6.1. Yr oedd cyfradd ddiweithdra dynion tua dwywaith y gyfradd ar gyfer benywod yn y grŵp oedran hwn; a'r gyfradd ddiweithdra DLlE tua 50% yn uwch na chyfradd y bobl wyn yn achos dynion, a dwywaith mor uchel yn achos benywod. Dynion Du a oedd yn dioddef y cyfraddau diweithdra uchaf, ac yna dynion o dras cymysg a dynion Bangladeshi. Mewn llawer o'r grwpiau DLlE, ni chofnodwyd unrhyw fenywod yn ddi-waith, ond yr oedd 16% o'r benywod Pacistanaidd a 42,9% o'r benywod Bangladeshi economaidd weithgar yn ddi-waith.

### 6.6 Crynodeb

- Yn 2001, yr oedd ychydig dro 9 mil o'r bobl DLlE yn 50 oed a throsodd, a 3.3 mil yn 65 a throsodd. Pobl Asiaidd yw'r gydran fwyaf, ond nid ydynt yn ffurfio mwyafrif o'r DLlE. Mae'r poblogaeth DLlE hŷn yn amrywio'n fawr, gyda chanran uchel o bobl o dras cymysg, sy'n adlewyrchiad o hanes hir y boblogaeth DLlE yng Nghymru.
- Mae'r crynodiadau mwyaf o'r bobl DLlE hŷn yn digwydd yn y ninasoedd Cymru, ond mae rhai pobl DLlE hŷn i'w cael ym mhob rhan o'r wlad. Fel yn achos y bobl wyn, mae'r boblogaeth yn y dinasoedd sy'n yn tueddu i fod yn ieuengach, tra bo ardaloedd arfordirol, ardaloedd gwledig a chyrchfannau twristaidd y fwy tebygol o letya pobl DLlE hŷn.

- Mae'r bobl DLlE De Asiaidd hŷn yn llai tebygol na phobl wyn hŷn o fyw mewn aelwydydd annibynnol, ond mae'r bobl Ddu hŷn yn fwy tebygol na phobl DLlE eraill o fyw ar eu pen eu hunain.
- Mae iechyd y bobl hŷn Indiaidd a Tsieineaidd yn tueddu i fod yn well na'r cyfartaledd. Mae'r bobl Bacistanaidd a Bangladeshi (a Moslemiaid yn gyffredinol) yn dioddef gwaeth iechyd na'r cyfartaledd. Mae iechyd benywod o dde Asia yn tueddu i fod yn waeth nag iechyd y gwrywod.
- Tuedd pobl hŷn o'r grwpiau ethnig DLlE yw aros yn y farchnad lafur yn hwy na phobl wyn. Pobl hŷn Indiaidd, Asiaidd Eraill, "Eraill" a Tsieineaidd sy'n tueddu i fod yn fwyaf llwyddiannus yn y farchnad lafur.

# 7. Sut y mae'r boblogaeth DLlE yng Nghymru yn newid

Gyda thwf diwydiant yng Nghymru achoswyd ymfudo helaeth i mewn ac allan o'r wlad yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed; ac oherwydd pwysigrwydd porthladdoedd glo de Cymru, ymddangosodd poblogaethau o grwpiau ethnig lleiafrifol yn gynharach yma, gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU. Dechreuir y bennod hon gydag adolygiad byr o hanes yr ymsefydlu lleiafrifol yng Nghymru.

Ni ddechreuwyd mesur poblogaethau Du a Lleiafrifol Ethnig Cymru a'r DU gydag unrhyw fanylder tan y 1980au, pan gynhwyswyd cwestiynau ynglŷn â grŵp ethnig am y tro cyntaf mewn prif arolygon cymdeithasol (yr Arolwg Gweithlu a'r Arolwg Aelwydydd Cyffredinol), ac y datblygwyd y cwestiwn grŵp ethnig a gynhwyswyd wedyn yng Nghyfrifiad Poblogaeth 1991. Mae'r dadansoddiad o dueddiadau'r boblogaeth yng Nghymru, felly, yn canolbwyntio ar y cyfnod o 1981 ymlaen. Edrychir ymlaen yn y bennod hon hefyd, gan gyflwyno rhagamcanion o'r boblogaeth DLlE rhwng 2001 a 2011.

## 7.1 Hanes Cefndir y Boblogaeth Ddu a Lleiafrifol Ethnig (DLlE) yng Nghymru

Mae hanes yr ymsefydlu yng Nghymru yn un maith, ac yn gysylltiedig i raddau helaeth â phorthladdoedd glo de Cymru, ond yn cwmpasu hefyd y meddygon Indiaidd a fu'n gweithio yn y cymoedd a'r ardaloedd trefol diwydiannol. Un o'r astudiaethau cynharaf o ymsefydlu gan leiafrifoedd ethnig mewn tref Brydeinig oedd llyfr gan Kenneth Little (a fu'n Athro Anthropoleg ym Mhrifysgol Caeredin) ar ardal Tiger Bay (y Drenewydd) yng Nghaerdydd, a ymddangosodd ym 1948 ac a ailgyhoeddwyd ddwywaith yn ddiweddarach, ym 1972 a 1998. Cyhoeddodd Little arolwg cynharach hefyd, o Loudon Square, ardal allweddol o ran yr ymsefydlu lleiafrifol yn y Drenewydd (Little, 1942). Dull ethnograffig ac ansoddol a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau hyn, gan nad oedd unrhyw ddata meintiol ar gael ynglŷn ag ethnigrwydd.

Yng Nghaerdydd yr oedd y crynodiad sylweddol cyntaf o bobl DLlE yng Nghymru. Yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, yr oedd poblogaeth leiafrifol y ddinas i raddau helaeth yn bobl o darddiad Gorllewin Affricanaidd, Caribïaidd , Yemenaidd, Somalïaidd a Tsieineaidd. Mae Little yn disgrifio poblogaeth wrywaidd o forwyr a oedd naill ai wedi gadael eu llongau yn fwriadol neu wedi eu gadael ar ôl gan eu cyflogwyr oherwydd pwysau i gyflogi criwiau o Brydeinwyr. Bach oedd eu nifer, 5,000 neu 6,000 ar y mwyaf, hwyrach, yn y cyfnod rhwng diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a dechrau'r Ail Ryfel. Fodd bynnag, oherwydd ei bod yn boblogaeth o wrywod yn bennaf, trwy ryngbriodi a chyd-fyw cynhyrchwyd poblogaeth Gymysg sylweddol (aelodau o'r boblogaeth hon oedd rhai personoliaethau amlwg megis y gantores Shirley Bassey). Darlun trist a geir gan Little, fodd bynnag, o derfysg hiliol ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ac agweddau hiliol ymhlith yr heddlu a'r cyhoedd.

Cyfraniad nodedig diweddarach i'r hanes yw'r llyfr Arabs in Exile gan Fred Halliday (1992). Hanes y boblogaeth Foslemaidd o Yemeniaid a Somalïaid ym Mhrydain yn y cyfnod 1900 - 1950 yw hwn, a'u himam carismatig, Sheikh al-Hakmi. Yn ôl cyfrif

Halliday, yr oedd tua 1,500 o Yemeniaid a 1,000 o Somalïaid yng Nghaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd (Halliday, 1992, 21). Caerdydd oedd y fwyaf o'r pedair dinas borthladd Brydeinig lle'r oedd cymunedau Yemenaidd (Lerpwl, South Shields a Hull oedd y tair arall) ac yr oedd gan Gaerdydd hyd yn oed enw Arabeg, Bilad al-Welsh (Tir y Cymry) (Halliday, 1992, 17). Trwy weithgarwch cenhadol y Sheikh y sefydlwyd y mosg cyntaf yng Nghymru, sef Mosg Stryd Maria a sefydlwyd ym 1936. Somalïaidd yw'r mosg hwn ar hyn o bryd, wedi i'r Yemeniaid ymwahanu ac agor mosg newydd ym 1984 yn Stryd Alice, sydd hefyd yn ardal y Drenewydd. Mae Halliday (1992, 18) yn cyfeirio at y Drenewydd fel geto, gan fod y poblogaethau lleiafrifol ethnig wedi eu cyfyngu i'r ardal hon ger y dociau, ac wedi eu datgysylltu oddi wrth weddill y ddinas. Mewn gwirionedd, nid oedd yn cymharu â gwir getoau'r Americanwyr duon, o ran maint nac o ran yr arwahanu daearyddol oddi wrth y mwyafrif gwyn. Er bod y boblogaeth hwyrach wedi ei chyfyngu i'r Drenewydd, pobl wyn, serch hynny, oedd mwyafrif poblogaeth yr ardal honno. Yn Chicago ym 1990, ar y llaw arall, yr oedd dwy ran o dair o'r boblogaeth o Americanwyr Affricanaidd yn byw mewn ardaloedd gyda phoblogaeth Ddu o 90% neu ragor, ac 82% ohonynt mewn ardaloedd gyda phoblogaeth Ddu o 50% neu ragor (Peach, 1996).

Yr oedd y mewnfudo mawr i Brydain ar ôl y rhyfel, o'r Caribî, India, Pacistan a Bangladesh yn canolbwyntio'n bennaf ar y dinasoedd diwydiannol mewndirol yn Lloegr. Ymsefydlodd mwyafrif llethol o'r boblogaeth Garibïaidd yn Llundain a chytref Birmingham; tueddai'r Indiaid i ymsefydlu yn Llundain a Gorllewin a Dwyrain Canolbarth Lloegr, tra ymdaenodd y Pacistaniaid yn bur wastad rhwng Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a threfi Swydd Gaerhirfryn a Gorllewin Swydd Efrog. Tuedd yr ymfudiadau diweddarach, o Bangladesh ac o Affrica, oedd canolbwyntio ar Lundain.

O ganlyniad, dros y cyfnod o'r 1930au i'r 1960au, newidiodd Cymru o fod yn un o brif ardaloedd ymsefydlu'r DLlE i fod yn un o'r lleiaf o ran niferoedd a chyfran o gyfanswm y boblogaeth. Yn 2001, pobl DLlE oedd 7.9% o boblogaeth y DU; ond yng Nghymru, y boblogaeth DLlE oedd 61,576, sef 2.1% o'r cyfanswm. Yng Ngogledd Iwerddon ac yng Ngogledd Lloegr yn unig yr oedd y bobl DLlE yn ganran is o'r boblogaeth breswyl nag yng Nghymru.

Ffigurau bras yn unig y gellir eu cynnig ar gyfer twf poblogaeth DLlE Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae'n debygol fod y boblogaeth oddeutu 8 mil cyn yr Ail Ryfel Byd, a'i bod wedi cynyddu i ffigur sydd bron wyth gwaith yn fwy (61,576) erbyn 2001.

Gellir ymhelaethu yn awr ar y modd y cyfrifwyd y ffigurau hyn. Amcangyfrifodd Little fod poblogaeth DLlE o 5,000 neu 6,000 yng Nghaerdydd yn y blynyddoedd rhwng y rhyfel. Mewn Cyfrifiadau diweddar yr oedd Caerdydd yn cynnwys bron hanner poblogaeth DLlE Cymru (42% ym 1991 ac yn 2001), ond mae'n debygol ei bod yn cynnwys canran llawer uwch yn ystod hanner cyntaf y ganrif, ac y buasai cyfanswm Cymru gyfan bryd hynny yn nes at gyfanswm Caerdydd.

Yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel, mae'n debyg mai'r ffigurau man genedigol Cymanwlad Newydd ar gyfer Cymru sy'n darparu'r amcangyfrif gorau o'r boblogaeth o fewnfudwyr DLlE yn y cyfnod 1966-1981, ond nid ydynt yn cynnwys y plant a anwyd ym Mhrydain i'r ymfudwyr hynny. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd, o 10,000 ym 1966 i 13,700 ym 1971, 18,000 ym 1981 a 23,400 ym 1991. Fodd

bynnag, mae Cyfrifiad 1991(y cyntaf i fesur ethnigrwydd yn ogystal â man geni) yn adrodd am boblogaeth DLlE o 41,500, sy'n awgrymu bod tua hanner y boblogaeth DLlE, erbyn 1991, wedi eu geni yn y DU. Dyna, yn wir, oedd y sefyllfa trwy Loegr a Chymru yn 2001, sef bod 56% o'r boblogaeth DLlE o 4.5 miliwn wedi eu geni yn y DU.

Trwy ddyblu ffigurau'r Gymanwlad Newydd o 1966 ymlaen (i ganiatáu am blant a anwyd i'r boblogaeth o fewnfudwyr), a chan ragdybio bod Caerdydd, cyn 1940, yn cyfrif am ddwy ran o dair o boblogaeth DLlE Cymru, awgrymir twf ym mhoblogaeth DLlE Cymru o'r 8,000 posibl rhwng y rhyfeloedd i oddeutu 20,000 ar ganol y 1960au, 27,000 yn 1971, 36,000 yn 1981, 41,000 yn 1991 a 61,600 yn 2001. Rhaid pwysleisio mai a amcangyfrifon pur fras yw'r ffigurau a awgrymir ar gyfer y cyfnod cyn 1991, ac y dylid eu trin gyda gofal.

Yn y Tabl 7.1, gosodir y newid ym mhoblogaeth leiafrifol Cymru yng nghyd-destun y newid poblogaeth rhanbarthol a chenedlaethol ym Mhrydain Fawr dros y cyfnod o 1971 i 2001. Cynyddodd poblogaeth Cymru dros y cyfnod hwn, yn wahanol i ogledd Lloegr a'r Alban. Mae'r gyfran DLlE o'r boblogaeth yng Nghymru yn llai nag ydyw yn yr Alban ac yn llai nag ydyw mewn unrhyw o'r rhanbarthau safonol yn Lloegr. Dengys y tabl fod y boblogaeth leiafrifol yn y DU, ar y raddfa ranbarthol, wedi tueddu i ymgrynhoi yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr dros y cyfnod hwn o 30 mlynedd.

### Tabl 7.1: Newid yn y boblogaeth leiafrifol o fewn Prydain Fawr, 1971-2001

| Rhanbarth Safonol, gwlad neu gyn-sir fetropolitan (SF) | Poblogaeth 2001 (000) | Newid % yn yng nghyfanswm y boblogaeth 1971-2001 | Poblogaeth DLlE | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1971 % | 1981 % | 1981 % | 2001 | |
| | | | | | | Canran | Nifer (000) |
| De-ddwyrain Lloegr | 18,386.9 | 12.7 | 4.3 | 7.4 | 9.9 | 13.4 | 2,460.5 |
| Llundain Fwyaf | 7,172.1 | -0.6 | 7.9 | 14.3 | 20.2 | 28.8 | 2,068.9 |
| Dwyrain Lloegr | 2,174.0 | 35.2 | 0.7 | 1.5 | 2.1 | 3.2 | 69.0 |
| De-orllewin Lloegr | 4,928.4 | 26.4 | 0.8 | 1.5 | 1.3 | 2.3 | 113.1 |
| Gorll. Canol. Lloegr | 5,267.3 | 5.3 | 4.1 | 6.4 | 8.2 | 11.3 | 593.0 |
| SF Gorll. Canol. Lloegr | 2,555.6 | -7.0 | 6.8 | 10.9 | 14.6 | 20.0 | 512.4 |
| Dwyr. Canol. Lloegr | 4,172.2 | 17.6 | 2.0 | 3.7 | 4.8 | 6.5 | 271.8 |
| Swydd Efrog a Humberside | 4,964.8 | 4.1 | 1.9 | 3.2 | 4.5 | 6.5 | 323.6 |
| SF Gorll. Swydd Efrog | 2,079.2 | 2.7 | 3.4 | 5.9 | 8.2 | 11.4 | 236.4 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 6,242.2 | -3.1 | 1.3 | 2.7 | 3.9 | 5.9 | 370.7 |
| Manceinion Fwyaf | 2,482.3 | -7.5 | 2.1 | 3.9 | 5.9 | 8.9 | 221.8 |
| Gogledd Lloegr | 3,003.0 | -2.2 | 0.4 | 0.9 | 1.3 | 2.1 | 63.6 |
| Tyne a Wear | 1,075.9 | -9.6 | 0.4 | 1.0 | 1.8 | 3.2 | 34.0 |
| Cymru | 2,903.1 | 9.2 | 0.4 | 0.9 | 1.5 | 2.1 | 61.6 |
| Yr Alban* | 5,062.0 | 0.2 | 0.4 | - | 1.2 | 2.0 | 101.7 |
| Prydain Fawr | 57,103.9 | 9.0 | 2.4 | 4.2 | 5.5 | 8.1 | 4,622.7 |

* *dim data ar gyfer 1981*

*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad 1971, 1981 (y ddau ar sail gwlad enedigol), 1991, 2001*

## 7.2 Y newid ym mhoblogaeth DLlE of Cymru, 1981-2001

### *7.2.1 Newid 1981-1991*

Yma, cymherir yr amcangyfrifon o'r boblogaeth ym 1981, a wnaed gan Phillips a Rees (1996), gyferbyn â data'r Cyfrifiad ar gyfer 1991. Cyrhaeddwyd eu hamcangyfrifon o boblogaethau'r grwpiau ethnig ym 1981 trwy ragdybio mai yr un, yn fras, oedd cyfansoddiad ethnig y bobl a anwyd ym mhob gwlad ym 1981 ac ym 1991.


Yn y Tabl 7.2 cyflwynir amcangyfrif o'r newid yn y patrwm poblogaeth fesul grŵp ethnig (gan ddefnyddio categorïau grŵp ethnig a gynlluniwyd i fod yn gymaradwy dros amser, ac a ddisgrifir yn fanwl yn y Tabl A1.2). Amcangyfrifir mai twf araf (0.8%) a ddigwyddodd yn y boblogaeth o bobl wyn dros y cyfnod hwn. Yr amcangyfrif o'r cynnydd yn y gyfran leiafrifol o boblogaeth Cymru rhwng 1981 a 1991 oedd 0.3%, ond cynyddodd y boblogaeth DLlE o fwy na chwarter (8.7 mil). Y grwpiau ethnig a dyfodd gyflymaf oedd yr Asiaidd a'r Asiaidd Prydeinig (a gynyddodd 40.7% fel cyfanswm), gyda'r boblogaeth Bangladeshi yn cynyddu 70.2%. Tyfodd y boblogaeth Asiaidd Eraill 56.3%, a'r boblogaeth Bacistanaidd 31.2%. Yr oedd y cyfraddau cynnydd eraill yn sylweddol, ond yn llawer llai. Amcangyfrifir bod y boblogaeth Ddu Caribïaidd wedi tyfu'n arafach (8%) na'r grwpiau DLlE eraill, a llai na hanner mor gyflym â'r boblogaeth Ddu Affricanaidd a'r "Cymysg ac Eraill".

**Tabl 7.2: Newid yn y boblogaeth fesul grŵp ethnig yng Nghymru, 1981-1991**

| Grŵp ethnig | 1981 | Canran | 1991 | Canran | Newid | Newid % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 2,780,395 | 98.8 | 2,793,522 | 98.5 | 13,127 | 0.5 |
| Grwpiau ethnig lleiafrifol | 32,828 | 1.2 | 41,551 | 1.5 | 8,723 | 26.6 |
| Du a Du Prydeinig | 5,335 | 0.2 | 6,019 | 0.2 | 684 | 12.8 |
| Du Caribïaidd | 3,099 | 0.1 | 3,348 | 0.1 | 249 | 8.0 |
| Du Affricanaidd | 2,236 | 0.1 | 2,671 | 0.1 | 435 | 19.5 |
| Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig | 14,207 | 0.5 | 19,598 | 0.7 | 5,391 | 37.9 |
| Indiaidd | 5,251 | 0.2 | 6,384 | 0.2 | 1,133 | 21.6 |
| Pacistanaidd | 4,359 | 0.2 | 5,717 | 0.2 | 1,358 | 31.2 |
| Bangladeshiaid | 2,244 | 0.1 | 3,820 | 0.1 | 1,576 | 70.2 |
| Asiaidd Eraill | 2,353 | 0.1 | 3,677 | 0.1 | 1,324 | 56.3 |
| Tsieineaidd ac Eraill | 13,286 | 0.5 | 15,934 | 0.6 | 2,648 | 19.9 |
| Tsieineaidd | 3,970 | 0.1 | 4,801 | 0.2 | 831 | 20.9 |
| Cymysg ac Eraill | 9,316 | 0.3 | 11,133 | 0.4 | 1,817 | 19.5 |
| **Pob grŵp ethnig** | **2,813,223** | 100.0 | **2,835,073** | 100.0 | 21,850 | 0.8 |

*Ffynhonnell: Phillips a Rees (1996) a Chyfrifiad Poblogaeth 1991 (LBS Tabl 6)*

**Ffigur 7.1: Canran o'r oedolion sydd o'r grwpiau lleiafrifol ethnig ( y linell solet yw'r cymedr rhedegol 5 chwarter)**




*Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Chwarterol*

### *7.2.2 Newid 1991-2001*

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y newid yng nghyfansoddiad ethnig y boblogaeth rhwng Cyfrifiadau. Y ffynhonnell bwysicaf o ddata ynghylch grwpiau ethnig yw'r Arolwg Gweithlu chwarterol. Er bod maint sampl y ffynhonnell ddata hon yn bur fach, a'r canlyniadau ar gyfer pobl DLlE yng Nghymru yn seiliedig ar niferoedd bach iawn o achosion, gall ddatgelu rhai tueddiadau dros amser yng nghyfansoddiad ethnig y boblogaeth, yn fras iawn. Yn y Ffigur 7.1 dangosir y ganran o'r boblogaeth DLlE sy'n 16 oed a throsodd, a gymerwyd o chwarteri olynol yr arolwg, gan ychwanegu cymedr rhedegog pum-chwarter. Mae hyn yn arwyddo bod poblogaeth oedolion DLlE Cymru wedi aros yn bur wastad trwy'r 1990au cynnar, ond wedi dechrau cynyddu o 1997 ymlaen, ac yn awgrymu y bydd cyfradd cynnydd y boblogaeth leiafrifol yn cyflymu. Mae hefyd yn lled-awgrymu dylanwad amodau economaidd ar y cyfansoddiad ethnig; Yr oedd y 1990au cynnar yn gyfnod o ddirwasgiad economaidd, a oedd hwyrach yn llyffethair i ymfudwyr, a ddenwyd yn ddiweddarach gan y twf economaidd cyflym o ganol y 1990au ymlaen.

Gyda data am y grwpiau ethnig wedi eu casglu yn y ddau Gyfrifiad Poblogaeth ym 1991 a 2001, dylai fod yn fater cymharol syml cyfrifo'r newid ym mhoblogaeth y grwpiau ethnig rhwng y ddau Gyfrifiad. Cymhlethwyd y gymhariaeth, fodd bynnag, gan y newid yn y cwestiwn grŵp ethnig (gweler Tabl A1.1), newidiadau yn yr unedau arwynebedd, ad-drefnu ffiniau llywodraeth leol ym a'r newid yn sail y Cyfrifiad i "Gyfrifiad Un Rhif" yn 2001. Amcangyfrifwyd bod y Cyfrifiad ym 1991 wedi methu â chofnodi 2% o'r boblogaeth (sef bron filiwn o bobl), a bod y tangofnodi'n arbennig o uchel ymhlith y grwpiau DLlE. Creodd Prifysgol Manceinion set o ddata Cyfrifiad addasedig sy'n cynnwys y bobl nas cyfrifwyd ac yn cywiro'r

tangyfrifiadau ethnig-benodol. Rhydd y data hyn amcangyfrif o'r boblogaeth DLlE ym Mhrydain Fawr sy'n uwch o tua 200 mil na'r ffigur Cyfrifiad cyhoeddedig o ychydig dros 3 miliwn, ac amcangyfrif o 47,550 ar gyfer poblogaeth DLlE Cymru. Fodd bynnag, er pan ryddhawyd y set ddata hon, mae gwaith dadansoddi pellach ar Gyfrifiad 2001 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi codi amheuon ynghylch yr amcangyfrifon o'r tangyfrif ym 1991. O ganlyniad, mae'r dadansoddiad o'r newid a gyflwynir yma yn cymharu data anaddasedig 1991 gyferbyn â 2001 data.

### Tabl 7.3: Newid yn y boblogaeth fesul grŵp ethnig, 1991-2001

| Grŵp ethnig | Poblogaeth 1991 | Canran o'r boblogaeth | Poblogaeth 2001 | Canran o'r boblogaeth | Newid, 1991-2001 | Newid fel canran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 2,793,522 | 98.5 | 2,841,507 | 97.9 | 47,985 | 1.7 |
| ***Grwpiau ethnig lleiafrifol*** | ***41,551*** | ***1.5*** | ***61,576*** | ***2.1*** | ***20,025*** | ***48.2*** |
| *Du a Du Prydeinig* | *6,019* | *0.2* | *6,324* | *0.2* | *305* | *5.1* |
| Du Caribïaidd | 3,348 | 0.1 | 2,597 | 0.1 | -751 | -22.4 |
| Du Affricanaidd | 2,671 | 0.1 | 3,727 | 0.1 | 1,056 | 39.5 |
| *Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig:* | *19,598* | *0.7* | *25,444* | *0.9* | *5,846* | *29.8* |
| Indiaidd | 6,384 | 0.2 | 8,259 | 0.3 | 1,875 | 29.4 |
| Pacistanaidd | 5,717 | 0.2 | 8,287 | 0.3 | 2,570 | 45.0 |
| Bangladeshiaid | 3,820 | 0.1 | 5,434 | 0.2 | 1,614 | 42.3 |
| Asiaidd Eraill | 3,677 | 0.1 | 3,464 | 0.1 | -213 | -5.8 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *15,934* | *0.6* | *29,808* | *1.0* | *13,874* | *87.1* |
| Tsieineaidd | 4,801 | 0.2 | 6,266 | 0.2 | 1,465 | 30.5 |
| Cymysg ac Eraill | 11,133 | 0.4 | 23,542 | 0.8 | 12,409 | 111.5 |
| **Pob grŵp ethnig** | **2,835,073** | **100.0** | **2,903,085** | **100.0** | **68,012** | **2.4** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiadau Poblogaeth (anaddasedig) 1991 (Tabl LBS 6) a 2001 (Tabl Safonol 101)*

Mae'r Tabl 7.3 yn cyflwyno patrwm y newid poblogaeth fesul grŵp ethnig ar gyfer Cymru gyfan, o ddata cyhoeddedig Cyfrifiadau Poblogaeth 1991(anaddasedig) a 2001. Digwyddodd twf cymedrol yn mhoblogaeth Cymru, sef 68 mil, neu 2.4%. Datgelwyd bod y boblogaeth DLlE wedi cynyddu o bron hanner (48.2%), tra bo poblogaeth y bobl wyn wedi tyfu 1.7% yn unig. Y grwpiau ethnig Du a amlygodd y twf mwyaf araf yn eu poblogaeth (5.1%) dros y cyfnod. Yr oedd y twf yn y grwpiau ethnig Tsieineaidd ac eraill yn 87.1%, ac yn ffurfio'r gydran amlycaf o ddigon yn nhwf y boblogaeth DLlE, yn bennaf oherwydd bod nifer y bobl o'r grwpiau ethnig "Cymysg ac Eraill" wedi dyblu. Er bod twf y boblogaeth Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig yn arafach, yr oedd yn dal yn sylweddol (29.8%). Cynyddodd y grwpiau ethnig Pacistanaidd a Bangladeshi ill dau o fwy na 40%, a thyfodd y boblogaeth Indiaidd yn gyflymach nag yn ystod y 1980au (29.4%).

### *7.2.4 Patrymau daearyddol y newid ym mhoblogaeth DLlE Cymru, 1991-2001*

Yn ystod y cyfnod 1981-2001 mae'r cynnydd poblogaeth yng Nghymru wedi digwydd gyflymaf yn ardaloedd gwledig gorllewin a chanolbarth Cymru ac ar hyn

y ffin ddwyreiniol (Tabl 7.4). Digwyddodd y gostyngiadau mwyaf ym mhoblogaeth yr ardaloedd mwyaf diwydiannol, megis cymoedd de Cymru. O ran y dinasoedd a'r ardaloedd trefol mwyaf, mae poblogaethau Caerdydd, Wrecsam a Chasnewydd wedi cynyddu, tra bo Abertawe wedi colli poblogaeth.

### Tabl 7.4: Newid yn y boblogaeth fesul grŵp ethnig, 1991-2001

| Awdurdod unedol | 1981 | 1991 | Newid %, 1981-91 | 2001 | Newid % 1991-2001 | Newid %, 1981-2001 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 61,176 | 65,933 | 7.8 | 75,401 | 14.4 | 23.3 |
| Powys | 112,176 | 119,703 | 6.7 | 126,374 | 5.6 | 12.7 |
| Sir Fynwy | 76,539 | 80,209 | 4.8 | 84,984 | 6.0 | 11.0 |
| Conwy | 98,966 | 107,951 | 9.1 | 109,765 | 1.7 | 10.9 |
| Sir Ddinbych | 84,871 | 89,395 | 5.3 | 93,078 | 4.1 | 9.7 |
| Sir y Fflint | 138,595 | 142,036 | 2.5 | 148,641 | 4.7 | 7.2 |
| Caerdydd | 286,867 | 296,941 | 3.5 | 307,339 | 3.5 | 7.1 |
| Wrecsam | 121,009 | 124,180 | 2.6 | 128,539 | 3.5 | 6.2 |
| Tor-faen | 112,494 | 118,053 | 4.9 | 119,279 | 1.0 | 6.0 |
| Sir Benfro | 107,359 | 112,446 | 4.7 | 113,063 | 0.5 | 5.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 165,061 | 169,725 | 2.8 | 173,657 | 2.3 | 5.2 |
| Gwynedd | 111,860 | 115,007 | 2.8 | 116,807 | 1.6 | 4.4 |
| Casnewydd | 132,434 | 135,479 | 2.3 | 137,744 | 1.7 | 4.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 126,930 | 129,477 | 2.0 | 128,723 | -0.6 | 1.4 |
| Bro Morgannwg | 90,688 | 90,961 | 0.3 | 90,912 | -0.1 | 0.2 |
| Ynys Môn | 68,046 | 69,123 | 1.6 | 67,741 | -2.0 | -0.4 |
| Caerffili | 171,787 | 170,615 | -0.7 | 169,546 | -0.6 | -1.3 |
| Abertawe | 229,316 | 229,743 | 0.2 | 223,454 | -2.7 | -2.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 238,388 | 234,917 | -1.5 | 231,897 | -1.3 | -2.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 142,721 | 138,844 | -2.7 | 134,404 | -3.2 | -5.8 |
| Merthyr Tudful | 60,540 | 59,594 | -1.6 | 56,244 | -5.6 | -7.1 |
| Blaenau Gwent | 75,672 | 72,666 | -4.0 | 70,000 | -3.7 | -7.5 |
| **Cymru** | **2,813,495** | **2,872,998** | **2.1** | **2,907,592** | **1.2** | **3.3** |

*Ffynhonnell: amcangyfrifon SYG o'r boblogaeth ar 30 Mehefin ym mhob blwyddyn , a ailseiliwyd yn dilyn Cyfrifiad 2001*

## Tabl 7.5: Newid poblogaeth y Gwyn a'r DLlE fesul awdurdod unedol, 1991-2001

| Awdurdod unedol | Newid yn y boblogaeth | | | Newid fel canran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pob grŵp ethnig | Gwyn | Pobl DLlE | Pob grŵp ethnig | Gwyn | Pobl DLlE |
| Ynys Môn | -2,352 | -2,480 | 128 | -3.4 | -3.6 | 36.3 |
| Gwynedd | 3,426 | 3,114 | 312 | 3.0 | 2.8 | 29.0 |
| Conwy | 3,258 | 2,870 | 388 | 3.1 | 2.7 | 50.5 |
| Sir Ddinbych | 2,504 | 1,999 | 505 | 2.8 | 2.2 | 88.9 |
| Sir y Fflint | 7,213 | 6,727 | 486 | 5.1 | 4.8 | 68.6 |
| Wrecsam | 7,517 | 7,017 | 500 | 6.2 | 5.8 | 55.4 |
| Powys | 7,055 | 6,656 | 399 | 5.9 | 5.6 | 58.1 |
| Ceredigion | 11,898 | 11,664 | 234 | 18.9 | 18.7 | 29.1 |
| Sir Benfro | 2,086 | 1,723 | 363 | 1.9 | 1.5 | 54.8 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,542 | 3,806 | 736 | 2.7 | 2.3 | 83.0 |
| Abertawe | 113 | -1,222 | 1,335 | 0.1 | -0.6 | 38.5 |
| Castell-nedd Port Talbot | -3,723 | -4,158 | 435 | -2.7 | -3.0 | 42.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2,103 | 1,442 | 661 | 1.7 | 1.1 | 59.8 |
| Bro Morgannwg | -291 | -1,297 | 1,006 | -0.2 | -1.1 | 64.1 |
| Rhondda Cynon Taf | -649 | -1,434 | 785 | -0.3 | -0.6 | 41.6 |
| Merthyr Tudful | -3,348 | -3,461 | 113 | -5.6 | -5.9 | 25.1 |
| Caerffili | -72 | -449 | 377 | 0.0 | -0.3 | 32.2 |
| Blaenau Gwent | -2,166 | -2,372 | 206 | -3.0 | -3.3 | 54.9 |
| Tor-faen | 419 | 217 | 202 | 0.5 | 0.2 | 31.1 |
| Sir Fynwy | 4,909 | 4,495 | 414 | 6.1 | 5.7 | 75.3 |
| Casnewydd | 3,673 | 1,710 | 1,963 | 2.8 | 1.3 | 42.3 |
| Caerdydd | 19,907 | 11,472 | 8,435 | 7.0 | 4.3 | 48.8 |
| **Cymru** | 68,022 | 48,039 | 19,983 | 2.4 | 1.7 | 48.0 |


*Ffynhonnell: Cyfrifiadau Poblogaeth 1991 a 2001, a ailgyfunwyd ar gyfer awdurdodau unedol ôl-1996*

Yn ystod y cyfnod 1991 i 2001 yng Nghymru, patrwm cyffredinol y newid yn y boblogaeth oedd fod y cyfraddau cynnydd cyflymaf yn digwydd yn y rhannau mwyaf gwledig a gorllewinol (yr oedd y cynnydd cyflymaf yng Ngheredigion), tra digwyddodd y cynnydd mwyaf o ran niferoedd y boblogaeth yng Nghaerdydd, Ceredigion a dwyrain Cymru (Sir y Fflint, Wrecsam a Phowys). Digwyddodd y colledion poblogaeth mwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent ac Ynys Môn. Cynnydd yn y boblogaeth o bobl wyn, oherwydd ymfudo yn bennaf, a ysgogodd y twf ym mhoblogaeth ardaloedd gwledig a mwyaf diarffordd Cymru.

Amcangyfrifwyd bod cyfraddau twf y boblogaeth DLlE yn fwyaf araf yng nghymoedd diwydiannol De Cymru, ac yn gyflymaf yn Sir Ddinbych (88.9%), Sir Gaerfyrddin (83%), Sir Fynwy (75.3%) a Sir y Fflint (68.6%). Ychydig o gannoedd oedd y niferoedd o bobl a gyfrannodd at bob un o'r rhain, ond yr oedd y cynnydd

yn y boblogaeth DLlE yn rhan sylweddol o gyfanswm y newid poblogaeth yn y ddau awdurdod unedol cyntaf a restrwyd. Yng Nghaerdydd a Chasnewydd y digwyddodd mwy na hanner cyfanswm y cynnydd ym mhoblogaeth DLlE Cymru rhwng 1991 a 2001. Ac eithrio yn y ddwy ddinas hyn, yr oedd y twf yn y boblogaeth DLlE yn gwrthbwyso gostyngiad ym mhoblogaeth y gwyn yng nghanolfannau trefol mwyaf de Cymru.

**Ffigur 7.2: Amcangyfrifon o gyfraddau newid y boblogaeth DLlE, 1991-2001**




*Ffynhonnell: Cyfrifiadau Poblogaeth 1991 (Tabl LBS 6) a 2001 (Tabl Safonol 101)*

## 7.3 Senarios ar gyfer newid poblogaeth yn y dyfodol fesul grŵp ethnig

Yn yr adran hon, edrychir ymlaen i'r dyfodol agos, gan ystyried patrwm tebygol y newid yn y boblogaeth DLlE rhwng 2001 a 2011. Ar ddechrau'r adran rhaid cyhoeddi "rhybudd iechyd" difrifol; gwaith ansicr yw rhagweld newidiadau poblogaeth, gan ei fod yn dibynnu ar wybodaeth am y tair cydran sy'n cyfrannu at newidiadau poblogaeth: genedigaethau, marwolaethau ac effaith net yr ymfudo. Yr ydym yn brin o wybodaeth fanwl ar hyn o bryd am bob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r boblogaeth DLlE, ond y fwyaf ansicr o'r tair yw effaith ymfudo. Oherwydd yr ansicrwydd y cyfeiriwyd ato uchod ynghylch cyfanrwydd Cyfrifiad 1991, mae'r rhagamcanion a gyflwynir yma yn defnyddio data anaddasedig Cyfrifiad 1991.

Yn achos Cymru, mae'r ansicrwydd ynghylch ymfudo yn berthynol i symudiadau o fewn y Deyrnas Unedig yn ogystal â'r llifau ymfudo rhyngwladol. Wrth ragamcanu'r boblogaeth, mae gofyn amcangyfrif y gwahaniaeth net rhwng y llifau i mewn ac allan o Gymru. Yn achos y boblogaeth DLlE a anwyd yng Nghymru, mae'r ymfudiad net i weddill y DU (y mwyafrif llethol i Loegr) yn negyddol. Gellir amcangyfrif y golled poblogaeth trwy gymryd y nifer o'r DLlE a anwyd yng Nghymru, trwy'r cyfan o Gymru a Lloegr yn 2001, a chyfrifo'r gyfran ohonynt a oedd yn parhau i fyw yng Nghymru (Tabl 7.6). Mae'r all-lif yn amrywio yn ôl maint y grwpiau ethnig unigol, ond y mae nifer cyfanswm y bobl DLlE a anwyd yng Nghymru ac sy'n byw yn Lloegr yn sylweddol uwch na nifer y DLlE a anwyd yn Lloegr ac sy'n byw yng Nghymru. Mae'r all-lif yn fwyaf eglur ar gyfer y grwpiau Caribïaidd, Affricanaidd ac Asiaidd Eraill (43%, 50% a 46% yn unig, yn eu trefn, o'r rhai a anwyd yng Nghymru a oedd yn dal i fyw yng Nghymru yn 2001). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, yr oedd y Bangladeshiaid (77%) Pacistaniaid a Tsieineaid (70%, y ddau) a'r bobl Indiaidd (53%) a anwyd yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o fod wedi aros.

**Tabl 7.6: Cymru 2001: Amcangyfrif o'r golled net i Loegr o'r grwpiau DLlE a anwyd yng Nghymru**

| | DLlE, ganwyd yng Nghymru, byw yng Nghymru a Lloegr 2001 | DLlE, ganwyd yng Nghymru, byw yng Nghymru 2001 | Cymru fel % o Gymru a Lloegr |
|---|---|---|---|
| Caribïaidd | 2,230 | 959 | 43.0 |
| Affricanaidd | 1,932 | 965 | 49.9 |
| Indiaidd | 3,297 | 1,735 | 52.6 |
| Pacistanaidd | 5,333 | 3,709 | 69.5 |
| Bangladeshi | 2,662 | 2,048 | 76.9 |
| Tsieineaidd | 2,124 | 1,482 | 69.8 |
| Asiaidd Eraill | 1,185 | 541 | 45.7 |

*Ffynhonnell: Tabl S102 Cyfrifiad Cymru a Lloegr, 2001*

### *7.6.1 Mesur y mewnfudiad rhyngwladol i Gymru*

Y dull gorau, os amrwd, o fesur y mewnfudiad rhyngwladol i Gymru yw cymharu nifer y DLlE a anwyd dramor a oedd yn byw yng Nghymru ym 1991 ac yn 2001 (Tabl 7.7). Mae'r newidiadau yn y niferoedd hyn, fodd bynnag, yn cwmpasu symudiadau mewnol o fewn y DU yn ogystal â'r symudiad rhyngwladol i Gymru ei hunan (nid yw'r ffigurau man geni yn datgelu a yw'r bobl DLlE a anwyd dramor ac a oedd yn byw yng Nghymru yn 2001, wedi symud yn uniongyrchol o dramor, ynteu a oeddent yn byw gynt yn rhywle arall yn y DU). Gan ystyried y categorïau ethnig a oedd yr un fath yng nghyfrifiadau 1991 a 2001, gellir gweld bod y boblogaeth Garibïaidd a anwyd dramor ac a oedd yn byw yng Nghymru wedi gostwng 10% dros y cyfnod hwnnw . Yn achos pob un o'r grwpiau eraill, yr oedd niferoedd y bobl a anwyd y tu allan i'r DU wedi cynyddu 20% o leiaf rhwng 1991 a 200, ac yn achos y poblogaethau Affricanaidd ac Asiaidd Eraill yr oedd y cynnydd yn fwy na 40%.

**Tabl 7.7: Cymru 1991-2001: Twf y boblogaeth a anwyd y tu allan i'r DU, ar gyfer DLlE detholedig**

| DLlE Cymru a anwyd y tu allan i'r DU | 1991 | 2001 | Gwahaniaeth | Canran o 1991 |
|---|---|---|---|---|
| Caribïaidd | 1,286 | 1,162 | -124 | -9.6 |
| Affricanaidd | 1,718 | 2,441 | 723 | 42.1 |
| Indiaidd | 3,882 | 5,110 | 1,228 | 31.6 |
| Pacistanaidd | 2,848 | 3,574 | 726 | 25.5 |
| Bangladeshi | 2,346 | 2,867 | 521 | 22.2 |
| Tsieineaidd | 3,233 | 4,163 | 930 | 28.8 |
| Asiaidd Eraill | 3,068 | 4,378 | 1,310 | 42.7 |
| Cyfanswm | 18,381 | 23,695 | 5,314 | 28.9 |

*Ffynhonnell: Tabl S102 Cyfrifiad Cymru a Lloegr, 2001*
*OPCS (1993) Tabl 5 (Cyfrifiad Prydain Fawr 1991, Grŵp Ethnig a Gwlad Enedigol)*

Felly, mewn perthynas ag ymfudo, mae cynnydd net yn digwydd yn nifer y bobl DLlE a anwyd dramor, ond colled i Loegr o'r bobl DLlE a anwyd yng Nghymru. Mae'r all-lif i Loegr o'r bobl DLlE a anwyd yng Nghymru 60% yn fwy na'r mewnlif i Gymru o'r DLlE a anwyd yn Lloegr. Mae'r anghydbwysedd mwyaf o blaid Lloegr yn digwydd ymhlith Caribïaid, Affricaniaid, Indiaid ac Asiaid Eraill, ond y mae'r effaith yn niwtral yn achos Pacistaniaid, Bangladeshiaid a Tsieineaid.

### *7.6.2 Cyfraniadau Cymharol y twf naturiol a'r ymfudo i'r newid net yn y boblogaeth DLlE*

**Tab 7.8: Cymru 2001: Cyfraniad cymharol y DLlE a anwyd yng Nghymru 1991-2001 i'r newid net yn y boblogaeth DLlE**

| | Newid yn nifer y DLlE a anwyd yng Nghymru 1991-2001 ac yn byw yng Nghymru | Newid yn y DLlE a anwyd dramor ac yn byw yng Nghymru, 1991-2001 | Newid yn y DLlE a anwyd yng Nghymru plws Newid yn y DLlE a anwyd dramor | Cyfraniad % rhai a anwyd yng Nghymru i'r newid cyfunol |
|---|---|---|---|---|
| Caribïaidd | -630 | -124 | -754 | 84 |
| Affricanaidd | 191 | 723 | 914 | 21 |
| Indiaidd | 217 | 1,228 | 1,445 | 15 |
| Pacistanaidd | 1,506 | 726 | 2,232 | 67 |
| Bangladeshi | 864 | 521 | 1,385 | 62 |
| Tsieineaidd | 401 | 930 | 1,331 | 30 |
| Asiaidd Eraill | 113 | 1,310 | 1,423 | 8 |

*Ffynhonnell: Tabl S102 Cyfrifiad Cymru a Lloegr, 2001*
*OPCS (1993) Tabl 5 (Cyfrifiad Prydain Fawr 1991, Grŵp Ethnig a Gwlad Enedigol)*

Cyfrifir y cyfraniadau cymharol i'r twf ym mhoblogaeth DLlE Cymru, o ganlyniad i ymfudo a chynnydd naturiol, trwy adio'r newid (twf yn bennaf) yn y boblogaeth DLlE a anwyd yng Nghymru rhwng 1991 a 2001 i'r newid yn y DLlE a anwyd y tu allan i'r DU (h.y. dramor) dros yr un cyfnod, ac yna mesur eu cyfraniadau cymharol i'r cyfanred (Tabl 7.8).

Yn y golofn olaf yn Nhabl 7.8 dangosir cyfraniad y twf neu'r gostyngiad yn y rhai a anwyd yng Nghymru i'r newid net yn y boblogaeth DLlE rhwng 1991 a 2001. Mae ymfudo i Loegr ymhlith y boblogaeth Garibïaidd a anwyd yng Nghymru yn esbonio 84% o'r golled o'r boblogaeth Garibïaidd rhwng 1991 a 2001. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mewnfudo net sy'n gyfrifol am y rhan helaethaf o'r twf ym mhoblogaethau Cymru o'r grwpiau ethnig Tsieineaidd, Du Affricanaidd ac Asiaidd Eraill. Cynnydd naturiol sy'n esbonio tua dwy ran o dair o'r cynnydd net sylweddol yn y poblogaethau Pacistanaidd a Bangladeshi, 30% o dwf y boblogaeth Tsieineaidd, 21% o'r twf Du Affricanaidd, 15% o'r twf Indiaidd ac 8% o'r twf Asiaidd Eraill.

### *7.6.3 Tueddiadau ym mhoblogaeth DLlE Cymru yn y dyfodol*

**Tabl 7.9 Cymru: Rhagamcan o dwf posibl y boblogaeth DLlE 2001-2011**

| Grŵp ethnig | 1991 | Newid 2001 | Newid 1991-2001 | Newid canran 1991-2001 | Rhagamcan o boblogaeth DLlE 2001, ar sail canran 1991-2001 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 2,793,522 | 2,841,507 | 47,985 | 1.7 | 2,890,316 |
| *Grwpiau ethnig lleiafrifol* | *41,551* | *61,576* | *20,025* | *48.2* | *91,252* |
| Du Caribïaidd | 3,348 | 2,597 | -751 | -22.4 | 2,014 |
| Du Affricanaidd | 2,671 | 3,727 | 1,056 | 39.5 | 5,200 |
| Indiaidd | 6,384 | 8,259 | 1,875 | 29.4 | 10,685 |
| Pacistanaidd | 5,717 | 8,287 | 2,570 | 45.0 | 12,012 |
| Bangladeshiaid | 3,820 | 5,434 | 1,614 | 42.3 | 7,730 |
| Tsieineaidd | 4,801 | 6,266 | 1,465 | 30.5 | 8,178 |
| Asiaidd Eraill | 3,677 | 3,464 | -213 | -5.8 | 3,263 |
| Cymysg ac Eraill | 11,133 | 23,542 | 12,409 | 111.5 | 49,782 |

*Ffynhonnell: Tabl S102 Cyfrifiad Cymru a Lloegr, 2001*
*OPCS (1993) Tabl 5 (Cyfrifiad Prydain Fawr 1991, Grŵp Ethnig a Gwlad Enedigol)*

Un ffordd o ragamcanu poblogaeth DLlE Cymru fesul grŵp ethnig yn y dyfodol yw rhagdybio mai'r cyfraddau twf a gofnodwyd rhwng 1901 a 2001 fydd cyfraddau twf y poblogaethau ethnig rhwng 2001 a 2011 (Tabl 7.9). Ar sail y rhagdybiaeth hon, byddai poblogaeth DLlE Cymru'n cynyddu o 61,576 yn 2001 i 91,269 erbyn 2011. Nid oes modd paratoi amcangyfrifon unigol ar gyfer pob un o'r grwpiau, yn enwedig y boblogaeth tras cymysg sy'n tyfu'n gyflym, oherwydd nad oedd categorïau cyfatebol yn bodoli yng Nghyfrifiad 1991. Mae'r Tabl 7.9, fodd bynnag, yn gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng 1991a 2001 yn achos y categorïau nas newidiwyd, ac yn cyfuno gweddill y categorïau mewn categori "Cymysg ac Eraill" (lle mae'r grwpiau ethnig Cymysg yn brif elfen).

Rhagwelir twf o 20 mil yn y boblogaeth DLlE, o gymharu â 48 mil ym mhoblogaeth y bobl wyn. Rhagwelir y bydd y gyfradd twf fwyaf (111%) yn digwydd yn y boblogaeth 'Cymysg ac Eraill'. Disgwylir codiadau sylweddol hefyd, fodd bynnag, yn y poblogaethau Pacistanaidd a Bangladeshi (45% a 42%, yn eu trefn), yn bennaf oherwydd cynnydd naturiol, ac yn y boblogaeth Ddu Affricanaidd (40%). Bydd y canlyniad olaf yn digwydd oherwydd ymfudo yn ogystal â chynnydd naturiol. Cynyddodd yr ymfudiad Affricanaidd i Brydain yn sylweddol yn ystod y 1990au, ac y mae'r tueddiadau yn y dyfodol yn anodd iawn i'w rhagweld.

Dylid bod yn **dra gwyliadwrus** wrth drin y senario hwn. Yn gyffredinol, yn achos y rhan fwyaf o'r grwpiau heblaw'r Pacistanaidd, y Bangladeshi a'r bobl o dras cymysg, bydd ymfudo'n cyfrannu braidd mwy na chynnydd naturiol i'w twf. Mae'r cyfraddau cynnydd naturiol yn y grŵp Cymysg ac Eraill yn ddigon uchel i sicrhau y bydd cynnydd naturiol y boblogaeth DLlE gyfan yn fwy na'r mewnfudo rhwng 2001 a 2011.

### *7.6.4 Y rhagamcanion a'r goblygiadau ynglŷn â thwf y boblogaeth oedrannus DLlE*

Mae cyfrifo'r newid tebygol yn y carfanau oedran hŷn ymhlith y DLlE yng Nghymru yn debygol o fod yn haws na rhagweld y boblogaeth gyfan. Rhagdybir yma na fydd ymfudo rhyngwladol a mewnol yn cael fawr o effaith ar boblogaethau'r grwpiau hyn, ac mai cyfraddau marwolaeth fydd prif penderfynyddion y newid. Os rhagdybiwn (yn niffyg cyfraddau marwolaeth oedran-benodol a rhyw-benodol ar gyfer y DLlE) fod y cyfraddau sy'n berthnasol i boblogaeth gyfan Cymru hefyd yn berthnasol i'r grwpiau DLlE unigol, byddai cyfradd goroesi carfan 50-59 2001 yn gorbwyso marwolaethau carfan 60+ 2001, ac erbyn 2011 byddai'r garfan 60+ wedi cynyddu o draean.

Yn 2001 4,963 yn unig o oedolion DLlE oedd yn 60 oed a throsodd, a 2,054 yn unig oedd y 70 a throsodd. O gymhwyso'r cyfraddau marwolaeth oedran-benodol i'r garfan 60+, byddai'r 4,963 a berthynai i'r garfan yn 2001 yn haneru i 2,742 erbyn 2011, a'r 4,116 a oedd yn y garfan 50-59 yn lleihau i 3,900. Fodd bynnag, erbyn 2011, byddai'r garfan 60+ wedi cynyddu i 6,642, oherwydd byddai'r 3,900 a oroesodd o garfan 50-59 2001 wedi ymuno â'r 2,742 a oroesodd o'r 4,963 o bobl a oedd yn y garfan 60+ wreiddiol. Felly, o ystyried y boblogaeth DLlE gyfan, disgwylir i'r garfan 60+ godi o 4,963 i 6,642 rhwng 2001 a 2011. Mewn gwrthgyferbyniad, disgwylir cynnydd o ychydig llai na 3,000 yn y boblogaeth o bobl wyn 60 oed a throsodd, sef cynnydd o lai na hanner 1 y cant.

Bydd effaith y cyfraddau marwolaeth oedran-benodol yn drom ar y poblogaethau gwyn rhwng 2001 a 2011. Rhwng y ddau ddyddiad, rhagwelir y bydd farw cyfwerth â 22% o boblogaeth bresennol y Gwyn Gwyddelig a 15% o'r Gwyn Prydeinig. Y grwpiau Du a effeithir arnynt drymaf wedyn: rhagwelir y bydd farw 10% o'r poblogaethau presennol o'r Du Caribïaidd, 9% o'r Du Eraill ac 8% o'r Du Affricanaidd presennol. Ar gyfer y grwpiau sy'n weddill, mae'r gyfradd athreuliad yn 5% neu'n is: byddai'r grwpiau ethnig Cymysg Gwyn/Caribïaidd, Cymysg Eraill, Indiaidd, Pacistanaidd ac Asiaidd Eraill i gyd yn colli 5% o'u poblogaethau 2001. Y gyfradd colledion ar gyfer y Cymysg Gwyn/Affricanaidd yw 4%, a 3% ar gyfer y grwpiau ethnig Gwyn/Asiaidd a Bangladeshi.

## Tabl 7.10: Cymru: Newidiadau absoliwt a chyfrannol 'disgwyliedig' yn y garfan oedran 60+ rhwng 2001 a 2011

| | 2001 60+ oed | 2011 60+ oed | Newid absoliwt | Newid % 2001-2011 |
|---|---|---|---|---|
| **Pob grŵp ethnig** | **657,694** | **658,028** | **334** | **0** |
| *Gwyn* | *652,731* | *655,626* | *2,895* | *0.4* |
| Gwyn: Prydeinig | 638,326 | 637,094 | -1,232 | -0.2 |
| Gwyn: Gwyddelig | 6,442 | 6,161 | -281 | -4.4 |
| Gwyn Eraill: | 7,963 | 12,371 | 4,408 | 55.4 |
| **Du a Lleiafrifol Ethnig** | ***4,963*** | ***6,858*** | ***1,895*** | ***38.2*** |
| *Tras cymysg* | *1,104* | *1,375* | *271* | *24.5* |
| Cymysg Gwyn/Du Caribïaidd | 391 | 406 | 15 | 3.8 |
| Cymysg Gwyn/Du Affricanaidd | 148 | 223 | 75 | 50.5 |
| Cymysg Gwyn/Asiaidd | 250 | 307 | 57 | 22.8 |
| Cymysg Eraill | 315 | 439 | 124 | 39.3 |
| *Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig* | *2,059* | *3,134* | *1,075* | *52.2* |
| Indiaidd | 713 | 1304 | 591 | 82.8 |
| Pacistanaidd | 784 | 901 | 117 | 14.9 |
| Bangladeshi | 255 | 348 | 93 | 36.3 |
| Asiaidd Eraill | 307 | 581 | 274 | 89.3 |
| *Du a Du Prydeinig* | *1,091* | *1,108* | *17* | *1.6* |
| Du Caribïaidd | 567 | 583 | 16 | 2.8 |
| Du Affricanaidd | 446 | 445 | -1 | -0.2 |
| Du Eraill | 78 | 80 | 2 | 3.1 |
| *Tsieineaidd ac Eraill* | *709* | *1,241* | *532* | *75.0* |
| Tsieineaidd | 483 | 791 | 308 | 63.8 |
| Ethnig Arall | 226 | 450 | 224 | 99.3 |

*Ffynonellau: Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2001, Tabl S101 Rhyw ac Oedran fesul Grŵp Ethnig; Swyddfa Ystadegau Gwladol, Marwolaethau 1990-2000: cyfraddau marwolaeth oedran-benodol fel canran o'r cyfraddau ym 1990, Cymru a Lloegr, Set Ddata HSQ10DF1*

Mae effaith y cyfraddau marwolaeth a ragwelir ar y garfan 60+ trwy Gymru gyfan rhwng 2001 a 2011 yn niwtral i raddau helaeth. Fodd bynnag, trwy ddatgrynhoi'r effaith i'w chydrannau ethnig (sef Gwyn a DLlE), ceir awgrym y gwelir lleihad o tua 1,200 ym maint cydran y Gwyn Prydeinig, ond cynnydd o 4,400 yn y categori Gwyn Eraill (Tabl 7.10). Bydd nifer y bobl DLlE 60+ oed yn cynyddu 1.9 mil, sef 38.2%

Ymhlith y grwpiau DLlE, disgwylir y cynnydd mwyaf (600 neu 83%) yng ngharfan 60+ y grŵp ethnig Indiaidd. Disgwylir i'r twf hwn hefyd yn crynhoi yn ddaearyddol yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Hindŵiaid o statws economaidd-gymdeithasol uchel yn bennaf , yw'r bobl Indiaidd sydd yn byw yng Nghymru, ac y maent yn llai dibynnol ar dai cymdeithasol (6.8% gyferbyn â

chyfartaledd Cymru o 11.8%) nag odid yr un grŵp ethnig arall heblaw'r Tsieineaid (6.5%). Mae teuluoedd estynedig yn nodwedd arwyddocaol yn y proffiliau tai Indiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshi ac y mae'n debygol mai eu teuluoedd a fydd yn gyfrifol i raddau helaeth am ofalu am y genhedlaeth hon o bobl oedrannus. Er mai bach fydd y galw ar y sector rhentu cymdeithasol, mae'r galwyn debygol o gynyddu yn ddiweddarach yn ystod y ganrif bresennol.

Y Tsieineaid yw'r grŵp DLlE sydd yn yr ail safle yng Nghymru, o ran twf absoliwt y garfan 60+ rhwng 2001 a 2011. Maent yn ymdebygu i'r boblogaeth Indiaidd o ran eu cyfradd uchel o berchen-ddeiliaid a'u dibyniaeth isel ar dai cymdeithasol a rhentu preifat. Fodd bynnag, mae eu proffil economaidd-gymdeithasol yn fwy cymysg a llai proffesiynoledig na'r Indiaid, er yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae eu dosbarthiad yn fwy gwasgaredig na'r Indiaid, oherwydd eu presenoldeb yn y diwydiant arlwyo, yn ôl pob tebyg. Mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd eu galw am dai cymdeithasol yn y dyfodol yn fwy na'r galw cyffredinol gan y grŵp oedran hwn yng Nghymru, ac ni fydd y galw wedi ei grynhoi yn ddaearyddol i'r un graddau â'r galw gan yr Indiaid

Cenhedlaeth gyntaf, i raddau helaeth, yw'r grwpiau 'Ethnig Eraill', y disgwylir i'w carfan 60+ ddyblu o ran maint i 450 erbyn 2011, ac y maent yn debygol o fod yn boblogaeth o "breswylwyr dros dro" yn hytrach nag "ymsefydlwyr" (yn 2001, yr oedd 85% wedi'u geni y tu allan i'r DU). Mae bron dri chwarter ohonynt wedi eu geni yn y Dwyrain Pell, ac yn hanu o amrywiaeth o wledydd, gan gynnwys Malaysia a Japan. Y grŵp hwn sydd â'r gyfran uchaf yng Nghymru o lety preifat at rent (41%). Hwn hefyd yw un o'r grwpiau mwyaf proffesiynoledig, gyda 60% o'i boblogaeth weithiol mewn swyddi proffesiynol neu weinyddol. Er gwaethaf y cynnydd mawr yn ei garfan oedrannus, mae proffil y grŵp yn un ifanc iawn (Ffigur 7.3). Yn fyr, mae'r proffil yn awgrymu canran uchel o fyfyrwyr ac o weinyddwyr technegol a ddygwyd i mewn i redeg cwmnïau ar gyfer corfforaethau tramor. Oherwydd amrywioldeb y grŵp hwn, dichon y bydd gan ei garfan 60+ nodweddion tra gwahanol i nodweddion y boblogaeth DLlE Ethnig Arall gyfan.

## 7.7 Goblygiadau'r newid poblogaeth tebygol yn y dyfodol

O ran niferoedd absoliwt, gellir disgwyl i'r boblogaeth DLlE gynyddu bron o'r hanner, o 62000 i 91,000 erbyn 2011. Fel canran o boblogaeth Cymru, mae'n debygol o godi i dros 3% erbyn 2011. Bydd y twf yn y boblogaeth DLlE yn digwydd trwy ymfudo yn ogystal â chynnydd naturiol, ond o ganlyniad i'r olaf i raddau mwy na'r cyntaf yn ôl pob tebyg. Bydd y cynnydd naturiol yn gorbwyso'r ymfudo yn y poblogaethau Pacistanaidd, Bangladeshi a Chymysg. Mae'n debyg y bydd y gwrthwyneb yn wir yn achos y grwpiau DLlE eraill.

Disgwylir i'r boblogaeth DLlE sy'n 60 oed a throsodd gynyddu 33 y cant rhwng 2001 a 2011 (o 4,963 yn 2001 i oddeutu 6,642 yn 2011). Bydd effaith y newid hwn yn amrywio'n sylweddol rhwng y gwahanol grwpiau. Gwelir y cynnydd mwyaf yn y grwpiau Indiaidd, Tsieineaidd ac Asiaidd Eraill, ond bach fydd yr effaith ar y carfanau Caribïaidd ac Affricanaidd. Er na fydd effaith yr heneiddio yn fawr o ran niferoedd o fewn y boblogaeth DLlE, bydd yn ymgrynhoi yn ddaearyddol yn ninasoedd Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd ac yn y prif ranbarthau diwydiannol.

## 7.8 Crynodeb

- Mae poblogaeth DLlE Cymru yn un hirsefydlog, o gymharu â rhannau eraill o Brydain Fawr. Yng Nghaerdydd yr oedd un o'r poblogaethau DLlE sylweddol cynharaf, a oedd yn gysylltiedig â gweithgarwch y porthladd.
- Yn y cyfnod wedi'r rhyfel, yr oedd twf poblogaeth DLlE Cymru yn arafach na'r twf yn Lloegr, ac y mae cyfran gymharol Cymru o boblogaeth DLlE y DU wedi lleihau dros amser. Cymharol fach yw poblogaeth DLlE Cymru bellach.
- Serch hynny, mae poblogaeth DLlE Cymru yn tyfu'n gyflym. Achosir hyn gan fewnfudo yn ogystal â chyfraddau genedigaethau uchel ymhlith poblogaethau ifanc, megis y bobl o dras cymysg. Digwyddodd y rhan fwyaf o gynnydd y boblogaeth DLlE yn ninasoedd Cymru, ond y mae canrannau cynnydd uchel i'w cael ym mhob rhan o'r wlad. Rhagwelir y bydd twf cyflym y boblogaeth DLlE yn parhau yn ystod y cyfnod 2001-2011.
- Bydd y boblogaeth sy'n 60 oed a throsodd yn tyfu'n sylweddol dros y tymor canolig. Rhagwelir cynnydd o ddwy ran o bump yn y boblogaeth DLlE oedrannus rhwng 2001 a 2011. Gan y bydd y boblogaeth DLlE yn cynnwys nifer cynyddol o bobl hŷn, rhaid i ddarparwyr gofal cymdeithasol a thai roi rhagor o sylwi i ganfod a darparu ar eu cyfer wrth i'w hanghenion esblygu.

# 8. Casgliad

Yn yr adroddiad hwn dangoswyd mor amrywiol yw poblogaeth DLlE Cymru ac mor amrywiol hefyd yw anghenion tai'r grwpiau DLlE sy'n preswylio yng Nghymru. Cymru oedd un o'r mannau cynharaf yn y DU lle y datblygodd cymunedau DLlE sylweddol, a ganolwyd yn ninasoedd porthladd de Cymru. Tyfodd y gymuned DLlE i wyth gwaith ei maint dros y 60 mlynedd diwethaf, ond eto mae'n ffurfio canran lai o'r boblogaeth genedlaethol o gymharu â Lloegr a'r Alban, ac yn lled gyfartal â'r gyfran DLlE yn y rhanbarthau lleiaf poblog yn Lloegr. Serch hynny, mae poblogaeth DLlE Cymru yn fwy amrywiol na phoblogaeth DLlE y DU gyfan, a chanran fwy ohoni'n bobl o dras cymysg, neu'n perthyn i'r grwpiau ethnig "eraill".

Mae'r cymunedau DLlE yn parhau i ymgrynhoi yn ne-ddwyrain Cymru , sef y rhanbarth lle mae eu cyfran o'r boblogaeth breswyl uchaf, a'r amrywiaeth ethnig fwyaf. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae cymunedau DLlE i'w cael ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys trefi bach mewn ardaloedd gwledig a threfi gwyliau ar yr arfordir. Mae gwahaniaethau sylweddol yng nghyfansoddiad y boblogaethau DLlE mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn y dinasoedd mwyaf, mae cyfran fwy o'r boblogaeth yn bobl o darddiad ethnig Du ac Asiaidd, tra bo rhai o dras cymysg a'r grwpiau ethnig Eraill yn amlycach yn y trefi llai. Tyfodd y boblogaeth DLlE o bron hanner ei maint rhwng 1991 a 2001. Er bod y cyfraddau'r newid yn y boblogaeth DLlE yn uwch yn yr ardaloedd gwledig, digwyddodd y rhan fwyaf o'r cynnydd o ran niferoedd yn ne-ddwyrain Cymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, cyrhaeddodd ffrydiau newydd o ymfudwyr, gan gynnwys o dde-ddwyrain Asia a ddaeth i Gymru i weithio ac astudio, tra bo grwpiau ethnig fel y Somalïaid a'r Arabiaid wedi eu hatgyfnerthu gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Unwaith eto, mae'r llifau ymfudwyr newydd hyn wedi anelu yn bennaf at ddinasoedd De Cymru, er bod y trefi prifysgol hefyd wedi ennill niferoedd sylweddol o fyfyrwyr symudol. Mewn trefi o'r fath, mae rhan sylweddol o'r boblogaeth DLlE yn fyfyrwyr, sydd ag anghenion tai gwahanol i anghenion y boblogaeth DLlE sefydledig.

Mae'r boblogaeth DLlE, ar gyfartaledd, yn llawer iau na'r boblogaeth o bobl wyn. Y grwpiau lleiafrifol hynaf yw'r Du Caribïaidd, Tsieineaidd ac Indiaidd, a'r ieuengaf ar gyfartaledd yw'r bobl o dras cymysg. Mae'r aelwydydd mwyaf i'w cael ymhlith y grwpiau ethnig De Asiaidd, tras cymysg ac Affricanaidd. Mae'r aelwydydd sydd â phenteulu Moslemaidd yn tueddu i fod yn fwy nag aelwydydd sydd â phenteulu o ffydd arall. Mae rhieni unigol yn fwyaf cyffredin ymhlith y grwpiau ethnig Du a phobl o dras cymysg; a'r aelwydydd De Asiaidd yw'r mwyaf tebygol o gynnwys cyplau priod.

Mae cryn amrywiaeth hefyd yn amgylchiadau economaidd y cymunedau DLlE yng Nghymru. Fel yn y DU gyfan, y darlun cyffredinol yw anfantais y DLlE o gymharu â phoblogaeth fwyafrifol y bobl wyn. Y lleiaf difreintiedig yw'r grwpiau ethnig Indiaidd a Tsieineaidd, a'r mwyaf amddifad yw'r grwpiau Du Caribïaidd, Pacistanaidd a Bangladeshi ynghyd â phobl o dras cymysg Gwyn/Du Caribïaidd. Tra bo'r bobl Foslemaidd a Sicaidd yn tueddu i fod o dan anfantais mae'r grŵp ethnig

Hindŵaidd yn cynnwys llawer o bobl sydd mewn swyddi proffesiynol ac yn gymharol freintiedig yn economaidd. Y grwpiau ethnig ieuengaf sy'n tueddu i fod fwyaf o dan anfantais yn economaidd.

Mae cryn amrywiaeth rhwng amgylchiadau tai y grwpiau DLlE unigol. Yn gyffredinol, mae'r aelwydydd DLlE yn dioddef cyfradd uwch o amddifadedd tai na'r aelwydydd gwyn, waeth beth fo dosbarth cymdeithasol yr aelwydydd. Maent yn llai tebygol na'r gwyn o fod yn berchen-ddeiliaid, ac yn fwy tebygol na'r gwyn o rentu gan landlordiaid preifat. Maent hefyd yn fwy tebygol na'r aelwydydd gwyn o fyw mewn tai teras a fflatiau, ac y mae aelwydydd DLlE yn fwy tebygol o ddioddef gorlenwi, ond yn fwy tebygol hefyd o fwy mewn tai sydd ag amrediad llawn o amwynderau.

Dangosodd yr adroddiad hwn fod gan Gymru un o'r poblogaethau DLlE sefydledig cynharaf yn y DU, ond ei bod wedi parhau i ymgrynhoi yn y de-ddwyrain, heb gynyddu i'r un graddau â'r poblogaethau mewn dinasoedd o'r un maint yn Lloegr. Bu'r cyfraddau newid poblogaeth yn uchel yn ddiweddar, er mai niferodd bach o bobl oedd yn gynwysedig yn y newid. Mae amrywiaeth y boblogaeth yn cynyddu, wrth i fewnlifiadau newydd o geiswyr lloches a ffoaduriaid ymsefydlu yng Nghymru. Mae'r llifau hyn eto wedi eu canoli i raddau helaeth ar ddinasoedd y de-ddwyrain. Er bod y data ar y boblogaeth DLlE wedi gwella'n aruthrol dros y degawdau diwethaf, nid ydynt eto'n ddigon cynhwysfawr i ddarparu gwybodaeth bendant am y newid yn y boblogaeth ar y raddfa genedlaethol, heb sôn am ardaloedd llai.

Mae poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn heneiddio, ac y mae'r un ffenomenon yn dylanwadu ar y grwpiau DLlE a ymsefydlodd yma gyntaf. Eisoes, mae'r boblogaeth Ddu yn cynnwys nifer sylweddol o bob hŷn. Rhwng 2001 a 2011, bydd y boblogaeth DLlE oedrannus wedi cynyddu draean, gyda'r boblogaeth Asiaidd yn heneiddio'n gyflymach na'r grwpiau ethnig Du. Er mai bach fydd y cynnydd yn nifer y bobl hŷn DLlE o gymharu â thwf sylweddol y bobl hŷn gwyn dros yr un cyfnod, bydd y cynnydd yn uchel fel canran o'r bobl hŷn DLlE. Bydd angen i ddarparwyr tai a gofal cymdeithasol roi sylw cynyddol i anghenion y DLlE oedrannus hyn. Er mai yn ninasoedd y de-ddwyrain y bydd y niferoedd mwyaf yn byw, bydd rhai o'r bobl hŷn DLlE yn byw ym mhob rhan o Gymru.

## 8.1 Sylwadau ac argymhellion ynglŷn ag argaeledd data

Seiliwyd yr adroddiad hwn yn bennaf ar allbwn cyhoeddedig o Gyfrifiad Poblogaeth 2001 ar ffurf Tablau Safonol a Thablau Thematig sydd â dimensiynau grŵp ethnig neu grefydd. Fodd bynnag, is-set gyfyngedig o'r holl groesdabliadau y gellid eu cynhyrchu allan o ddata'r Cyfrifiad yw'r tablau hyn, a bennwyd gan swyddfeydd y Cyfrifiad ar ôl ymgynghori â defnyddwyr data'r Cyfrifiad. Fel arfer, tri dimensiwn ar y mwyaf a gwmpesir ynddynt, ac weithiau defnyddir systemau codio amrywiol a symleiddiwyd er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod y Tablau Safonol wedi eu paratoi ar gyfer adrannau etholiadol lle mae'r boblogaeth DLlE weithiau yn fach iawn. Yn Ystadegau Ardaloedd y Cyfrifiad (a baratoir ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad) ychydig iawn o wybodaeth a gynhwysir am grwpiau ethnig.

Golyga hyn mai manylion cyfyngedig sydd ar gael yn aml yn y data Cyfrifiad a gyhoeddir, a gellir peidio â chynnwys dimensiynau pwysig yn nhablau'r Cyfrifiad. Er enghraifft, nid oes ond un Tabl Safonol

ar ddeiliadaeth tai yn ôl ethnigrwydd (a chrefydd) yr aelwydydd. Canolbwyntiwyd yn bennaf yn yr adroddiad hwn ar lefel Cymru gyfan, a llanwyd y bylchau yn allbwn safonol y Cyfrifiad trwy ddefnyddio data o'r Sampl 3% o Gofnodion Dienw ac o'r Tablau Comisiynedig.

ae'r cyntaf o'r rhain yn hyblyg iawn, mor bell ag y gellir paratoi tablau sy'n cymharu pob cwestiwn yn y Cyfrifiad gyferbyn â phob cwestiwn arall. Yn anffodus, oherwydd y nifer fach o unigolion sydd yn y sampl ar gyfer Cymru (llai na 90,000), seilir y tablau sy'n ymwneud ag aelwydydd DLlE ar niferoedd bach iawn yn aml, ac y mae'r ansicrwydd ystadegol yn uchel iawn o ganlyniad.

Yr oedd y tablau comisiynedig a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn wedi eu paratoi ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n bosibl comisiynu tablau o'r fath ar gyfer ardaloedd daearyddol llai, ond ni ryddheir hwy os gwelir eu bod yn cynnwys niferoedd mor fach nes achosi risg o datgelu gwybodaeth am unigolion. Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu tablau i lanw rhai o'r bylchau pwysig yn y wybodaeth am boblogaeth DLlE Cymru gyfan. Rhai enghreifftiau o dablau o'r fath fyddai:

- Oedran personau cyswllt aelwydydd a theuluoedd fesul grŵp ethnig/crefydd;
- Deiliadaeth tai fesul grŵp ethnig, a groes dablir yn ôl crefydd;
- Deiliadaeth tai fesul math o annedd yn ôl grŵp ethnig/crefydd person cyswllt yr aelwyd/teulu;
- Deiliadaeth tai gan bersonau cyswllt aelwyd/ teulu sy'n fyfyrwyr/economaidd weithgar/statws arall, fesul grŵp ethnig/ crefydd;
- Aelwydydd DLlE myfyrwyr fesul cyngor sir.

Byddai tablau o'r fath yn darparu gwybodaeth fanwl a gwerthfawr ychwanegol am amgylchiadau tai pobl DLlE yng Nghymru yn 2001. Gyda threigl amser, fodd bynnag, bydd data'r Cyfrifiad yn mynd yn fwy a mwy anghyfoes. Yn yr arolygon a gesglir yn rheolaidd, megis yr Arolwg Gweithlu, mae'r meintiau sampl yn rhy fach i ddatgelu gwybodaeth ddibynadwy am yr aelwydydd DLlE, hyd yn oed ar gyfer Cymru gyfan.

Dull arall y gellid ei ddefnyddio i gynhyrchu gwybodaeth reolaidd am amgylchiadau tai'r bobl DLlE fyddai trwy ychwanegu cwestiynau am grŵp ethnig a chrefydd mewn unrhyw Arolwg newydd a gynhelir yn y dyfodol ynghylch Cyflwr Tai Cymru. Dylid cynllunio'r cwestiynau hyn gan ddilyn canllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gasglu data, ond dylent fod yn ddigon hyblyg hefyd i gydnabod amrywioldeb poblogaeth DLlE Cymru, a chaniatáu cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer grwpiau ethnig arwyddocaol lleol (megis y bobl Somalïaidd yng Nghaerdydd).